

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

01/07/2015

Cynnwys Contents

- [1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth](#)
[1. Questions to the Minister for Finance and Government Business](#)
- [2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus](#)
[2. Questions to the Minister for Public Services](#)
- [3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.3 i Ethol Eilyddion ar gyfer y Pwyllgor Safonau Ymddygiad](#)
[3. Motion under Standing Order 17.3 to Elect Alternate Members of the Standards of Conduct Committee](#)
- [4. Dadl ar Adroddiad Blyneddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus](#)
[4. Debate on the Public Accounts Committee Annual Report](#)
- [5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Addysg](#)
[5. Welsh Conservatives Debate: Education](#)
- [6. Dadl Plaid Cymru: Y Gweithlu Addysg](#)
[6. Plaid Cymru Debate: The Education Workforce](#)
- [7. Cyfnod Pleidleisio](#)
[7. Voting Time](#)
- [8. Dadl Fer: Y Bygythiad o Radicaleiddio Islamaidd—Sut y Gallwn Fynd i'r Afael ag Eithafiaeth drwy Gydweithio](#)
[8. Short Debate: The Threat of Islamist Radicalisation—How Working Together Can Tackle Extremism](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:29 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:29 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

13:29 **1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The first item this afternoon is questions to the Minister for Finance and Government Business. Question 1 is from Kirsty Williams.

1. Questions to the Minister for Finance and Government Business

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth. Daw cwestiwn 1 gan Kirsty Williams.

Y Portffolio Addysg a Sgiliau (Cyllid Cyfalaf)

The Education and Skills Portfolio (Capital Funding)

13:29 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyrannu cyllid cyfalaf i'r portffolio addysg a sgiliau? OAQ(4)0574(FIN)

1. Will the Minister make a statement on the allocation of capital funding to the education and skills portfolio? OAQ(4)0574(FIN)

13:29 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

In the current year, the capital budget for the education and skills main expenditure group stands at nearly £174 million.

Yn y flwyddyn gyfredol, mae'r gyllideb gyfalaf ar gyfer prif grŵp gwariant addysg a sgiliau bron yn £174 miliwn.

13:29

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Thank you, Minister. There is some concern in my constituency that proposals to reconfigure and renew primary school buildings in the Gwernyfed catchment area seem to be delayed. Could you confirm that you have provided sufficient capital resources to the twenty-first century schools programme so that projects such as this can move forward?

Diolch yn fawr, Weinidog. Ceir peth pryder yn fy etholaeth fod oedi i'w weld mewn perthynas ag argymhellion i ad-drefnu ac adnewyddu adeiladau ysgolion cynradd yn ardal dalgylch Gwernyfed. A wnewch chi gadarnhau eich bod wedi darparu digon o adnoddau cyfalaf i'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain er mwyn i brosiectau fel hwn symud ymlaen?

13:30

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I certainly would like to confirm that. In fact, the twenty-first century schools and education programme, as you know, in your constituency, has already spent, including a transitional school building improvement grant, £24 million. It's a priority and we are making sure, if timely proposals are received, that we can then support them.

Rwy'n sicr yn awyddus i gadarnhau hynny. Mewn gwirionedd, mae'r rhaglen i sicrhau addysg ac ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn eich etholaeth, fel y gwyddoch, eisoes wedi gwario £24 miliwn, gan gynnwys grant pontio ar gyfer gwella adeiladau ysgolion. Mae'n flaenoriaeth ac rydym yn sicrhau y gallwn gefnogi cynigion a ddaw i law yn amserol.

13:30

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the twenty-first century schools programme is a fantastic programme, which obviously we all welcome, and the Welsh Labour Government is continuing the development of education institutions in our schools in Wales, but can I ask you a question on further education capital expenditure? In Neath Port Talbot, they want to build a new campus in the centre of the town. Buildings like that not only give you education facilities, but also can help with regeneration, particularly in town centres. What discussions have you had with the Minister for Education and Skills with regard to the capital funding for such schemes in further education?

Weinidog, mae'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn rhaglen wych, ac mae'n amlwg ei bod yn cael croeso gan bawb ohonom. Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau i ddatblygu sefydliadau addysg yn ein hysgolion yng Nghymru, ond a gaf fi ofyn cwestiwn i chi ynghylch gwariant cyfalaf addysg bellach? Yng Nghastell-nedd Port Talbot, maent yn awyddus i adeiladu campws newydd yng nghanol y dref. Mae adeiladau o'r fath nid yn unig yn darparu cyfleusterau addysg, ond gallant helpu gydag adfywio hefyd, yn enwedig yng nghanol trefi. Pa drafodaethau a gawsoch gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ynglŷn â'r cyllid cyfalaf ar gyfer cynlluniau o'r fath mewn addysg bellach?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:30

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I've just this morning had the great pleasure and privilege of visiting the new Cardiff and Vale city-centre campus just down the road—£20 million of Welsh Government twenty-first century schools funding, and I do recognise the importance of capital investment in further education. Of course, the Minister for Education and Skills did announce in February his agreement to greater flexibility within the twenty-first century schools and education programme to enable funding support for priority projects in this sector, and this does include other colleges that are progressing, as well.

Y bore yma, cefais y pleser mawr a'r fraint o ymweld â champws newydd canol y ddinas Caerdydd a'r Fro i lawr y ffordd—gwerth £20 miliwn o gyllid ysgolion yr unfed ganrif ar hugain Llywodraeth Cymru, ac rwy'n cydnabod pwysigrwydd buddsoddi cyfalaf mewn addysg bellach. Wrth gwrs, ym mis Chwefror fe gyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei fod yn cytuno y dylid cael mwy o hyblygrwydd yn y rhaglen i sicrhau addysg ac ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer prosiectau â blaenoriaeth yn y sector hwn, ac mae hyn yn cynnwys colegau eraill sy'n datblygu hefyd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:31

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, my question is the flip of David Rees's question because there's some concern in parts of my region that the existence of sixth forms might be vulnerable to the changes in numbers of places in further education establishments due to new build. Some people respond well to college education and others to sixth form; some are at their best if they can access both. So, what reassurances can you give that the Welsh Government capital allocation to post-16 education is able to help meet the local demand for sixth-form provision as well as further education college provision?

Weinidog, mae fy nghwestiwn yn ymwneud â'r ochr arall i gwestiwn David Rees oherwydd ceir peth pryder mewn rhannau o fy rhanbarth y gallai bodolaeth chweched dosbarth fod yn agored i newidiadau yn nifer y lleoedd mewn sefydliadau addysg bellach o ganlyniad i adeiladu o'r newydd. Mae rhai pobl yn ymateb yn dda i addysg golegol ac eraill i addysg chweched dosbarth; mae rhai ar eu gorau os gallant wneud defnydd o'r ddau fath. Felly, pa sicrwydd y gallwch ei roi bod dyraniad cyfalaf Llywodraeth Cymru i addysg ôl-16 yn gallu helpu i gwrdd â'r galw lleol am ddarpariaeth chweched dosbarth yn ogystal â darpariaeth coleg addysg bellach?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

- 13:32 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, you do raise matters which are education policy matters, both locally and nationally, but I can again repeat: a key priority for Welsh Government is the twenty-first century school and education capital programme to ensure all students have their learning needs considered.
- Wrth gwrs, rydych yn crybwyll materion sy'n faterion polisi addysg, yn lleol ac yn genedlaethol, ond gallaf ailadrodd eto: blaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru yw'r rhaglen gyfalaf i sicrhau addysg ac ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain er mwyn gwneud yn siŵr fod anghenion dysgu pob myfyriwr yn cael eu hystyried.
- 13:32 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, rwy'n croesawu'r ffaith, yng nghyd-destun trafnidiaeth, eich bod wedi sefydlu corff hyd braich o'r Llywodraeth ar gyfer datblygu'r metro ar gyfer de Cymru, er enghraifft, a bod hwnnw'n rhywbeth sy'n dod â dulliau amgen o fenthg arian i mewn—ac wrth gwrs, yn ddi-elw yn y pen draw. A ydych chi wedi edrych yn y portffolio hwn ar gyfer sgiliau ac addysg i weld a oes angen corff tebyg ar gyfer datblygu cyfalaf, achos mae'r arian cyfalaf nawr, fel rŷm ni newydd glywed, yn cael ei wasgaru'n denau iawn, ac mae eisiau mwy o'r buddsoddiad a mwy o'r elw i gael ei gylchredeg y tu fewn i'r gwasanaethau lleol?
- Minister, I welcome the fact that, in the context of transport, you have established an arm's-length body from Government for the development of the south Wales metro, for example, and that that is something that brings alternative borrowing methods in—and of course, is ultimately not for profit. Have you looked in this portfolio for skills and education to see whether a similar body for capital development is necessary, because capital spend currently, as we've just heard, is spread very thinly, and we need greater investment and more profits circulated within the local services?
- 13:33 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Simon Thomas for that question. You know that we've used our innovative finance developments to support the twenty-first schools programme—an injection of £170 million investment through the local government borrowing initiative in 2014-15, and of course, local authorities are able to borrow. That, of course, has enabled the programme to progress and, in fact, to be delivered two years earlier than we'd planned. It is particularly important, as you say, in terms of constraints and cuts to our capital budget, but I would also say that I did announce in November the Government's commitment to a £500 million non-profit distributing scheme to build learning environments, at the forefront of the next phase of the twenty-first century programme, and, earlier this month, I announced a new collaboration with the European Investment Bank's European PPP Expertise Centre to develop this next stage of twenty-first century schools funding.
- Diolch i Simon Thomas am y cwestiwn. Fe wyddoch ein bod wedi defnyddio ein datblygiadau cyllid arloesol i gefnogi'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain—chwistrelliad o £170 miliwn o fuddsoddiad drwy fenter benthyca llywodraeth leol yn 2014-15, ac wrth gwrs, mae awdurdodau lleol yn gallu benthyca. Mae hynny, wrth gwrs, wedi galluogi'r rhaglen i symud ymlaen ac yn wir, i gael ei chyflwyno ddwy flynedd yn gynt nag a gynlluniwyd gennym. Mae'n arbennig o bwysig, fel y dywedwch, o ran cyfyngiadau a thoriadau i'n cyllideb gyfalaf, ond carwn ddweud hefyd fy mod wedi cyhoeddi, ym mis Tachwedd, ymrwymiad y Llywodraeth i gynllun dielw gwerth £500 miliwn i adeiladu amgylcheddau dysgu, ar frig y cam nesaf o'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, ac yn gynharach y mis hwn, cyhoeddais waith newydd ar y cyd â Chanolfan Arbenigedd partneriaeth cyhoeddus-preifat Ewropeaidd Banc Buddsoddi Ewrop i ddatblygu'r cam nesaf o gyllid i sicrhau ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.
- 13:34 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you're aware that I've long campaigned for an integrated post-16 centre for Torfaen to tackle the long-standing inequity facing A-level students in the north of the borough, and I was delighted that the Deputy Minister for Skills restated her commitment recently to tackling this issue, but, ultimately, this is of course a matter of finance. What more can you do, as finance Minister, to ensure that this essential project comes to fruition?
- Weinidog, fe wyddoch fy mod i ymgyrchu ers amser maith i gael canolfan ôl-16 integredig ar gyfer Torfaen i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hirsefydlog sy'n wynebu myfyrwyr Safon Uwch yng ngogledd y fwrdeistref, ac roeddwn wrth fy modd fod y Dirprwy Weinidog Sgiliau wedi ailddatgan ei hymrwymiad yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r mater hwn, ond yn y pen draw, mater o gyllid yw hyn wrth gwrs. Beth arall y gallwch ei wneud, fel Gweinidog Cyllid, i sicrhau bod y prosiect hanfodol hwn yn dwyn ffrwyth?
- 13:34 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I know there's been close working with the Deputy Minister for Skills. In fact, comments were made in Plenary on this only recently. It is about working with the local authority, Torfaen council, to ensure that we can allocate our funding appropriately once we have a strong business case.
- Rwy'n gwybod am y cydweithio agos a fu gyda'r Dirprwy Weinidog Sgiliau. Yn wir, gwnaed sylwadau yn y Cyfarfod Llawn ar hyn yn ddiweddar. Mae'n ymwneud â gweithio gyda'r awdurdod lleol, cyngor Torfaen, i sicrhau ein bod yn gallu dyrannu ein cyllid yn briodol pan fydd gennym achos busnes cryf.

Portffolio'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

The Economy, Science and Transport Portfolio

- 13:34 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyrannu cyllid i bortffolio'r economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth? OAQ(4)0579(FIN)
- 13:34 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Funding to the economy, science and transport portfolio is allocated in line with the priorities set out in the programme for government.
- 13:35 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Diolch am yr ateb yna, Weinidog. Ond, wrth gwrs, mae pethau wedi newid ers i chi sefydlu'r rhaglen lywodraethol, ac yn enwedig yn ardal Aberdaugleddau a'r ardal parth menter fanna. Ers cau Murco, mae'r Llywodraeth wedi sôn am fuddsoddi mwy yn yr A40, sydd wedi cael ei groesawu yn eang yn lleol. Ond, beth nawr yw'r camau y mae modd i fusnesau a'r ardal parth menter ei hunan eu cymryd, i allu bwydo i mewn i'r Llywodraeth yr angen am fuddsoddiad pellach? Rwyf â diddordeb arbennig yn yr hyn a all godi yn sgîl datblygu morglawdd ym mae Abertawe, a'r cyfleoedd i gwmnïau yn y Cleddau fanteisio ar hynny.
- 13:35 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, I think, as you say, things have changed: there have been new developments in terms of enterprise zones, and investments made by the Minister for Economy, Science and Transport in your region. I would say that, following up your question directly, with the Minister, I've met all the chairs of the enterprise zones to ascertain from them not only important opportunities in terms of funding but also links to the European structural funds, and, indeed, I've followed that also up with a meeting with the Swansea bay city region.
- 13:36 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
In Cardiff North, we're very pleased that the station in Llandaff North is having a huge overhaul, to make it more accessible for disabled people, mothers with prams, and generally making it more accessible. Would there be funding available for the transport portfolio, from the Minister, or through the recently announced metro scheme, for stations in my constituency, such as Heath High Level and Heath Low Level, which are also very inaccessible for disabled people in particular, to be upgraded?
- 13:36 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I thank Julie Morgan for that question. This is something where the Minister for education, science and technology will announce a substantial investment package tomorrow. Of course, accessibility has to be key to delivery of that package.
- 2. Will the Minister make a statement on the allocation of funding to the economy, science and transport portfolio? OAQ(4)0579(FIN)*
- Mae'r cyllid ar gyfer y portffolio economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth wedi'i ddyrannu yn unol â'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn y rhaglen lywodraethu.
- Thank you for that response, Minister. But, of course, things have changed since you established the programme for government, especially in the Milford Haven area and the enterprise zone there. Since the closure of Murco, the Government has talked of investing more in the A40, which has been widely welcomed locally. But, what steps is it possible for businesses and the enterprise zone itself to take, to be able to feed into the Government the need for further investment? I'm particularly interested in what could arise from the development of the Swansea bay barrage, and the opportunities for companies in the Cleddau to take advantage of that.
- Wel, fel y dywedwch, rwy'n meddwl bod pethau wedi newid: cafwyd datblygiadau newydd o ran ardaloedd menter, a chafwyd buddsoddiadau gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn eich rhanbarth. I ddilyn eich cwestiwn yn uniongyrchol, fe fyddwn yn dweud fy mod i, gyda'r Gweinidog, wedi cyfarfod â holl gadeiryddion yr ardaloedd menter i gael gwybod ganddynt nid yn unig am gyfleoedd pwysig o ran cyllid, ond hefyd ynghylch cysylltiadau â'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ac yn wir, rwyf wedi dilyn hynny hefyd gyda chyfarfod â dinas-ranbarth Bae Abertawe.
- Yng Ngogledd Caerdydd, rydym yn falch iawn fod yr orsaf yn Ystum Taf yn cael ei hailwampio'n helaeth, i'w gwneud yn fwy hygyrch i bobl anabl, mamau â phramiau, a'i gwneud yn fwy hygyrch yn gyffredinol. A fyddai cyllid ar gael gan y Gweinidog i'r portffolio trafniadaeth, neu drwy'r cynllun metro a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ar gyfer fy etholaeth, i uwchraddio gorsafoedd megis Lefel Uchel y Mynydd Bychan a Lefel Isel y Mynydd Bychan, sydd hefyd yn anhygyrch iawn i bobl anabl yn arbennig?
- Diolch i Julie Morgan am ei chwestiwn. Mae hyn yn rhywbeth y bydd y Gweinidog addysg, gwyddoniaeth a technoleg yn cyhoeddi pecyn buddsoddiad sylweddol ar ei gyfer yfory. Wrth gwrs, rhaid i hygyrchedd fod yn allweddol wrth gyflwyno'r pecyn hwnnw.

13:37	William Graham Bywgraffiad Biography	<p>The draft budget indicates that the Government is going to cut 25 per cent or thereabouts from science innovation. How will the Minister provide an update as to the ambitious plan—and welcome plan, may I say—to raise £150 million to support investment in life sciences?</p>	<p>Mae'r gyllideb ddrafft yn dangos bod y Llywodraeth yn mynd i dorri 25 y cant neu oddeutu hynny oddi ar y gyllideb arloesi gwyddonol. Sut y bydd y Gweinidog yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun uchelgeisiol—sydd i'w groesawu, os caf fi ddweud—i godi £150 miliwn i gefnogi buddsoddiad mewn gwyddorau bywyd?</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:37	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	<p>The 'Delivering Science for Wales' report was, of course, published on 22 June, and it sets out progress being made in all the key areas of the Welsh science strategy. Those key areas are also boosted substantially, financially, by announcements that I've already made through the European structural funds.</p>	<p>Cyhoeddwyd yr adroddiad, 'Cyflawni Gwyddoniaeth i Gymru' ar 22 Mehefin, ac mae'n nodi cynnydd a wneir ym mhob un o feysydd allweddol y strategaeth wyddoniaeth yng Nghymru. Mae'r meysydd allweddol hyn hefyd yn cael hwb ariannol sylweddol gan gyhoeddiadau a wneuthum eisoes drwy'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd.</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:37	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography	<p>Minister, yesterday, a statement on the metro stated that the cost is likely to be in the region of £500 million to £600 million, with around a quarter of that money coming from the allocation from the Welsh Government budget, another quarter coming, potentially, from European structural funds, obviously leaving half yet to be found. Can you confirm how much of that remaining £300 million will be funded by borrowing, and do you anticipate that will be funded from borrowing from your new borrowing powers, when they arrive, or will it be borrowed directly by the Welsh Government transport company, and not directed through the Department for Economy, Science and Transport at all?</p>	<p>Weinidog, ddoe, roedd datganiad ar y metro yn nodi bod y gost yn debygol o fod oddeutu £500 miliwn i £600 miliwn gyda thua chwarter yr arian hwnnw'n dod o'r dyraniad o gyllideb Llywodraeth Cymru, chwarter arall, o bosibl, o gronfeydd strwythurol Ewrop, gan adael hanner i ddod o hyd iddo eto, wrth gwrs. A allwch gadarnhau faint o'r £300 miliwn sy'n weddill a gaiff ei ariannu drwy fenthyca, ac a ydych yn rhagweld y bydd yn cael ei ariannu o fenthyca drwy eich pŵerau benthyca newydd pan ddônt, neu a gaiff ei fenthyca'n uniongyrchol gan gwmni trafndiaeth Llywodraeth Cymru yn hytrach na chael ei gyfeirio drwy Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth?</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:38	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	<p>I think it is important to say also, in phase 1, I've already allocated over £60 million for the implementation of phase 1 of the south Wales metro. Yes, of course, there will be new borrowing opportunities. In fact, Simon Thomas alluded to that in his question, and that will be for us to receive advice on in due course. I would also say that the metro, of course, is one of the key bids for the Juncker package—the European fund for strategic investment—and I'm meeting the European Investment Bank in the next two weeks.</p>	<p>Credaf ei bod yn bwysig dweud hefyd, yng nghan 1, fy mod eisoes wedi dyrannu dros £60 miliwn ar gyfer rholi cam 1 metro de Cymru ar waith. Bydd, wrth gwrs y bydd cyfleoedd benthyca newydd. Yn wir, cyfeiriodd Simon Thomas at hynny yn ei gwestiwn, a bydd hynny'n fater i ni gael cyngor arno maes o law. Byddwn hefyd yn dweud bod y metro, wrth gwrs, yn un o'r ceisiadau allweddol am y pecyn Juncker—y gronfa Ewropeaidd ar gyfer buddsoddi strategol—ac rwy'n cyfarfod â Banc Buddsoddi Ewrop yn ystod y pythefnos nesaf.</p>	Senedd.tv Fideo Video
Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau		Questions Without Notice from Party Spokespeople		
13:39	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>We now move to questions from the party spokespeople, and first this afternoon is the Welsh Conservatives' spokesperson, Nick Ramsay.</p>	<p>Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma, mae llyfarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Nick Ramsay.</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:39	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography	<p>Diolch. Will the Minister update us on her discussions with the UK Government regarding the fair funding of Wales?</p>	<p>Diolch. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch ariannu teg i Gymru?</p>	Senedd.tv Fideo Video

- 13:39 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Nick. I was very pleased to meet the new UK Government Chief Secretary to the Treasury, Greg Hands, only a fortnight ago. I met him alongside the Secretary of State for Wales, Stephen Crabb, and had very clear, constructive, and positive discussions about our call and our need, and, your manifesto commitment to a fair funding floor.
- Diolch i chi, Nick. Roeddwn yn falch iawn o gwrdd â Prif Ysgrifennydd y Trysorlys newydd Llywodraeth y DU, Greg Hands, bythefnos yn ôl. Cyfarfûm ag ef gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Stephen Crabb, a chawsom drafodaethau clir, adeiladol a chadarnhaol iawn ynglŷn â'n galwad am gyllid gwaelodol teg fel sydd ei angen arnom, ac fel y mae eich manifffesto yn ymrwymo iddo.
- 13:39 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm pleased to hear that your meeting success appears to be improving, Minister. The latest financial analysis seems to suggest that the dreaded convergence with English funding has ceased, at least for the time being, and that Wales is currently funded at around 115 per cent per head of England's population—the level that has previously been identified by economist Gerry Holtham, and others, as a fair level of funding, based on Wales's needs. Do your data confirm this?
- Rwy'n falch o glywed bod eich llwyddiant mewn cyfarfodydd i'w weld yn gwella, Weinidog. Mae'r dadansoddiad ariannol diweddaraf i'w weld yn awgrymu bod y cydgyfeirio a ofnwyd ag ariannu Lloegr wedi dod i ben, o leiaf am y tro, a bod Cymru yn cael ei hariannu ar oddeutu 115 y cant y pen o boblogaeth Lloegr ar hyn o bryd—y lefel a nodwyd yn flaenorol gan yr economegydd Gerry Holtham, ac eraill, fel lefel ariannu sy'n deg, yn seiliedig ar anghenion Cymru. A yw eich data yn cadarnhau hyn?
- 13:40 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, I think one of the most successful outcomes of negotiations with former Chief Secretaries to the Treasury and the former coalition Government was to secure that agreement back in 2012, in recognition by the Treasury that there had been convergence and that, when convergence started up again, both Governments should agree a mechanism for addressing that. Now, the key point for us in terms of that analysis—we discussed this last week at the Finance Committee—is what happens when public spending starts to rise again. Although we recognise Gerry Holtham's analysis and the situation we're in now, clearly, when public spending rises, we need to have that funding floor to halt and address convergence.
- Wrth gwrs, rwy'n credu mai un o ganlyniadau mwyaf llwyddiannus y trafodaethau â chyn-Brif Ysgrifenyddion y Trysorlys a'r hen Lywodraeth glymblaid oedd sicrhau'r cytundeb hwnnw yn ôl yn 2012, pan gydnabu'r Trysorlys fod cydgyfeirio wedi bod a phe bai cydgyfeirio'n dechrau eto, y dylai'r ddwy Lywodraeth gytuno ar fecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â hynny. Nawr, y pwynt allweddol i ni o ran y dadansoddiad hwnnw—trafodwyd hyn gennym yr wythnos diwethaf yn y Pwyllgor Cyllid—yw'r hyn sy'n digwydd pan fydd gwariant cyhoeddus yn dechrau cynyddu eto. Er ein bod yn cydnabod dadansoddiad Gerry Holtham a'r sefyllfa rydym ynddi yn awr, yn amlwg, pan fydd gwariant cyhoeddus yn cynyddu, mae angen i ni gael y cyllid gwaelodol i atal a mynd i'r afael â chydgyfeirio.
- 13:40 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. I think you, therefore, would agree with me—and indeed the Member for Dwyfor Meirionnydd—that we should be seeking fair funding and not seeking parity with Scotland at this time, which is totally unrealistic, unaffordable and, in the UK context, unfair. [Interruption.] In the short term, a Barnett funding floor, as proposed by the UK Government, is all important to ensure that relative funding in Wales does not start to fall when, as you say, funding in England starts to grow again.
- Diolch yn fawr, Weinidog. Rwy'n credu y byddech yn cytuno â mi felly—ac yn wir â'r Aelod dros Ddwyfor Meirionnydd—y dylem fynnu ariannu teg ac nid ceisio cydraddoldeb â'r Alban ar hyn o bryd, sy'n gwbl afrealistig, yn anfforddiadwy ac yng nghyd-destun y DU, yn annheg. [Torri ar draws.] Yn y tymor byr, mae cyllid gwaelodol Barnett, fel yr argymhellwyd gan Lywodraeth y DU, yn hollbwysig er mwyn sicrhau nad yw cyllid cymharol yng Nghymru yn dechrau gostwng pan fo cyllid yn Lloegr, fel y dywedwch, yn dechrau cynyddu eto.
- 13:41 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I couldn't agree with you more, Nick Ramsay. I think one of the most important things and the point that I've made, and the First Minister has made, is that we need fair funding for Wales. We need to have this reform to the Barnett formula through the floor. Your backing, and, indeed, your colleagues' backing from the Welsh Conservatives are very important to me in our negotiations. I will shortly be meeting again with the Chief Secretary and the Secretary of State for Wales.
- Ni allwn gytuno mwy â chi, Nick Ramsay. Rwy'n credu mai un o'r pethau pwysicaf a'r pwynt rwyf wedi ei wneud, ac y mae'r Prif Weinidog wedi ei wneud, yw ein bod angen ariannu teg i Gymru. Mae angen i ni sicrhau'r diwygiad hwn i fformiwla Barnett. Mae eich cefnogaeth, ac yn wir, cefnogaeth eich cydweithwyr o blith y Ceidwadwyr Cymreig yn bwysig iawn i mi yn ein trafodaethau. Byddaf yn cyfarfod eto'n fuan gyda'r Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

13:42	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones.</p>	<p>Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:42	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch yn fawr. Minister, in your tax collection and management Bill, you propose to establish a Welsh revenue authority. Given that we are entering a new period where Welsh budgets will be partly determined by tax revenues and conditions in the Welsh economy, how will you ensure that there are appropriate arrangements for transparency and scrutiny?</p>	<p>Diolch yn fawr. Weinidog, yn eich Bil casglu a rheoli trethi, rydych yn argymhell sefydlu awdurdod cyllid Cymru. O gofio ein bod yn cychwyn ar gyfnod newydd pan fydd cyllidebau Cymru yn cael eu pennu'n rhannol gan refferniw trethi ac amodau yn economi Cymru, sut y byddwch yn sicrhau trefniadau priodol ar gyfer tryloywder a chraffu?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:42	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I think the importance of the Welsh revenue authority and, in fact, the way in which we're working together with the Finance Committee very constructively in terms of taking forward the tax collection and management Bill will ensure that we have that transparency, which, of course, is appropriate.</p>	<p>Rwy'n meddwl y bydd pwysigrwydd awdurdod cyllid Cymru a'r ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd yn adeiladol iawn mewn gwirionedd gyda'r Pwyllgor Cyllid ar ddatblygu'r Bil casglu a rheoli trethi yn sicrhau'r tryloywder hwnnw, ac mae hynny'n briodol, wrth gwrs.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:42	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister. Turning to the meeting you held with the Northern Ireland finance Minister, Arlene Foster, will you outline what issues you discussed?</p>	<p>Diolch yn fawr, Weinidog. Gan droi at y cyfarfod a gynhalioch â Gweinidog Cyllid Gogledd Iwerddon, Arlene Foster, a wnewch chi amlinellu pa faterion a drafodwyd gennych?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:42	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>We had very fruitful and constructive discussions. We shared our concerns about the forthcoming budget on 8 July and our concerns, indeed, about the impact of the recent announcement of cuts, which for us was £50 million, in the Queen's Speech debate only three weeks ago. We also planned for a trilateral meeting with the finance Minister for Scotland in early August, and also united in our call for action to be taken in terms of issues that are of common relevance to us, such as HS2 and consequentials from that.</p>	<p>Cawsom drafodaethau ffrwythlon ac adeiladol iawn. Cawsom gyfle i rannu ein pryderon ynghylch y gyllideb sydd i ddod ar 8 Gorffennaf a'n pryderon, yn wir, ynglŷn ag effaith y cyhoeddiad diweddar am doriadau, a oedd yn £50 miliwn i ni, yn y ddadl ar Araith y Frenhines dair wythnos yn ôl. Hefyd, cynlluniwyd ar gyfer cynnal cyfarfod teirochrol gyda Gweinidog cyllid yr Alban yn gynnar ym mis Awst, ac roeddem yn unedig yn ein galwad am weithredu ar y materion sy'n gyffredin rhyngom, fel HS2 a symiau canlyniadol o hynny.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:43	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>You don't appear to have discussed the issue of data and the publication of data on Welsh public finances. You will be aware that Northern Ireland and Scotland publish their own sets of data. Wales is establishing a similar tax regime to Scotland, but you are not making any commitments on publishing clear revenue and expenditure data for our country. Plaid Cymru has long been calling for these data, which we need in order to inform scrutiny and the public debate. Are you proposing that Wales should be the only devolved nation not to publish a full set of data on its public finances?</p>	<p>Nid yw'n ymddangos eich bod wedi trafod mater data a chyhoeddi data ar gyllid cyhoeddus yng Nghymru. Fe fyddwch yn ymwybodol fod Gogledd Iwerddon a'r Alban yn cyhoeddi eu setiau data eu hunain. Mae Cymru yn sefydlu cyfundrefn drethi debyg i'r Alban, ond nid ydych yn gwneud unrhyw ymrwymadau ynghylch cyhoeddi data refferniw a gwariant clir ar gyfer ein gwlad. Mae Plaid Cymru wedi bod yn galw ers amser am y data hwn sydd ei angen arnom i lywio'r broses graffu a'r drafodaeth gyhoeddus. A ydych yn argymhell y dylai Cymru fod yr unig wlad ddatganoledig i beidio â chyhoeddi set ddata lawn ar ei chyllid cyhoeddus?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 13:44 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Very importantly and of relevance is that, tomorrow, I'm going to be issuing our new set of economic data, 'The Welsh economy: In numbers', which does have relevance to our budget setting and profile as well, in terms of public finances. But, of course, these are issues that we have discussed in the Finance Committee and I'm very open, of course, to looking at ways in which we can express that information for Wales.
- Yn bwysig iawn ac yn berthnasol, yfory byddaf yn cyhoeddi ein set newydd o ddata economaidd, 'Economi Cymru: mewn rhifau', sy'n berthnasol i'r modd y gosodwn y gyllideb a'n proffil yn ogystal, o ran cyllid cyhoeddus. Ond wrth gwrs, mae'r rhain yn faterion rydym wedi'u trafod yn y Pwyllgor Cyllid ac rwy'n barod iawn, wrth gwrs, i edrych ar ffyrdd y gallwn fynegi'r wybodaeth honno i Gymru.
- 13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Welsh Liberal Democrats, and the spokesperson is Peter Black.
- Symudwn yn awr at Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, a'r llefarydd yw Peter Black.
- 13:44 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Minister, in your written statement yesterday on the collection and management of devolved taxes, you referred to the fact that the additional costs of setting up and operating the collection and management arrangements for devolved taxes will force the Welsh Government, and that no allowance has been made by the UK Government for that cost. You also state that it's too early at this stage to work out the exact cost. Do you have a rough estimate of how much it's likely to cost to manage that function?
- Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, yn eich datganiad ysgrifenedig ddoe ar gasglu a rheoli trethi datganoledig, fe gyfeiriodd at y ffaith y bydd y costau ychwanegol o sefydlu a gweithredu'r trefniadau casglu a rheoli trethi datganoledig yn gorfodi Llywodraeth Cymru, ac nad yw Llywodraeth y DU wedi ystyried y gost honno. Rydych hefyd yn datgan ei bod yn rhy gynnar ar hyn o bryd i gyfrif yr union gost. A oes gennych amcangyfrif bras o faint y mae'n debygol o gostio i reoli'r swyddogaeth honno?
- 13:45 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. As you say, Peter Black, despite my representations, the UK Government isn't prepared to transfer the funding needed to cover this new area of work. Indeed, I don't believe the Scottish Government asked for this funding to be considered in terms of transfer. So, it is a concern, and we have to ensure that we get this right in terms of the additional costs of setting up and operating the collection management arrangements. But, of course, my statement yesterday indicated our preferred way forward, given what we have now, at this stage, estimated in terms of costs of collection and management.
- Ie. Fel y dywedwch, Peter Black, er gwaethaf fy sylwadau, nid yw Llywodraeth y DU yn barod i drosglwyddo'r cyllid sydd ei angen i dalu am y maes gwaith newydd hwn. Yn wir, nid wyf yn credu bod Llywodraeth yr Alban wedi gofyn i'r cyllid hwn gael ei ystyried o ran trosglwyddo. Felly, mae'n bryder, ac mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn cael hyn yn iawn o ran costau ychwanegol sefydlu a gweithredu'r trefniadau casglu a rheoli. Ond wrth gwrs, roedd fy natganiad ddoe yn dynodi pa ffordd fyddai orau gennym ni fwrw ymlaen, o ystyried yr hyn rydym wedi ei amcangyfrif yn awr, ar y cam hwn, o ran costau casglu a rheoli.
- 13:45 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. I'm still not sure exactly what sort of cost we're looking at. But it's interesting that, if the Scottish Government had asked, maybe we would actually have got the money because it seems that whatever Scotland asks for, they will get.
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rwy'n dal i fod yn ansicr pa fath o gost yn union rydym yn edrych arni. Ond pe bai Llywodraeth yr Alban wedi gofyn, mae'n ddiddorol y byddem efallai wedi cael yr arian oherwydd mae'n ymddangos bod yr Alban yn cael beth bynnag y maent yn gofyn amdano.
- In your statement, you say that in terms of landfill tax—which is better, I think, than the proper term—you've confirmed that the Welsh revenue authority will undertake most of the collection and management functions for landfill tax and delegate compliance and enforcement to Natural Resources Wales. Does that add to the cost of collecting that tax? Is that the most efficient way of actually collecting that particular tax?
- Yn eich datganiad, o ran y dreth dirlenwi—sy'n well, rwy'n meddwl, na'r term priodol—rydych yn dweud eich bod wedi cadarnhau y bydd awdurdod cyllid Cymru yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau casglu a rheoli ar gyfer y dreth dirlenwi ac yn dirprwyo cydymffurfio a gorfodi i Cyfoeth Naturiol Cymru. A yw hynny'n ychwanegu at y gost o gasglu'r dreth? Ai dyna'r ffordd fwyaf effeithlon mewn gwirionedd o gasglu'r dreth benodol hon?

13:46 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That certainly is our assessment at this stage. The Welsh revenue authority, of course, will undertake most of the collection and management functions for the land disposal tax. It is important that the Welsh revenue authority have the overarching responsibility for tax collection and management. But also, clearly, part of Natural Resources Wales's function is compliance and avoidance and enforcement work. So, this will be very cost-effective.

Dyna'n sicr yw ein hasesiad ar hyn o bryd. Awdurdod cyllid Cymru, wrth gwrs, fydd yn gwneud y rhan fwyaf o'r swyddogaethau casglu a rheoli ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi. Mae'n bwysig mai awdurdod cyllid Cymru fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gasglu a rheoli trethi. Ond hefyd, yn amlwg, rhan o swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yw gwaith ar gydymffurfiaeth ac osgoi a gorfodi. Felly, bydd hyn yn gost-effeithiol iawn.

13:47 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that, Minister. I notice that stamp duty is staying with HM Revenue and Customs and, presumably, that was the cheapest option, or the most effective option in the short term to deliver that. I'm interested as to why you didn't also stick to the existing arrangements for landfill tax, given that the changes do seem to be adding additional cost to this process.

Diolch i chi am hynny, Weinidog. Sylwaf fod y dreth stamp yn aros gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac yn ôl pob tebyg, dyna oedd y dewis rhataf, neu'r opsiwn mwyaf effeithiol yn y tymor byr ar gyfer cyflawni hynny. Mae gen i ddiddordeb hefyd i wybod pam na chadwoch at y trefniadau presennol ar gyfer y dreth dirlenwi, o ystyried bod y newidiadau i'w gweld yn creu cost ychwanegol i'r broses hon.

13:47 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think that the arrangements that I've come forward with and that I announced yesterday are also very much based on the response to consultation and on the advice of our tax advisory group, as well as on analysing costs and expertise.

Rwy'n meddwl bod y trefniadau a gyflwynais ac a gyhoeddais ddoe yn seiliedig i raddau helaeth hefyd ar yr ymateb i'r ymgynghoriad ac ar yngor ein grŵp cynghori ar dreth, yn ogystal ag ar ddadansoddi costau ac arbenigedd.

13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Gwenda Thomas.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur, a daw cwestiwn 3 gan Gwenda Thomas.

Cyllid yr UE ar gyfer Busnesau Cymdeithasol

EU Funding for Social Businesses

13:47 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

3. Will the Minister make a statement on EU funding for social businesses? OAQ(4)0571(FIN)

3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer busnesau cymdeithasol? OAQ(4)0571(FIN)

13:47 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Gwenda Thomas. Last week, at the digital accessibility centre, a successful social enterprise in Llandarcy, I announced £11 million of EU and Welsh Government funds for the Social Business Wales project to support 500 social businesses across Wales to grow and create 500 jobs in the sector.

Diolch i chi, Gwenda Thomas. Yr wythnos diwethaf, yn y ganolfan hygyrchedd digidol, menter gymdeithasol lwyddiannus yn Llandarcy, cyhoeddais £11 miliwn o arian yr UE a Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Busnes Cymdeithasol Cymru i gynorthwyo 500 o fusnesau cymdeithasol ledled Cymru i dyfu a chreu 500 o swyddi yn y sector.

13:48

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, Minister, and I do very much welcome that announcement. There are many successful social enterprises across the country that fulfil roles that would not be possible for the strictly private or public sectors. Organised Kaos in my constituency is an excellent example. This not-for-profit organisation teaches children circus skills and, in so doing, gives young people, often from deprived communities, the confidence and self-belief that they need to achieve their full potential. Once you have learned to walk the high wire, they tell me, the tight ropes of life seem far less daunting. As I say, Minister, that is just one example amongst many. What can the Welsh Government do to identify successful social enterprises and extend their good practice?

Diolch i chi am hynny, Weinidog, ac rwy'n croesawu'r cyhoeddiad hwnnw'n fawr iawn. Mae llawer o fentrau cymdeithasol llwyddiannus ar draws y wlad sy'n cyflawni rolau na fyddai'n bosibl i'r sector preifat neu'r sector cyhoeddus ei wneud. Mae Organised Kaos yn fy etholaeth yn enghraifft ardderchog. Mae'r mudiad dielw yn dysgu sgiliau syrcais i blant a thrwy wneud hynny, yn rhoi'r hyder a'r hunan-gred sydd eu hangen arnynt i bobl ifanc, yn aml o gymunedau diffreintiedig, allu cyflawni eu potensial llawn. Ar ôl i chi ddysgu cerdded y wifren uchel, maent yn dweud wrthyf fod rhaffau tynn bywyd yn ymddangos yn llawer llai brawychus. Fel y dywedais, Weinidog, dyna un enghraifft ymhlith llawer. Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i nodi mentrau cymdeithasol llwyddiannus ac ymestyn eu harfer da?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Gwenda Thomas. Obviously, that is yet another example of an excellent social enterprise in your constituency. I would say that Organised Kaos is obviously now flying the flag for the resurgence of professional circus skills, which I know also have a very important role to play in terms of education. But I think that the ways in which we try to identify good practice across the sector include ways in which the EU-funded social enterprises are recognised. I'm very happy to say that the Rhyl city strategy in Ann Jones's constituency has been selected as one of 17 finalists in the EU prestigious RegioStars awards.

Diolch yn fawr iawn, Gwenda Thomas. Yn amlwg, dyna enghraifft arall o fenter gymdeithasol ardderchog yn eich etholaeth. Byddwn yn dweud bod Organised Kaos yn amlwg yn chwifio'r faner dros adfywio sgiliau syrcais proffesiynol, a gwn hefyd fod gan hynny ran bwysig iawn i'w chwarae o ran addysg. Ond rwy'n credu bod y ffyrdd y ceisiwn nodi arferion da ar draws y sector yn cynnwys ffyrdd y caiff mentrau cymdeithasol a ariennir gan yr UE eu cydnabod. Rwy'n hapus iawn i ddweud bod strategaeth dinas y Rhyl yn etholaeth Ann Jones wedi cael ei dewis fel un o 17 yn rownd derfynol gwobrau RegioStars mawreddog yr UE.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

Minister, obviously you will be aware of Creative Rural Communities in the Vale of Glamorgan, and many social projects have benefited from that funding over the years, as well as many other projects based in the community. What level of Welsh Government money will be going in to the new phase of Creative Rural Communities for the next four to five years?

Weinidog, yn amlwg fe fyddwch yn ymwybodol o Creative Rural Communities ym Mro Morgannwg, ac mae llawer o brosiectau cymdeithasol wedi elwa o'r arian hwnnw dros y blynyddoedd, yn ogystal â llawer o brosiectau eraill sy'n seiliedig yn y gymuned. Pa lefel o arian Llywodraeth Cymru sy'n mynd tuag at gyfnod newydd y Creative Rural Communities ar gyfer y pedair i bum mlynedd nesaf?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, as to the significant success, as you say, Andrew R.T. Davies, of Creative Rural Communities, it has delivered, in partnership with the Vale of Glamorgan Council and, of course, with match funding from the Welsh Government, the rural development fund over the past few years. Of course, now, this is being led forward with the newly approved regional development fund, which the Deputy Minister for Farming and Food recently announced. This does mean that we will have more opportunities to develop social enterprise, as well as community opportunities in rural areas like the Vale of Glamorgan.

Wel, o ran llwyddiant sylweddol Creative Rural Communities, fel y dywedwch, Andrew R.T. Davies, mae wedi cyflawni mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg ac wrth gwrs, y gronfa datblygu gwledig gydag arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Wrth gwrs, bellach mae'n cael ei ddatblygu gyda'r gronfa datblygu rhanbarthol sydd newydd ei chymeradwyo, ac a gyhoeddwyd gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd yn ddiweddar. Mae'n golygu y bydd mwy o gyfleoedd i ni ddatblygu mentrau cymdeithasol, yn ogystal â chyfleoedd cymunedol mewn ardaloedd gwledig fel Bro Morgannwg.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:50	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi tynnu fy sylw yn ddiweddar at y defnydd cynyddol sydd yna o'r sector gymdeithasol i ddelifro gofal henoed. Cafodd ardal Emilia-Romagna yn yr Eidal ei chrybwyll i mi fel un ardal lle mae yna gryn lwyddiant wedi bod yn y maes hwn. O ystyried y pwysau sydd yn y sector hwn yng Nghymru—mae yna gartref arall ar Ynys Môn, sef cartref Haulfre, o dan fygythiad ar hyn o bryd—i ba raddau y mae'r Gweinidog yn ystyried y gallai cyllid Ewropeaidd gael ei ddefnyddio i hybu'r sector hwn yng Nghymru?</p>	<p>The Wales Co-operative Centre has drawn my attention recently to the increasing use made of the social sector to deliver elder care. The Emilia-Romagna area in Italy was mentioned as one area where there's been quite some success in this area. Now, given the pressures in that sector in Wales—there's another home in Anglesey, namely the Haulfre home, that is under threat at present—to what extent does the Minister believe that European funding could be used to promote this sector in Wales?</p>
13:51	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, I believe the track record of social enterprise, with the support of the Wales Co-operative Centre, leads us forward to develop the opportunities for new services like elder care. If you think that social enterprises have benefited already significantly from EU funds, which supported 550 social enterprises in the 2007-13 programme, I believe that, as we move forward with the new tranche of funding, new opportunities for social enterprise in social care will be taken forward.</p>	<p>Wel, rwy'n credu bod ein hanes o fenter gymdeithasol, gyda chefnogaeth Canolfan Cydweithredol Cymru, yn ein harwain i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau newydd fel gofal yr henoed. Os ydych yn credu bod mentrau cymdeithasol wedi cael budd sylweddol eisoes o gronfeydd yr UE, a gefnogodd 550 o fentrau cymdeithasol yn rhaglen 2007-13, wrth i ni symud ymlaen gyda'r gyfran newydd o arian, rwy'n credu y caiff cyfleoedd newydd ar gyfer menter gymdeithasol ym maes gofal cymdeithasol eu datblygu.</p>
	Portffolio Gwasanaethau Cyhoeddus	The Public Services Portfolio
13:52	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr holl dyraniadau cyllidebol i'r portffolio gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0583(FIN)</p>	<p>4. Will the Minister make a statement on all budget allocations made to the public services portfolio? OAQ(4)0583(FIN)</p>
	Keith Davies Bywgraffiad Biography	
	<p>6. Pa flaenoriaethau y rhoddodd y Gweinidog ystyriaeth iddynt wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0587(FIN)</p>	<p>6. What priorities did the Minister consider when allocating funding to the public services portfolio? OAQ(4)0587(FIN)</p>
13:52	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Llywydd, I understand that you have given permission for questions 4 and 6 to be grouped. In response to the question, the programme for government sets out our priorities for Wales and underpins our spending plans, including funding allocated for public services.</p>	<p>Lywydd, rwy'n deall eich bod wedi rhoi caniatâd i gwestiynau 4 a 6 gael eu grwpio. Mewn ymateb i'r cwestiwn, mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru ac yn ategu ein cynlluniau gwariant, gan gynnwys arian a ddyrannwyd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.</p>
13:52	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Minister. Following the recently published local government map proposals, what discussions have taken place with you and the local government Minister as regards any further allocations or the potential costs associated with such a major reorganisational programme? Also, have you carried out any actual risk assessments in relation to the current map proposals, as published?</p>	<p>Diolch yn fawr, Weinidog. Yn dilyn y cynigion mapio llywodraeth leol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, pa drafodaethau a gawsoch â'r Gweinidog llywodraeth leol ar unrhyw ddyraniadau pellach neu gostau posibl sy'n gysylltiedig â rhaglen ad-drefnu mor fawr? Hefyd, a ydych wedi cynnal unrhyw asesadau risg o ran y cynigion mapio cyfredol, fel y'u cyhoeddwyd?</p>

13:52	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	The local government Bill 2017 will not be introduced within this Assembly. Introduction is currently scheduled for late 2016, and those decisions, of course, as regards the financial implications of the Bill, will be considered within the context of the Government's budget at the time.	Ni fydd Bil llywodraeth leol 2017 yn cael ei gyflwyno yn ystod y Cynulliad hwn. Ar hyn o bryd, trefnwyd iddo gael ei gyflwyno ar ddiwedd 2016, a bydd y penderfyniadau hynny, wrth gwrs, ynghylch goblygiadau ariannol y Bil, yn cael eu hystyried yng nghyd-destun cyllideb y Llywodraeth ar y pryd.	Senedd.tv Fideo Video
13:53	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Keith Davies.	Keith Davies.	Senedd.tv Fideo Video
13:53	Keith Davies Bywgraffiad Biography	Not on this one.	Ddim ar hwn.	Senedd.tv Fideo Video
13:53	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Question 4 and question 6 have been grouped.	Mae cwestiwn 4 a chwestiwn 6 wedi cael eu grwpio.	Senedd.tv Fideo Video
13:53	Keith Davies Bywgraffiad Biography	Oh, sorry.	O, mae'n ddrwg gennyf.	Senedd.tv Fideo Video
13:53	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Keep up, Mr Davies. Keep up.	Dewch ymlaen, Mr Davies. Dewch ymlaen.	Senedd.tv Fideo Video
13:53	Keith Davies Bywgraffiad Biography	Diolch, Lywydd. Weinidog, beth oedd eich blaenoriaethau wrth ddyrannu cyllid i bortffolio gwasanaethau cymunedol?	Thank you, Presiding Officer. Minister, what were your priorities when allocating funding to the community services portfolio?	Senedd.tv Fideo Video
13:53	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	I think the importance, as I said, is setting this within the context of our programme for government priorities for Wales.	Fel y dywedais, rwy'n credu mai'r hyn sy'n bwysig yw gosod hyn yng nghyd-destun ein rhaglen ar gyfer blaenoriaethu llywodraethu i Gymru.	Senedd.tv Fideo Video
13:53	Keith Davies Bywgraffiad Biography	Diolch. Fe fydd hofrennydd Heddlu Dyfed Powys yn cael ei waredu ar ddiwedd y flwyddyn wrth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig dorri yn sylweddol wasanaeth awyr yr heddlu cenedlaethol o 34 safle i 15. Mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu cymunedau saff i bawb fel rhan o raglen y Llywodraeth. Bydd cael gwared ar y gwasanaeth hofrennydd yn y gorllewin yn peryglu diogelwch cymunedol ac yn gosod mwy o bwysau ar safleoedd Hawarden a Sain Tathan, sydd yn barod yn edrych ar ôl rhannau o Loegr. Weinidog, a ydych yn cytuno â mi fod hofrennydd yr heddlu yn y gorllewin yn cynnig gwasanaeth pwysig ac y dylai safle Pen-bre gael ei gadw oherwydd ei fod yn ategu ymrwymadau gwario sydd wedi'u gwneud yn barod gan Lywodraeth Cymru i wella diogelwch cymunedol?	Thank you. The Dyfed-Powys Police helicopter will be scrapped at the end of the year as the United Kingdom Government significantly cuts the national air police service from 34 sites to 15. The Welsh Government is prioritising safe communities for all as part of the programme for government. Scrapping the helicopter service in west Wales will put at risk community safety and will place greater pressure on the Hawarden and St Athan sites, which already cover parts of England. Minister, do you agree with me that the police helicopter in west Wales offers an important service and that the Pembrey site should be retained because it reinforces financial commitments already made by the Welsh Government to improve community safety?	Senedd.tv Fideo Video
13:54	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Of course, Keith Davies, this is an important service. Unfortunately, as you say, it is not a devolved matter. It is not something we can have direct influence over. However, it is very important this issue continues to be highlighted.	Wrth gwrs, Keith Davies, mae hwn yn wasanaeth pwysig. Yn anffodus, fel y dywedwch, nid yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli. Nid yw'n rhywbeth y mae gennym ddylanwad uniongyrchol drosto. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn i'r mater hwn barhau i gael ei amlygu.	Senedd.tv Fideo Video

13:54	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography Weinidog, mae'n siŵr eich bod chi'n gyfarwydd ag adroddiad KPMG sy'n ymwneud â'r arbedion y gellir eu gwneud i lywodraeth leol heb fod yna unrhyw newidiadau'n digwydd. Rydych chi wedi nodi na fydd yna unrhyw newidiadau yn digwydd yn ystod tymor y Cynulliad yma. Beth ŷch chi'n ei wneud mewn cydweithrediad â'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod awdurdodau lleol yn manteisio ar yr arbedion posibl yma yn y tymor byr er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu symud ymlaen i sicrhau bod gwasanaethau sylfaenol awdurdodau lleol yn cael eu diogelu?	Minister, I'm sure that you're familiar with the KPMG report on the savings that could be made by local government without any changes occurring. You've noted that no changes will occur during this Assembly term. What are you doing in collaboration with the Minister for Public Services to ensure that local authorities take advantage of these potential savings in the short term in order to ensure that we can move forward to ensure that the basic services delivered by local authorities are safeguarded?	Senedd.tv Fideo Video
13:55	Jane Hutt Bywgraffiad Biography Well, clearly, the KPMG report was very informative in terms of local authority administration costs, identifying potential savings of up to £151 million, and authorities can achieve many of these savings now.	Wel, yn amlwg, roedd adroddiad KPMG yn llawn o wybodaeth ynghylch costau gweinyddol awdurdodau lleol, gan nodi arbedion posibl o hyd at £151 miliwn, a gall awdurdodau sicrhau llawer o'r arbedion hyn yn awr.	Senedd.tv Fideo Video
13:55	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Question 5—Andrew R.T. Davies.	Cwestiwn 5—Andrew R.T. Davies.	Senedd.tv Fideo Video
13:55	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography Thank you, Presiding Officer. [Interruption.] I do apologise for that, Presiding Officer.	Diolch i chi, Lywydd. [Torri ar draws.] Rwy'n ymddiheuro am hynny, Lywydd.	Senedd.tv Fideo Video
	Llinell Gwariant y Gyllideb Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	The Central Services and Administration BEL	
13:55	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography 5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyrannu cyllid i linell gwariant y gyllideb ar gyfer gwasanaethau canolog a gweinyddu? OAQ(4)0578(FIN)	5. Will the Minister make a statement on the allocation of funding to the central services and administration budget expenditure line? OAQ(4)0578(FIN)	Senedd.tv Fideo Video
13:55	Jane Hutt Bywgraffiad Biography Since 2010, the corporate services and administration main expenditure group revenue budget has been reduced in cash terms by around £58 million.	Ers 2010, mae gwariant refeniw'r prif grŵp gwariant gwasanaethau corfforaethol a gweinyddiaeth wedi gostwng oddeutu £58 miliwn mewn arian parod.	Senedd.tv Fideo Video
13:56	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography It was all part of the cunning plan, that was. Thank you, Minister, for the answer. I would be most grateful if you could give an explanation of how redundancy policies are enacted by the Welsh Government, in particular the very excessive pay-outs that have recently been announced by the Welsh Government, and how that impacts on the budget that I've just asked you to outline? Because I know, when I asked originally for these figures to be made available, the finance Minister was very evasive on making those figures public, albeit, after some pressure, she did bring the figures forward for public consideration.	Roedd y cyfan yn rhan o'r cynllun cyfrwys. Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech roi esboniad ynglŷn â sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni polisiau diswyddo, yn enwedig y taliadau gormodol iawn a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, a sut y mae hynny'n effeithio ar y gyllideb rwyf newydd ofyn i chi ei hamlinellu? Oherwydd pan ofynnais yn wreiddiol i'r ffigurau hyn fod ar gael, gwn fod y Gweinidog cyllid yn ochelgar iawn ynghylch cyhoeddi'r ffigurau hynny, er iddi gyflwyno'r ffigurau i'r cyhoedd eu hystyried ar ôl rhywfaint o bwysau.	Senedd.tv Fideo Video

13:56	Jane Hutt Bywgraffiad Biography Well, staffing is a matter for the Permanent Secretary, and, of course, the ways in which the severance payments are made are entirely in line with the UK civil service compensation scheme, which, actually, I do believe has been used elsewhere, which you might be well aware of in terms of the recent Wales Office severance payments.	Wel, mae staffio yn fater i'r Ysgrifennydd Parhaol, ac wrth gwrs, mae'r ffyrdd y mae'r taliadau diswyddo yn cael eu gwneud yn gwbl unol â chynllun iawndal gwasanaeth sifil y DU, y credaf ei fod wedi cael ei ddefnyddio mewn mannau eraill, mewn gwirionedd, ac efallai eich bod yn ymwybodol iawn ohono mewn perthynas â'r taliadau diswyddo diweddar gan Swyddfa Cymru.	Senedd.tv Fideo Video
13:57	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Question 6 was grouped with question 4. Question 7—Mike Hedges.	Cafodd cwestiwn 6 ei grwpio gyda chwestiwn 4. Cwestiwn 7—Mike Hedges.	Senedd.tv Fideo Video
Cynlluniau Buddsoddi i Arbed		Invest-to-save Schemes	
13:57	Mike Hedges Bywgraffiad Biography <i>7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwersi a ddysgwyd gan y sector cyhoeddus yn dilyn cynlluniau buddsoddi i arbed? OAQ(4)0573(FIN)</i>	<i>7. Will the Minister make a statement on lessons learnt by the public sector following invest-to-save schemes? OAQ(4)0573(FIN)</i>	Senedd.tv Fideo Video
13:57	Jane Hutt Bywgraffiad Biography Identifying the lessons learnt from invest-to-save projects, disseminating these lessons and increasing the take-up of best practice are key objectives for the fund.	Mae nodi'r gwersi a ddysgwyd o brosiectau buddsoddi i arbed, rhannu'r gwersi hyn a chynyddu'r defnydd o arfer gorau yn amcanion allweddol ar gyfer y gronfa.	Senedd.tv Fideo Video
13:57	Mike Hedges Bywgraffiad Biography Thank you, Minister, for that answer. As you know, there have been very few invest-to-save bids based upon previous bids by similar organisations. Whilst the Government, as you said, promotes the use of invest-to-save and produces documentation highlighting the successes, can I ask for a more proactive approach, such as writing to similar organisations, asking them why they do not feel using invest-to-save in an area that has proved successful with similar organisations is not appropriate?	Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Fel y gwyddoch, ychydig iawn o gynigion buddsoddi i arbed a gafwyd yn seiliedig ar gynigion blaenorol gan sefydliadau tebyg. Er bod y Llywodraeth, fel y dywedoch, yn hybu'r defnydd o fuddsoddi i arbed ac yn cynhyrchu dogfennaeth yn tynnu sylw at y llwyddiannau, a gaf fi ofyn am ddull mwy rhagweithiol, megis ysgrifennu at sefydliadau tebyg, yn gofyn iddynt pam nad ydynt yn teimlo ei bod hi'n briodol defnyddio buddsoddi i arbed mewn maes a fu'n llwyddiannus gyda sefydliadau tebyg?	Senedd.tv Fideo Video
13:57	Jane Hutt Bywgraffiad Biography This is the way we need to take invest-to-save forward, and I have definitely sought to ensure that we are taking this approach, where there can be lessons learned from one part of the sector by a another part of the sector. One example has been, for example, in the energy efficiency grants that we've made available, in the invest-to-save funds we've made available. Why is one university or one hospital is able to do it, or even one health board, and not all the rest in terms of the sector? So, I've now written to all chief executives and heads of finance of local authorities, all vice-principals of further and higher education, all chief fire officers and chief constables to again inform them of the latest round, but also to draw attention to what they can achieve in terms of other parts of the sector that had been successful in invest-to-save.	Dyma'r ffordd y mae angen i ni symud buddsoddi i arbed yn ei flaen, ac rwy'n sicr wedi ceisio sicrhau ein bod yn gweithredu'r dull hwn, lle y gall un rhan o'r sector ddysgu gwersi gan ran arall o'r sector. Un enghraifft yw'r grantiau effeithlonrwydd ynni a'r cronfeydd buddsoddi i arbed sydd ar gael gennym. Pam y mae un brifysgol neu un ysbty yn gallu ei wneud, neu hyd yn oed un bwrdd iechyd, ac nid y gweddill o'r sector? Felly, rwyf bellach wedi ysgrifennu at bob un o brif weithredwyr a phenaethiaid cyllid yr awdurdodau lleol, a phob is-brifathro addysg bellach ac addysg uwch, pob prif swyddog tân a phrif gwnstabl, er mwyn rhoi gwybod iddynt eto am y cylch diweddaraf, ond hefyd i dynnu sylw at yr hyn y gallant ei gyflawni o gymharu â rhannau eraill o'r sector a fu'n llwyddiannus gyda buddsoddi i arbed.	Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, you previously said that the Welsh Government needs to engage with the voluntary and third sectors and do more when it comes to invest-to-save schemes. In light of your comments, and in light of your answer to Mike Hedges, can you tell us what positive and specific steps you are taking as a Government to promote the invest-to-save fund, so that smaller organisations are actually more aware of it?

Weinidog, fe ddywedoch o'r blaen fod angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector a gwneud mwy mewn perthynas â chynlluniau buddsoddi i arbed. Yng ngoleuni eich sylwadau, ac yng ngoleuni eich ateb i Mike Hedges, a allwch ddweud wrthym pa gamau cadarnhaol a phenodol rydych yn eu cymryd fel Llywodraeth i hyrwyddo'r gronfa buddsoddi i arbed, er mwyn i sefydliadau llai o faint fod yn fwy ymwybodol o hyn?

13:59 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

That's a very fair question, as well, Paul Davies, because this is often about incorporating or including third sector organisations within bids that are made by larger public sector organisations, like the health service, health boards and/or local government. But, certainly, I will also take this back in terms of representations to the third sector via their umbrella organisations.

Dyna gwestiwn teg iawn hefyd, Paul Davies, gan fod hyn yn aml yn ymwneud ag ymgorffori neu gynnwys sefydliadau trydydd sector mewn ceisiadau sy'n cael eu gwneud gan sefydliadau mwy o faint yn y sector cyhoeddus, megis y gwasanaeth iechyd, byrddau iechyd a/neu lywodraeth leol. Ond yn sicr, byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i hyn o ran cyflwyno sylwadau i'r trydydd sector drwy eu sefydliadau ymbarél.

13:59 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, accidents and injuries to young people cost the country a lot of money and parents considerable anxiety and distress if it's a life-changing event. Now, money could be saved by employing effective injury prevention officers. Would you encourage this to be part of authorities', but, in particular, health-authorities', invest-to-save projects. It has certainly worked in Scotland and Northern Ireland.

Weinidog, mae damweiniau ac anafiadau i bobl ifanc yn costio llawer o arian i'r wlad a chryn bryder a thralod i rieni os yw'n ddigwyddiad sy'n newid bywyd. Nawr, gellid arbed arian drwy gyflogi swyddogion atal anafiadau effeithiol. A fydddech yn annog hyn i fod yn rhan o brosiectau buddsoddi i arbed awdurdodau, ac yn arbennig, awdurdodau iechyd? Yn sicr, mae wedi gweithio yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

14:00 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Certainly, that is another policy stream that we could investigate, and it's very useful to hear that, already, schemes of this kind have been adopted in Scotland and Northern Ireland.

Yn sicr, mae honno'n ffrwd polisi arall y gallem ei hymchwilio, ac mae'n ddefnyddiol iawn clywed bod cynlluniau o'r math hwn eisoes wedi cael eu mabwysiadu yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Y Portffolio Cyfoeth Naturiol

The Natural Resources Portfolio

14:00 **Janet Haworth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

8. Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol ynghylch cyfanswm y gyllideb a ddyrennir i'w bortffolio? OAQ(4)0576(FIN)

8. What recent discussions has the Minister had with the Minister for Natural Resources regarding the overall budget allocation to his portfolio? OAQ(4)0576(FIN)

14:00 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I have regular discussions with the Minister for Natural Resources regarding the budget allocation to his portfolio.

Byddaf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol ynglŷn â dyraniad y gyllideb i'w bortffolio.

14:00

Janet Haworth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. Minister, I've recently raised with the Minister for Natural Resources the concern I have over the lack of imposition of fines to Cardiff, Rhonda Cynon Taf and Merthyr councils for failing to meet their recycling targets. Over £1.8 million was left uncollected, and it now appears that an extra allocation of money has been offered to help them meet their targets in the future. When deciding on future allocations to the natural resources portfolio, will extra money be provided in the event of councils missing targets again, not being fined, and being given extra money to reward this failure?

Diolch yn fawr, Weinidog. Weinidog, yn ddiweddar tynnais sylw'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol at y pryder sydd gennyf y methiant i orfodi dirwyon ar gynghorau Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Merthyr am fethu â chyrraedd eu targedau ailgylchu. Aeth £1.8 miliwn heb ei gasglu, ac ymddengys yn awr fod dyraniad ychwanegol o arian wedi cael ei gynnig i'w helpu i gyrraedd eu targedau yn y dyfodol. Wrth benderfynu ar ddyraniadau i'r portffolio cyfoeth naturiol yn y dyfodol, a fydd arian ychwanegol yn cael ei ddarparu os yw cynghorau'n methu â chyrraedd targedau eto, yn osgoi cael eu dirwyo, ac yn cael arian ychwanegol i wobrwyo methiant o'r fath?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, this is of course primarily a matter for the Minister for Natural Resources. Those local authorities that haven't met their targets have assured the Minister that they'll improve their performance and meet future targets. But, under the circumstances, it would be entirely counterproductive to impose penalties. Fines may be imposed in future if local authorities continue to miss targets. This is something we have to put in the context, Janet Howarth, of the fact that recycling rates in Wales have increased more than the rest of the UK during the past decade. Wales is leading the UK in the recycling of municipal waste, and would be fourth in the European Union as well. I know that the Minister would be saying this, so I'm saying it on his behalf, because it's very important to put this in context.

Wel, mater i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol yw hyn yn bennaf wrth gwrs. Mae'r awdurdodau lleol nad ydynt wedi cyrraedd eu targedau wedi sicrhau'r Gweinidog y byddant yn gwella eu perfformiad ac yn cyrraedd targedau yn y dyfodol. Ond o dan yr amgylchiadau, byddai gosod cosbau yn gwbl wrthgynhyrchiol. Gellid gosod dirwyon yn y dyfodol os yw awdurdodau lleol yn parhau i fethu â chyrraedd y targedau. Jane Howarth, mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei roi yng nghyd-destun y ffaith fod cyfraddau ailgylchu yng Nghymru wedi cynyddu mwy na gweddill y DU dros y degawd diwethaf. Mae Cymru yn arwain y DU ar ailgylchu gwastraff trefol, a byddai'n bedwerydd yn yr Undeb Ewropeaidd yn ogystal. Gwn y byddai'r Gweinidog yn dweud hyn, felly rwy'n ei ddweud ar ei ran, gan ei bod yn bwysig iawn ei roi mewn cyd-destun.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, opencast sites blight our landscapes, and we know that, as they come to completion, they're left by the developers or owners and become disastrous for our local communities. We often find a situation where the owners therefore find no funding to be able to do the restoration, and they become hazardous and dangerous for those communities. What discussions have you had with the natural resources Minister, and perhaps the UK Government, to look at funding streams to actually look at the restoration of those sites here in Wales?

Weinidog, mae safleoedd glo brig yn bla ar ein tirwedd, ac wrth iddynt nesu at orffen gweithredu, gwyddom eu bod yn cael eu gadael gan y datblygwyr neu'r perchnogion ac yn dod yn drychinebus i'n cymunedau lleol. Rydym yn aml yn canfod sefyllfa lle y mae'r perchnogion yn gweld nad oes cyllid ar gael i allu gwneud y gwaith adfer, a dânt yn beryglus i'r cymunedau hynny. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, a Llywodraeth y DU efallai, i edrych ar ffyrddiau cyllido i adfer y safleoedd hyn yma yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, David Rees. The Minister for Natural Resources has taken this up with the Secretary of State for Energy and Climate Change, and a ministerial meeting is taking place, inter-governmentally, later this month. But, of course, the Member will also be aware that the Minister is hosting an opencast summit next week, and officials from the UK Government and Scottish Government have been invited to attend.

Diolch i chi, David Rees. Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi tynnu hyn i sylw'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, a chynhelir cyfarfod gweinidogol rhwng y llywodraethau yn ddiweddarach y mis hwn. Ond wrth gwrs, bydd yr Aelod hefyd yn ymwybodol fod y Gweinidog yn cynnal uwchgynhadledd ar lo brig yr wythnos nesaf, a gwahoddiwyd swyddogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban i fod yn bresennol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:03 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei gwneud yn gwbl glir ar sawl achlysur y byddai unrhyw ddyletswyddau ychwanegol y mae disgwyl iddyn nhw eu cyflawni yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Bil Cynllunio (Cymru) a Bil Amgylchedd (Cymru) yn gorfod dod ag adnoddau ychwanegol yn eu sgil. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda'r Gweinidog ynglŷn â hynny, ac a fydd yna ddarpariaeth ariannol ychwanegol i'r adran i gwrdd â'r dyletswyddau ychwanegol yna, neu a ydych chi'n disgwyl i'r Gweinidog ddod o hyd i'r arian yna o fewn y gyllideb bresennol?

Minister, Natural Resources Wales has made it quite clear on a number of occasions that any new duties that they would be expected to provide in the light of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2014, the Planning (Wales) Bill or the Environment (Wales) Bill would have to bring additional resources in their wake. What discussions have you had with the Minister on that issue, and will additional financial provision be made available to the department to meet those additional requirements, or do you expect the Minister to find that money from within the existing budget?

14:03 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, it is important to recognise that we have allocated £63.8 million to support Natural Resources Wales in this financial year, but, clearly, we have to look very carefully at costs in terms of legislation in the regulatory impact assessments. Of course, there are costs and savings that emerge from the regulatory impact assessments. So, for example, if you look at the cost of implementing the planning Bill, there's a cost of £500,000 for the Welsh Government, a saving of £3.6 million for the development industry. In terms of Natural Resources Wales, of course, again, all other legislative impacts will be considered in the regulatory impact assessment.

Wel, mae'n bwysig cydnabod ein bod wedi dyrannu £63.8 miliwn i gefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru yn y flwyddyn ariannol hon, ond yn amlwg, mae'n rhaid i ni edrych yn ofalus iawn ar gostau deddfwriaeth yn yr asesiadau effaith rheoleiddiol. Wrth gwrs, mae yna gostau ac arbedion sy'n deillio o'r asesiadau effaith rheoleiddiol. Felly, er enghraifft, os edrychwch ar y gost o weithredu'r Bil cynllunio, mae yna gost o £500,000 i Lywodraeth Cymru, arbediad o £3.6 miliwn i'r diwydiant datblygu. O ran Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth gwrs, unwaith eto, bydd pob effaith ddeddfwriaethol arall yn cael ei hystyried yn yr asesiad effaith rheoleiddiol.

14:04 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, flood alleviation schemes form a crucial part of the natural resources portfolio. Indeed, in a written statement on the Welsh Government's draft budget for 2014-15, the Minister for Natural Resources said, and I quote:

Weinidog, mae cynlluniau lliniaru llifogydd yn ffurfio rhan hanfodol o'r portffolio cyfoeth naturiol. Yn wir, mewn datganiad ysgrifenedig ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15, dywedodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol:

'research shows that an investment of £100 million in flood prevention reduces risk for 7,000 homes and businesses, protects over 14,000 jobs, and creates over 1,000 jobs'.

'Dengys gwaith ymchwil diweddar fod buddsoddiad o £100m - (mewn atal llifogydd) yn lleihau'r perygl i 7,000 o gartrefi a busnesau, yn amddiffyn dros 14,000 o swyddi ac yn creu dros 1,000 o swyddi'.

Minister, your Government has previously stated, and understandably so, that funding is severely constrained by the UK block grant. However, given the potential availability of innovative sources of funding, such as the European Investment Bank, what discussions are you currently having with the Minister for Natural Resources to ensure that such funds are being fully harnessed so as to bring greater flood relief and reassurance to the people of Wales?

Weinidog, mae eich Llywodraeth wedi dweud o'r blaen, ac yn ddealladwy felly, fod cyllid yn cael ei gyfyngu'n ddifrifol gan grant bloc y DU. Fodd bynnag, o ystyried y gallai fod ffynonellau arloesol o ariannu ar gael, megis Banc Buddsoddi Ewrop, pa drafodaethau rydych yn eu cael ar hyn o bryd gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol i sicrhau bod cronfeydd o'r fath yn cael eu harneisio'n llawn er mwyn lliniaru effaith llifogydd yn well a rhoi mwy o sicrwydd i bobl Cymru?

14:05

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, this is an area that has become a priority in our Wales infrastructure investment plan. And, of course, last week I made a statement on that and identified not only the spend we'd undertaken in terms of coastal and flood protection and prevention—protective and preventative works—but also indicated the ways in which we are using our non-dividend financing vehicle, with local authorities, for a future expansion of that funding, at a time when, as you say, we've seen a 30 per cent cut to our capital budget. Three weeks ago we had another £7 million off our capital budget in-year, and of course we await now, with great concern, what will happen as a result of the budget next week.

Yn amlwg, mae hwn yn faes sydd wedi dod yn flaenoriaeth yn y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Ac wrth gwrs, yr wythnos diwethaf gwneuthum ddatganiad ar hynny a nodi nid yn unig y gwariant rydym wedi ei wneud ar atal ac amddiffyn rhag llifogydd ac erydu arfordirol—gwaith amddiffynnol ac ataliol—ond hefyd y ffyrdd rydym yn defnyddio ein cyfrwng ariannu di-ddifidend, gydag awdurdodau lleol, i ehangu'r arian hwnnw yn y dyfodol, ar adeg, fel y dywedwch, y gwelwn doriad o 30 y cant i'n cyllideb gyfalaf. Dair wythnos yn ôl, torrwyd £7 miliwn arall oddi ar ein cyllideb gyfalaf yn ystod y flwyddyn, ac wrth gwrs rydym yn awr yn aros, gyda phryder mawr, i weld beth fydd yn digwydd o ganlyniad i'r gyllideb yr wythnos nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

The Health and Social Services Budget

14:06

Altat Hussain [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae'n caniatáu ar gyfer hyblygrwydd wrth ddyrannu cyllid i'r gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(4)0582(FIN)

9. Will the Minister outline how she allows for flexibility when allocating funding to the health and social services budget? OAQ(4)0582(FIN)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I meet regularly with all Cabinet Ministers, including the Minister for Health and Social Services, to ensure budget plans reflect strategic priorities.

Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â holl Weinidogion y Cabinet, gan gynnwys y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod cynlluniau cyllidebol yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Altat Hussain [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, every year additional funding has to be found to meet so-called winter pressures. Quite what these pressures are is a whole other question. Given that we have not had adverse weather or a flu pandemic, how are these pressures predictable? Why has the Welsh Government not built in flexibility, rather than relying on annual bail-outs to health boards?

Weinidog, bob blwyddyn rhaid dod o hyd i gyllid ychwanegol i ddiwallu'r hyn a elwir yn bwysau'r gaeaf. Mae beth yn union yw'r pwysau hyn yn gwestiwn arall. O gofio nad ydym wedi cael tywydd gwael na phandemig ffliu, sut y mae'r pwysau hyn yn rhagweladwy? Pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori hyblygrwydd, yn hytrach na dibynnu ar achub crwyn y byrddau iechyd bob blwyddyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, you know, that's rather an extraordinary question considering—. I appreciate you weren't here at the time, Altat Hussain, in the Chamber, when the health Minister was answering questions from your colleagues about the difficulties of the winter pressures. These certainly weren't just difficulties that were experienced here in Wales; they were experienced in England and across the whole of the UK as well. In fact, it was the UK Government that allocated funding for winter pressures, as a result of the severe winter pressure factors. Because we are a responsible Government, despite all the constraints put upon us by the UK Government, we also allocated £40 million to alleviate and support the service under the winter pressures.

Wel, wyddoch chi, mae hwnnw'n gwestiwn go eithriadol o ystyried—. Rwy'n sylweddoli nad oeddech yma ar y pryd, Altat Hussain, yn y Siambr, pan oedd y Gweinidog iechyd yn ateb cwestiynau gan eich cyd-Aelodau ynghylch anawsterau pwysau'r gaeaf. Yn sicr, nid anawsterau a brofwyd yma yng Nghymru yn unig oedd y rhain; fe'u hwynebwyd yn Lloegr ac ar draws y DU gyfan hefyd. Yn wir, Llywodraeth y DU a ddyrannodd arian ar gyfer pwysau'r gaeaf, o ganlyniad i ffactorau difrifol yn deillio o bwysau'r gaeaf. Oherwydd ein bod yn Llywodraeth gyfrifol, er gwaethaf yr holl gyfyngiadau a roir arnom gan Lywodraeth y DU, dyrannwyd £40 miliwn gennym yn ogystal i liniaru a chynorthwyo'r gwasanaeth o dan bwysau'r gaeaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Portffolio Addysg a Sgiliau

The Education and Skills Portfolio

14:07	<p>Aled Roberts Bywgraffiad Biography</p> <p><i>10. Pa adnoddau ychwanegol sydd wedi cael eu dyrannu i'r portffolio addysg a sgiliau yn dilyn y gyllideb atodol a gyhoeddwyd yr wythnos ddiwethaf? OAQ(4)0586(FIN)</i></p>	<p><i>10. What additional resources have been allocated to the education and skills portfolio following the publication of the supplementary budget last week? OAQ(4)0586(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:07	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Mae'r gyllideb atodol yn rhoi manylion dyraniadau gwerth cyfanswm o £8.4 miliwn i'r portffolio addysg a sgiliau.</p>	<p>The supplementary budget details allocations totalling £8.4 million to the education and skills portfolio.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:08	<p>Aled Roberts Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch am yr ateb. A ydych yn ffyddiog, felly, o fewn yr £8.4 miliwn, bod digon o arian ar gael ar gyfer sefydliadau fel y consortia rhanbarthol a Chyngor y Gweithlu Addysg, sydd â gofyniad arnynt i dderbyn cyfrifoldebau newydd gan y Llywodraeth? Byddwn yn disgwyl eich bod wedi asesu cost y cyfrifoldebau hynny a bod y costau yna'n cael eu trosglwyddo i'r cyrff penodedig.</p>	<p>Thank you for that reply. Are you confident, therefore, that, within that £8.4 million, sufficient funding is available for institutions such as the regional consortia and the Education Workforce Council, which have been given a requirement to accept new responsibilities from the Government? I would expect that you would have assessed the cost of those responsibilities and those costs would have been transferred to the specified bodies.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:08	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Clearly, the allocations that we've made have been as a result of assessing the needs in terms of education and skills. That's why the £8.4 million was allocated to that particular portfolio. And that would, of course, feed through to support for the regional consortia, but also, importantly, to ensure that we could continue to support the very successful Schools Challenge Cymru programme.</p>	<p>Yn amlwg, mae'r dyraniadau a wnaethom wedi bod o ganlyniad i asesu'r anghenion addysg a sgiliau. Dyna pam y dyrannwyd y £8.4 miliwn i'r portffolio penodol hwnnw. A byddai hynny, wrth gwrs, yn bwydo drwodd i gefnogi'r consortia rhanbarthol, ond hefyd, yn bwysig, i sicrhau y gallem barhau i gefnogi rhaglen lwyddiannus iawn Her Ysgolion Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Simon Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>It's been widely reported, Minister, that universities in England want to raise their tuition fees above £9,000, and Jo Johnson, the universities Minister, hasn't ruled that out this week. Are you making any provision in future supplementary budgets for an increase in tuition fees and the contingency that that would bring to the Welsh Government budget?</p>	<p>Mae wedi cael ei adrodd yn eang, Weinidog, fod prifysgolion yn Lloegr am godi eu ffioedd dysgu uwch na £9,000, ac nid yw Jo Johnson, y Gweinidog prifysgolion, wedi diystyru hynny yr wythnos hon. A ydych yn gwneud unrhyw ddarpariaeth mewn cyllidebau atodol ar gyfer y dyfodol ar gyfer cynyddu ffioedd dysgu a'r arian wrth gefn y byddai hynny'n ei roi i gyllideb Llywodraeth Cymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Of course, the Minister for Education and Skills assesses the needs and pressures in terms of our very generous student support system in terms of funding within the budget, which has been set for this year.</p>	<p>Wrth gwrs, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn asesu'r anghenion a'r pwysau mewn perthynas â'n system gymorth hael iawn i fyfyrwyr o ran cyllid o fewn y gyllideb, sydd wedi cael ei gosod ar gyfer y flwyddyn hon.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Taith y Gyllideb		The Budget Tour	
14:09	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei thaith gyllideb o gwmpas Cymru gan gyfeirio'n benodol at ogledd Cymru? OAQ(4)0584(FIN)</i></p>	<p><i>11. Will the Minister make a statement on her budget tour around Wales with particular reference to north Wales? OAQ(4)0584(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:10	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Cynhelir fy nigwyddiad cyntaf yn y gogledd fel rhan o daith y gyllideb ar 2 Gorffennaf.</p>	<p>My first budget tour event in north Wales is on 2 July.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:10 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr. Mae cynghorau yn wynebu toriadau sylweddol yn y blynyddoedd nesaf ar draws Cymru. Mae Gwynedd, er enghraifft, yn mynd i dorri £34 miliwn allan o gyllideb o ryw £270 miliwn. Maen nhw'n gobeithio y byddan nhw'n gallu gwneud arbedion o tua £25 miliwn, ond mae hynny'n gadael £9 miliwn o doriadau—hynny ydy, gwasanaethau a fydd yn peidio â bod. Er tegwch i'r cynghorau yma'n gyffredinol, a all y Llywodraeth roi rhyw fath o arweiniad inni ynglŷn â'r math o ddyletswyddau rydych chi'n credu y gallai llywodraeth leol stopio eu gwneud?

Thank you very much. Councils are facing substantial cuts in the next few years across the whole of Wales. Gwynedd, for example, is going to cut £34 million out of a budget of £270 million. They hope that they will be able to make savings of approximately £25 million, but that still leaves £9 million in cuts—that is, services that will cease to exist. In fairness to these councils generally, can the Government gives us some kind of guidance about the kind of duties you believe local government can stop undertaking?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:10 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is an issue that we need to share together, in terms of financial challenges. I think what's very important and useful about the budget tour is that I'm meeting with people working at the front line in local government. I'm not meeting the chief executives or leaders of councils; I'm meeting people who are working in education, social care, leisure and housing, and they are expressing to me not only their concerns about pressures and about priorities in terms of budgets, but also they're feeding back how they feel that there are ways in which we can jointly and separately do things better, how money can be saved, and how they can integrate more effectively. So, they're very constructive and positive in terms of the ways in which we should address the challenges that are faced. I'm looking forward, not only to my meeting in Llandudno tomorrow, but also a visit that I will undertake, where I meet people who actually use services and deliver them at the sharp end, and of course I will be feeding that back. In fact, my next visit to north Wales will take place in September.

Mae hwn yn fater y mae angen i ni ei rannu gyda'n gilydd, o ran heriau ariannol. Rwy'n credu mai'r hyn sy'n bwysig iawn ac yn ddefnyddiol am daith y gyllideb yw fy mod yn cyfarfod â phobl sy'n gweithio yn y rheng flaen mewn llywodraeth leol. Nid wyf yn cyfarfod â phrif weithredwyr neu arweinwyr cynghorau; rwy'n cyfarfod â phobl sy'n gweithio ym maes addysg, gofal cymdeithasol, hamdden a thai, ac maent yn mynegi wrthyf, nid yn unig eu pryderon am bwysau a blaenoriaethau o ran cyllidebau, ond maent hefyd yn rhoi adborth ar sut y teimlant ynglŷn â'r faith fod yna ffyrdd y gallwn fynd ati ar y cyd ac ar wahân i wella pethau, sut y gellir arbed arian, a sut y gallant integreiddio'n fwy effeithiol. Felly, maent yn adeiladol ac yn gadarnhaol iawn o ran y ffyrdd y dylem fynd i'r afael â'r heriau a wynebir. Rwy'n edrych ymlaen, nid yn unig at fy nghyfarfod yn Llandudno yfory, ond hefyd at yr ymweliad a wnaif, pan fyddaf yn cyfarfod â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau mewn gwirionedd ac yn eu cyflwyno yn y rheng flaen, ac wrth gwrs byddaf yn dod â'r adborth hwnnw'n ôl atoch. Yn wir, bydd fy ymweliad nesaf â gogledd Cymru ym mis Medi.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:12 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Between Friday and Monday each week, Assembly Members in north Wales are repeatedly told by constituents that all the funding goes to south Wales, not north Wales. That's been reinforced with announcements of £600 million on the metro, £1 billion on the M4 and so on. How will you respond to such claims when they're made to you during your budget tour in north Wales, as they're made to me repeatedly when I'm back home in north Wales?

Rhwng dydd Gwener a dydd Llun bob wythnos, mae Aelodau'r Cynulliad yng ngogledd Cymru yn cael gwybod dro ar ôl tro gan etholwyr fod yr holl arian yn mynd i dde Cymru, nid i'r gogledd. Mae hynny wedi cael ei atgyfnerthu gan gyhoeddiadau o £600 miliwn ar gyfer y metro, £1 biliwn ar gyfer yr M4 ac yn y blaen. Sut y byddwch yn ymateb i honiadau o'r fath pan gânt eu gwneud yn ystod taith y gyllideb yng ngogledd Cymru, gan fy mod yn eu clywed dro ar ôl tro pan fyddaf gartref yn y gogledd?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:12 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, in terms of the investment that we make pan-Wales, particularly in terms of capital, in terms of the £6.9 billion capital that we've allocated this year in terms of funding across Wales, well over £1.9 billion of that is for north Wales. It is simply not true that we are not investing in north Wales—in terms of twenty-first century schools, in terms of our health service, in terms of transport, particularly the investment we're making in the A55, and also the investment that we're making through Energy Island. But, I would say I'm also meeting tomorrow morning the chief leaders of the north Wales economic ambition board, and I'm going to be there with a positive message, Mark Isherwood, and I hope you would back me in that meeting in terms of making sure that I am listening and learning about north Wales's needs, and also allocating funds to support them.

Wel, o ran y buddsoddiad rydym yn ei wneud ar gyfer Cymru gyfan, yn enwedig cyfalaf, a'r cyfalaf o £6.9 biliwn o gyllid a ddyrannwyd gennym eleni ar draws Cymru, roedd ymhell dros £1.9 biliwn o hwnnw ar gyfer gogledd Cymru. Nid yw'n wir o gwbl nad ydym yn buddsoddi yn y gogledd—o ran sicrhau ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, ein gwasanaeth iechyd, trafnidiaeth, yn arbennig y buddsoddiad rydym yn ei wneud yn yr A55, a hefyd y buddsoddiad yn yr Ynys Ynni. Ond carwn ddweud fy mod i hefyd yn cyfarfod â phrif arweinwyr bwrdd uchelgais economaidd gogledd Cymru bore yfory, ac rwy'n mynd yno gyda neges bositif, Mark Isherwood. Rwy'n gobeithio y byddwch yn fy nghefnogi yn y cyfarfod hwnnw ac yn gwneud yn siŵr fy mod yn gwrandao ac yn dysgu am anghenion gogledd Cymru, a hefyd yn dyrannu arian i'w cefnogi.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rhestr Gwahardd Cwmnïau Adeiladu

Construction Company Blacklists

- 14:13 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) *12. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am dradfodion Llywodraeth Cymru gyda chwmnïau adeiladu sydd wedi defnyddio rhestr gwahardd yn y gorffennol? OAQ(4)0572(FIN)* [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- 14:13 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) The Welsh Government applies the blacklisting procurement guidance that I issued in September 2013. Mae Llywodraeth Cymru yn cymhwyso'r canllawiau caffael ar restr gwahardd a gyhoeddais yn mis Medi 2013. [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- 14:13 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Thank you for that answer. As you've indicated, it's been around 18 months since your Government launched its public advice note on companies that have blacklisted. In that time, have any of them been excluded from Welsh Government contracts for doing so, or have you put measures in place for any companies that have acted in this way? Diolch i chi am eich ateb. Fel y dynodoch, mae tua 18 mis ers i'ch Llywodraeth lansio ei nodyn cyngor cyhoeddus ar gwmnïau a osodwyd ar y rhestr gwahardd. Yn y cyfnod hwnnw, a oes unrhyw rai ohonynt wedi'u heithrio o gontractau Llywodraeth Cymru oherwydd hynny, neu a ydych chi wedi rhoi mesurau ar waith yng nghyswllt unrhyw gwmnïau sydd wedi ymddwyn yn y modd hwn? [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- 14:14 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Well, I am pleased to report that, since we did issue that new policy and guidance, behaviours in the construction industry are changing. We've seen examples where major construction companies have provided clear evidence that they've gone through a self-cleaning process as a result of having admitted being involved in blacklisting in the past, and some of these companies have gone on to win public sector contracts. Wel, rwy'n falch o nodi, ers i ni gyhoeddi'r polisi a'r canllawiau newydd, fod ymddygiad yn y diwydiant adeiladu yn newid. Rydym wedi gweld enghreifftiau lle y mae cwmnïau adeiladu mawr wedi darparu tystiolaeth glir eu bod wedi dilyn proses o wella'u hymddygiad eu hunain o ganlyniad i gyfaddef eu bod wedi bod ar restr gwahardd yn y gorffennol, ac mae rhai o'r cwmnïau hyn wedi mynd ymlaen i ennill contractau yn y sector cyhoeddus. [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- 14:14 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Given that behaviour in the construction industry is changing, as you've just stated, do you have any plans to update the guidance you issued in 2013? O ystyried bod ymddygiad yn y diwydiant adeiladu yn newid, fel rydych chi newydd ei nodi, a oes gennych unrhyw gynlluniau i ddiweddarau'r canllawiau a gyhoeddwyd gennych yn 2013? [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- 14:14 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Well, one of the important developments, of course, is that we now have a designation Order I've negotiated successfully with the UK Government, which means that we can move from advice to regulation. Certainly, the first policy area that we're looking at is community benefits in terms of regulation, but I will also be wanting to look at this guidance in terms of blacklisting and fair employment policies. Wel, un o'r datblygiadau pwysig, wrth gwrs, yw bod gennym bellach Orchymyn dynodi a negodais yn llwyddiannus gyda Llywodraeth y DU, sy'n golygu y gallwn symud o gynghori i reoleiddio. Yn sicr, y maes polisi cyntaf rydym yn edrych arno yw manteision cymunedol o ran rheoleiddio, ond byddaf hefyd yn awyddus i edrych ar y canllawiau hyn mewn perthynas â rhestr gwahardd a pholisïau cyflogaeth teg. [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- 14:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Thank you, Minister. Diolch yn fawr, Weinidog. [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- 14:15 **2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus** **2. Questions to the Minister for Public Services** **Y** [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) We now move to item 2, which is questions to the Minister for Public Services. Question 1 is Elin Jones. Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Daw cwestiwn 1 gan Elin Jones.

Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus

Improving Public Services

- 14:15 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
1. Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0588(PS)
- 14:15 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services
- 14:15 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- 14:16 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- 14:16 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- 14:16 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
1. *Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0588(PS)*
1. *What are the Welsh Government's priorities for improving public services in west Wales? OAQ(4)0588(PS)*
- Weinidog, mae Cyngor Sir Ceredigion yn gwasanaethu ardal sydd yn gryf yn Gymraeg ac yn gyngor sy'n gweinyddu ac yn trafod yn gynyddol yn fwy drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae yna berygl gwirioneddol o greu cyngor mwy o faint, ar fodel Dyfed, o leihau y defnydd o'r Gymraeg mewn llywodraeth leol. Sut fyddwch chi yn ceisio sicrhau na fydd hynny yn digwydd fel un o ganlyniadau ad-drefnu llywodraeth leol, os bydd hynny'n digwydd?
- Minister, Ceredigion County Council services an area that is strongly Welsh speaking and is a council that increasingly uses the Welsh language internally for administration and discussion. There is a very real risk in creating a larger council, on the Dyfed model, that the use of the Welsh language in local government will be reduced. How will you try and ensure that that won't be the case as one of the upshots of the reorganisation of local government, should that happen?
- Mae yn bwysig ein bod ni yn diogelu statws yr iaith Gymraeg yng ngweinyddiaeth llywodraeth leol yng Nghymru ac yn y gorllewin, wrth gwrs. Mae'n bwysig ein bod yn dadlau hynny yn y dyfodol pan fyddwn yn trafod y map ar gyfer llywodraeth leol.
- It is important that we safeguard the status of the Welsh language within local government administration in Wales and in west Wales, of course. It's important that we discuss that in future, when we discuss the map for local government.
- Minister, I'm sure you'll agree that public service delivery is essentially about having good-quality well-trained staff. Would you agree with me that the recent decision by Rhondda Cynon Taf County Borough Council to move towards becoming a living wage employer, to benefit some 4,000 staff in Rhondda Cynon Taf, is a significant and important step forward, and shows what can be done?
- Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod darparu gwasanaethau cyhoeddus yn ymwneud yn ei hanfod â chael staff o safon uchel sydd wedi'u hyfforddi'n dda. A fydech yn cytuno â mi fod y penderfyniad diweddar gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i symud tuag at ddod yn gyflogwr cyflog byw, er budd tua 4,000 o staff yn Rhondda Cynon Taf, yn gam sylweddol a phwysig ymlaen, ac yn dangos beth y gellir ei wneud?
- Certainly, I welcome the decision of the Rhondda Cynon Taf leader, Councillor Andrew Morgan, to move towards introducing the living wage in agreement with the trade unions in Rhondda Cynon Taf. It will help some of the lowest paid in our communities to have a decent standard of living, and I welcome the moves that have been taken by other local authorities to implement the living wage policy as well.
- Yn sicr, rwy'n croesawu penderfyniad arweinydd Rhondda Cynon Taf, y Cynghorydd Andrew Morgan, i symud tuag at gyflwyno'r cyflog byw mewn cytundeb â'r undebau llafur yn Rhondda Cynon Taf. Bydd yn helpu rhai o'r bobl ar y cyflogau isaf yn ein cymunedau i gael safon byw gweddus, ac rwy'n croesawu'r camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol eraill i weithredu'r polisi cyflog byw hefyd.

14:17 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, a new online service has recently been launched allowing tenants of Pembrokeshire County Council properties to check their housing rent balance, pay council tax and even report a broken street light or a missed bin collection. Minister, do you agree with me that this level of engagement with local people should be supported, and can you tell us what the Welsh Government is doing to encourage a practice like this to take place across the whole of Wales?

Weinidog, lanswyd gwasanaeth ar-lein newydd yn ddiweddar sy'n caniatáu i denantiaid tai Cyngor Sir Penfro archwilio eu balansau rhent tai, talu'r dreth gyngor a hyd yn oed i roi gwybod am olau stryd sydd wedi torri neu fin heb ei wagio. Weinidog, a ydych yn cytuno â mi y dylid cefnogi'r lefel hon o ymgysylltiad â phobl leol, ac a allwch ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog arferion fel hyn ar draws Cymru gyfan?

14:17 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, indeed, I do welcome moves that are taken particularly to allow residents to engage through digital means with reporting of problems in local areas. I think there is some good practice; I'm interested to hear of the model that he's mentioned. I have commissioned work across local government in Wales to look at what is the status of the use of new transformative technologies in service delivery, including digital reporting, and I expect to have that work with me in the near future.

Ydw, yn wir, rwy'n croesawu symudiadau sydd ar y gweill yn benodol i ganiatáu i breswylwyr ymgysylltu drwy roi gwybod am broblemau mewn ardaloedd lleol drwy ddulliau digidol. Rwy'n meddwl bod peth arfer da i'w weld; mae gen i ddi-ddordeb mewn clywed am y model a grybwyllodd. Rwyf wedi comisiynu gwaith ar draws llywodraeth leol yng Nghymru i edrych ar statws y defnydd o dechnolegau newydd trawsffurfiol wrth ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys hysbysu digidol, ac rwy'n disgwyl y daw'r gwaith hwnnw i law yn y dyfodol agos.

Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan

The All-Wales Youth Offending Strategy

14:18 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

2. A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i adolygu'r strategaeth troseddwy'r ifanc Cymru gyfan? OAQ(4)0585(PS)

2. Does the Welsh Government have any plans to review the all Wales youth offending strategy? OAQ(4)0585(PS)

14:18 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

'Children and Young People First' is the new joint Welsh Government and Youth Justice Board strategy, which was launched a year ago. It builds on the positive work of the 2004 all-Wales youth offending strategy.

'Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf' yw'r strategaeth newydd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a lanswyd flwyddyn yn ôl. Mae'n adeiladu ar waith cadarnhaol strategaeth troseddwy'r ifanc Cymru gyfan 2004.

14:18 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. I met earlier today with the British Psychological Society; they've published a new study on the ways in which the needs of children and young people with neurodisabilities, such as attention deficit hyperactivity disorder and autism spectrum disorders, or those who have suffered traumatic brain injuries are addressed by the criminal justice system. How does the Welsh Government ensure that the needs of children and young people with these serious conditions are met in the youth justice system here in Wales? And would the Minister consider reviewing the all-Wales youth offending strategy to ensure that this is the case?

Diolch yn fawr, Weinidog. Cyfarfûm yn gynharach heddiw â Chymdeithas Seicolegol Prydain; maent wedi cyhoeddi astudiaeth newydd ar y ffyrdd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn mynd i'r afael ag anghenion plant a phobl ifanc â niwroanableddau, megis anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd ac anhwylderau ar y sbectrum awtistiaeth, neu rai sydd wedi dioddef anafiadau trawmatig i'r ymennydd. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc â'r cyflyrau difrifol hyn yn cael sylw yn y system cyfiawnder ieuenctid yma yng Nghymru? Ac a fyddai'r Gweinidog yn ystyried adolygu'r strategaeth troseddwy'r ifanc i Gymru gyfan er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd?

14:19 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have a number of work streams to deliver improved services for this group of young people, which includes the recent Welsh Government funding allocation announced in relation to child and adolescent mental health services. This included £7.6 million specifically identified for those young people with neurodisability, ADHD and related conditions. On 17 June, the Minister for Education and Skills issued a written statement setting out that he'll be publishing a draft additional learning needs and educational tribunal Wales Bill for consultation before recess. In partnership with the Youth Justice Board, we have a new case management approach, reflecting the complex needs of young people with prolific offending histories. This has adopted a psychology-led way of working with complex young people in youth offending teams.

Mae gennym nifer o ffrydiau gwaith i ddarparu gwell gwasanaethau ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc, sy'n cynnwys y dyraniad cyllid a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Roedd yn cynnwys £7.6 miliwn a glustnodwyd yn benodol ar gyfer pobl ifanc â niwroanableddau, ADHD a chyflyrau cysylltiedig. Ar 17 Mehefin, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad ysgrifenedig yn nodi y bydd yn cyhoeddi'r Bil anghenion dysgu ychwanegol a'r tribiwnlys addysg (Cymru) drafft i ymgynghori yn ei gyloch cyn y toriad. Mewn partneriaeth â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, mae gennym ddull rheoli achosion newydd, sy'n adlewyrchu anghenion cymhleth pobl ifanc â hanes o droseddau cyson. Mae'n cynnwys mabwysiadu dull o weithio drwy ddefnyddio seicoleg gyda phobl ifanc cymhleth mewn timau troseddau ieuencid.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:20 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, one of the key points of the strategy is to have effective community-based alternatives to custody, where this is in the interests of the child, since custodial sentences are expensive and ineffective in reducing the risk of reoffending. Minister, what action is the Welsh Government taking to expand community-based alternatives to custody, please?

Weinidog, un o bwyntiau allweddol y strategaeth yn sicrhau dewisiadau amgen effeithiol yn y gymuned yn lle cadw yn y ddalfa, lle y byddai hynny'n fuddiol i'r plentyn, gan fod dedfrydau carcharol yn ddrud ac yn aneffeithiol o ran lleihau'r risg o aildroseddau. Weinidog, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ehangu dewisiadau eraill yn y gymuned yn lle cadw yn y ddalfa, os gwelwch yn dda?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:20 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, in fact, of course, Wales has achieved a great deal in recent years in reducing the number of first-time entrants into the youth justice system. There's been a 54 per cent reduction for Welsh youth offending teams between the financial years 2010-11 and 2013-14, meaning that fewer young people are coming into the system. Indeed, the latest figures show that, between November 2010 and November 2014, the number of young people in custody attached to Welsh youth offending teams fell by 57 per cent.

Wel, mewn gwirionedd, wrth gwrs, mae Cymru wedi cyflawni llawer iawn yn y blynyddoedd diwethaf o ran lleihau nifer y rhai sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuencid am y tro cyntaf. Gwelwyd gostyngiad o 54 y cant ar gyfer timau troseddau ieuencid yng Nghymru rhwng y blynyddoedd ariannol 2010-11 a 2013-14, sy'n golygu bod llai o bobl ifanc yn dod i mewn i'r system. Yn wir, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos gostyngiad o 57 y cant yn nifer y bobl ifanc yn y ddalfa yn gysylltiedig â thimau troseddau ieuencid yng Nghymru rhwng mis Tachwedd 2010 a mis Tachwedd 2014.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:21 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, this morning I chaired a conference in Neath on psychoactive substances, formerly named 'legal highs'. We had representations there from the police in the area, who were saying that they're encountering many more young people who are turning to criminal activities to fuel their psychoactive substance habit. I know that they're doing a lot of good work in my area through Sands Cymru and Drugaid, but are you looking to roll this awareness and education work out across Wales so that every area of Wales and youth offending teams especially are able to work with other industries and with other bodies to make sure that we understand what is happening in this particular new area?

Weinidog, y bore yma bŵm yn cadeirio cynhadledd yng Nghastell-nedd ar sylweddau seicoweithredol, yr arferid eu galw'n sylweddau anterth cyfreithlon ('legal highs'). Clywsom sylwadau gan yr heddlu yn yr ardal, a oedd yn dweud eu bod yn dod ar draws llawer mwy o bobl ifanc sy'n troi at weithgaredd troseddol i ariannu eu hysfa am sylweddau seicoweithredol. Rwy'n gwybod eu bod yn gwneud llawer o waith da yn fy ardal trwy Sands Cymru a Drugaid, ond a ydych yn bwriadu cyflwyno'r gwaith codi ymwybyddiaeth ac addysgu ledled Cymru fel bod pob ardal o Gymru a thimau troseddau ieuencid yn arbennig yn gallu gweithio gyda sefydliadau a chyrrff eraill i wneud yn siŵr ein bod yn deall yr hyn sy'n digwydd yn y maes newydd penodol hwn?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:22	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, I'm pleased to hear of the good work that the Member refers to in her own region. Clearly, these issues have also been raised, I know, by my colleague the Member for Torfaen in the past—the impact that these substances have had in her own constituency. I think that the police are well aware of the challenges that are under way here, but, certainly, I will reflect on what the Member has said and will have further discussions on the matter with the Youth Justice Board.</p>	<p>Wel, rwy'n falch o glywed am y gwaith da y mae'r Aelod yn cyfeirio ato yn ei rhanbarth ei hun. Yn amlwg, gwn fod y materion hyn wedi cael eu crybwyll hefyd gan fy nghyd-Aelod yr Aelod dros Dorfaen yn y gorffennol—yr effaith y mae'r sylweddau hyn wedi ei chael yn ei hetholaeth hi. Rwy'n credu bod yr heddlu yn ymwybodol iawn o'r heriau sy'n codi, ond yn sicr, byddaf yn ystyried yr hyn y mae'r Aelod wedi'i ddweud, a byddaf yn cael trafodaethau pellach ar y mater gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau</p>	<p>Questions Without Notice from Party Spokespeople</p>	
14:22	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We now move to questions from the party spokespeople. First this afternoon is Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.</p>	<p>Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:22	<p>Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Weinidog, a allwch chi gadarnhau y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn wynebu'r un math o doriadau i'w cyllidebau ar gyfer 2016-17 ac y maen nhw wedi'u hwynebu yn y flwyddyn gyfredol?</p>	<p>Minister, can you confirm that local authorities in Wales will face the same kind of cuts to their budgets for 2016-17 as they faced in the current financial year?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:22	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>I can't confirm anything to do with budgets for 2016-17. We await the UK Government's budget next week. All of the mood music around that budget is depressing, to say the least. It is in that context, of course, that we will move to adopt the budget for this Assembly later this year.</p>	<p>Ni allaf gadarnhau unrhyw beth i'w wneud gyda chyllidebau ar gyfer 2016-17. Rydym yn aros am gyllideb Llywodraeth y DU yr wythnos nesaf. Mae pob argoel y bydd y gyllideb honno'n un ddigalon, a dweud y lleiaf. Byddwn yn mabwysiadu'r gyllideb ar gyfer y Cynulliad yn y cyd-destun hwnnw, wrth gwrs, yn nes ymlaen eleni.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:23	<p>Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Wel, rwyf yn credu, Weinidog, y gallwch chi ragweld y bydd yr un math o bwysau ariannol arnoch chi fel Llywodraeth ac os nad ydych chi'n gallu perswadio'ch cyd Aelodau o'r Cabinet i drosglwyddo arian o'u hadrannau nhw i'ch adran chi, fe fyddan nhw'n wynebu'r un math o doriadau. Felly, pa drafodaethau a ydych chi wedi'u cael gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i'w paratoi nhw ar gyfer y toriadau hynny, yn enwedig yng nghyd-destun adroddiad KPMG?</p>	<p>Well, I do believe, Minister, that you could anticipate that there will be the same kind of financial pressures on you as a Government and if you can't persuade your fellow Members in the Cabinet to transfer funds from their departments to your department, then they will be facing the same kinds of cuts. Therefore, what discussions have you held with local authorities in Wales to prepare them for those cuts, particularly in the context of the KPMG report?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:23	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, I'll send the Member a copy of my speech to the Welsh Local Government Association two weeks ago, where I indicated very strongly that I feared further deep cuts were en route from the UK Conservative Government.</p>	<p>Wel, fe fonaf gopi at yr Aelod o fy araith i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bythefnos yn ôl, pan nodais yn gadarn iawn fy mod yn ofni'r toriadau dwfn pellach a oedd ar y ffordd gan Lywodraeth Geidwadol y Deyrnas Unedig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:23	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Weinidog, nid wyf yn awyddus iawn i dderbyn eich anerchiad chi. Rwy'n ymwybodol iawn o ymateb arweinwyr awdurdodau lleol i'ch anerchiad chi—yn enwedig arweinwyr cynghorau Llafur—a'r hyn a ddywedoch chi yn y gynhadledd honno. Y cwestiwn rwy'n ei ofyn i chi ydy: pa baratodau a ydych chi'n eu gwneud nawr, gydag awdurdodau lleol, ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf yng nghyd-destun yr adroddiad yma rydych chi wedi ei gomisiynu gan KPMG, sy'n dangos bod yna arbedion posibl? Beth ydych chi'n ei wneud i weithio gydag awdurdodau lleol i'w cynorthwyo nhw i wynebu'r sefyllfa honno? Oherwydd beth y mae arweinwyr awdurdodau lleol yn ei ddweud wrthym ni—yn gwbl gywir—yw, yn y tymor byr, mae'n llawer iawn haws i wneud arbedion, ac arbedion sylweddol, yng nghyd-destun cadw'r cynghorau fel y maen nhw nag ydyw i ad-drefnu. Felly, beth a ydych chi'n ei wneud yn y tymor byr? Rydych chi wedi dweud na fydd ad-drefnu'n digwydd tan dymor nesaf y Cynulliad. Beth ydych chi'n ei wneud nawr i weithio gyda nhw i sicrhau bod yr arbedion hynny'n digwydd?</p>	<p>Minister, I'm not very eager to receive your address. I am very aware of the response and reaction of the leaders of local government to your address—particularly the leaders of the Labour councils—to what you said at that conference. But the question I'm asking is this: what preparations are you making now, with local authorities, for next year's budget in the context of the report that you commissioned from KPMG, which demonstrates that there are potential savings to be made? What are you doing to collaborate with local authorities to assist them to face that situation? Because what the leaders of local authorities are telling us, which is quite right, is that, in the short term, it is much easier to make savings, and significant savings, in the context of retaining the councils as they are than it is by reorganising them. So, what are you doing in the short term? You've said there won't be any reorganisation until the next Assembly term. What are you doing now to work with them to ensure that those savings are made?</p>
14:24	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, let me remind the Member that local authorities in Wales have been far better protected against the cuts—</p>	<p>Wel, gadewch i mi atgoffa'r Aelod fod awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cael eu gwarchod yn llawer gwell yn erbyn y toriadau—</p>
14:25	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>That's not the question.</p>	<p>Nid dyna'r cwestiwn.</p>
14:25	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>[Continues.]—that have been coming down from Westminster since 2010, than were councils in England.</p>	<p>[Yn parhau.]—a ddaeth o San Steffan ers 2010, na chynghorau yn Lloegr.</p>
	<p>I had significant discussions with the Welsh Local Government Association at their conference, with individual leaders, about the financial situation that is facing them. I have published the KPMG report, which sets out, in many ways, the potential for local government to find savings in administration if they follow the best practice that is available to them in Rhondda Cynon Taf council and Conwy borough council—very significant savings indeed, to the tune of £151 million per annum. I expect to take these discussions further forward with the Welsh Local Government Association and others in future meetings. Indeed, there's a meeting scheduled in the next week or so, where we will discuss many of these issues.</p>	<p>Cefais drafodaethau arwyddocaol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn eu cynhadledd, gydag arweinwyr unigol, am y sefyllfa ariannol sy'n eu hwynebu. Rwyf wedi cyhoeddi adroddiad KPMG, sy'n nodi, mewn sawl ffordd, y potensial i lywodraeth leol ddod o hyd i arbedion gweinyddol os ydynt yn dilyn yr arfer gorau sydd ar gael iddynt yng nghyngor Rhondda Cynon Taf a chyngor bwrdeistref Conwy—arbedion sylweddol yn wir, sef oddeutu £151 miliwn y flwyddyn. Rwy'n disgwyl datblygu'r trafodaethau hyn ymhellach gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Yn wir, trefnwyd cyfarfod ar gyfer yr wythnos neu ddwy nesaf, lle y byddwn yn trafod nifer o'r materion hyn.</p>
	<p>I think it is only responsible that local government leaders look to what they can do in the context of the KPMG report, which identifies savings that can be made well before any mergers take place.</p>	<p>Rwy'n meddwl mai cyfrifoldeb arweinwyr llywodraeth leol yw edrych i weld beth y gallant ei wneud yng nghyd-destun adroddiad KPMG, sy'n nodi'r arbedion y gellir eu gwneud ymhell cyn i unrhyw uno ddigwydd.</p>
14:26	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson—Peter Black.</p>	<p>Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.</p>

14:26	Peter Black Bywgraffiad Biography Thank you, Presiding Officer. Minister, when you come to persuade people about the case for reorganisation—I think you also did this in your very successful appearance at the WLGA conference—you have said to the councils that there might be further powers devolved to them. Could you outline what your current thinking is in terms of what further powers might be available to reformed councils, following reorganisation?	Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, pan ddaw'n fater o ddwyn perswâd ar bobl ynglŷn â'r achos dros ad-drefnu—credaf eich bod yn gwneud hyn hefyd yn eich ymddangosiad llwyddiannus iawn yng nghynhadledd CLILC—rydych wedi dweud wrth y cynghorau y gallai mwy o bwerau gael eu datganoli iddynt. A allwch amlinellu beth yw eich syniadau cyfredol o ran pa bwerau ychwanegol y gallai fod ar gael i gynghorau diwygiedig, yn dilyn ad-drefnu?	Senedd.tv Fideo Video
14:26	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Well, the White Paper that we published in February, 'Reforming Local Government: Power to Local People', indicated a number of ways in which we could strengthen the powers to local government, for example, creating the power of general competence for local authorities, for which there has been a very favourable reception, let me say. We also indicate that it might be possible to consider, in the future, areas such as public health—that was indicated in that White Paper. But all of those changes, of course, would depend on us having a structure for local government in Wales that we regarded as fit for the future.	Wel, roedd y Papur Gwyn a gyhoeddwyd gennym ym mis Chwefror, 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol', yn nodi nifer o ffyrdd y gallem gryfhau pwerau i lywodraeth leol, er enghraifft, creu pŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau lleol, a gafodd dderbyniad ffafriol iawn, os caf ddweud. Rydym hefyd yn nodi y gallai fod yn bosibl ystyried meysydd fel iechyd y cyhoedd yn y dyfodol—nodwyd hynny yn y Papur Gwyn. Ond mae pob un o'r newidiadau hynny, wrth gwrs, yn dibynnu ar sicrhau bod gennym strwythur ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru y byddem yn ei hystyried yn addas ar gyfer y dyfodol.	Senedd.tv Fideo Video
14:27	Peter Black Bywgraffiad Biography Thank you for that answer, Minister. Of course, in the White Paper, you also effectively parked the issue of local government finance for the time being. I'm just interested, have you given any thought to ways of attracting alternative funding to local authorities, and not necessarily just additional taxation, but other income streams that they might be able to tap into following this reorganisation process?	Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Wrth gwrs, yn y Papur Gwyn, fe roesoch fater cyllido llywodraeth leol o'r neilltu am y tro i bob pwrpas. Mae gennyf ddi-ddordeb mewn gwybod a ydych wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i ffyrdd o ddenu cyllid amgen i awdurdodau lleol, ac nid o reidrydd trethiant ychwanegol yn unig, ond ffyrddiau incwm eraill y gallent fanteisio arnynt yn dilyn y broses ad-drefnu?	Senedd.tv Fideo Video
14:27	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography I intend to work with local government to look at the future of finance for local government services in the short to medium term, and that will, obviously, have to consider ways of raising additional revenue from other sources. But I think much of the discussion that we will have to have in the future will take place after the 2016 election and I'm not going to speculate beyond that.	Rwy'n bwriadu gweithio gyda llywodraeth leol i edrych ar ddyfodol trefniadau ariannol ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol yn y tymor byr i ganolig, a bydd yn rhaid i hynny gynnwys ystyried ffyrdd o godi referniw ychwanegol o ffynonellau eraill, wrth gwrs. Ond rwy'n meddwl y cynhelir llawer o'r drafodaeth y bydd yn rhaid ei chael yn y dyfodol ar ôl etholiad 2016 ac nid wyf am ddamcaniaethu y tu hwnt i hynny.	Senedd.tv Fideo Video
14:27	Peter Black Bywgraffiad Biography I'm sure we will have a very interesting discussion after the 2016 election, Minister—	Rwy'n siŵr y cawn drafodaeth ddiddorol iawn ar ôl etholiad 2016, Weinidog—	Senedd.tv Fideo Video
14:28	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography I'm not sure that we will.	Nid wyf yn siŵr am hynny.	Senedd.tv Fideo Video
14:28	Peter Black Bywgraffiad Biography If I am here; yes. [Laughter.] In terms of the issues around council tax and business rates, which you did park in that White Paper, are there not immediate things that could be done with that to help local authorities? I'm thinking of innovative funding mechanisms, such as tax increment financing, which enables local authorities to borrow against business rates from future investment and devolving business rates. Are you likely to be looking at that end when you come to draft your next local government Bill?	Cawn, os byddaf yma. [Chwerthin.] O ran y materion sy'n ymwneud â'r dreth gyngor ac ardrethi busnes, a osodwyd heibio gennych yn y Papur Gwyn, onid oes pethau y gellid eu gwneud ar unwaith ynglŷn â hynny i helpu awdurdodau lleol? Rwy'n meddwl am ddulliau ariannu arloesol, fel ariannu drwy gynyddrannau treth, sy'n galluogi awdurdodau lleol i fenthycu yn erbyn ardrethi busnes o fuddsoddiadau yn y dyfodol a datganoli ardrethi busnes. A ydych yn debygol o edrych ar hynny pan fyddwch yn drafftio eich Bil llywodraeth leol nesaf?	Senedd.tv Fideo Video

- 14:28 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, the Member is trying to tempt me down a path I'm not sure I want to go at this present time, but certainly we have come out with a number of innovative funding schemes in co-operation with local government that he will be familiar with. Clearly, we have indicated that we are open to looking at innovative alternative funding methods in local government, and indeed elsewhere, and we will return to that subject, I'm sure, in the future.
- Wel, mae'r Aelod yn ceisio fy nhemtio ar hyd llwybr nad wyf yn siŵr fy mod am fynd ar hyd-ddo ar hyn o bryd, ond yn sicr rydym wedi cyflwyno nifer o gynlluniau ariannu arloesol y bydd yn gyfarwydd â hwy mewn cydweithrediad â llywodraeth leol. Yn amlwg, rydym wedi nodi ein bod yn barod i edrych ar ddulliau cyllido amgen arloesol mewn llywodraeth leol, ac yn wir mewn mannau eraill, a byddwn yn dychwelyd at y pwnc hwnnw yn y dyfodol, rwy'n siŵr.
- 14:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Now, we move to the Welsh Conservatives' spokesperson—Janet Finch-Saunders.
- Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Janet Finch-Saunders.
- 14:29 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Will the Minister make a statement on what discussions have taken place with himself or his department and local authority leaders and chief executives following the publication of the local government reorganisation maps on 17 June? Are there discussions ongoing with all authorities?
- Diolch i chi, Lywydd. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â pha drafodaethau y mae ef neu ei adran wedi'u cael gydag arweinwyr a phrif weithredwyr awdurdodau lleol yn dilyn cyhoeddi'r mapiau ad-drefnu llywodraeth leol ar 17 Mehefin? A oes trafodaethau ar y gweill gyda'r holl awdurdodau?
- 14:29 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Certainly, I attended the Welsh Local Government Association conference following the publication of the map, and I've held some informal conversations with a number of local government leaders there and I've subsequently met senior representatives of Denbighshire and Conwy councils to discuss a number of aspects of what we've talked about in respect of the map. I would expect to meet other leaders in due course.
- Yn sicr, mynychais gynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dilyn cyhoeddi'r map, a chefais rai sgorsiau anffurfiol gyda nifer o arweinwyr llywodraeth leol yno. Wedi hynny, cyfarfûm ag uwch-gynrychiolwyr o gyngor Sir Ddinbych a chyngor Conwy i drafod nifer o agweddau ar yr hyn rydym wedi bod yn siarad amdano mewn perthynas â'r map. Rwy'n disgwyl cyfarfod ag arweinwyr eraill maes o law.
- 14:29 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. The question frequently raised with me is, 'How much is it going to cost?' Now, you stated at the time—on 17 June—that these costings are yet to be worked through. In committee evidence, you indicated that the only place money was to be found was by reducing the RSG overall, therefore taking the money from local authorities as a central pool for the mergers. How have you consulted with all local authorities who will now be currently working on their medium-term financial planning and juggling with their own resources on something as vitally important as this?
- Diolch yn fawr, Weiniog. Y cwestiwn sy'n cael ei ofyn i mi'n aml yw, 'Faint y mae'n mynd i gostio?' Nawr, fe ddywedoch ar y pryd—ar 17 Mehefin—fod y costau eto i'w cyfrifo. Mewn tystiolaeth i'r pwyllgor, fe nodoch mai'r unig ffordd o ddod o hyd i arian yw drwy leihau'r grant cynnal refeniw yn gyffredinol, gan gymryd yr arian gan awdurdodau lleol felly, fel cronfa ganolog ar gyfer yr uno. Sut yr aethoch ati i ymgynghori â phob awdurdod lleol a fydd yn awr yn gweithio ar eu cynlluniau ariannol ar gyfer y tymor canolig ac yn jyglo'u hadnoddau eu hunain ar ryw beth mor hanfodol bwysig â hyn?
- 14:30 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- If we are to proceed, following the passage of the Bill in the next Assembly, then, clearly, we will need to produce our own assessment, and we will do that at the time of publication of the draft Bill, of a regulatory impact assessment. That will, of course, look at costs. There have been a number of costs that have been brought forward by a number of players in this debate, but, in terms of medium-term financial planning, councils need to proceed on the basis of the current boundaries; new boundaries, of course, will be a matter for discussion as we approach legislation post 2016.
- Os ydym am symud ymlaen, yn dilyn taith y Bil yn y Cynulliad nesaf, yna mae'n amlwg y bydd angen i ni gynhyrchu ein hasesiad effaith rheoleiddol ein hunain, a byddwn yn gwneud hynny ar adeg cyhoeddi'r Bil drafft. Bydd hwnnw, wrth gwrs, yn edrych ar gostau. Cyflwynwyd nifer o gostau gan nifer o'r rhai sy'n rhan o'r ddaidl hon, ond o ran cynlluniau ariannol y tymor canolig, mae angen i gynghorau fwrw ymlaen ar sail y ffiniau presennol; bydd ffiniau newydd, wrth gwrs, yn fater i'w drafod wrth i ni ymdrin â'r ddeddfwriaeth ar ôl 2016.

14:31 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you again, Minister. Council tax: you've already rejected a Welsh Conservative amendment to the Stage 2 Bill that would see local authorities able to vary council tax, stating that this is a matter for transition committees and authorities themselves, and that you already have the power to do this. Obviously, I'm talking in terms of council tax harmonisation and being able to reduce where needed. Our committee pointed out, however, that this is only to reduce council tax levels in one part of an authority, and that is after the council tax is prescribed for that year. Will your second Bill include these powers in order to safeguard against further council tax increases when council tax harmonisation is required?

Diolch i chi unwaith eto, Weinidog. Y dreth gyngor: rydych eisoes wedi gwrthod gwelliant y Ceidwadwyr Cymreig i'r Bil Cyfnod 2 a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i amrywio'r dreth gyngor, gan nodi bod hwn yn fater i bwyllgorau pontio a'r awdurdodau eu hunain, a bod gennych y pŵer i wneud hyn eisoes. Yn amlwg, rwy'n sôn am gysoni'r dreth gyngor a gallu i'w lleihau lle bo angen. Fodd bynnag, tynnodd ein pwyllgor sylw at y ffaith mai i ostwng lefelau'r dreth gyngor mewn un rhan o awdurdod yn unig y byddai hyn yn digwydd, a hynny ar ôl i'r dreth gyngor gael ei phennu ar gyfer y flwyddyn honno. A fydd eich ail Fil yn cynnwys y pwerau hyn er mwyn diogelu rhag codiadau pellach yn y dreth gyngor pan fydd angen cysoni'r dreth gyngor?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:31 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member, I think, will have to wait and see when we bring forward our Bill in the autumn—our draft Bill. We are clear about the position that we've adopted in respect of council tax harmonisation. We're conscious of the powers that we already have, which I explained to the Member and others at committee during the discussions on the current Bill. But I think that these are amongst the issues that our draft Bill, which we will publish probably in November, will have to consider.

Rwy'n credu y bydd yn rhaid i'r Aelod aros i weld pan fyddwn yn cyflwyno ein Bil yn yr hydref—ein Bil drafft. Rydym yn glir ynghylch y safbwynt rydym wedi ei fabwysiadu mewn perthynas â chysoni'r dreth gyngor. Rydym yn ymwybodol o'r pwerau sydd gennym eisoes, fel yr eglurais wrth yr Aelodau a phobl eraill yn y pwyllgor yn ystod y trafodaethau ar y Bil cyfredol. Ond rwy'n credu bod y rhain ymhlith y materion y bydd yn rhaid i'r Bil drafft, a gyhoeddir ym mis Tachwedd mae'n debyg, eu hystyried.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Trais Domestig

Domestic Violence

14:32 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â thrais domestig? OAQ(4)0577(PS)

3. Will the Minister make a statement on Welsh Government action to tackle domestic violence? OAQ(4)0577(PS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:32 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I provided a report to the National Assembly on the Welsh Government's action to tackle violence against women, domestic abuse and sexual violence in my oral statement yesterday.

Cyflwynais adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fy natganiad llafar ddoe.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:32 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, Minister. The debate of the Health and Social Care Committee's report on its inquiry into new psychoactive substances highlighted the fact that the scale of the problem regarding these substances is underreported. Minister, there are reports of young people attacking parents under the influence of these new psychoactive substances, and evidence would suggest that many parents are not reporting these incidents. Minister, I realise that this is a cross-cutting issue with health; can you tell me what joint initiatives are planned between your two departments to educate families in how to tackle these issues?

Diolch i chi am hynny, Weinidog. Roedd dadl adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd yn tynnu sylw at y ffaith fod y broblem gyda'r sylweddau hyn wedi ei thangofnodi. Weinidog, ceir adroddiadau am bobl ifanc yn ymosod ar rieni o dan ddylanwad y sylweddau seicoweithredol newydd hyn, a byddai tystiolaeth yn awgrymu nad yw llawer o rieni yn rhoi gwybod am y digwyddiadau hyn. Weinidog, rwy'n sylweddoli bod hwn yn fater trawsbynciol gydag iechyd; a allwch ddweud wrthyf pa fentrau ar y cyd sy'n cael eu cynllunio rhwng eich dwy adran i addysgu teuluoedd ar sut i fynd i'r afael â'r problemau hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:33 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm grateful to my colleague the Member for Neath, and clearly this is a subject of interest to a number of Members. Our substance misuse delivery plan for 2013-15 included a number of specific actions to raise awareness of, and improve our ability to respond to, new psychoactive substances. These include producing substance misuse literature on a range of substance misuse issues, including the new psychoactive substances. Clearly, parents and carers play an important role in educating children about the risks of these substances and, in order for parents to become more aware of those issues, we've developed a publicity campaign, including leaflets and posters. We also support the SchoolBeat website, which has a dedicated area specifically for parents that outlines the dangers of new psychoactive substances, not only explaining the effects, but also the legislation surrounding its use.
- Diolch i fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Gastell-nedd, ac yn amlwg mae hwn yn bwnc sydd o ddiddordeb i nifer o Aelodau. Roedd ein cynllun cyflawni ar gamddefnyddio sylweddau ar gyfer 2013-15 yn cynnwys nifer o gamau gweithredu penodol i godi ymwybyddiaeth o sylweddau seicoweithredol newydd, a gwella ein gallu i ymateb iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu llenyddiaeth ar ystod o faterion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys sylweddau seicoweithredol newydd. Yn amlwg, mae rhieni a gofalwyr yn chwarae rhan bwysig yn addysgu plant am beryglon y sylweddau hyn ac er mwyn i rieni ddod yn fwy ymwybodol o'r materion hynny, rydym wedi datblygu ymgyrch gyhoeddusrwydd, gan gynnwys taflenni a phosteri. Rydym hefyd yn cefnogi gwefan SchoolBeat, gydag adran bwrpasol ar gyfer rhieni sy'n amlinellu peryglon sylweddau seicoweithredol newydd, nid yn unig o ran esbonio'r effeithiau, ond hefyd y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'u defnydd.
- 14:34 **Janet Haworth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, as you will know, stalking has recently been made a criminal offence. Victims of stalking come from all walks of life and stalkers can be extremely dangerous. What discussions have you had with the police and crime commissioners in Wales to provide a public information campaign to alert the Welsh public to the dangers of stalking?
- Weinidog, fel y gwyddoch, yn ddiweddar gwnaed stelcio yn drosedd. Gall dioddefwyr stelcio ddod o bob math o gefndir a gall stelcwyr fod yn hynod o beryglus. Pa drafodaethau a gawsoch gyda'r comisiynwyr heddlu a throseddu yng Nghymru ar ddarparu ymgyrch wybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru ynghylch peryglon stelcio?
- 14:34 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think the Member will be aware, of course, that criminal law is not devolved to Wales and the first responsibility in this regard rests with the UK Government, with the Home Office, and with the Department of Justice, of course. I've had a wide range of discussions with the chief constables and with the police and crime commissioners about a range of issues concerned with violence against women, domestic abuse and other crimes, and we will continue to have those discussions.
- Rwy'n credu y bydd yr Aelod yn ymwybodol, wrth gwrs, nad yw cyfraith droseddol wedi ei datganoli i Gymru ac mae'r cyfrifoldeb cyntaf yn y cyswllt hwn yn nwylo Llywodraeth y DU, gyda'r Swyddfa Gartref, a'r Adran Gyfiawnder, wrth gwrs. Rwyf wedi cael amryw o drafodaethau gyda'r prif gwnstablaiad a'r comisiynwyr heddlu a throseddu am ystod o faterion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a throseddau eraill, a byddwn yn parhau i gael y trafodaethau hynny.
- 14:35 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, clearly, it's a year since the introduction of the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill, and, now the Bill is enacted, one of the things that many young people will be looking forward to is receiving healthy relationships education in their schools. I wonder if you can give us an idea of the timeline by which you anticipate that that will be implemented.
- Weinidog, yn amlwg, mae'n flwyddyn ers cyflwyno Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) a gan fod y Bil bellach wedi ei ddeddfu, un o'r pethau y bydd llawer o bobl ifanc yn edrych ymlaen ato yw cael addysg ar berthnasoedd iach yn eu hysgolion. Tybed a allwch roi syniad o'r llinell amser a ragwelwch ar gyfer rhoi hynny ar waith.
- 14:35 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think, Llywydd, I gave answers on this yesterday in the Chamber, and explained the development plans for the work that has been carried out by Welsh Women's Aid and others, and the guidance that we're intending to bring in. It is likely that we will move to consultation on that during the course of the 2015-16 academic year, and should be able to produce more fully formed guidance subsequently.
- Llywydd, rwy'n meddwl fy mod wedi rhoi atebion ar hyn yn y Siambr ddoe, ac wedi egluro'r cynlluniau datblygu ar gyfer y gwaith a wnaed gan Cymorth i Fenywod Cymru ac eraill, a'r canllawiau y bwriadwn eu cyflwyno. Mae'n debygol y byddwn yn ymgynghori ar hynny yn ystod y flwyddyn academaidd 2015-16, a dylem allu llunio canllawiau llawnach ar ôl hynny.

14:36

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On Monday, I visited Ammanford's Women's Aid. It's just one of hundreds of Women's Aid organisations that protect women and children and victims of domestic abuse. But, elsewhere in my region, that service is under threat. Ceredigion County Council is currently consulting on cutting its funding to West Wales Women's Aid, and that, in my opinion, puts lives at risk. I ask you, Minister, as a matter of urgency, if you would investigate the situation in Ceredigion, and if you will also make it clear to every single council in Wales about their legal obligation to children and adult victims of domestic abuse?

Ddydd Llun, ymwelais â grŵp Cymorth i Fenywod Rhydaman. Mae'n un o gannoedd o sefydliadau Cymorth i Fenywod sy'n diogelu menywod a phlant a dioddefwyr cam-drin domestig. Ond mewn mannau eraill yn fy rhanbarth, mae'r gwasanaeth dan fygythiad. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymgynghori ar dorri ei gyllid i Fenywod Gorllewin Cymru ar hyn o bryd, ac mae hynny, yn fy marn i, yn rhoi bywydau mewn perygl. Weinidog, gofynnaf i chi, fel mater o frys, a wnewch chi ymchwilio i'r sefyllfa yng Ngheredigion, ac a wnewch chi ei gwneud yn glir i bob cyngor yng Nghymru hefyd beth yw eu rhwymedigaeth gyfreithiol i blant ac oedolion sydd wedi dioddef cam-drin domestig?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:36

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My colleague raises a number of important points there in respect of the support for local organisations working with survivors of violence against women, domestic abuse and sexual violence. I think we have, obviously, managed to increase the money that we are putting into partner organisations to deliver services to victims by around 10 per cent over this last year, and we want to continue, obviously, to see that strong services exist around Wales. Can I suggest that my colleague the regional Member for Mid and West Wales writes to me with more detail of her concerns?

Mae fy nghyd-Aelod yn crybwyll nifer o bwyntiau pwysig o ran y gefnogaeth i sefydliadau lleol sy'n gweithio gyda goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rwy'n credu ein bod wedi llwyddo i sicrhau cynnydd o 10 y cant yn yr arian rydym yn ei roi i sefydliadau partner allu darparu gwasanaethau i ddiodeffwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac yn amlwg, rydym am barhau i sicrhau bod gwasanaethau cadarn yn bodoli ledled Cymru. A gaf fi awgrymu bod fy nghyd-Aelod, yr Aelod rhanbarthol dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, yn ysgrifennu ataf gyda mwy o fanylion ynglŷn â'i phryderon?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cymuned y Lluoedd Arfog

The Armed Forces Community

14:37

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y pecyn o gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i gymuned y lluoedd arfog yng Nghymru? OAQ(4)0590(PS)

4. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's package of support for the armed forces community in Wales? OAQ(4)0590(PS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The package of support outlines the commitments and support on devolved matters that are specific and tailored to the armed forces community in Wales.

Mae'r pecyn cymorth yn amlinellu'r ymrwymadau a'r gefnogaeth ar faterion datganoledig sy'n benodol ac wedi'u teilwra ar gyfer cymuned y lluoedd arfog yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful to the Minister for that response. With significant proportions of the armed forces community in Wales suffering from post-traumatic stress disorder, depression, and other forms of mental ill health, access to adequate support services is clearly vital. In a recent conversation with Councillor Paul Hinge, armed forces champion for Ceredigion, he informed me that he had attended no less than four funerals since January of this year for veterans in Wales who had taken their own lives following periods of mental ill health. The Change Step Wales peer mentoring and advice service has been widely praised for the programme of peer support, training opportunities, and, indeed, signposting to relevant health and welfare services, but it is currently severely constrained by funding. Minister, what more can the Welsh Government do, in partnership with the Ministry of Defence, to ensure that armed forces personnel and veterans in Wales have access to the support services that they both need and deserve?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb. Gyda chyfrannau sylweddol o gymuned y lluoedd arfog yng Nghymru yn dioddef o anhwylder straen wedi trawma, iselder, a mathau eraill o salwch meddwl, mae'n amlwg fod mynediad at wasanaethau cymorth digonol yn hanfodol. Mewn sgwrs ddiweddar gyda'r Cynghorydd Paul Hinge, hyrwyddwr y lluoedd arfog ar gyfer Ceredigion, dywedodd wrthyf ei fod ers mis Ionawr wedi mynychu pedwar angladd cyn-filwr yng Nghymru a oedd wedi cyflawni hunanladdiad yn sgil cyfnodau o salwch meddwl. Mae'r gwasanaeth mentora a chynngor gan gymheiriaid, Change Step Cymru, wedi'i ganmol yn eang ar ei raglen o gymorth gan gymheiriaid, cyfleoedd hyfforddi, ac yn wir, y modd y mae'n cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles perthnasol, ond mae ei gyllid wedi ei gyfyngu'n ddifrifol. Weinidog, beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud, mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, i sicrhau bod personél a chyn-filwyr y lluoedd arfog yng Nghymru yn cael mynediad at y gwasanaethau cymorth y maent yn eu haeddu a'u hangen?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think the Member does raise an important point, and I'm sure many of us have had former members of the armed services come to us in our surgeries with a series of issues, sometimes including PTSD. I think we can be proud of what we have done in relation to mental health services for veterans in Wales. Veterans NHS Wales, of course, provides dedicated veterans therapists in each local health board, and is the only national service for veterans of its kind in the United Kingdom. The Welsh Government provides annual funding of £485,000 to Veterans NHS Wales, and, since the service launched in April 2010, they have received over 1,000 referrals.

Rwy'n credu bod yr Aelod yn codi pwynt pwysig, ac rwy'n siŵr fod llawer ohonom wedi gweld cyn-aelodau o'r lluoedd arfog yn ein cymorthfeydd yn sôn am gyfres o faterion, gan gynnwys anhwylder straen wedi trawma o bryd i'w gilydd. Rwy'n credu y gallwn fod yn falch o'r hyn rydym wedi ei wneud mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl i gyn-filwyr yng Nghymru. Mae GIG Cymru i Gyn-filwyr, wrth gwrs, yn darparu therapyddion pwrpasol ar gyfer cyn-filwyr ym mhob bwrdd iechyd lleol, a hwn yw'r unig wasanaeth cenedlaethol o'i fath ar gyfer cyn-filwyr yn y Deyrnas Unedig. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid blynyddol o £485,000 i GIG Cymru i Gyn-filwyr, ac ers lansio'r gwasanaeth ym mis Ebrill 2010, maent wedi derbyn dros 1,000 o atgyfeiriadau.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:39

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, can I ask you what consideration you have given to undertaking a review of the armed forces community covenants across Wales? I know that there's an annual report that is produced, but I do think that there are further opportunities for good practice to be rolled out across Wales. It is very clear that the armed forces community covenants are working very well in some local authority areas, and less well in others. What consideration has the Welsh Government given to the establishment of a post of a commissioner for the armed forces in Wales in order that armed forces families can be at the very heart of decision making by local authorities and other parts of the public sector?

Weinidog, a gaf fi ofyn i chi pa ystyriaeth a roesoch i gynnal adolygiad o gyfamodau cymunedol y lluoedd arfog ledled Cymru? Rwy'n gwybod bod adroddiad blynyddol yn cael ei gynhyrchu, ond rwy'n credu bod cyfleoedd pellach ar gael i gyflwyno arfer da ledled Cymru. Mae'n amlwg iawn fod cyfamodau cymunedol y lluoedd arfog yn gweithio'n dda iawn yn rhai o ardaloedd yr awdurdodau lleol, a heb fod cystal mewn ardaloedd eraill. Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i sefydlu swydd comisiynydd ar gyfer y lluoedd arfog yng Nghymru er mwyn i deuluoedd y lluoedd arfog fod yn ganolog i broses awdurdodau lleol a rhannau eraill o'r sector cyhoeddus o wneud penderfyniadau?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:40

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I say, Llywydd, that all 22 local authorities, in fact, have signed a community covenant showing their commitment to the armed forces community and we have been involved in holding armed forces champions' events? I've attended two since I've had the responsibility for this area. These are held to bring together everyone who holds that role in local authorities across Wales precisely to share information and good practice and we've seen some very good examples of that work being undertaken. Those events are attended as well by the 160th Infantry Brigade and by the Royal British Legion. I think a very significant amount of good practice is available and is undertaken in Wales. In respect of the armed forces commissioner, I'm aware of the work that's been done in other parts of the UK in this area. This is something that we will continue to keep under review.

A gaf fi ddweud, Lywydd, fod pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, mewn gwirionedd, wedi llofnodi cyfamodau cymunedol yn dangos eu hymrwymiad i gymuned y lluoedd arfog, ac rydym wedi bod yn rhan o'r gwaith o gynnal digwyddiadau hyrwyddwyr y lluoedd arfog? Rwyf wedi mynychu dau ers i mi gael y cyfrifoldeb am y maes hwn. Cynhelir y rhain er mwyn dod â phawb sy'n cyflawni'r rôl mewn awdurdodau lleol ledled Cymru at ei gilydd yn unswydd i rannu gwybodaeth ac arfer da, ac rydym wedi gweld rhai enghreifftiau da iawn o'r gwaith a wneir. Mynychir y digwyddiadau hyn hefyd gan Frigâd 160 (Cymru) a'r Lleng Brydeinig Frenhinol. Rwy'n credu bod cryn dipyn o arfer da ar gael ac yn cael ei gyflawni yng Nghymru. O ran comisiynydd y lluoedd arfog, rwy'n ymwybodol o'r gwaith sydd wedi cael ei wneud mewn rhannau eraill o'r DU yn y maes hwn. Mae'n fater y byddwn yn parhau i gadw llygad arno.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:41

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, could you outline what progress you've made on financing education and training assistance as part of the support for veterans? Could you tell us how successful it's been in opening up access to education and training, and are you happy with the amount currently being allocated?

Weinidog, a wnewch chi amlinellu pa gynnydd rydych wedi ei wneud ar ariannu addysg a chymorth hyfforddi fel rhan o'r gefnogaeth i gyn-filwyr? A allwch ddweud wrthym pa mor llwyddiannus y mae wedi bod o ran agor mynediad at addysg a hyfforddiant ac a ydych yn fodlon ar y swm sy'n cael ei ddyrannu ar hyn o bryd?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:41	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>I think, in general terms, the support that we provide to veterans has been very much welcomed by the Royal British Legion and others. I am not aware of any specific problems in the area that the Member highlights. If he is aware of any, perhaps he might write to me, but, as far as I can see, our education and training services are delivering for veterans.</p>	<p>Yn gyffredinol, rwy'n meddwl bod y gefnogaeth a ddarparwn i gyn-filwyr wedi cael ei groesawu'n fawr gan y Llang Brydeinig Frenhinol ac eraill. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw broblemau penodol yn y maes y mae'r Aelod yn tynnu sylw ato. Os yw'n ymwybodol o unrhyw broblemau, efallai y gallai ysgrifennu ataf, ond hyd y gwelaf, mae ein gwasanaethau addysg a hyfforddiant yn cyflawni ar gyfer cyn-filwyr.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:41	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Question 5, OAQ(4)0581(PS), is withdrawn. Question 6—Janet Finch-Saunders.</p>	<p>Tynnwyd cwestiwn 5, OAQ (4) 0581 (PS), yn ôl. Cwestiwn 6—Janet Finch-Saunders.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	The Local Democracy and Boundary Commission for Wales	
14:41	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p><i>6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru? OAQ(4)0591(PS)</i></p>	<p><i>6. Will the Minister make a statement on the work of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales? OAQ(4)0591(PS)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:42	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>The role of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales is to keep local government areas and the electoral arrangements of principal areas in Wales under review and make proposals for changes to Welsh Ministers.</p>	<p>Rôl Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yw cadw ardaloedd llywodraeth leol a threfniadau etholiadol prif ardaloedd yng Nghymru dan adolygiad a gwneud cynigion ar gyfer newidiadau i Weinidogion Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:42	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p>Okay. Despite your earlier comments that this map is not the final decision, do you still intend to direct the boundary commission to start the reviews of the new authorities once the Local Government (Wales) Bill, of course, has passed later on this year, and, if so, what formal consultation will take place with all relevant stakeholders to include all members within our communities?</p>	<p>Iawn. Er gwaethaf eich sylwadau cynharach nad yw'r map wedi'i benderfynu'n derfynol, a ydych yn dal i fwriadu cyfarwyddo'r comisiwn ffiniau i gychwyn ar yr adolygiadau o'r awdurdodau newydd ar ôl pasio'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) yn nes ymlaen eleni, ac os felly, pa ymgynghoriad ffurfiol a gynhelir gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i gynnwys yr holl aelodau yn ein cymunedau?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:42	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, I think the Member was present when we discussed the Bill last week in committee and will be aware of our determination to move forward with the review by the commission. We listened to the commission's concerns regarding the initial consultation process for the electoral arrangements reviews and tabled amendments to the Local Government (Wales) Bill in accord with what the committee itself had said. The committee, of course, supported those amendments to remove the requirement for an initial consultation prior to the publication of draft proposals. This will mean, of course, that the commission will be able to undertake timely reviews.</p>	<p>Wel, rwy'n meddwl bod yr Aelod yn bresennol pan oeddem yn trafod y Bil yn y pwyllgor yr wythnos diwethaf, a bydd yn ymwybodol ein bod yn benderfynol o symud ymlaen gyda'r adolygiad gan y comisiwn. Fe wrandawom ar bryderon y comisiwn ynghylch y broses ymgynghori gychwynnol ar gyfer adolygu'r trefniadau etholiadol ac fe gyflwynwyd gwelliannau i Fil Llywodraeth Leol (Cymru) yn unol â'r hyn roedd y pwyllgor ei hun wedi ei ddweud. Wrth gwrs, cefnogodd y pwyllgor y gwelliannau hynny i gael gwared ar y gofyniad am ymgynghoriad cychwynnol cyn cyhoeddi'r cynigion drafft. Bydd hyn yn golygu, wrth gwrs, y bydd y comisiwn yn gallu cynnal adolygiadau amserol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

'Good Food for All'

'Good Food for All'

- 14:43 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
7. Beth all y Gweinidog ei wneud i annog pob awdurdod lleol i ymgysylltu ag agenda 'Good Food for All' y Sefydliad Materion Cymreig? OAQ(4)0592(PS)
7. What can the Minister do to encourage all local authorities to engage with the Institute for Welsh Affairs's Good Food for All agenda? OAQ(4)0592(PS)
- 14:43 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
I note and welcome the Institute for Welsh Affairs' recent Senedd paper 'Good Food for All'. All public services should consider how they address the issues the paper raises.
Rwy'n nodi ac yn croesawu papur Seneddol diweddar y Sefydliad Materion Cymreig, 'Good Food for All'. Dylai pob gwasanaeth cyhoeddus ystyried yn awr sut y maent yn mynd i ymateb i'r materion y mae'r papur yn eu nodi.
- 14:43 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, Minister. Given the level of diet-related disease in our country and the obligations under the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, what can we do to encourage all local authorities to take seriously proposal 3 in the paper, which is to get all schools delivering Food for Life kitemarks? There's a huge amount of work that has been done by Gwynedd to ensure that they source their food locally, but, obviously, then there's a further step, which is to ensure that all people are enjoying the food. I know that there's been work done by the Food Dudes scheme up in Denbighshire, which I visited with Ann Jones, and that's been very successful in getting pupils of all age groups, including in special schools, to eat their fruit and vegetables. This is such an important agenda, I wondered if it's possible to get a cluster of local authorities and schools together to see how they can take this agenda forward.
Diolch yn fawr, Weinidog. O ystyried lefelau afiechyd cysylltiedig â deiet yn ein gwlad a'r rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, beth y gallwn ei wneud i annog pob awdurdod lleol i fod o ddirif ynghylch cynnig 3 y papur, sef sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno nodau barcud Food for Life? Mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud gan Wynedd i sicrhau eu bod yn prynu bwyd o darddiad lleol, ond yn amlwg, mae yna gam pellach, sef sicrhau bod pob person yn mwynhau'r bwyd. Gwn fod gwaith wedi ei wneud gan y cynllun Food Dudes yn Sir Ddinbych, yr ymwelais ag ef gydag Ann Jones, ac mae hwnnw wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran cael disgyblion o bob grŵp oedran, gan gynnwys disgyblion mewn ysgolion arbennig, i fwyta eu ffrwythau a'u llysiau. Mae hon yn agenda mor bwysig, roeddwn yn meddwl tybed a yw'n bosibl dod â chlwstwr o awdurdodau lleol ac ysgolion at ei gilydd i weld sut y gallant symud yr agenda hon yn ei blaen.
- 14:44 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Llywydd, I think technically this is a matter for the Minister for Education and Skills, rather than myself. But let me just say that the Healthy Eating in Schools (Nutritional Standards and Requirements) (Wales) Regulations 2013 state the type of food that can and can't be provided in schools. These include serving only healthy drinks and increasing the availability of fruit and vegetables.
Lywydd, rwy'n meddwl mai mater i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yw hyn yn dechnegol, yn hytrach nag i mi. Ond gadewch i mi ddweud bod Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 yn datgan pa fath o fwyd y gellir ac na ellir ei ddarparu mewn ysgolion. Maent yn cynnwys gweini diodydd iach yn unig a chynyddu argaeledd ffrwythau a llysiau.
Encouraging local sourcing of food and drink, of course, is a priority for the Welsh Government, and contracting authorities are encouraged to follow the food procurement route planner and food charter on Sell2Wales when they let food contracts. I understand that the national procurement service is currently in the final stages of developing its food strategy ahead of procuring food on behalf of the Welsh public sector, early in 2016. The national procurement service is engaged with all key stakeholders, including local authorities, the NHS, higher and further education and, indeed, Natural Resources Wales.
Wrth gwrs, mae annog defnyddio bwyd a diod o darddiad lleol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac anogir awdurdodau contractio i ddilyn y canllaw cynllunio caffael bwyd a'r siarter bwyd ar GwerthwchiGymru pan fyddant yn gosod contractau bwyd. Deallaf fod y gwasanaeth caffael cenedlaethol ar hyn o bryd yn y camau olaf o ddatblygu ei strategaeth fwyd cyn caffael bwyd ar ran y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn gynnar yn 2016. Mae'r gwasanaeth caffael cenedlaethol yn ymwneud â'r holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, y GIG, addysg uwch ac addysg bellach ac yn wir, Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 14:45 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, the Food for Life partnership promotes healthy eating and awards bronze, silver and gold catering marks. Catering-marked meals are served by 75 per cent of London boroughs and eight Scottish local authorities. I wonder whether you could tell me what the Welsh Government is doing to encourage local authorities to adopt that kind of agenda.
Weinidog, mae partneriaeth Food for Life yn hyrwyddo bwyta'n iach ac yn gwobrwyo nodau arlwygo efydd, arian ac aur. Caiff prydau â nod arlwygo eu gweini gan 75 y cant o fwrdeistrefi Llundain ac wyth awdurdod lleol yn yr Alban. Tybed a allwch ddweud wrthyf beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog awdurdodau lleol i fabwysiadu agenda o'r fath.

14:46	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I think the important developments that we've initiated through the national procurement service food strategy, which is currently being developed, will obviously assist in this area. The intention is to ensure that strategy builds on the good work already carried out in the public sector, including the approaches taken in some local authorities.</p>	<p>Rwy'n meddwl y bydd y datblygiadau pwysig rydym wedi eu cychwyn drwy strategaeth fwyd y gwasanaeth caffael cenedlaethol, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, yn amlwg o gymorth yn y maes hwn. Y bwriad yw sicrhau bod y strategaeth yn adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi'i wneud yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys y dulliau a roddwyd ar waith gan rai awdurdodau lleol.</p>
14:46	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Staying on the procurement issue, the report says that the value of total local authority food purchases increased by 5 per cent in the three years to 2012, but that the value of products of Welsh origin fell by 16 per cent, which shows that something is going desperately wrong with procurement. School lunches on Anglesey are prepared by a company from outside Wales. I'd like to see that change in future, but we should've known this. Doesn't the Minister agree that we should've known that this was likely to be the impact—that there would be less procurement of food of Welsh origin by contracting to companies from outside Wales—when this five-year contract was issued some two or three years ago?</p>	<p>Gan aros gyda mater caffael, mae'r adroddiad yn dweud bod cyfanswm gwerth pryniannau bwyd awdurdodau lleol wedi cynyddu 5 y cant yn y tair blynedd hyd at 2012, ond bod gwerth cynhyrchion o Gymru wedi gostwng 16 y cant, sy'n dangos bod rhywbeth yn mynd o'i le'n ddifrifol ym maes caffael. Caiff ciniawau ysgol ym Môn eu paratoi gan gwmni o'r tu allan i Gymru. Hoffwn weld hynny'n newid yn y dyfodol, ond dylem fod wedi gwybod hyn. Onid yw'r Gweinidog yn cytuno y dylem fod wedi gwybod mai dyma oedd yr effaith yn debygol o fod—y byddai llai o gaffael bwyd o darddiad Cymreig drwy gontractio i gwmnïau o'r tu allan i Gymru—pan gyhoeddwyd y contract pum mlynedd tua dwy neu dair blynedd yn ôl?</p>
14:47	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>It's not for me to determine how the council in Anglesey lets its own food procurement contracts. As I said, the national procurement service is developing its own food strategy in order to procure food on behalf of the Welsh public sector early next year. Contracting authorities are encouraged to follow the route planner that they have developed, which should ensure food safety and encourage local and sustainable food sourcing.</p>	<p>Nid mater i mi ei benderfynu yw sut y mae cyngor Ynys Môn yn trefnu ei gontractau caffael bwyd ei hun. Fel y dywedais, mae'r gwasanaeth caffael cenedlaethol yn datblygu ei strategaeth fwyd ei hun er mwyn caffael bwyd ar ran y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gynnar y flwyddyn nesaf. Anogir awdurdodau contractio i ddilyn y canllaw cynllunio y maent wedi eu datblygu, a ddylai sicrhau diogelwch bwyd ac annog caffael bwyd yn gynaliadwy ac o darddiad lleol.</p>
	Diogelwch Cymunedol (Swyddogion Heddlu Ychwanegol)	Community Safety (Additional Police Officers)
14:47	Aled Roberts Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>8. Pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi bod swyddogion heddlu ychwanegol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio i greu ymdeimlad o ddiogelwch cymunedol? OAQ(4)0593(PS)</i></p>	<p><i>8. What guarantees can the Minister provide that additional police officers funded by the Welsh Government are being used to create a sense of community safety? OAQ(4)0593(PS)</i></p>
14:47	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Mae ymchwil annibynnol yn dangos bod hanner y rheini a welodd swyddog cymorth cymunedol yn dweud bod hynny wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel yn eu hardal leol.</p>	<p>Independent research indicates that around half of those who had seen a community support officer said that they made them feel safer in their local area.</p>
14:48	Aled Roberts Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Rwy'n cytuno hefyd. Rydych chi wedi cyhoeddi eich bod chi wedi cyrraedd eich targed o 500 o swyddogion ychwanegol o flaen amser, ond a allwch chi sicrhau i ni bod yna gysondeb o ran y ffordd y mae'r swyddogion yna'n cael eu rhannu ar draws Cymru? A hefyd, erbyn hyn, a ydy'r dyletswyddau sydd arnyn nhw, rhwng y gwahanol luoedd heddlu, yr un fath, o achos mae yna bryder bod rhai o'r swyddogion yma rŵan yn cael eu defnyddio gan rai prif gwnstabiliaid i gymryd lle swyddogion heddlu sydd yn colli swyddi?</p>	<p>I also agree. You have announced that you have reached your target of 500 additional officers ahead of time, but can you give us an assurance that there is consistency in the way in which those officers are then allocated across Wales? And also, by now, are the duties that are placed on them, between the various police forces, of the same kind, as there is concern that some of these officers are now being used by some chief constables to replace police officers who are losing their jobs?</p>

14:48

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I don't agree with that and I'm afraid that the impact of the cuts in policing, carried out by the Conservative-Liberal Democrat Government between 2010 and 2015 has been responsible for the diminution in the number of police officers around Wales. I think we are pleased that we have achieved and maintained our programme for government commitment, funding the recruitment of 500 additional CSOs. These are valued by the chief constables. We have regular discussions about the way in which they are deployed, and, as I said, the research shows that they are contributing to making our communities feel safer.

Wel, nid wyf yn cytuno â hynny ac rwy'n ofni bod effaith y toriadau ar blismona, o dan Lywodraeth y Ceidwadwyr-Democratiaid Rhyddfrydol rhwng 2010 a 2015, wedi arwain at ostyngiad yn nifer y swyddogion heddlu o amgylch Cymru. Rwy'n meddwl ein bod yn falch ein bod wedi cyflawni a chynnal y rhaglen y mae'r llywodraeth wedi ymrwymo iddi, a chyllido'r broses o recriwtio 500 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol. Mae'r prif gwnstabiliaid yn gwerthfawrogi'r rhain. Rydym yn cael trafodaethau rheolaidd ynglŷn â'r ffordd y cânt eu defnyddio, ac fel y dywedais, mae'r ymchwil yn dangos eu bod yn cyfrannu at wneud i'n cymunedau deimlo'n fwy diogel.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:49

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, Gwent Police has announced plans to train and deploy 60 new police officers into communities over the next three years. Clearly, it's good governance and good practice by Ian Johnston, the police commissioner who is doing a wonderful job in the Gwent area, and I think we should congratulate him. Will you join me in welcoming this news, which will help ensure that the residents of Gwent are kept safe and reassured for the future?

Weinidog, mae Heddlu Gwent wedi cyhoeddi cynlluniau i hyfforddi a lleoli 60 o heddwision newydd mewn cymunedau yn ystod y tair blynedd nesaf. Yn amlwg, dyma enghraifft o lywodraethu da ac arfer da gan Ian Johnston, y comisiynydd heddlu sy'n gwneud gwaith gwych yn ardal Gwent, ac rwy'n meddwl y dylem ei longyfarch. A wneuch chi ymuno â mi i groesawu'r newyddion, a fydd yn helpu i sicrhau bod trigolion Gwent yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn dawel eu meddwl ar gyfer y dyfodol?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:50

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I certainly welcome moves to protect and extend the number of police officers who are serving for the community in whichever area in Wales those steps have been taken. My concern, I'm afraid, is that, following next week's budget, we may see more cuts in policing numbers.

Wel, rwy'n sicr yn croesawu mesurau i ddiogelu a chynyddu nifer y swyddogion heddlu sy'n gwasanaethu ar ran y gymuned ym mha ardal bynnag o Gymru y mae'r camau hynny wedi cael eu rhoi ar waith. Fy mhryder, yn anffodus, yw y gallem wynebu mwy o doriadau yn nifer yr heddlu yn dilyn y gyllideb yr wythnos nesaf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:50

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

O'r 500 o swyddogion arbennig yma, a oes gennych chi ffigurau ar sut y maen nhw wedi cael eu dosbarthu rownd y siroedd neu, yn wir, fesul etholaeth yng Nghymru?

Of these 500 support offices, do you have any figures as to how they have been distributed around the counties or, indeed, around the constituencies of Wales?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:50

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will see if I can get that information for the Member, but what I can say to him is that, to give an example, the Gwynedd south neighbourhood policing team, following the development of more PCSOs, has seen Pwllheli experience a 29 per cent decrease in anti-social behaviour. I think it's clear that the contribution that we're making is assisting the police overall in providing reassurance, presence and community safety, and is helping the police to engage with communities in addressing anti-social behaviour and related criminal activity.

Byddaf yn gweld a allaf gael y wybodaeth honno i'r Aelod, ond yr hyn y gallaf ei ddweud wrtho, i roi un enghraifft, yw bod tîm plismona yn y gymdogaeth de Gwynedd, yn sgîl datblygu mwy o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu wedi gweld gostyngiad o 29 y cant yn lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol ym Mhwillheli. Rwy'n credu ei bod yn amlwg fod y cyfraniad rydym yn ei wneud yn cynorthwyo'r heddlu yn gyffredinol i sicrhau tawelwch meddwl, presenoldeb a diogelwch cymunedol, ac mae'n helpu'r heddlu i ymgysylltu â chymunedau wrth fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgarwch troseddol cysylltiedig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Ad-drefnu Llywodraeth Leol (Y De-ddwyrain)

Local Government Reorganisation (South-east Wales)

- 14:51 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ad-drefnu llywodraeth leol yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)0586(PS) *9. Will the Minister make a statement on local government reorganisation in south-east Wales? OAQ(4)0586(PS)*
- 14:51 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 I published the Welsh Government's proposed map on 17 June. Cyhoeddais fap arfaethedig Llywodraeth Cymru ar 17 Mehefin.
- 14:51 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 You have indeed, Minister. Minister, it's very difficult to find support for your local government proposals and your map, and that's just within the Labour Party. There are ongoing concerns about the costs of reorganisation. Council leaders in south-east Wales are already being asked by the media where the new super Gwent county hall is going to be built and how much it will cost. At a time of local government cutbacks, this really isn't where public money should be going, is it? Do'n wir, Weiniog. Weiniog, mae'n anodd iawn dod o hyd i gefnogaeth i'ch argymhellion ar gyfer llywodraeth leol a'ch map, a hynny o fewn y Blaid Lafur heb sôn am neb arall. Ceir pryderon parhaus ynghylch costau ad-drefnu. Mae'r cyfryngau eisoes yn gofyn i arweinwyr cynghorau yn ne-ddwyrain Cymru lle y mae neuadd y sir fawr newydd Gwent yn mynd i gael ei hadeiladu a faint fydd y gost. Ar adeg o doriadau llywodraeth leol, ai dyma mewn gwirionedd lle y dylai arian cyhoeddus gael ei wario?
- 14:52 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Well, I'm not sure myself why any newly reorganised local government should need a new super county hall. It seems to me, in the era of remote access and the era of digital communications, it should be quite feasible for local authorities to order their office arrangements in such a way as to give proper support to their staff and to enable more homeworking by staff, where they require that, and indeed to enable staff to work in a more modern way. I think the obsession by the media—and I have had this in a number of questions from journalists—about the size and number of county halls is rather old-fashioned, let me say. It's actually not the way the media itself organises in many ways these days. Wel, nid wyf yn siŵr fy hun pam y dylai fod angen neuadd y sir fawr newydd ar unrhyw lywodraeth leol sydd newydd ei had-drefnu. Mae'n ymddangos i mi, mewn oes o gyfathrebu digidol a chysylltu-o-bell, y dylai fod yn gwbl ymarferol i awdurdodau lleol allu rhoi trefn ar eu trefniadau swyddfa mewn modd a fyddai'n cynorthwyo eu staff yn briodol ac i alluogi mwy o staff i weithio o gartref, lle y maent yn gofyn am gael gwneud hynny, ac yn wir i alluogi staff i weithio mewn ffordd fwy modern. Rwy'n meddwl bod obsesiwn y cyfryngau—ac rwyf wedi cael hyn mewn nifer o gwestiynau gan newyddiadurwyr—ynghylch maint a nifer neuaddau sir braidd yn hen ffasiwn, os caf ddweud. I raddau helaeth, nid dyna'r ffordd y mae'r cyfryngau eu hunain yn trefnu gwaith y dyddiau hyn.
- 14:52 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Minister, how will you guarantee that the preferences you outlined in south-east Wales won't take away all aspects of local government and effectively turn Wales into a series of regional governments with little democratic accountability and authorities that, in my opinion, are too big and too far removed to be in touch with local communities? How will local councillors from Rhymney know of the opinions of the people of Raglan, or Pill to Pontlottyn, or Abertridwr to Abergavenny? You know, these are issues that are of concern to the people whom we ask to go and vote for us. Weiniog, sut y byddwch yn gwarantu na fydd y dewisiadau a amlinellwyd gennych yn ne-ddwyrain Cymru yn cael gwared ar bob agwedd ar lywodraeth leol ac i bob pwrpas yn troi Cymru yn gyfres o lywodraethau rhanbarthol gydag ond ychydig o atebolrwydd democrataidd ac awdurdodau sydd, yn fy marn i, yn rhy fawr ac yn rhy bell i fod mewn cysylltiad â chymunedau lleol? Sut y bydd cynghorwyr lleol o Rymni yn gwybod beth yw barn pobl Rhaglan, neu Bill Gwenlli i Bontlottyn, neu Abertridwr i'r Fenni? Wyddoch chi, mae'r rhain yn faterion sy'n peri pryder i'r bobl rydym yn gofyn iddynt bleidleisio drosom.
- 14:53 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Well, the last time the Member asked me a question about local government reorganisation, he said he wanted to take social services away from local government. He said it in this Chamber in my last question time. I don't know whether he's changed his policy on that, but the person who seems to be most concerned with taking responsibilities away from local government is him. Wel, y tro diwethaf y gofynnodd yr Aelod gwestiwn i mi ynghylch ad-drefnu llywodraeth leol, dywedodd ei fod yn awyddus i gymryd gwasanaethau cymdeithasol oddi wrth lywodraeth leol. Dywedodd hynny yn y Siambr hon yn fy sesiwn gwestiynau ddiwethaf. Nid wyf yn gwybod a yw wedi newid ei bolisi ar hynny, ond y person sydd i'w weld yn poeni fwyaf ynghylch cymryd cyfrifoldebau oddi wrth lywodraeth leol yw ef.

Etholiadau Awdurdodau Lleol

Local Authority Elections

- 14:53 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amserlennu etholiadau awdurdodau lleol? OAQ(4)0578(PS)
- 14:53 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
An Order to change the year of local government elections in Wales from May 2016 to May 2017 was made in December 2014.
- 14:54 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I'm grateful for the answer from the Minister. Does this mean, therefore, that new councils will be given the opportunity to establish the new councils?
- 14:54 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, we've outlined our process in respect of the arrangements for the new councils in previous White Papers. Obviously, there've been a series of discussions around this in committee in respect of the paving Bill. Our plan, after the 2017 elections, would be that the new merged authorities would be created in shadow form from May 2019 onwards. So, I would expect that we would have shadow authorities, which would have a role in the creation of the new bodies.
- 14:54 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Does the Minister agree that we should be more flexible about the scheduling of the times of local authority elections and other elections? Would he consider having a longer period of days to vote, as is done in some other countries? Would he consider voting on a Sunday, when many more people are at home and able to get to polling stations? Or would he consider texting as voting, or using e-mails?
- 14:55 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, I certainly agree with my colleague, the Member for Cardiff North, that there should be a review of the ways in which people are encouraged to vote and the opportunities for them in the conduct of voting. However, I think she will be aware that the conduct of elections, including voting, is currently not a devolved matter. Certainly, were it a devolved matter, I would want us to be looking at innovations that could encourage more people to vote, including young people and other groups that do not currently have high levels of voter turnout.
10. Will the Minister make a statement on the scheduling of local authority elections? OAQ(4)0578(PS)
- Gwnaed Gorchymyn i newid blwyddyn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru o fis Mai 2016 i fis Mai 2017 ym mis Rhagfyr 2014.
- Diolch am yr ateb gan y Gweinidog. A yw hyn yn golygu, felly, y bydd y cynghorau newydd yn cael cyfle i sefydlu'r cynghorau newydd?
- Wel, rydym wedi amlinellu ein proses o ran y trefniadau ar gyfer y cynghorau newydd mewn Papurau Gwyn blaenorol. Yn amlwg, bu cyfres o drafodaethau ar hyn yn y pwyllgorau mewn perthynas â'r Bil ymbaratoi. Ein cynllun, ar ôl etholiadau 2017, yw y byddai'r awdurdodau unedig newydd yn cael eu creu ar ffurf gysgodol o fis Mai 2019 ymlaen. Felly, byddwn yn disgwyl y byddai gennym awdurdodau cysgodol, a fyddai â rôl yn y broses o greu'r cyrff newydd.
- A yw'r Gweinidog yn cytuno y dylem fod yn fwy hyblyg ynghylch amserlennu etholiadau awdurdodau lleol ac etholiadau eraill? A fyddai'n ystyried cael cyfnod hirach o ddyddiau i bleidleisio, fel sy'n digwydd mewn rhai gwledydd eraill? A fyddai'n ystyried pleidleisio ar y Sul, pan fo llawer mwy o bobl gartref ac yn gallu mynd i orsafoedd pleidleisio? Neu a fyddai'n ystyried anfon negeseuon testun ar gyfer pleidleisio, neu ddefnyddio e-bost?
- Wel, rwy'n sicr yn cytuno â fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ogledd Caerdydd, y dylid cynnal adolygiad o'r ffyrdd y mae pobl yn cael eu hannog i bleidleisio a'r cyfleoedd iddynt bleidleisio. Fodd bynnag, credaf y bydd yn ymwybodol nad yw cynnal etholiadau, gan gynnwys pleidleisio, yn fater datganoledig ar hyn o bryd. Yn sicr, pe bai'n fater datganoledig, byddwn yn awyddus i edrych ar ddulliau arloesol a allai annog mwy o bobl i bleidleisio, gan gynnwys pobl ifanc a grwpiau eraill lle na cheir lefelau uchel o bobl yn pleidleisio ar hyn o bryd.
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Costau Ad-drefnu Llywodraeth Leol

Local Government Reorganisation Costs

- 14:55 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
11. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei asesiad o gostau ad-drefnu llywodraeth leol? OAQ(4)0579(PS)
11. Will the Minister outline his assessment of the costs of local government reorganisation? OAQ(4)0579(PS)
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:56 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
A draft regulatory impact assessment is being prepared and will be published for consultation alongside the draft Bill in November 2015. Mae asesiad effaith rheoleiddiol drafft yn cael ei baratoi a bydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori yn ei gylch ochr yn ochr â'r Bil drafft ym mis Tachwedd 2015.

14:56 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for that answer, Minister. I understand that you need to get all your ducks in a row, in terms of the cost of local government organisation, but, given that you've already published the map and you've effectively set several hares running—I'm sorry about the mixed metaphors—can I ask whether it would not be advisable to try to bring forward the timing of that publication, so that everyone can actually see what exactly you are proposing and how much it will cost in advance of the White Paper being published? Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rwy'n deall y bydd angen i chi osod eich hwyaid mewn rhes, o ran y gost o drefnu llywodraeth leol, ond o ystyried eich bod eisoes wedi cyhoeddi'r map a'ch bod wedi codi sawl sgwarnog—maddeuwch y trosiadau cymysg—a gaf fi ofyn oni fyddai'n ddoeth i chi geisio cyflwyno amseriad y cyhoeddiad hwnnw yn gynt, fel y gall pawb weld beth yn union rydych yn ei argymhell a faint fydd y gost cyn i'r Papur Gwyn gael ei gyhoeddi?

14:56 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I think I won't follow the Member with his use of metaphors. Look, we have said very clearly that one of the driving factors for us in local government reorganisation is that we wish to reduce the cost of politics and administration in local government. I'm pleased that the KPMG report that we published only a couple of weeks ago illustrates that Welsh authorities have the capacity to make significant savings of up to £151 million per annum through adopting more efficient practices and transforming their administrative functions. Indeed, the WLGA's own estimates of the cost of mergers suggested that merger could free up some £65 million per annum of savings three years down the line. So, I think that this is a discussion to which we will return. We will be publishing, as I said, our regulatory impact assessment with the draft Bill in November, and I look forward to continuing the dialogue with the member at that point. Nid wyf yn credu fy mod am ddilyn yr Aelod gyda'i ddefnydd o drosiadau. Edrychwch, rydym wedi dweud yn glir iawn mai un o'r ffactorau ysgogol i ni wrth ad-drefnu llywodraeth leol yw ein bod yn dymuno lleihau costau gwleidyddiaeth a gweinyddiaeth mewn llywodraeth leol. Rwy'n falch fod adroddiad KPMG a gyhoeddwyd gennym ond ychydig o wythnosau yn ôl yn dangos bod y gallu gan awdurdodau Cymru i wneud arbedion sylweddol o hyd at £151 miliwn y flwyddyn drwy fabwysiadu arferion mwy effeithlon a thrawsnewid eu swyddogaethau gweinyddol. Yn wir, roedd amcangyfrifon CLILC ei hun o'r costau uno yn awgrymu y gallai uno ryddhau oddeutu £65 miliwn y flwyddyn o arbedion dair blynedd yn ddiweddarach. Felly, rwy'n meddwl bod hon yn drafodaeth y byddwn yn dychwelyd ati. Fel y dywedais, byddwn yn cyhoeddi ein hasesiad effaith rheoleiddiol gyda'r Bil drafft ym mis Tachwedd, ac edrychaf ymlaen at barhau â'r ddeialog gyda'r aelod ar y pwynt hwnnw.

Hyrwyddo'r Cyflog Byw

Promoting the Living Wage

14:57 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
12. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r cyflog byw mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0582(PS) *12. How is the Welsh Government promoting the living wage in public services in Wales? OAQ(4)0582(PS)*

14:57 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Despite UK austerity, the Welsh Government is making progress on encouraging public service employers to adopt the living wage, including in the Welsh NHS. Er gwaethaf caledi'r DU, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd ar annog cyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus i fabwysiadu'r cyflog byw, gan gynnwys y GIG yn Nghymru.

14:57

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that, Minister. The public sector, public services, is one of the major employers within my constituency and, I know, those of very many more Members in this Chamber. I think it's important that those people feel that they're valued and that the jobs that they do, especially front-line services, mean that they are paid a living wage. We understand that there are now talks looking at how a living wage will be introduced. What good practice can you offer to councils, and what can you share from other authorities, so that we can get best practice rolled out, so people do get that living wage that they deserve?

Diolch yn fawr iawn am hynny, Weinidog. Mae'r sector cyhoeddus, gwasanaethau cyhoeddus, yn un o'r prif gyflogwyr yn fy etholaeth, a llawer iawn o'r Aelodau eraill yn y Siambr hon hefyd, rwy'n gwybod. Yn fy marn i, mae'n bwysig sicrhau bod y bobl hynny'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod y swyddi y maent yn eu gwneud, yn enwedig y gwasanaethau rheng flaen, yn golygu eu bod yn cael cyflog byw. Rydym yn deall bod trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd yn edrych ar sut i gyflwyno'r cyflog byw. Pa arfer da y gallwch ei gynnis i gynghorau, a beth y gallwch ei rannu o arfer da gan awdurdodau eraill, fel y gallwn gyflwyno'r arfer gorau, ac er mwyn i bobl gael y cyflog byw y maent yn ei haeddu?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:58

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, as my colleague, the Member for the Vale of Clwyd, will be aware, NHS employers in Wales implemented the living wage from 1 January this year, which is not the case in England. The Welsh Government pays all directly employed staff a living wage and is now looking to see what more can be done formally to meet living wage requirements overall. By autumn 2015, further education employees will be paid at or above the living wage, and the majority of higher education institutions pay at or above the living wage, in line with pay guidance negotiated with trades unions. For example, Cardiff University is an accredited living wage employer. Several local authorities pay their employees a living wage, and others are moving closer to it by removing the lower pay points. As my colleague, the Member for Pontypridd, said earlier, Rhondda Cynon Taff County Borough Council is the latest in making that declaration.

Wel, fel y bydd fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd, yn gwybod, rhoddodd cyflogwyr y GIG yng Nghymru y cyflog byw ar waith o 1 Ionawr eleni, ac nid yw hyn yn wir yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn talu cyflog byw i'r holl staff a gyflogir yn uniongyrchol a bellach, mae'n edrych i weld beth arall y gellir ei wneud yn ffurfiol i gwrdd â gofynion cyflog byw yn gyffredinol. Erbyn yr hydref eleni, bydd y cyflog byw neu fwy na'r cyflog byw yn cael ei dalu i weithwyr addysg bellach, a bydd y cyflog byw neu fwy na'r cyflog byw yn cael ei dalu yn y rhan fwyaf o sefydliadau addysg uwch, yn unol â'r canllawiau cyflog a negodwyd gydag undebau llafur. Er enghraifft, mae Prifysgol Caerdydd yn gyflogwr cyflog byw achrededig. Mae sawl awdurdod lleol yn talu cyflog byw i'w gweithwyr, ac mae eraill yn symud yn nes ato drwy gael gwared ar y pwyntiau cyflog is. Fel y dywedodd fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Bontypridd, yn gynharach, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw'r diweddaraf i wneud y datganiad hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:59

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Conservatives have fully costed plans to ensure that all public sector employees in Wales receive the living wage by the end of 2021. Will you make a similar commitment to ourselves and join in with us in achieving this objective?

Mae gan y Ceidwadwyr Cymreig gynlluniau wedi eu costio'n llawn i sicrhau bod holl weithwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cael y cyflog byw erbyn diwedd 2021. A wnewch chi ymrwymiad tebyg i'n hun ni ac ymuno â ni i gyflawni'r amcan hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:59

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm sure that will give reassurance to the trades unions in Wales.

Wel, rwy'n siŵr y bydd hynny'n rhoi sicrwydd i'r undebau llafur yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:59

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, a ydy hi'n deg fod yna reolwyr yn ein gwasanaethau cyhoeddus ni sy'n methu ac sy'n aml iawn yn cael 'pay-offs' o gannoedd o filoedd, tra bod yna weithwyr cyffredin, ar y llaw arall, sy'n cyflawni eu dyletswyddau yn gymwys ac yn llawn ond nad ydynt hyd yn oed yn cael cyflog byw?

Minister, is it fair that there are managers in our public services who are failing and who are very often given pay-offs of hundreds of thousands of pounds, while, on the other hand, there are ordinary workers who carry out their duties competently and in full who do not even get paid a living wage?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Well, I wouldn't want to discuss in specific terms any individual's position, but I think everyone in the Chamber understands to what the Member refers. That's why, of course, we have the independent remuneration panel in Wales, which has played an active role in intervening with local authorities, in terms of the setting of senior officers' salaries. It's why, I think, the auditor general has looked into a number of situations in respect of local government, where things have, shall we say, departed from the norm, and I think we have given very clear signals ourselves about the way in which we wish to make savings in the overall bill for senior salaries in local government.	Wel, ni fyddwn yn awyddus i drafod sefyllfa unrhyw unigolyn yn benodol, ond rwy'n meddwl bod pawb yn y Siambr yn deall yr hyn y mae'r Aelod yn cyfeirio ato. Dyna pam, wrth gwrs, y mae genym y panel taliadau annibynnol yng Nghymru, sydd wedi chwarae rôl weithredol yn ymyrryd ym mhrosesau awdurdodau lleol o osod cyflogau uwch-swyddogion. Dyna pam, rwy'n meddwl, y mae'r archwilydd cyffredinol wedi edrych ar nifer o sefyllfaoedd mewn perthynas â llywodraeth leol, lle y mae pethau wedi gwyro oddi wrth y norm, os caf ei roi fel yna, ac rwy'n meddwl ein bod wedi rhoi arwyddion clir iawn ein hunain am y ffordd y dymunwn wneud arbedion yn y bil cyffredinol ar gyfer cyflogau uwch mewn llywodraeth leol.	Senedd.tv Fideo Video
15:00	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Thank you, Minister.	Diolch yn fawr, Weinidog.	Senedd.tv Fideo Video
15:00	3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.3 i Ethol Eilyddion ar gyfer y Pwyllgor Safonau Ymddygiad Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography We now move to item 3, which is a motion under Standing Order 17.3 to elect alternate members to the Standards of Conduct Committee. I call on a member of the Business Committee to move the motion. Cynnig NDM5810 Rosemary Butler Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol fel eilyddion o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad: Ann Jones (Llafur) ar gyfer Mick Antoniw (Llafur), Paul Davies (Ceidwadwyr Cymreig) ar gyfer Mark Isherwood (Ceidwadwyr Cymreig), Elin Jones (Plaid Cymru) ar gyfer Llyr Gruffydd (Plaid Cymru), ac Aled Roberts (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) ar gyfer Eluned Parrott (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru). <i>Cynigiwyd y cynnig.</i>	3. Motion under Standing Order 17.3 to Elect Alternate Members of the Standards of Conduct Committee Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Symudwn yn awr at eitem 3, sef cynnig o dan Reol Sefydlog 17.3 i ethol eilyddion i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Galwaf ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gynnig y cynnig. Motion NDM5810 Rosemary Butler To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.3, elects as alternate members of the Standards of Conduct Committee: Ann Jones (Labour) for Mick Antoniw (Labour), Paul Davies (Welsh Conservatives) for Mark Isherwood (Welsh Conservatives), Elin Jones (Plaid Cymru) for Llyr Gruffydd (Plaid Cymru) and Aled Roberts (Welsh Liberal Democrats) for Eluned Parrott (Welsh Liberal Democrats). <i>Motion moved.</i>	Senedd.tv Fideo Video
15:01	Aled Roberts Bywgraffiad Biography Yn ffurfiol.	Formally.	Senedd.tv Fideo Video
15:01	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Thank you. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36. <i>Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36</i>	Diolch yn fawr. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. <i>Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36</i>	Senedd.tv Fideo Video

4. Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 4, which is the debate on the Public Accounts Committee's annual report, and I call on the Chair of the Committee, Darren Millar, to move the motion.

Cynnig NDM5800 Darren Millar

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gyfer 2014-15, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2015.

Cynigiwyd y cynnig.

4. Debate on the Public Accounts Committee Annual Report

Symudwn yn awr at eitem 4, sef y ddadl ar adroddiad blynyddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor, Darren Millar, i gynnig y cynnig.

Motion NDM5800 Darren Millar

The National Assembly for Wales:

Notes the Annual Report of the Public Accounts Committee for 2014-15, which was laid in the Table Office on 17 June 2015.

Motion moved.

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. I move the motion in my name. I'm very pleased to open this debate on the annual report of the Public Accounts Committee for the year 2014-15.

Before discussing the content of the report, I'd like to thank my seven colleagues on the committee, and also the other two Members who sat on the committee during the year in question, who of course were William Graham and Alun Ffred Jones. As Chair, I should also set out the committee's appreciation for the work of the Auditor General for Wales and his staff at the Wales Audit Office. Their advice and support to the committee is invaluable. The committee also appreciates the engagement we have with the Welsh Government, which, of course, is based on mutual respect, and whilst the relationship is not cosy, and nor should it be, it is encouraging that the Welsh Government continues to respond to our reports and recommendations so constructively.

Our annual report sets out the variety of the committee's work. This year, our reports covered topics including health, education, transport, agriculture and public sector pay. As part of our work, we explored cross-cutting themes, such as the quality of governance, the use of data and performance management in the public sector. In addition to work stemming from value for money studies published by the Auditor General for Wales, this report touches on the inquiries that were initiated by the committee itself, reflecting member interests and a commitment to continuing with our reformed ways of working. It's clear from discussions with counterpart committees in other jurisdictions that there's a great deal of interest in this particular aspect of our work and that we are pioneering a novel approach to the work of public audit in the UK.

Diolch i chi, Lywydd. Cynigaf y cynnig yn fy enw i. Rwy'n falch iawn o agor y ddadl hon ar adroddiad blynyddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am y flwyddyn 2014-15.

Cyn trafod cynnwys yr adroddiad, hoffwn ddiolch i fy saith cyd-Aelod ar y pwyllgor, a hefyd y ddau Aelod arall a fu'n aelodau o'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn dan sylw, sef William Graham ac Alun Ffred Jones wrth gwrs. Fel Cadeirydd, dylwn hefyd nodi gwerthfawrogiad y pwyllgor o waith Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff yn Swyddfa Archwilio Cymru. Mae eu cyngor a'u cymorth i'r pwyllgor yn amhrisiadwy. Mae'r pwyllgor hefyd yn gwerthfawrogi'r ymgysylltiad sydd gennym â Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig, wrth gwrs, ar barch ar y ddwy ochr, ac er nad yw'r berthynas yn un gysurus, ac ni ddylai fod, mae'n galonogol fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymateb i'n hadroddiadau a'n hargymhellion mewn modd mor adeiladol.

Mae ein hadroddiad blynyddol yn nodi amrywiaeth gwaith y pwyllgor. Eleni, ymdriniodd ein hadroddiadau â phynciau'n cynnwys iechyd, addysg, trafnidiaeth, amaethyddiaeth a chyflogau sector cyhoeddus. Fel rhan o'n gwaith, aethom ati i archwilio themâu trawsbynciol, megis ansawdd llywodraethu, y defnydd o ddata a rheoli perfformiad yn y sector cyhoeddus. Yn ogystal â gwaith yn deillio o astudiaethau gwerth am arian a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae'r adroddiad hwn yn cyffwrdd ar yr ymchwiliadau a gafodd eu cychwyn gan y pwyllgor ei hun, gan adlewyrchu diddordebau aelodau ac ymrwymiad i barhau â'n ffyrdd diwygiedig o weithio. Mae'n amlwg o'r trafodaethau â phwyllgorau cyfatebol mewn awdurdodaethau eraill fod llawer iawn o ddiddordeb yn yr agwedd arbennig hon ar ein gwaith a'n bod yn arloesi gyda dull newydd o gyflawni gwaith archwilio cyhoeddus yn y DU.

Now, I don't plan to talk Members through each of the reports that we produced and the scores of recommendations that they contain, but I will just take some time to provide an overview of those reports. Our inquiry into unscheduled care considered what the auditor general's report described as an overall deterioration in performance since 2009. We took evidence on improving the supply of, and access to, care, as well as managing patient demand by examining efforts to empower and educate the public to 'choose well'. The reasons for unscheduled care pressures were difficult sometimes to pinpoint, given the absence of robust data. We concluded that more could be done to support the resilience of front-line staff, who we found to be at risk from communicable diseases and more likely to be absent from work due to stress than in previous years. We also expressed concerns about challenges in accessing GP appointments and the scale of non-attendance at appointments by patients. The Welsh Government, I'm pleased to say, responded well to our recommendations and has continued to provide regular progress reports to the committee.

The committee's inquiry on teachers' absence focused on reducing absence and the impact of absence on learners. We found that staff absence was not effectively monitored across Wales, particularly by governing bodies, and that the impact on learners was not routinely evaluated. Again, the Welsh Government responded well to our report but it did reject one key recommendation regarding amending regulations to provide for a lead governor on human resource matters in schools in a bid to address our concerns. This is a live issue for the committee, and I am pleased that the Children, Young People and Education Committee will give further consideration to this particular issue during its inquiry into supply teaching.

The committee undertook some work, also, on Glastir, and our short inquiry into this issue followed a report by the auditor general that was published in September 2014. We made a number of recommendations, all of which, I'm very pleased, were well received by the Welsh Government. Indeed, the RSPB commended the committee for its consideration of the matter, believing that our recommendations, if fully implemented, will make a significant contribution towards improving the effectiveness of the scheme and securing better value for money for taxpayers.

Having previously reported in December 2013, we also undertook some follow-up work on the implementation of the national framework for continuing NHS care. We were concerned to learn from the auditor general that, whilst the revised framework addressed some weaknesses, there were more outstanding retrospective claims in January 2015 than ever before. We looked at how retrospective claims were being handled, and whether decision making was effective and consistent. We made a number of recommendations, all of which were accepted by the Welsh Government, which has agreed to provide further information on cases involving individuals with learning difficulties in particular, and on efforts to improve advocacy services for patients and families seeking to challenge decisions.

Nawr, nid wyf yn bwriadu mynd â'r Aelodau drwy bob un o'r adroddiadau a gynhyrchwyd gennym a'r ugeiniau o argymhellion sydd ynddynt, ond rwyf am dreulio peth amser yn rhoi trosolwg o'r adroddiadau hynny. Roedd ein hymchwiliad i ofal heb ei drefnu yn ystyried yr hyn a ddisgrifiai adroddiad yr archwilydd cyffredinol fel dirywiad cyffredinol yn y perfformiad ers 2009. Clywsom dystiolaeth ar wella'r modd y caiff gofal ei ddarparu, a mynediad at ofal, yn ogystal â rheoli galw cleifion drwy archwilio ymdrechion i rymuso ac addysgu'r cyhoedd i 'ddewis yn dda'. Roedd y rhesymau am y pwysau ar ofal heb ei drefnu yn anodd eu nodi'n fanwl weithiau, o ystyried y diffyg data cadarn. Daethom i'r casgliad y gellid gwneud mwy i gefnogi cydnerthedd staff y rheng flaen, y gwelsom eu bod yn wynebu risg o glefydau trosglwyddadwy ac yn fwy tebygol o fod yn absennol o'r gwaith oherwydd straen nag yn y blynyddoedd blaenorol. Mynegwyd pryderon gennym hefyd ynghylch heriau o ran cael apwyntiadau meddyg teulu a lefelau o fethu â mynychu apwyntiadau ymhlith cleifion. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion, rwy'n falch o ddweud, ac mae wedi parhau i ddarparu adroddiadau cynnydd rheolaidd i'r pwyllgor.

Roedd ymchwiliad y pwyllgor i absenoldeb athrawon yn canolbwyntio ar leihau lefelau absenoldeb ac effaith absenoldeb ar ddysgwyr. Canfuom nad oedd absenoldeb staff yn cael ei fonitro'n effeithiol ar draws Cymru, yn enwedig gan gyrrff llywodraethu, ac nad oedd yr effaith ar ddysgwyr yn cael ei gwerthuso fel mater o drefn. Unwaith eto, ymatebodd Llywodraeth Cymru yn dda i'n hadroddiad, ond fe wrthododd un argymhelliad allweddol yn ymwneud â diwygio rheoliadau i ddarparu ar gyfer llywodraethwr arweiniol ar faterion adnoddau dynol mewn ysgolion mewn ymgais i fynd i'r afael â'n pryderon. Mae hwn yn fater sy'n parhau i'r pwyllgor, ac rwy'n falch fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn rhoi ystyriaeth bellach i hyn yn ystod ei ymchwiliad i waith cyflenwi.

Gwnaeth y pwyllgor rywfaint o waith ar Glastir hefyd, ac roedd ein hymchwiliad byr i'r mater hwn yn dilyn adroddiad gan yr archwilydd cyffredinol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2014. Gwnaethom nifer o argymhellion, ac rwy'n falch o ddweud bod pob un ohonynt wedi cael derbyn da gan Lywodraeth Cymru. Yn wir, canmolodd yr RSPB y pwyllgor am ystyried y mater, a chredai y byddai ein hargymhellion, o'u gweithredu'n llawn, yn cyfrannu'n sylweddol tuag at wella effeithiolrwydd y cynllun ac yn sicrhau gwell gwerth am arian i drethdalwyr.

Ar ôl cyflwyno adroddiad blaenorol ym mis Rhagfyr 2013, gwnaethom rywfaint o waith dilynol hefyd ar weithredu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG. Er bod y fframwaith diwygiedig wedi mynd i'r afael â rhai gwendidau, mater o bryder oedd deall gan yr archwilydd cyffredinol fod mwy o hawliadau ôl-weithredol heb eu talu ym mis Ionawr 2015 nag erioed o'r blaen. Edrychwyd ar sut y caiff ceisiadau ôl-weithredol eu trin, a pha un a oedd y broses o wneud penderfyniadau yn effeithiol ac yn gyson. Gwnaethom nifer o argymhellion, a chafodd pob un ohonynt eu derbyn gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi cytuno i ddarparu rhagor o wybodaeth am achosion sy'n ymwneud ag unigolion ag anawsterau dysgu yn arbennig, ac am ymdrechion i wella gwasanaethau eiriolaeth i gleifion a theuluoedd sy'n ceisio herio penderfyniadau.

As I mentioned earlier, in addition to work arising from reports by the auditor general, the committee also undertook three inquiries on work initiated by the committee itself. The first of these looked at the intra-Wales Cardiff-to-Anglesey air service, on which we produced an interim report in July 2014. We considered issues such as the optimum size of the aircraft, the frequency of flights between north and south Wales and the route served. We found that passenger numbers had declined in recent years and that there was a lack of rigorous customer profiling and effective marketing of the intra-Wales service. The Welsh Government accepted all our recommendations in the interim report, and the Public Accounts Committee is currently looking at a final report, which we hope to publish soon.

In a similar way, the committee undertook an inquiry into senior management pay. We looked comprehensively at issues around decision making and transparency of taxpayer-funded posts across the Welsh public sector. We found that arrangements for senior management pay were unclear and varied greatly, both within and between different parts of the public sector in Wales. We also found that data on senior management pay were not produced in a way that was that accessible to the public, nor was it transparent in order to enable comparisons to be made. Our report was the subject, of course, of a debate in the Senedd, and I am pleased that the Welsh Government accepted all of the recommendations we made. We look forward to seeing how the Welsh Government will ensure that the Public Services Staff Commission will take account of all of our recommendations in their work.

Our third and final inquiry, initiated by the committee, was the scrutiny of the 2014 accounts. The committee scrutinised the accounts of seven taxpayer-funded organisations to consider their use of public money and how that expenditure was being overseen. Our work supported the 2014-15 budget scrutiny round, and we published a final report in March. We made nine recommendations in all, some of which were specific to the individual organisations concerned, while others were more general, touching on governance, management of reserves and the challenges faced by commissioners where their purse strings are held by the Welsh Government.

As in previous years, the Public Accounts Committee has continued to look for opportunities to improve our own practice. We have met our counterparts in the Republic of Ireland and Scotland, and we recently hosted a visit from the PACs of both the States of Jersey and the Northern Ireland Assembly. We are determined to learn from the collective experiences of other committees and will continue to adopt and develop new practices that support this ambition. I commend our annual report to the National Assembly.

Fel y soniais yn gynharach, yn ogystal â gwaith sy'n codi o adroddiadau gan yr archwilydd cyffredinol, cynhaliodd y pwyllgor dri ymchwiliad hefyd ar waith a gychwynnwyd gan y pwyllgor ei hun. Edrychodd y cyntaf o'r rhain ar y gwasanaeth awyr oddi mewn i Gymru rhwng Caerdydd ac Ynys Môn, a chynhyrchwyd adroddiad interim arno ym mis Gorffennaf 2014. Buom yn ystyried materion megis y maint gorau posibl ar gyfer yr awyrennau, amllder y teithiau rhwng gogledd a de Cymru a'r llwybr a wasanaethir. Gwelsom fod nifer y teithwyr wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, a bod diffyg gwaith trylwyr wedi'i wneud ar broffilio cwsmeriaid a marchnata effeithiol ar y gwasanaeth oddi mewn i Gymru. Derbyniodd Llywodraeth Cymru ein holl argymhellion yn yr adroddiad interim, ac ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn edrych ar adroddiad terfynol y gobeithiwn ei gyhoeddi cyn bo hir.

Yn yr un modd, cynhaliodd y pwyllgor ymchwiliad i gyflogau uwch-reolwyr. Buom yn edrych yn fanwl ar faterion yn gysylltiedig â gwneud penderfyniadau a thryloywder y swyddi a ariennir gan y trethdalwr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Canfuom fod trefniadau cyflogau uwch-reolwyr yn aneglur ac yn amrywio'n fawr, o fewn a rhwng gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Canfuom hefyd nad oedd data ar gyflogau uwch-reolwyr yn cael ei gynhyrchu mewn ffordd a oedd yn hygyrch i'r cyhoedd, ac nid oedd yn dryloyw er mwyn gwneud cymariaethau'n bosibl. Wrth gwrs, roedd ein hadroddiad yn destun dadl yn y Senedd, ac rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o'r argymhellion a wnaethom. Rydym yn edrych ymlaen at weld sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried pob un o'n hargymhellion yn eu gwaith.

Y trydydd ymchwiliad, a'r olaf, a roddwyd ar y gweill gan y pwyllgor, oedd craffu ar gyfrifon 2014. Craffodd y pwyllgor ar gyfrifon saith o sefydliadau a gyllidir gan y trethdalwyr er mwyn ystyried eu defnydd o arian cyhoeddus a sut y câr gwariant ei oruchwylio. Roedd ein gwaith yn cefnogi cylch craffu ar gyllideb 2014-15, a chyhoeddwyd adroddiad terfynol ym mis Mawrth. Gwnaethom naw argymhelliad, rai ohonynt yn benodol i'r sefydliadau unigol dan sylw, ac eraill yn fwy cyffredinol, yn cyffwrdd ar lywodraethu, rheoli cronfeydd wrth gefn a'r heriau a wynebir gan gomisiynwyr lle y mae Llywodraeth Cymru yn dal llinynnau'r pwrs.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi parhau i edrych am gyfleoedd i wella ein harfer ein hunain. Cyfarfuom â'n cymheiriaid yng Ngweriniaeth Iwerddon a'r Alban, ac yn ddiweddar, cynhaliwyd ymweliad â Phwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus Taleithiau Jersey a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Rydym yn benderfynol o ddysgu o brofiadau cyfunol pwyllgorau eraill a byddwn yn parhau i fabwysiadu a datblygu arferion newydd sy'n cefnogi'r uchelgais hwn. Cymeradwyaf ein hadroddiad blynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

This has been an extremely busy year for the Public Accounts Committee. I joined the committee in January and, therefore, I've not been present for all the inquiries that are summarised in this annual report. I'd like to thank my predecessor on the committee, Alun Ffred Jones, for his contribution to the committee's work, and I look forward to continuing to be part of that work as we go forward. The scrutiny of public spending by the Public Accounts Committee provides an important service for the public in ensuring that they get a good deal when public money is spent. I'm pleased that the relationship between the committee, external organisations and the Government is a productive one, even if, sometimes, it's not a comfortable one.

Now, one of the recurring themes for us this year has been the lack of effective monitoring and data collection. This is true of the investigation into unscheduled care, teacher absence, senior management pay and the follow-up report into implementation of the national framework for continuing NHS healthcare. Even the investigation into the Cardiff-to-Ynys Môn air service found a lack of rigorous customer profiling that meant that the use of the service was not fully understood.

I understand that collecting comprehensive data can be low down on the list of priorities in the everyday running of public services. However, investing in proper monitoring is an investment in efficiency and evidence-based services, and helps us in justifying decisions. We need to be able to identify and understand problems in order to solve them. I hope that the Welsh Government has noted this pattern and will agree to improve in this area.

The investigation into senior management pay is of particular interest to me. At a time when some of the lowest paid workers are suffering from pay freezes and cuts, it is imperative that senior management pay in the public sector is not allowed to get out of control. I'm very much in support of the workers at the Big Pit museum, who are seeing their weekend payment scrapped as a result of sweeping cuts to the funding from the Welsh Government to the National Museum Wales. While the lowest paid shoulder the burden of those cuts, the national museum has had the most generous average departure package in Wales. I know that this is now being renegotiated, but it does highlight the need for clear guidance from the Government.

I agree with the Chair that there must be consistency and transparency in senior management pay, and it is very encouraging that the Government responded positively to the committee's report and also noted its significance at a time of great pressure on public spending. I'm sure that, in the year ahead, the last year of this Assembly term, the Public Accounts Committee will continue to drive scrutiny of devolved public spending and encourage best practice, and I look forward to being a part of that work. Thank you, Presiding Officer.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn hynod o brysur i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Ymunais â'r pwyllgor ym mis Ionawr ac felly, nid wyf wedi bod yn bresennol ar gyfer yr holl ymchwiliadau sy'n cael eu crynhoi yn yr adroddiad blynyddol hwn. Hoffwn ddiolch i fy rhagflaenydd ar y pwyllgor, Alun Ffred Jones, am ei gyfraniad i waith y pwyllgor, ac edrychaf ymlaen at barhau i fod yn rhan o'r gwaith hwnnw wrth i ni symud ymlaen. Mae craffu ar wariant cyhoeddus gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn darparu gwasanaeth pwysig i'r cyhoedd o ran sicrhau eu bod yn cael borgen dda pan fo arian cyhoeddus yn cael ei wario. Rwy'n falch fod y berthynas rhwng y pwyllgor, sefydliadau allanol a'r Llywodraeth yn un gynhyrchiol, hyd yn oed os nad yw'n un gyfforddus weithiau.

Yn awr, un o'r themâu a godai'n aml i ni eleni oedd diffyg monitro a chasglu data effeithiol. Mae hyn yn wir am yr ymchwiliad i ofal heb ei drefnu, absenoldeb athrawon, cyflogau uwch-reolwyr a'r adroddiad dilynol ar weithredu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG. Gwelodd hyd yn oed yr ymchwiliad i'r gwasanaeth awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn fod diffyg gwaith trylwyr ar broffilio cwsmeriaid yn golygu nad oedd y defnydd o'r gwasanaeth wedi ei deall yn llawn.

Rwy'n deall y gall casglu data cynhwysfawr fod yn isel i lawr ar y rhestr o flaenoriaethau wrth redeg gwasanaethau cyhoeddus o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae buddsoddi mewn monitro priodol yn fuddsoddi mewn effeithlonrwydd a gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac yn ein helpu i gyfiawnhau penderfyniadau. Mae angen i ni allu nodi a deall problemau er mwyn eu datrys. Rwy'n gobeithio bod Llywodraeth Cymru wedi nodi'r patrwm ac yn cytuno i wella yn y maes hwn.

Mae'r ymchwiliad i gyflogau uwch-reolwyr o ddiddordeb arbennig i mi. Ar adeg pan fo rhai o'r gweithwyr ar y cyflogau isaf yn dioddef yn sgil rhewi cyflogau a thoriadau, mae'n hanfodol nad yw cyflogau uwch-reolwyr yn y sector cyhoeddus yn cael eu caniatáu i fynd allan o reolaeth. Rwy'n fawr iawn fy nghefnogaeth i weithwyr amgueddfa Big Pit, sy'n wynebu colli eu cyflogau ar benwythnosau o ganlyniad i doriadau ysgubol i gyllid Amgueddfa Genedlaethol Cymru gan Lywodraeth Cymru. Wrth i'r rhai ar y cyflogau isaf wynebu baich y toriadau hyn, yr amgueddfa genedlaethol sydd â'r pecyn ymadael cyfartalog mwyaf hael yng Nghymru. Gwn fod hwn bellach yn cael ei ail-negodi, ond mae'n tynnu sylw at yr angen am arweiniad clir gan y Llywodraeth.

Rwy'n cytuno â'r Cadeirydd fod yn rhaid cael cysondeb a thryloywder mewn perthynas â chyflogau uwch-reolwyr, ac mae'n galonogol iawn fod y Llywodraeth wedi ymateb yn gadarnhaol i adroddiad y pwyllgor, a hefyd wedi nodi ei arwyddocâd ar adeg o bwysau mawr ar wariant cyhoeddus. Yn y flwyddyn sydd i ddod, y flwyddyn olaf o dymor y Cynulliad hwn, rwy'n sicr y bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn parhau i ysgogi craffu ar wariant cyhoeddus datganoledig ac i annog yr arferion gorau, ac edrychaf ymlaen at fod yn rhan o'r gwaith hwnnw. Diolch i chi, Lywydd.

We have indeed covered a wide range of subjects. I think the inquiry we did into senior officers' pay and the different ways in which different organisations arrived at senior officers' pay was particularly interesting and something that we had initiated ourselves. I think it's something we'll want to follow up further, possibly with colleagues from other Parliaments.

I just wanted to focus on one particular aspect of our work, which is our inquiry into teachers' absence, which I think revealed some quite serious issues that I'm not sure that school governors are sufficiently aware of. They are often told that, if a key member of staff is off on long-term sick, the headteacher will outline the strategies that he or she is going to use to cover for that absence with minimal impact on the learning of pupils. But that, of course, is quite different to the sudden absence of a teacher who's temporarily ill, or the cover arrangements when teachers are away on training.

I'm aware that many schools have supernumerary teachers who may have special responsibility, for example for special educational needs, who can then cover for colleagues who are off on training, which is something that is a planned event. But, I'm quite sure that most governing bodies are not aware that some teaching agencies pay supply teachers significantly less for the job than a minimal-qualified teacher in post. Sometimes, teaching agencies are used not just to cover unexpected absence, but to cover maternity leave, which, when I last looked, is at the very least six months.

I'm sure governing bodies might be even more concerned to learn that some teaching agencies are using something called the 'Swedish derogation', which obliges the person on their books to sign away their right to get the rate for the job after 12 weeks. I think these are all worrying issues, which I'm sure the Minister for education is working on, and are something that school government and local education authorities need to give a great deal more thought to, because it would appear that teaching agencies are driving a coach and horses through the equal opportunities legislation that ought to be in place across Europe.

Rydym wedi ymdrin ag ystod eang o bynciau yn wir. Rwy'n meddwl bod yr ymchwiliad a wnaethom i gyflogau uwch-reolwyr a'r gwahanol ffyrdd y daeth gwahanol sefydliadau i benderfyniad ynghylch cyflogau uwch-swyddogion yn arbennig o ddiddorol ac yn rhywbeth roeddem wedi ei gychwyn ein hunain. Rwy'n credu ei fod yn rhywbeth y byddwn yn awyddus i wneud gwaith dilynol arno, gyda chydweithwyr o Seneddau eraill o bosibl.

Roeddwn eisiau canolbwyntio ar un agwedd benodol ar ein gwaith, sef ein hymchwiliad i absenoldeb athrawon, a ddatgelodd rai materion eithaf difrifol yn fy marn i, nad wyf yn siŵr fod llywodraethwyr ysgolion yn ddigon ymwybodol ohonynt. Maent yn aml yn cael gwybod, os yw aelod allweddol o staff yn absennol oherwydd salwch hirdymor, y bydd y pennaeth yn amlinellu'r strategaethau y mae ef neu hi yn mynd i'w defnyddio i gyflenwi dros yr absenoldeb gyda'r effaith leiaf ar addysg y disgyblion. Ond mae hynny, wrth gwrs, yn bur wahanol i absenoldeb sydyn athro sy'n sâl dros dro, neu'r trefniadau cyflenwi pan fydd athrawon i ffwrdd ar hyfforddiant.

Rwy'n ymwybodol fod gan lawer o ysgolion athrawon ychwanegol a allai fod â chyfrifoldeb arbennig, er enghraifft dros anghenion addysgol arbennig, ac sy'n gallu cyflenwi wedyn dros gydweithwyr sy'n absennol ar hyfforddiant, sy'n ddigwyddiad wedi'i gynllunio. Ond rwy'n eithaf siŵr nad yw'r rhan fwyaf o gyrrff llywodraethu yn ymwybodol fod rhai asiantaethau athrawon yn talu gryn dipyn yn llai i athrawon cyflenwi wneud y gwaith nag athro â lleiafswm o gymwysterau yn y swydd. Weithiau, defnyddir asiantaethau athrawon nid yn unig i lenwi dros absenoldeb annisgwyl, ond dros gyfnod mamolaeth, sy'n chwe mis o leiaf, pan edrychais ddiwethaf.

Rwy'n siŵr y byddai cyrff llywodraethu hyd yn oed yn fwy pryderus o glywed bod rhai asiantaethau athrawon yn defnyddio rhywbeth a elwir yn 'rhanddirymiad Swedeg', sy'n mynnu bod yr unigolyn ar eu llyfrau yn cytuno i golli ei hawl i gael y gyfradd ar gyfer y swydd ar ôl 12 wythnos. Rwy'n meddwl bod y rhain i gyd yn faterion sy'n peri pryder, ac rwy'n siŵr fod y Gweinidog addysg yn gweithio arnynt. Maent yn bethau y mae angen i lywodraethwyr ysgolion ac awdurdodau addysg lleol feddwl llawer iawn mwy amdanynt, oherwydd mae'n ymddangos bod asiantaethau athrawon yn gyrru ceffyl a throl drwy'r ddeddfwriaeth cyfle cyfartal a ddylai fod ar waith ar draws Ewrop.

Ydy, mae wedi bod yn gyfnod prysur. Ar adegau, rwy'n siŵr bod y rhai hynny o'r Aelodau nad ydynt yn byw yn y gogledd wedi teimlo ein bod ni wedi bod yn bwyllogor craffu ar gyfer bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr. Yn y pen draw, rwy'n teimlo bod nifer o Aelodau wedi'i gwneud yn hollol blaen beth yw'r pynciau sydd wedi bod yn her i ni fel pwyllgor. Hefyd, rwy'n credu bod her i'r Llywodraeth, achos rwy'n cytuno gyda beth ddywedodd Darren Millar, sef bod y Llywodraeth wedi ymateb yn bositif i'r rhan fwyaf o'r argymhellion sydd wedi cael eu gwneud gan y pwyllgor, ond, yn y pen draw, beth sydd ei angen ydy bod y Llywodraeth hefyd yn dangos bod hynny wedi gwneud gwahaniaeth ar lawr gwlad. Mae'n rhaid imi ddweud bod yna achosion erbyn hyn lle mae'r pwyllgor yn ysgrifennu adroddiad, mae'r Llywodraeth yn ymateb, ond, ar ôl hynny, mae yna ryw faint o rwystredigaeth, fel Aelod cyffredin, nad yw pethau'n newid ar lawr gwlad.

Buaswn yn cytuno â Jocelyn Davies mai un o'r astudiaethau mwyaf pwysig rydym ni wedi ei gwneud oedd yr un y bu inni ei dewis ein hunain, sef edrych ar gyflogau uwch-swyddogion. Rwy'n credu ein bod ni wedi dweud bod rhaid cael mwy o gysondeb. Rwy'n credu ein bod ni wedi rhoi rhyw fath o oleuni ar y pwnc, ac roedd y Llywodraeth yn derbyn bod angen i'r gyfundrefn newid. Ond, rwyf am gyfeirio at ymateb y Gweinidog, Leighton Andrews, i'r adroddiad, pan gafodd hwnnw ei drafod ar lawr y Cynulliad. Dywedodd o, o ran 'senior management pay':

'Again, that will be an issue that is addressed in our local government White Paper. But I also think that one of the most important elements here is the issue of transparency and the ability of members of the public to have a very clear view of what is being spent on their behalf.'

Nawr, mae hynny yn gywir o fewn llywodraeth leol, ac mae'n gywir o ran Amgueddfa Cymru hefyd. Rwy'n delio efo cais ar hyn o bryd yn Wrexham, lle mae un o'r gweithwyr sydd ar gyflog isel—rhyw £590 y mis, credwch neu beidio—wedi cael toriad o ryw £90 y mis yn ei chyflog. Mae'n siŵr ei bod hi'n edrych ar adroddiad lle mae pobl yn cael cannoedd o filoedd o bunnoedd ac yn gofyn cwestiynau ynglŷn â beth sy'n mynd ymlaen. Ond, wrth gwrs, os ydy'r Llywodraeth yma eisiau dangos y ffordd i lywodraeth leol, i'r gwasanaeth iechyd a phob corff cyhoeddus arall yng Nghymru, mae yna hen ddywediad yn dweud eich bod chi eisiau gwneud yn ôl eich arfer eich hun. Mae hynny'n creu sefyllfa lle rydych chi eisiau bod yn hollol agored hefyd ynglŷn â thaliadau sy'n cael eu gwneud i uwch-swyddogion yn Llywodraeth Cymru.

Yes, it has been a busy period. At times, I'm sure that those Members who don't live in north Wales have felt that we have been operating as a scrutiny committee for the Betsi Cadwaladr health board. Ultimately, I feel that many Members have made it absolutely clear what the issues that have challenged us as a committee have been. I also believe that there is a challenge for Government, because I agree with Darren Millar's comment that the Government has responded positively to the vast majority of recommendations made by the committee, but, ultimately, what is required is that the Government also demonstrates that that has actually made a palpable difference on the ground. I have to say that there are now cases where the committee drafts a report, the Government responds, but, after that, there is some frustration, as an ordinary Member, that things don't change on the ground.

I would agree with Jocelyn Davies that one of the most important inquiries that we undertook was the one that we selected ourselves, which was to look at senior management pay. I do think that we said that we needed greater consistency. I believe that we shed some light on the issue, and the Government accepted that the system needed to change. But, I do want to refer to the response of the Minister, Leighton Andrews, to the report when it was discussed in Plenary. He said, in terms of senior management pay:

'Again, that will be an issue that is addressed in our local government White Paper. But I also think that one of the most important elements here is the issue of transparency and the ability of members of the public to have a very clear view of what is being spent on their behalf.'

Now, that is true within local government, and it's also true in terms of National Museum Wales. I'm dealing with an issue in Wrexham at present, where one of the employees who earns a low wage—some £590 a month, if you can believe that—has seen a cut of some £90 a month in her salary. I'm sure that if she were to look at a report that shows how people are paid hundreds of thousands of pounds, she would question what exactly is going on. But, of course, if this Government wants to lead the way in terms of local government, the health service and every other public body in Wales, there is an old saying that says that you will be judged according to your own practice. That creates a situation where you too have to be entirely open about the payments made to senior staff within the Welsh Government.

A gaf i hefyd sôn am un peth arall, achos mae'r amser yn symud yn gyflym? Mi oedd yna hefyd adroddiad pwysig iawn o ran gweithredu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofaliad iechyd parhaus o fewn y gwasanaeth iechyd. Eto, fel y dywedodd Darren Millar, roeddwn yn synnu at nifer yr achosion a oedd wedi bod o fewn y gyfundrefn am flynyddoedd. Roeddwn yn synnu, pan aethom ni nôl at y sefyllfa ym mis Ionawr, er inni weld bod y sefyllfa wedi gwella i ryw raddau, roedd dal i fod problemau. Roeddwn yn cael esgusodion gan rai o'r byrddau iechyd ynglŷn â faint o achosion roeddent yn delio efo. Er inni gredu ein bod ni wedi gwneud cryn dipyn o wahaniaeth, derbyniais lythyr yr wythnos diwethaf gan rywun yn y gogledd a roddodd gais ymlaen ym mis Awst 2014, ac, wedi darllen ein hadroddiad ni, wedi darllen ymateb y Llywodraeth a hefyd wedi darllen tystiolaeth Dr Goodall ar ran y gwasanaeth iechyd, mae o'n dweud bod union yr un problemau yn ymddangos. Cafodd o lythyr yn ôl gan Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys, sy'n gweithredu ar ran y rhan fwyaf o'r cyrff, yn dweud, yn y lle cyntaf, eu bod nhw eisiau naill ai anfonebau o'r cartref neu gopïau o'i gyfrifon banc. Chwe mis yn ddiweddarach, roeddent yn dweud, 'Na; mae'n rheolau ni wedi newid. Rydyn ni eisiau'r cyfrifon a'r anfonebau.' Nid ydy o dal wedi cael unrhyw fath o gydnabyddiaeth bod yr achos yn cael ei ddelio efo. Felly, mae'n ddigon teg inni eistedd yma a dweud ein bod ni wedi gwneud gwaith da, ond beth fydd pobl y tu allan yn gofyn i ni ydy a ydyn ni wedi creu sefyllfa lle mae hynny wedi achosi newid o ran arfer o fewn y system gyhoeddus.

May I also mention one further thing, because time is now against me? There was also an important report as regards implementing the national framework for continuing NHS healthcare. Again, as Darren Millar said, we were surprised by just how many cases there had been within the system over a period of years. I was surprised, when we returned to the issue in January, that, even though there had been some improvement, problems remained. We heard excuses from some health boards as to the number of cases they were dealing with. Although we believe that we made quite a difference, I received a letter just last week from someone in north Wales who had put forward a request in August 2014, and, having read our report, having read the Government's report, and also having read the evidence of Dr Goodall on behalf of the NHS, he says that exactly the same problems remain. He received a letter back from the Powys Teaching Local Health Board, which operates on behalf of most of these bodies, saying, in the first place, that they wanted to either see receipts from the home or copies of bank statements. Six months later, they said, 'No; our rules have changed. We need the statements and the receipts.' He still hasn't had any recognition that the case is being dealt with. So, it's fine for us to sit here and say that we've done excellent work, but what people outside this place will ask us is whether we have created a situation where that has led to real change in terms of practice within public bodies.

15:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:19 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Thank you, Llywydd, and thank you for the opportunity to respond on behalf of the Welsh Government. Firstly, I would like to thank the Chair and committee members for bringing the second Public Accounts Committee annual report before us today. The annual report plays an important part in demonstrating accountability to the public. As a documented summary of the year's work, it can't fully describe all the work that's been undertaken by the committee and its members without reference to the detailed evidence sessions and reports of individual reviews. But, I'd like to place on record the Government's appreciation of the committee members for undertaking this important scrutiny role.

Diolch i chi, Lywydd, a diolch i chi am y cyfle i ymateb ar ran Llywodraeth Cymru. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor am ddod ag ail adroddiad blynyddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ger ein bron heddiw. Mae'r adroddiad blynyddol yn chwarae rhan bwysig yn arddangos atebolrwydd i'r cyhoedd. Fel dogfen gryno o waith y flwyddyn, ni all ddisgrifio'n llawn yr holl waith a wnaed gan y pwyllgor a'i aelodau heb gyfeirio at y sesiynau tystiolaeth manwl ac adroddiadau ar adolygiadau unigol. Ond hoffwn gofnodi gwerthfawrogiad y Llywodraeth o waith aelodau'r pwyllgor am ymgymryd â'r rôl graffu bwysig hon.

The ability to scrutinise Government in an informed way and to be able to share both the process and the outcome with the public, who we all serve, are important features of our democracy. The report summarises seven reviews undertaken by the committee during the year, and I believe that, once again, the report shows genuine accountability and demonstrates a willingness on behalf of the Government to accept and act upon constructive criticism. But, as the report highlights, the vast majority of the recommendations made by the committee have been accepted by this Government. This reflects well on the scrutiny process and the constructive manner in which it's conducted. It's also testimony to the way this Government has fully engaged with this process, enabling the committee to reach balanced and evidence-based conclusions.

Mae'r gallu i graffu ar y Llywodraeth mewn ffordd wybodus a'r gallu i rannu'r broses a'r canlyniad gyda'r cyhoedd yr ydym oll yn eu gwasanaethu yn nodweddiadol pwysig o'n democratiaeth. Mae'r adroddiad yn crynhoi saith adolygiad a gynhaliwyd gan y pwyllgor yn ystod y flwyddyn, a chredaf, unwaith eto, fod yr adroddiad yn dangos atebolrwydd go iawn a pharodrwydd ar ran y Llywodraeth i dderbyn a gweithredu ar feirniadaeth adeiladol. Ond fel y mae'r adroddiad yn nodi, mae'r mwyafrif helaeth o'r argymhellion a wnaed gan y pwyllgor wedi cael eu derbyn gan y Llywodraeth hon. Mae hyn yn adlewyrchu'n dda ar y broses graffu a'r ffaith iddi gael ei chynnal mewn modd adeiladol. Mae hefyd yn tystio i'r modd y mae'r Llywodraeth hon wedi ymgysylltu'n llawn â'r broses, gan alluogi'r pwyllgor i ddod i gasgliadau cytbwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The committee's reviews and the Government's response to each are now a matter of public record, and while it wouldn't be appropriate to revisit any one review today, I would reiterate that the Government has made clear commitments against those recommendations that have been accepted. In response to Aled Roberts's point, furthermore we do hold ourselves to account for implementing those commitments by regularly progress monitoring and tracking through the scrutiny provided by the Welsh Government's corporate governance committee.

Finally, on behalf of the Government, I would once again like to thank the committee for the work that they've undertaken. With many challenges ahead of us, I'm hopeful that the Public Accounts Committee will continue to play a vital role in helping us to deliver efficient and effective public services for the people of Wales.

Mae adolygiadau'r pwyllgor ac ymateb y Llywodraeth i bob un bellach wedi'u cofnodi'n gyhoeddus, ac er na fyddai'n briodol edrych eto ar unrhyw adolygiad penodol heddiw, hoffwn ailadrodd fod y Llywodraeth wedi gwneud ymrwymadau clir ynghylch yr argymhellion y mae wedi eu derbyn. Mewn ymateb i bwynt Aled Roberts, rydym hefyd yn dwyn ein hunain i gyfrif am weithredu'r ymrwymadau hynny drwy fonitro cynnydd yn rheolaidd ac olrhain y gwaith craffu a wnaed gan bwyllgor llywodraethu corfforaethol Llywodraeth Cymru.

Yn olaf, ar ran y Llywodraeth, carwn ddiolch unwaith eto i'r pwyllgor am y gwaith a wnaethant. Gyda llawer o heriau o'n blaenau, rwy'n obeithiol y bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn parhau i chwarae rhan hanfodol yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon ac effeithiol i bobl Cymru.

15:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the committee, Darren Millar, to reply to the debate.

Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor, Darren Millar, i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:22 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. As Members have quite rightly said, the Public Accounts Committee performs an extremely important role—a vital role, in fact—in trying to safeguard the public purse and deliver value for money for taxpayers, and I'm very pleased with the keenness with which the Welsh Government has accepted our recommendations and has worked constructively with us over the past year. And I want to thank every Member who has contributed to this debate for their contributions. It has indeed been a very busy year. Members will have seen the breadth of the work that we have done, but, of course, as Jocelyn Davies said in her remarks and contribution to the debate, there have been a number of recurring themes and many of those have related to poor governance, poor use of data that is available or the non-existence of data that should be available in order for the Government and other parts of the public sector to make the right decisions about their use of resources.

Diolch i chi, Lywydd. Fel y mae'r Aelodau wedi dweud yn gwbl briodol, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cyflawni rôl bwysig—rôl hanfodol mewn gwirionedd—yn ceisio diogelu arian cyhoeddus a rhoi gwerth am arian i drethdalwyr, ac rwy'n falch iawn o awydd Llywodraeth Cymru i dderbyn ein hargymhellion ac i weithio'n adeiladol gyda ni dros y flwyddyn ddiwethaf. Ac rwyf am ddiolch i bob Aelod a gyfrannodd at y ddatl hon am eu cyfraniadau. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur iawn yn wir. Bydd yr Aelodau wedi gweld ehangder y gwaith a wnaethom, ond wrth gwrs, fel y dywedodd Jocelyn Davies yn ei sylwadau a'i chyfraniad at y ddatl, roedd nifer o themâu yn codi eu pennau'n aml ac roedd llawer o'r rheini'n ymwneud â llywodraethu gwael, defnydd gwael o ddata sydd ar gael neu ddata heb fod ar gael a ddylai fod ar gael er mwyn i'r Llywodraeth a rhannau eraill o'r sector cyhoeddus wneud y penderfyniadau cywir ynglŷn â'u defnydd o adnoddau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:23.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:23.

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A number of Members have picked up on the senior management pay inquiry, and I think it was brought sharply into focus that there does seem to be a different set of rules for senior managers in the public sector in Wales versus those in more junior roles. We do need to address that going forward so that we can have a more balanced approach for the workforce, no matter where they work in the public sector. Jocelyn referred to the departure payments and the information that's been shared with the committee on that as a result of some further work by the Wales Audit Office. Of course, that is something we've taken a keen interest in, and will continue to take a keen interest in, particularly when we look at another set of organisations later this year when we consider their accounts.

Mae nifer o'r Aelodau wedi nodi'r ymchwiliad i gyflogau uwch-reolwyr, ac rwy'n meddwl ei fod wedi rhoi ffocws pendant i'r ffaith ei bod yn ymddangos bod set wahanol o reolau ar gyfer uwch-reolwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru o gymharu â rhai mewn swyddi is. Mae angen i ni fynd i'r afael â hynny wrth symud ymlaen fel y gallwn gael ymagwedd fwy cytbwys ar gyfer y gweithlu, lle bynnag y maent yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Cyfeiriodd Jocelyn at y taliadau ymadael a'r wybodaeth a rannwyd gyda'r pwyllgor am hynny o ganlyniad i waith pellach gan Swyddfa Archwilio Cymru. Wrth gwrs, mae hynny'n rhywbeth rydym wedi bod â diddordeb mawr ynddo, a byddwn yn parhau i fod â diddordeb brwd ynddo, yn enwedig wrth i ni edrych ar gyfres arall o sefydliadau yn ddiweddarach eleni pan fyddwn yn ystyried eu cyfrifon.

Jenny Rathbone quite rightly picked up on our managing teachers' absence report, and we were bewildered as a committee that even where absences are planned, there doesn't appear to be an effective and consistent approach to ensuring that there's adequate cover by individual governing bodies and individual schools. Unfortunately, individual local education authorities don't appear to have a handle on ensuring and driving consistency in their own areas. Indeed, we were very surprised also that there's no collation of data by the Welsh Government on a national basis to try to get an overview and a steer of these things. I was very pleased that the Welsh Government accepted a recommendation to take more of an interest in what's going on locally around Wales in response to the committee's report.

Aled Roberts referred to the fact that we've taken evidence on many occasions from the Betsi Cadwaladr University Local Health Board, and indeed we will include in our annual report for next year some references to the ongoing work that we're doing as a committee into NHS governance arrangements in Wales, which have been a particular concern to all Members across this Chamber in recent months, particularly those of us in north Wales. He also made the very important point, as did the Minister, on the need for us to ensure that recommendations are implemented. I know the Welsh Government does its best to monitor and implement recommendations that have been accepted, but we also want to verify that those recommendations have been implemented. That's why, as part of the legacy work that we do in advance of the next Assembly, we will be producing an annex to our legacy report that includes the impact of the reports that we have done in terms of the recommendations that have been implemented and where those are actually at. So, we look forward to being able to take a greater interest in the implementation of our recommendations in the future.

Aled, of course, also referred to our work on continuing NHS healthcare, and I know that we're awaiting further updates from the Government on progress in relation to this, but I think it's worth pointing out that we still do have concerns, particularly over the ability of individuals and families, in difficult circumstances often, to be able to challenge decisions that may have been made about their loved ones and certainly on the need for people to be aware of the independent advocacy that is available to them, which is provided by community health councils and other organisations across Wales in giving them an ability to take a challenge forward. But certainly I think our greatest concern was the longevity of some of the cases that are on the books of a number of health boards around Wales and the intractable way in which cases are being dealt with, many of which go back a number of years. In spite of the information that has been provided, once the case is passed from a local health board to the central project that is being run by Powys, very often the process can start all over again unnecessarily. I think that is very much a cause for concern.

Soniodd Jenny Rathbone, yn gwbl briodol, am yr adroddiad ar reoli absenoldeb athrawon, ac roedd yn destun penbleth i ni fel pwyllgor, hyd yn oed lle y caiff absenoldebau eu cynllunio, nad yw'n ymddangos bod dull effeithiol a chyson ar waith i sicrhau bod digon o ddarpariaeth gyflenwi gan gyrrff llywodraethu unigol ac ysgolion unigol. Yn anffodus, nid yw'n ymddangos bod awdurdodau addysg lleol unigol yn llwyddo i sicrhau ac ysgogi cysondeb yn eu hardaloedd eu hunain. Yn wir, cawsom syndod o weld hefyd nad yw Llywodraeth Cymru yn casglu data ar sail genedlaethol i geisio cael trosolwg a syniad o'r pethau hyn. Roeddwn yn falch iawn fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad i roi mwy o sylw i'r hyn sy'n digwydd yn lleol ledled Cymru mewn ymateb i adroddiad y pwyllgor.

Cyfeiriodd Aled Roberts at y ffaith ein bod wedi cymryd tystiolaeth ar sawl achlysur gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac yn wir byddwn yn cynnwys rhai cyfeiriadau yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn nesaf at y gwaith parhaus rydym yn ei wneud fel pwyllgor ar drefniadau llywodraethu'r GIG yng Nghymru, sydd wedi bod yn bryder arbennig i'r holl Aelodau ar draws y Siambr hon dros y misoedd diwethaf, yn enwedig y rhai ohonom yng ngogledd Cymru. Gwnaeth y pwynt pwysig iawn hefyd, fel y gwnaeth y Gweinidog, ynghylch yr angen i ni sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu. Rwy'n gwybod bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gorau i fonitro a gweithredu argymhellion a gafodd eu derbyn, ond rydym hefyd yn awyddus i gadarnhau bod yr argymhellion wedi cael eu gweithredu. Dyna pam y byddwn yn llunio atodiad i'n hadroddiad etifeddiaeth, yn rhan o'r gwaith etifeddol a wnawn cyn y Cynulliad nesaf, i gynnwys effaith yr adroddiadau a wnaethom o ran yr argymhellion a roddwyd ar waith a lle'n union y maent i'w gweld. Felly, edrychwn ymlaen at allu rhoi mwy o sylw i weithrediad ein hargymhellion yn y dyfodol.

Cyfeiriodd Aled hefyd, wrth gwrs, at ein gwaith ar ofal iechyd parhaus y GIG, a gwn ein bod yn aros am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Llywodraeth ar gynnydd a wnaed mewn perthynas â hyn, ond rwy'n meddwl ei bod yn werth nodi bod gennym bryderon o hyd, yn enwedig ynghylch gallu unigolion a theuluoedd, mewn amgylchiadau anodd yn aml, i herio penderfyniadau ynglŷn â'u hanwyliaid ac yn sicr ar yr angen i bobl fod yn ymwybodol o'r eiriolaeth annibynnol sydd ar gael iddynt, ac a ddarperir gan gynghorau iechyd cymuned a chyrrff eraill ledled Cymru i'w galluogi i gyflwyno her. Ond yn sicr rwy'n meddwl mai ein pryder mwyaf oedd hirhoedledd rhai o'r achosion sydd ar lyfrau nifer o fyrdau iechyd ledled Cymru a'r modd anhydrin y mae achosion yn cael eu trin, a llawer ohonynt yn mynd yn ôl nifer o flynyddoedd. Er y wybodaeth a ddarparwyd, wedi i'r achos gael ei drosglwyddo o fwrdd iechyd lleol i'r prosiect canolog sy'n cael ei redeg gan Bowys, yn aml iawn gall y broses ddechrau unwaith eto yn ddiangen. Credaf fod hynny'n sicr yn achos pryder.

The Minister was quite right: we weren't able to touch on all aspects of our work in our annual report, and some of the other interesting things that we've been doing this year include a valedictory session with an outgoing director general of health and social services and we hope to have other valedictory sessions with outgoing directors general in the future. We didn't also touch a great deal on the ongoing work and interest that we've got in grants management in the public sector, but I know that that's something that the Minister takes a keen interest in, as do all members of our committee.

So, in closing, I just want to thank those who've contributed to this debate. I thank the Minister for her positive contribution and response also. I put on record my thanks, as Chair of the committee, to the clerks who support the work of the committee and the Research Service and to all of those individuals and organisations who have given evidence to the committee over the duration of the period covered by the report.

Roedd y Gweinidog yn iawn: ni fu modd i ni gyffwrdd ar bob agwedd ar ein gwaith yn ein hadroddiad blynyddol, ac mae rhai o'r pethau diddorol eraill y buom yn eu gwneud yn ystod y flwyddyn hon yn cynnwys sesiwn ymadawol gyda chyfarwyddwr cyffredinol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol sy'n gadael ei swydd ac rydym yn gobeithio cael sesiynau ymadawol eraill gyda chyfarwyddwyr cyffredinol sy'n ymddeol yn y dyfodol. Ni chyffyrddwyd llawer iawn ar y gwaith parhaus a'r diddordeb sydd gennym mewn rheoli grantiau yn y sector cyhoeddus, ond gwn fod hynny'n rhywbeth y mae'r Gweinidog â diddordeb brwd ynddo, fel pob aelod o'n pwyllgor.

Felly, wrth gloi, rwyf am ddiolch i'r rhai sydd wedi cyfrannu at y ddatl hon. Diolch i'r Gweinidog am ei chyfraniad cadarnhaol ac am ei hymateb hefyd. Hoffwn gofnodi fy niolch, fel Cadeirydd y pwyllgor, i'r clerod sy'n cefnogi gwaith y pwyllgor a'r Gwasanaeth Ymchwil ac i'r holl unigolion a'r sefydliadau sydd wedi rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor dros y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad.

15:28

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to note the Public Accounts Committee's report. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Addysg

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Elin Jones, a gwelliant 3 yn enw Aled Roberts. Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael eu dad-dethol.

5. Welsh Conservatives Debate: Education

The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Elin Jones, and amendment 3 in the name of Aled Roberts. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:28

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 5—dadl y Ceidwadwyr Cymreig: addysg. Galwaf ar Angela Burns i wneud y cynnig.

Item 5—Welsh Conservatives Debate: education. I call Angela Burns to move the motion.

Cynnig NDM5801 Paul Davies

Motion NDM5801 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi pwysigrwydd safon uchel o addysg ar gyfer disgyblion yng Nghymru er mwyn cynyddu eu gallu i gystadlu yn genedlaethol ac yn fyd-eang;

1. Notes the importance of a high standard of education for pupils in Wales, in order to increase their competitiveness both nationally and globally;

2. Yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd gormod o amser i ddatblygu mesurau i godi safonau ysgolion yng Nghymru;

2. Believes that the Welsh Government has taken too long to develop measures to raise school standards in Wales;

3. Yn credu nad yw consortia rhanbarthol mor effeithiol ag y mae angen iddynt fod o ran helpu i wella ysgolion; a

3. Believes that regional consortia are not as effective as they need to be in helping school improvement; and

4. Yn credu bod polisi ieithoedd tramor modern Llywodraeth Cymru o greu canolfannau rhagoriaeth yn annigonol i fynd i'r afael â'r angen i godi safon y ddarpariaeth ieithoedd tramor modern mewn ysgolion yng Nghymru.

4. Believes that the Welsh Government's modern foreign language policy of creating centres of excellence is insufficient to address the need to raise standards of modern foreign language provision in schools in Wales.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:28

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Dirprwy Lywydd, it gives me great pleasure to move the Welsh Conservative motion, tabled in the name of my colleague Paul Davies. I hope that, at the conclusion of this debate, Members of this Assembly will reach the same inescapable conclusion as the Welsh Conservatives in that standards in the Welsh education system are simply not good enough. We will not be supporting the Plaid Cymru amendments as they seek to deselect elements of our motion. However, we do agree with both, and my colleague Suzy Davies will expand on amendment 2 in particular in greater detail.

We will support amendment 3, tabled by the Welsh Liberal Democrats, as it is only by monitoring activity against outcome that any Government can measure the success of a policy, and we all know that the Welsh Government has never got to grips with the concept of monitoring outcomes. An example I would put forward is the pupil deprivation grant—a good concept but one where money has literally been thrown at schools with poor monitoring of the impact that money has had on the targeted child.

This debate is unashamedly about standards in education and why we must exert every sinew to raising them. The Welsh Conservatives believe that the Welsh Government has taken too long to develop measures to raise school standards in Wales. I do acknowledge that there has been much engagement and policy development with the ideas put forward by Professors Donaldson and Furlong. However, Minister, it is all jam tomorrow. My concern is that the debate on educational standards for today's children has effectively been kicked into the long grass by an exhausted Government. The cri de coeur from the Government is that it will get better, but we will have to wait for our teachers to be retrained and re-motivated via the big debate, the new deal, and the Furlong review. But we will have to wait for our curriculum to be dragged into the twenty-first century by the Donaldson reforms and then all will be well. But, Minister, only yesterday, you confirmed that it would take seven to eight years for these changes, and whilst I and others have been told it will be a decade or more, educators are also of the view that this is a very long-term change. So, what, I ask, happens in the meantime. Jam tomorrow does not help the young people and children of today.

Ddirprwy Lywydd, mae'n rhoi pleser mawr i mi gynnis cynnig y Ceidwadwyr Cymreig, a gyflwynwyd yn enw fy nghyd-Aelod, Paul Davies. Ar ddiwedd y ddadl hon, rwy'n gobeithio y bydd Aelodau'r Cynulliad yn dod i'r un casgliad anochel â'r Ceidwadwyr Cymreig sef yn syml, nad yw safonau yn system addysg Cymru yn ddigon da. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliannau Plaid Cymru gan eu bod yn ceisio dad-ddethol elfennau o'n cynnig. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â'r ddau, a bydd fy nghyd-Aelod Suzy Davies yn ymhelaethu'n fanylach ar welliant 2 yn benodol.

Byddwn yn cefnogi gwelliant 3, a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, gan mai dim ond drwy fonitro gweithgaredd yn erbyn canlyniad y gall unrhyw Lywodraeth fesur llwyddiant polisi, ac rydym i gyd yn gwybod nad yw Llywodraeth Cymru erioed wedi mynd i'r afael â'r cysyniad o fonitro canlyniadau. Un enghraifft y carwn ei chyflwyno yw'r grant amddifadedd disgyblion—cysyniad da ond un lle y cafodd arian ei daflu'n llythrennol at ysgolion nad ydynt yn mynd ati mewn modd effeithiol i fonitro'r effaith y mae arian wedi'i gael ar y plentyn a dargedir.

Mae'r ddadl hon yn ymwneud yn ddiedifar â safonau mewn addysg a pham y mae'n rhaid i ni wneud pob ymdrech i'w codi. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd gormod o amser i ddatblygu mesurau i godi safonau ysgolion yng Nghymru. Rwy'n cydnabod y bu llawer o ymgysylltu a datblygu polisi gyda'r syniadau a gyflwynwyd gan yr Athro Donaldson a'r Athro Furlong. Fodd bynnag, Weinidog, mae'r cyfan yn syniad gwych nad yw'n cael ei wireddu. Fy mhryder yw bod y ddadl ar safonau addysgol ar gyfer plant heddiw wedi cael ei rhoi o'r neilltu i bob pwrpas gan Lywodraeth sydd wedi llwyr ymlâdd. Cri de coeur y Llywodraeth yw y bydd yn gwella, ond bydd yn rhaid i ni aros i'n hathrawon gael eu hailhyfforddi a'u hailysgogi drwy'r sgwrs fawr, y fargen newydd, ac adolygiad Furlong; ond bydd yn rhaid i ni aros i'n cwricwlwm gael ei lusgo i mewn i'r unfed ganrif ar hugain gan ddiwygiadau Donaldson ac yna bydd popeth yn iawn. Ond Weinidog, ddoe yn unig, fe gadarnhaoch y byddai'n cymryd saith i wyth mlynedd i'r newidiadau hyn ddiwydd, ac er fy mod i ac eraill wedi cael gwybod y bydd yn ddegawd neu fwy, mae addysgwyr hefyd o'r farn fod hwn yn newid hirdymor iawn. Felly, rwy'n gofyn, beth sy'n digwydd yn y cyfamser? Nid yw'r addewidion ar gyfer yfory yn helpu pobl ifanc a phlant heddiw.

Let me quickly review today so that Members are left in no doubt about the scale of the problems Welsh students suffer because of a lack of rigour and standards. Last year's GCSE results in English language saw that pupils performed worse on all measures. Mathematics was particularly bad; even though more pupils sat maths GCSE during 2014, pupils performed worse on all measures. And last year's A-level results in both English and maths were no better, Minister. If we look at this in terms of A-level trends, the picture is bleak. In 2007, the percentage of pupils getting an A was 24.1 per cent. In 2014, this has dropped to 23.1 per cent. In 2007, the percentage of pupils getting an A* to E was 97.1. In 2014, the percentage has increased by 0.4 per cent. So, in seven years, the numbers of pupils in Wales achieving any form of pass has risen by 0.4 per cent. Minister, in nobody's vocabulary can this be defined as an achievement.

Let me remind Members of the views on standards from the independent watchdog, Estyn. In their 2012-13 report, they said that,

'Of the three core subjects, pupils' performance is weakest in mathematics and it is unlikely that pupils will be able to apply sound numeracy skills across the curriculum if there are weaknesses in their learning in mathematics.'

As for literacy, Minister, and to state the obvious because it obviously needs stating:

'if pupils cannot read with understanding at an age-appropriate level, the content of many lessons will be difficult to understand because comprehension is a fundamental pre-requisite of learning.'

Educational outcomes have not improved because, a year later, Estyn was still saying that pupils struggle to use basic number techniques.

Standards have declined in primary schools, with only 62 per cent of schools inspected judged to have excellent or good overall performance. Members, in real terms, this means that 515 of our primary schools are judged to be just adequate or worse. Primary schools should be the bedrock of our children's education. If we cannot improve or even maintain standards in primary, what chance do pupils have going forward? Five years ago—five years ago—80 per cent of schools inspected had 'excellent' or 'good' performance, and today that number is just 62 per cent. What a retrograde step for standards in education.

Gadewch i mi adolygu'n gyflym heddiw fel nad yw'r Aelodau yn cael eu gadael mewn unrhyw amheuaeth ynglŷn â maint y problemau y mae myfyrwyr Cymru yn eu dioddef oherwydd diffyg trylwyredd a safonau. Roedd canlyniadau TGAU y llynedd mewn Saesneg iaith yn dangos bod y disgyblion wedi perfformio'n waeth ar yr holl fesurau. Roedd mathemateg yn arbennig o wael; er bod mwy o ddisgyblion wedi sefyll arholiadau TGAU mewn mathemateg yn ystod 2014, perfformiodd y disgyblion yn waeth ar yr holl fesurau. Ac nid oedd canlyniadau Safon Uwch y llynedd mewn Saesneg a mathemateg yn ddim gwell, Weinidog. Os edrychwn ar hyn o safbwynt tueddiadau Safon Uwch, mae'r darlun yn llwm. Yn 2007, roedd canran y disgyblion a gafodd A yn 24.1 y cant. Yn 2014, gostyngodd i 23.1 y cant. Yn 2007, roedd canran y disgyblion a gafodd A* i E yn 97.1. Yn 2014, roedd y ganran wedi codi 0.4 y cant. Felly, mewn saith mlynedd, mae nifer y disgyblion yng Nghymru sy'n pasio ar unrhyw radd wedi codi 0.4 y cant. Weinidog, ni ellir diffinio hyn fel cyflawniad yng ngeirfa neb.

Gadewch i mi atgoffa'r Aelodau beth yw barn y corff gwarchod annibynnol, Estyn, ar y safonau. Yn eu hadroddiad ar gyfer 2012-13, roeddent yn dweud hyn:

'O'r tri phwnc craidd, mewn mathemateg y mae perfformiad disgyblion wannaf, ac mae'n annhebygol y bydd disgyblion yn gallu cymhwyso medrau rhifedd cadarn ar draws y cwricwlwm os oes gwendidau yn eu dysgu mewn mathemateg.'

O ran llythrennedd, Weinidog, ac i ddatgan yr amlwg gan ei fod yn amlwg angen ei ddatgan:

'Os na all disgyblion ddarllen gyda dealltwriaeth ar lefel sy'n briodol i'w hoed, bydd cynnwys llawer o wersi yn anodd iddynt ei ddeall am fod dealltwriaeth yn rhagofyniad sylfaenol mewn dysgu.'

Nid yw canlyniadau addysgol wedi gwella oherwydd, flwyddyn yn ddiweddarach, roedd Estyn yn dal i ddweud bod y disgyblion yn cael trafferth i ddefnyddio technegau rhif sylfaenol.

Mae safonau wedi gostwng mewn ysgolion cynradd, a barnwyd mai 62 y cant yn unig o'r ysgolion a arolygwyd a oedd yn arddangos perfformiad cyffredinol rhagorol neu dda. Aelodau, mewn termau real, mae hyn yn golygu y bernir mai digonol yn unig neu waeth yw 515 o'n hysgolion cynradd. Dylai ysgolion cynradd fod yn sylfaen i addysg ein plant. Os na allwn wella neu hyd yn oed gynnal safonau mewn ysgolion cynradd, pa obaith sydd gan ddisgyblion wrth symud ymlaen? Bum mlynedd yn ôl—bum mlynedd yn ôl—roedd 80 y cant o'r ysgolion a arolygwyd yn perfformio'n 'rhagorol' neu'n 'dda', a heddiw, 62 y cant yn unig yw'r rhif hwnnw. Am gam yn ôl yw hynny i safonau addysg.

Let me turn to the standards quickly in the higher education sector. Whilst this year's 'The Guardian' university rankings put Cardiff at 26 out of 119, Aberystwyth was ranked one hundred and tenth, the University of South Wales, one hundred and thirteenth, and the University of Wales, Trinity St David's, one hundred and seventeenth. They are very unsettling figures, given that there are only 119 places overall. Whilst there are many different reasons for Welsh universities to be in this state, there's no doubt, Minister, that your Government's funding arrangements are putting pressure on higher education institutions in Wales. By subsidising students even if they study outside of Wales, Welsh Labour are depriving HEIs in Wales of vital funding to help them improve research and teaching capacity.

At least the further education sector manage to hold their own. They've outperformed against the tough conditions imposed on them by the Welsh Labour Government. But, Minister, you intend to cut their budget by £17.5 million. You have not played fair and you have not been transparent with further education institutions regarding their funding arrangements. This lack of clarity and information on the Welsh Government's part means that FEIs cannot plan and prioritise as effectively as they would like. It puts staff positions in doubt; it negatively affects FEIs' communication with employers; and it jeopardises the ability of FEIs to provide a quality education to their students.

And let me briefly look at three areas where we have pupils who might be considered slightly out of the mainstream drive for standards in education. More able and talented: your policy is inconsistent. Estyn's recent report states that too few more able and talented learners achieve above the expected level for their age, at the age of 11. And, if provision in primary schools isn't sufficient, your Oxbridge hub policy—a great idea—will be rendered unsustainable in the long term.

Additional learning needs: 23 per cent of children and young people in primary and secondary schools have additional learning needs of one sort or another, and they are struggling to get the support they need, let alone being able to meet goals based on standards of achievement.

Pupils from a disadvantaged background: Minister, over the years, there's been no discernible impact on the attainment gap; it remains steady. Children on free school meals continue to underachieve in the classroom, regardless of whether the school they attend is rated highly or not. This is according to leading education academic, Professor Steve Strand, of Oxford University. He says the stubbornness of the attainment gap, across all types of schools, suggests that the quality of a school is not enough to overcome a disadvantaged background. The Wales Institute of Social and Economic Research, Data and Methods says the same, and Professor David Egan, very similar.

Gadewch i mi droi at y safonau yn y sector addysg uwch yn gyflym. Er bod safleoedd prifysgol 'The Guardian' eleni yn rhoi Caerdydd ar safle 26 o 119, roedd Aberystwyth ar safle 110, Prifysgol De Cymru ar 113, a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar 117. Maent yn ffigurau cythryblus iawn o ystyried mai 119 safle oedd yno i gyd. Er bod llawer o resymau gwahanol pam y mae prifysgolion Cymru yn y fath gyflwr, nid oes amheuaeth, Weinidog, fod trefniadau ariannu eich Llywodraeth yn rhoi pwysau ar sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Drwy roi cymorth i fyfyrwr hyd yn oed os ydynt yn astudio y tu allan i Gymru, mae Llafur Cymru yn amddifadu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru o gyllid hanfodol i'w helpu i wella gwaith ymchwil a'r ddarpariaeth addysgu.

Mae'r sector addysg bellach o leiaf yn llwyddo i gynnal eu safonau. Maent wedi perfformio'n well yn erbyn yr amodau llym a osodwyd arnynt gan Lywodraeth Lafur Cymru. Ond Weinidog, rydych yn bwriadu torri £17.5 miliwn oddi ar eu cyllideb. Nid ydych wedi chwarae'n deg ac nid ydych wedi bod yn dryloyw gyda sefydliadau addysg bellach ynglŷn â'u trefniadau ariannu. Mae'r diffyg eglurder a gwybodaeth ar ran Llywodraeth Cymru yn golygu na all sefydliadau addysg bellach gynllunio a blaenoriaethu mor effeithiol ag yr hoffent. Mae'n creu ansicrwydd ynghylch swyddi staff; mae'n effeithio'n negyddol ar gyfathrebu rhwng sefydliadau addysg bellach a chyflogwyr; ac mae'n peryglu gallu sefydliadau addysg bellach i ddarparu addysg o ansawdd i'w myfyrwyr.

A gadewch i mi edrych yn fyr ar dri maes lle y mae gennym ddisgyblion y gellid ystyried eu bod ychydig y tu allan i'r ymdrechion prif ffrwd i godi safonau mewn addysg. Mwy galluog a thalentog: mae eich polisi yn anghyson. Mae adroddiad diweddar Estyn yn nodi nad oes digon o ddisgywyr mwy galluog a thalentog yn cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran yn 11 oed. Ac os nad yw'r ddarpariaeth yn yr ysgolion cynradd yn ddigonol, bydd eich polisi i ganolbwyntio ar Oxbridge—syniad gwyach—yn anghynladwy yn y tymor hir.

Anghenion dysgu ychwanegol: mae gan 23 y cant o blant a phobl ifanc mewn ysgolion cynradd ac uwchradd anghenion dysgu ychwanegol o ryw fath neu'i gilydd, ac maent yn cael trafferth i gael y cymorth sydd ei angen arnynt, heb sôn am y gallu i gyrraedd nodau'n seiliedig ar safonau cyflawniad.

Disgyblion o gefndir difreintiedig: Weinidog, dros y blynyddoedd, ni chafwyd unrhyw effaith weladwy ar y bwlch cyrhaeddiad; mae'n parhau'n gyson. Mae plant sy'n cael prydau ysgol am ddim yn parhau i dangyflawni yn yr ystafell ddosbarth, heb ystyried a yw'r ysgol y maent yn ei mynychu yn cael ei graddio'n uchel ai peidio. Yr academydd addysg blaenllaw, yr Athro Steve Strand, o Brifysgol Rhydychen sy'n dweud hyn. Dywed fod ystyfnigrwydd y bwlch cyrhaeddiad, ar draws pob math o ysgol, yn awgrymu nad yw ansawdd ysgol yn ddigon i oresgyn cefndir difreintiedig. Dywed y Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru yr un peth, ac mae barn yr Athro David Egan yn debyg iawn.

Members, I believe that I have comprehensively detailed the current situation, and all the jam tomorrow will not help to improve the standards of today. The Government will argue that the regional consortia are the panacea for all today's ills. However, Welsh Conservatives believe that the regional consortia are not as effective as they need to be in helping school improvement. With great fanfare, Leighton Andrews announced the birth of regional consortia in 2011. In 2015, we have a mixed bag of consortia. Some are still not fully functional, with vacancies across the board, yet being pressured to take more and more responsibility for school improvement and the raising of standards.

If everything takes this long to get up and running, I think the Donaldson and Furlong reforms have very little chance of maturing in seven to eight years, especially given the uncertainty over the number and size of county councils, and the further reforms suggested by the Hill and Williams reviews.

There have been two recent reports on regional consortia—Estyn and the Wales Audit Office. Both are highly critical of key aspects of consortia working. For example, Estyn reported that challenge advisors do not challenge the weaknesses in teacher assessments. Not only does this lead to inaccuracies in categorising schools, but it also means that pupils are not being tested rigorously enough.

The lack of accountability for teacher assessments has existed since their introduction by Jane Davidson—if we can all remember that far back. December last year, the Minister opened this issue to consultation—December last year. But the proposals offered in it won't be implemented until the next academic year, or even 2016 or 2017. Minister, it's more jam tomorrow. This means that pupils already in the system won't benefit from any changes that may address the gaps in their skills and knowledge resulting from weaknesses in teacher assessments. This simply isn't fair on pupils, or on teachers, who may have to revisit areas of learning a child should already have covered.

Standards are important; robust standards are even more important. Our children deserve the best education possible, to maximise their potential, to increase their competitiveness in a global economy, and to enable them to develop as rounded citizens, with confidence in their abilities and their worth as individuals. They need effective and timely reforms today, Minister, not jam tomorrow.

Aelodau, rwy'n credu fy mod wedi manylu'n gynhwysfawr ar y sefyllfa bresennol, ac ni fydd holl addewid yfory yn helpu i wella safonau heddiw. Bydd y Llywodraeth yn dadlau mai'r consortia rhanbarthol yw'r ateb i bob problem sy'n ein hwynebu heddiw. Fodd bynnag, cred y Ceidwadwyr Cymreig nad yw'r consortia rhanbarthol mor effeithiol ag y mae angen iddynt fod er mwyn helpu i wella ysgolion. Gyda ffanffer fawr, cyhoeddodd Leighton Andrews enedigaeth y consortia rhanbarthol yn 2011. Yn 2015, mae gennym gymysgedd o gonsortia. Ceir rhai nad ydynt yn gwbl weithredol o hyd, gyda swyddi gwag ar draws y bwrdd, ac eto rhoddir pwysau arnynt i ysgwyddo mwyfwy o gyfrifoldeb am wella ysgolion a chodi safonau.

Os yw popeth yn mynd i gymryd cyn hired i ymsefydlu a dod yn weithredol, rwy'n meddwl nad oes fawr o obaith y bydd diwygiadau Donaldson a Furlong yn aeddfedu ymhen saith i wyth mlynedd, yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd ynglŷn â nifer a maint y cynghorau sir, a'r diwygiadau pellach a awgrymwyd gan adolygiadau Hill a Williams.

Cafwyd dau adroddiad diweddar ar y consortia rhanbarthol—gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r ddau'n feirniadol iawn o agweddau allweddol ar waith y consortia. Er enghraifft, nododd Estyn nad oedd cynghorwyr herio yn herio'r gwendidau yn asesiadau athrawon. Mae hyn nid yn unig yn arwain at anghywirdeb wrth gategoreiddio ysgolion, ond mae hefyd yn golygu nad yw disgyblion yn cael eu profi'n ddigon trylwyr.

Mae'r diffyg atebolrwydd mewn perthynas ag asesiadau athrawon wedi bodoli ers eu cyflwyno gan Jane Davidson—os gallwn i gyd gofio cyn belled yn ôl â hynny. Fis Rhagfyr y llynedd, gwnaeth y Gweinidog y mater yn destun ymgynghoriad—fis Rhagfyr y llynedd. Ond ni fydd yr argymhellion a gynigir ynddo'n cael eu gweithredu tan y flwyddyn academaidd nesaf, neu hyd yn oed 2016 neu 2017. Weinidog, dyna ragor o addewidion ar gyfer yfory. Mae'n golygu na fydd disgyblion sydd eisoes yn y system yn elwa o unrhyw newidiadau a allai fynd i'r afael â'r bylchau yn eu sgiliau a'u gwybodaeth yn deillio o'r gwendidau yn asesiadau athrawon. Mae hyn nid yn unig yn annheg ar ddisgyblion, neu ar athrawon a allai orfod ailedrych ar feysydd dysgu y dylai plentyn fod wedi eu dysgu eisoes.

Mae safonau'n bwysig; mae safonau cadarn hyd yn oed yn bwysicach. Mae ein plant yn haeddu'r addysg orau bosibl, i wneud y gorau o'u potensial, i gynyddu eu gallu i gystadlu mewn economi fyd-eang, ac i'w galluogi i ddatblygu fel dinasyddion cyflawn, gyda hyder yn eu galluedd a'u gwerth fel unigolion. Mae arnynt angen diwygiadau effeithiol ac amserol heddiw, Weinidog, nid addewidion ar gyfer yfory.

15:39

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yr wyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Os derbynir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol. Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd o dan enw Elin Jones.

Gwelliant 1—Elin Jones

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I have selected the three amendments to the motion. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected. I call on Simon Thomas to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Elin Jones.

Amendment 1—Elin Jones

Delete point 2 and replace with:

Yn credu bod dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â gwella ysgolion wedi bod yn gymysglyd, gan arwain at oedi ac anghysondeb.

Gwelliant 2—Elin Jones

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn nodi'r canfyddiad gan yr Athro Donaldson yn ei adolygiad y bydd 'y gallu i ddysgu ieithoedd tramor modern yn cael ei hybu drwy ddatblygu'r Gymraeg yn gynharach'.

Cynigiwyd gwelliannau 1 a 2.

Believes the Welsh Government's approach to school improvement has been confused, leading to delays and incoherence.

Amendment 2—Elin Jones

Delete point 4 and replace with:

Notes the finding by Professor Donaldson in his review that 'the acquisition of modern foreign languages will benefit from the earlier development of the Welsh language'.

Amendments 1 and 2 moved.

15:39

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n cynnig y gwelliannau hynny.

Byddai sylwebwyr craff ar yr agenda heddiw yn sylwi, efallai, fod dadl Plaid Cymru yn dilyn y ddadl hon yn ymwneud ag yn union yr un pwnc, er ein bod ni'n edrych arno fe o safbwynt ychydig yn wahanol, gan edrych ar y gweithlu addysg. Ond, does dim dwywaith mai safonau fydd sylfaen ein dadl ni yn nes ymlaen hefyd. Felly, rwy'n gobeithio na fydd Angela Burns yn teimlo fy mod i'n amharchu dadl y Torïaid os nad wyf yn sôn ormod am yr hyn rwy'n mynd i sôn amdano mewn dadl ymhen tua awr.

Ond, yn sicr, rwyf yn cytuno â llawer o ddadansoddiad Angela Burns ynglŷn â'r sefyllfa yr ydym ynddi. Ni allwn anghytuno achos ffeithiol oedd y rhan fwyaf o'r hyn yr oedd hi wedi'i osod.

Yr hyn sydd ar goll a'r hyn sydd, efallai, y tu ôl i welliant 1 gan Blaid Cymru yw rhyw fath o gysyniad o beth yw'r ffordd ymlaen nawr. Roeddwn yn sylwi, er enghraifft, ym manifesto'r Torïaid ar gyfer etholiad San Steffan yng Nghymru fod y blaid Geidwadol wedi dweud, fel ateb i'r problemau y mae Angela Burns wedi'u hamlinellu,

'We would look at bringing the successful academies programme to Wales. In England, academies provide high quality education to ensure better educational opportunities for children from all backgrounds. We want children in Wales to benefit from the same opportunities.'

Roeddwn yn hanner disgwyl, efallai, y byddai dadl ar academiau i'w chael prynhawn yma, felly. Nid yw Plaid Cymru yn derbyn y ddadl yna ac mae'r hyn sydd wedi digwydd yn Sweden ers cyflwyno ysgolion rhydd yn y fan honno hefyd yn cwestiynu llwyddiant dulliau amgen. Felly, mae Plaid Cymru o'r farn mai yn y dosbarth a gyda'r proffesiwn—

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I move those amendments.

Those who have looked in detail at the agenda today will have noticed, perhaps, that Plaid Cymru's debate, following this debate, covers exactly the same issue, although we're looking at it from a slightly different angle, looking at the education workforce. But, there is no doubt that the standards within education will be the foundation stone for our debate also. So, I hope that Angela Burns doesn't feel that I'm disrespecting the Tories' debate if I don't cover too much of what I'm intending to cover in around an hour's time.

But, certainly, I agree with much of Angela Burns's analysis of the situation that we find ourselves in. We couldn't disagree because much of what she had to say was factual.

What's missing and what may lie behind amendment 1 in the name of Plaid Cymru is some sort of concept of what the way forward is. I noted, for example, in the Tory manifesto for the Westminster election in Wales that the Conservative Party said, as a solution to the problems that Angela Burns outlined,

'We would look at bringing the successful academies programme to Wales. In England, academies provide high quality education to ensure better educational opportunities for children from all backgrounds. We want children in Wales to benefit from the same opportunities.'

I half expected a debate on academies this afternoon, therefore. Plaid Cymru doesn't accept that argument and what's happened in Sweden since the introduction of free schools there also calls into question the success of these alternative methods. So, Plaid Cymru is of the view that it's in the class and with the profession—

15:41

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I just wondered if the Member would be prepared to recognise that there is actually a fundamental difference between a free school and an academy and how they work.

Roeddwn i'n meddwl tybed a fyddai'r Aelod yn barod i gydnabod bod gwahaniaeth sylfaenol mewn gwirionedd rhwng ysgol rydd ac academi a'r modd y maent yn gweithio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:41

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf yn derbyn hynny, ac rwyf hefyd yn derbyn, wrth gwrs, fod yr academiâu wedi cael eu cyflwyno gan y Blaid Lafur ac nid gan y glymblaid neu'r Toriaid presennol. Yr hyn rwyf yn trio cyffwrdd arno yw nid yw marchnata'r dewis cystadleuol yna, a all ddigwydd weithiau mewn dinasoedd, yn batrwm yr wyf fi'n ei weld yn gweithio yng Nghymru, lle nid oes gan y rhan fwyaf o rieni y dewis hwnnw, a lle mae gennym ni ddewis amgen hefyd, sef rhwng y Gymraeg ac addysg sydd heb fod yn addysg Gymraeg. Rwy'n meddwl bod hynny'n creu darlun gwahanol yng Nghymru.

I do accept that, and I also accept, of course, that the academies were introduced by the Labour Party and not by the coalition Government or the current Tory Government. What I am trying to touch upon is the fact that marketing that competitive choice, which can actually happen in some cities, isn't a pattern that I can see being sustainable in Wales, where most parents don't have those options, and where we also have the alternative choice, namely between Welsh-medium and non-Welsh-medium education. I think that paints a different picture here in Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ond, y pwnt roeddwn eisiau ei wneud oedd hyn: ffocws Plaid Cymru yn ystod y drafodaeth yma yw nid yn unig derbyn y dadansoddiad sydd wedi cael ei osod, ond edrych i'r ateb yn y dosbarth ac yn y proffesiwn. Dyna beth y byddaf yn ymhelaethu arno fwyaf yn nes ymlaen. Felly, rwy'n mynd i droi at y ddatl arall yn nes ymlaen.

But, the point I wanted to make was: Plaid Cymru's focus during this debate is not only accepting the analysis that we've already heard, but looking for solutions within the classroom and within the profession. That's what I want to expand upon most later on. So, I'm going to turn to the other debate later on.

Ar yr ail gynnydd sydd gyda ni, roeddwn yn falch bod Angela Burns wedi derbyn o leiaf egwyddor yr ail welliant ynglŷn â dysgu 'Cymraeg ail-iaith' fel mae'n cael ei alw. Rydym ni eisiau cael gwared â'r cysyniad yna i raddau, a bydd Suzy, rwy'n deall, yn siarad mwy am hyn. Rwyf jest eisiau pwysleisio pa mor bwysig yw'r cyfleoedd yn Donaldson nawr i symud ymhellach ar hwn. Gofynnais i'r Gweinidog ar ôl ei ddatganiad ddoe ar Donaldson beth sydd wedi digwydd i'r argymhellion manwl gan yr Athro Sioned Davies, achos pan gyflwynodd yr Athro Sioned Davies ei hadroddiad hi i'r Llywodraeth ym mis Medi 2013, dywedodd hi bryd hynny,

On the second proposal we have, I was pleased that Angela Burns at least accepted in principle the second amendment in terms of the teaching of Welsh as a second language. We want to abolish that concept to a certain extent, and Suzy, I'm given to understand, will cover that in more detail. I just wanted to emphasise the importance of the opportunities provided for in Donaldson to progress this. I asked the Minister during his statement yesterday on Donaldson what has happened to the very detailed recommendations made by Professor Sioned Davies, because when Professor Sioned Davies presented her report to Government in September 2013, she said,

'Ni ellir gwadu ei bod yn unfed awr ar ddeg ar Gymraeg ail iaith... mae lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn is nag mewn unrhyw bwnc arall. Petai hyn wedi cael ei ddweud am Fathemateg, neu am y Saesneg, diau y byddem wedi cael chwyldro.'

'It is undeniably the eleventh hour for Welsh second language...pupil attainment levels are lower than in any other subject. Had this been said of Mathematics, or English, a revolution would undoubtedly have ensued.'

Rydym yn dal i aros am y chwyldro mewn dysgu Cymraeg i bob un plentyn yng Nghymru beth bynnag yw eu sgiliau. Wrth gwrs, roedd gan adroddiad Sioned Davies argymhellion manwl iawn ynglŷn â disodli Cymraeg ail iaith ac yn ei lle dodi continuum lle byddai pob disgybl yng Nghymru yn derbyn cyfran o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n ddiddorol iawn hefyd bod y Prif Weinidog wedi dweud ym mis Awst 2014, yn ei ddogfen bolisi 'Iaith fyw: iaith byw -Bwrw mlaen', bod angen i,

We're still waiting for that revolution in the teaching of Welsh to all children in Wales whatever the skill levels may be. Of course, Sioned Davies's report did have some very detailed recommendations about replacing Welsh as a second language and putting in its place a continuum, where all pupils in Wales would receive a percentage of their education through the medium of Welsh. It's also very interesting that the First Minister said in August 2014, in his 'A living language: a language for living—Moving forward' policy document, that there is a need for,

'holl ddysgwyr Cymru—p'un a ydynt yn mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol cyfrwng Saesneg...siarad y Gymraeg yn hyderus.'

'all learners in Wales—whether they attend Welsh-medium or English-medium schools...to speak Welsh confidently.'

Wel, rydym yn bell oddi ar yr amcan hwnnw sydd gan y Llywodraeth ei hun—a Llywodraeth sydd wedi cael cefnogaeth arolwg barn YouGov yn ôl ym mis Tachwedd 2014, jest ar ôl cyhoeddiad y Prif Weinidog, a wnaeth ganfod bod 63 y cant o'r bobl yn cytuno y dylid dysgu pob disgybl i gyfathrebu yn effeithiol yn y Gymraeg. Dim ond 37 y cant oedd yn anghytuno. Dyma'r her sydd gyda ni ac fel y dywedodd yr Athro Sioned Davies yn nes ymlaen, 'Os oedd hi'n unfed awr ar ddeg ar Gymraeg ail iaith, buaswn i'n dweud bod y cloc bron wedi taro erbyn hyn'.

Well, we're a long way off that objective that the Government itself has put in place—a Government that is supported by a YouGov opinion poll in November 2014, just after the First Minister's announcement, which found that 63 per cent of people agreed that all pupils should be taught to communicate effectively through the medium of Welsh. Only 37 per cent disagreed. This is the challenge facing us and as Professor Sioned Davies said, 'If it was the eleventh hour for Welsh as a second language, I would say that the clock has almost struck 12 by now'.

15:44

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliant 3 a gyflwynwyd yn ei enw.

I call on Aled Roberts to move amendment 3 tabled in his name.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Amendment 3—Aled Roberts

Mewnwsod ar ddiwedd pwynt 4:

Insert at end of point 4:

'ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno targedau a gaiff eu monitro'n agos ar gyfer y nifer sy'n astudio ieithoedd tramor modern er mwyn atal y dirywiad yn y pynciau hynny.'

'and calls on the Welsh Government to introduce closely monitored targets for the uptake of modern foreign languages in order to halt their decline.'

Cynigiwyd gwelliant 3.

Amendment 3 moved.

15:44

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n cynnig gwelliant 3 yn fy enw i. Rwyf am ganolbwyntio ar y gwelliant sydd wedi cael ei gyflwyno gennym, ond rwyf eisiau dweud fy mod yn cytuno efo llawer iawn o beth ddywedodd Angela Burns. Rwy'n meddwl, os ydym ni am adeiladu'r consensws yma i wella sefyllfa addysg yng Nghymru, ei bod hi'n hen bryd i ni i gyd dderbyn, o ran y gwelliannau sydd wedi cymryd lle ers i ni i gyd fod yn eistedd yma, ers rhyw bedair blynedd, fod yna welliant wedi bod, oes, ond mae'r gwelliant yn annigonol, ac mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn derbyn hynny.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I do move amendment 3 in my name. I want to focus my comments on the amendment that has been put forward by us, but I do want to say that I agree with a great deal of what Angela Burns said. I think that, if we are to build this consensus to improve the situation of education in Wales, it is about time for us all to accept, on the improvements that have taken place since we've all been sitting here, for around four years now, that, yes, there has been an improvement, but it has been insufficient, and it's important that we do all accept that.

Rwyf hefyd yn derbyn bod codi'r safonau yma wedi cymryd llawer iawn yn rhy hir, er nad wyf i, fel Simon Thomas, yn credu bod newid y gyfundrefn addysg yn ei hun, o ran strwythur ysgolion, yn mynd i ateb y sefyllfa. Mae yna ddigon o enghreifftiau draw yn Lloegr, lle mae academiau wedi llwyddo, ond hefyd mae yna enghreifftiau lle maen nhw wedi methu yn llwyr. Felly, rwy'n meddwl mai beth sy'n bwysig ydy beth a ddywedodd Simon—ein bod ni yn gwella'r ffordd mae ein plant ni yn cael eu haddysgu a hefyd ein disgwyliadau ni ohonynt nhw.

I also accept that raising these standards has taken far too long, even though I, like Simon Thomas, don't believe that changing the education system itself, in terms of the structure of schools, is going to solve the situation. There are plenty of examples over in England of where academies have succeeded, but there are also examples of where they've failed entirely. So, I think that what's important is what Simon said, that we do improve the way that our children are educated and that we also raise our expectations of them.

Mi fyddwn ni, felly, yn cefnogi gwelliant 1 yn enw Plaid Cymru. Rwyf hefyd yn cytuno, mewn egwyddor, efo beth sy'n cael ei ddweud yng ngwelliant 2, ond, wrth gwrs, mi fyddwn yn ei wrthwynebu o achos byddai hynny'n dileu ein gwelliant ni.

So, we will therefore be supporting amendment 1 in the name of Plaid Cymru, and I also agree in principle with what is stated in amendment 2, but, of course, we will be opposing that amendment, because that would delete our amendment.

Ond rwyf eisiau canolbwyntio ar ieithoedd modern achos rwy'n teimlo bod y sefyllfa erbyn hyn yn un sydd yn argyfwng o ran addysg yng Nghymru. Erbyn hyn, ond 22 y cant o'n disgyblion ni sydd yn cymryd iaith nad yw'n Saesneg neu Gymraeg. Rwy'n credu bod perygl bod yr holl drafodaeth yma ynglŷn â safonau a'r cwricwlwm, hwyrach, yn mynd i wthio ieithoedd modern a phynciau eraill fel cerddoriaeth a phethau felly, allan o'r cwricwlwm. Rwy'n credu mai beth yr ydym ni ei eisiau yw rhyw gysondeb o ran y ffordd yr ydym ni'n edrych ymlaen. Rwy'n gwybod o fy mhrofiad i fy hun—mae'r mab ieuengaf erbyn hyn yn 15 oed ac mae'r mab hynaf yn 18 oed, ar fin gadael ysgol, ac mae'r ddau wedi gorfod astudio Ffrangeg y tu allan i oriau ysgol o achos nid oes lle i'r ieithoedd modern o fewn amserlen yr ysgol erbyn hyn. Mae'r ysgol yna, o achos pwysau arnyn nhw i wella—mae'r ysgol yn un eithaf da—yn credu bod angen iddyn nhw wella safonau 'maths' o fewn yr ysgol. Felly, beth sy'n digwydd? Mae yna hanner awr ychwanegol o 'maths' ar gyfer pob plentyn yn cael ei roi i mewn i'r amserlen.

Wrth gwrs, mae yna adroddiad wedi cael ei gyflwyno gan y Cyngor Prydeinig a'r Ymddiriedolaeth Addysg CFBT, yn ystod mis Mehefin, sydd yn tanlinellu'r argyfwng yma yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth, wrth gwrs, wedi cyflwyno cynllun yn 2013 sydd yn dweud eu bod nhw'n mynd i greu'r canolfannau iaith yma, ond rwyf eisiau gofyn i'r Gweinidog y prynhawn yma: pa dystiolaeth sydd yna fod y canolfannau yma'n mynd i wella'r sefyllfa? Rwy'n credu mai'r broblem sydd gennym ni ydy nad yw ieithoedd modern yn cael eu gweld fel rhan allweddol o'r cwricwlwm. Os ydym ni i greu sefyllfa lle mae Cymru yn gystadleuol o ran yr economi, mae angen i ni edrych y tu allan i Gymru—mae angen i ni greu sefyllfa lle mae ein pobl ifanc ni'n gallu mynd allan i Ewrop a chystadlu â'r rheini yn yr Iseldiroedd a'r Almaen, nad ydynt, hwyrach, yn meddwl ei fod yn fraint i fod yn ddwyieithog, ond ei fod yn fraint i gael tair neu bedair iaith. Felly, rwy'n credu y dylem fod yn uchelgeisiol.

Rwyf hefyd eisiau gwneud y pwynt bod yna amser yn dod hefyd pan nad wy'n credu y dylem ni ddileu'r consortia rhanbarthol. Rwy'n meddwl bod yna dueddiad yng Nghymru ein bod yn ailstrwythuro dro ar ôl tro yn hytrach na mynd i'r afael efo rhai o'r problemau. Ond mae yna sefyllfa lle mae yna anghysondeb rhwng y consortia. Rydym ni wedi symud at system lle y dywedir wrthym ni fod yna model cenedlaethol, ond mae'n rhaid gofyn y cwestiwn: a oes model cenedlaethol neu beidio? Mae yna gymaint o wahaniaethau rhwng y consortia. Rwyf hefyd yn derbyn beth y mae Angela wedi'i ddweud ynglŷn â'r broblem efo swyddi gwag o fewn y consortia. Felly, o ran ein gwelliant ni ein hunain, mae'r Gweinidog wedi dweud bod yna £480,000 yn cael ei fuddsoddi eleni mewn ieithoedd modern. Felly, a gaf i ofyn, wrth ddiweddu, faint o'r £480,000 yna sydd yn mynd trwy'r consortia eu hunain?

But I want to focus on modern languages, because I feel that the situation by now is one of a crisis in terms of education in Wales. By now, it's only 22 per cent of our pupils who take a course that isn't English or Welsh, and I do feel that we are in danger that this entire discussion in terms of standards and the curriculum will perhaps push modern languages and other subjects, such as music and similar matters, out of the curriculum. I think that what we need is consistency in terms of how we move forward. I know from my own experience—my youngest son is now 15 years of age, my older son is 18 years of age and about to leave school, and both have had to learn French outside of school hours, because there is no longer any space for those modern languages within the school timetable. That school, because of pressures on them to improve—the school is quite a good one—believe that they need to improve maths standards within the school. So, what happens? An extra half an hour of maths for each child is then added to the timetable.

Of course, a report has been submitted by the British Council and the CFBT Education Trust, during June, which underlines the crisis here in Wales. The Government, of course, has put forward a plan in 2013, which states that they're going to create language centres here, but I do want to ask the Minister this afternoon: what evidence is there that these centres are going to improve the situation? I feel that the problem that we have is that modern languages aren't seen as a key part of the curriculum. If we are to create a situation where Wales is competitive in terms of the economy, then we do need to look outside of Wales—we need to create a situation where our young people can go out to Europe and compete with those in the Netherlands and in Germany, who perhaps don't think that it's a privilege to be bilingual but rather a privilege to have three or four languages. Therefore, I think that we should be ambitious in this regard.

I also want to make the point that I think a time also comes when I don't think we should abolish the regional consortia. I think that there is a tendency that we in Wales restructure time and time again instead of getting to grips with some of the problems. But there is also the situation of there being inconsistency between the consortia. We have moved to a system where we are told us that there is a national model, but we have to ask the question: is there a national model or isn't there? There are so many differences between the consortia. I also accept what Angela has said about the problem in terms of the empty posts within the consortia. Therefore, with regard to our own amendment, the Minister has said that there is £480,000 being invested in modern languages this year. Therefore, may I ask, in concluding, how much of that £480,000 will be going through the consortia themselves?

15:49

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think it's clear that we share a growing concern for the future of modern foreign languages. We heard the sorry figures from Aled Roberts just now and I think amendment 3 does reflect that concern.

Rwy'n credu ei bod hi'n glir ein bod yn rhannu pryder cynyddol ynghylch dyfodol ieithoedd tramor modern. Clywsom y ffigurau digalon gan Aled Roberts yn awr ac rwy'n meddwl bod gwelliant 3 yn adlewyrchu'r pryder hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

But I have to say I'm slightly bemused by Plaid's move to try and delete things from our own motion. All this 'delete', 'delete'. I mean, you are beginning to sound a little bit like the Cybermen of the Assembly here.

Clywais i beth ddywedoch chi, Simon.

[Interruption.] But I think amendment 2 could have been introduced as a welcome additional point to the motion. There is nothing incompatible between that and part 4 of our motion, which it seeks to delete, again, in its entirety. I mean, if this is the debate that you wanted, perhaps you should've tabled that debate.

We have no intention of deleting our own points, which hold the Government to account, of course. As for your mischief in forcing us to vote against amendment 2, I do want to reiterate what Angela Burns said: while we recognise the different status and position of Welsh, as opposed to modern foreign languages in our curriculum, our culture, and our economy, we agree that there are some common ways towards better uptake and better standards in both. That work, though, has to start at the beginning of a child's life. That is why we challenge the Minister at point 4 in the motion.

Although Professor Sioned Davies's review of Welsh second language—

rwy'ti wedi cyfeirio at hynny, hefyd, Simon—

addresses shortcomings at key stages 3 and 4, her obiter remarks on language acquisition echo our own long-standing trilingual Wales policy and pave the way for what Donaldson has to say, and I quote:

'A dual literacy or triple literacy approach (including a modern foreign language in the model) could have a positive effect on both pupils' literacy and their Welsh second language skills'.

I find her idea of a language continuum very, very interesting, and, of course, that can apply to modern foreign languages, as well as learned Welsh.

Literacy: knowing how a language works to improve vocabulary and fluency through listening and speaking, not just reading and writing. Listening and speaking is at the heart of building confidence to continue using and developing a language in life outside school. Key stage 4 qualifications have an intrinsic value in themselves, demonstrating understanding and perhaps even a mastery of technical skills. But they do not, at the moment, produce confident speakers with improving fluency. I think that this is because the experience of learning a language like that, as an isolated, examinable subject, is completely inauthentic.

Ond rhaid i mi ddweud fy mod yn synnu ychydig gan ymgais y Blaid i geisio dileu pethau o'n cynnig ein hunain. Yr holl 'ddileu', 'dileu' yma. Hynny yw, rydych yn dechrau swnio ychydig fel Cybermen y Cynulliad.

I heard what you said, Simon.

[Torri ar draws.] Ond rwy'n credu y gallai gwelliant 2 fod wedi cael ei gyflwyno fel pwynt ychwanegol i'r cynnig y gellid ei groesawu. Nid oes unrhyw beth yn anghydnaws rhyngddo a rhan 4 ein cynnig y mae'n ceisio ei ddileu, unwaith eto, yn ei gyfanrwydd. Hynny yw, os mai dyna'r ddadl roeddech ei heisiau, efallai y dylech fod wedi cyflwyno'r ddadl honno.

Nid oes gennym unrhyw fwrriad i ddileu ein pwyntiau ein hunain, sy'n dwyn y Llywodraeth i gyfrif, wrth gwrs. Ac o ran eich ymdrech i greu helynt drwy ein gorfodi i bleidleisio yn erbyn gwelliant 2, rwyf am ailadrodd yr hyn a ddywedodd Angela Burns: er ein bod yn cydnabod statws a sefyllfa wahanol y Gymraeg, o gymharu ag ieithoedd tramor modern yn ein cwricwlwm, ein diwylliant a'n heconomi, rydym yn cytuno bod yna rai ffyrdd cyffredin tuag at gynyddu niferoedd a gwella safonau yn y ddau faes. Rhaid i'r gwaith hwnnw gychwyn, fodd bynnag, ar ddechrau bywyd y plentyn. Dyna pam rydym yn herio'r Gweinidog ym mhwynt 4 y cynnig.

Er bod adolygiad yr Athro Sioned Davies o Gymraeg ail iaith—

you also referred to that, Simon—

yn mynd i'r afael â diffygion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae ei sylwadau wrth basio ar gaffael iaith yn adleisio ein polisi hirsefydlog ein hunain ynglŷn â Chymru dairieithog ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer yr hyn sydd gan Donaldson i'w ddweud:

'Gallai gweithredu dull llythrennedd deuol neu driphlyg (yn cynnwys iaith fodern dramor yn y model) gael effaith gadarnhaol ar lythrennedd disgyblion yn ogystal ag ar eu sgiliau Cymraeg ail iaith'.

Rwy'n ystyried ei syniad o gontinwmm iaith yn un diddorol tu hwnt, ac wrth gwrs, gall fod yn berthnasol i ieithoedd tramor modern yn ogystal â dysgu Cymraeg.

Llythrennedd: gwybod sut y mae iaith yn gweithio i wella geirfa a gallu i'w siarad yn rhugl drwy wrando a siarad, nid drwy ddarllen ac ysgrifennu yn unig. Mae gwrando a siarad yn ganolog i feithrin hyder i barhau i ddefnyddio a datblygu iaith mewn bywyd y tu allan i'r ysgol. Mae gan gymwysterau cyfnod allweddol 4 werth cynhenid ynddynt eu hunain, gan amlygu dealltwriaeth o sgiliau technegol, ac efallai meistrolaeth arnynt hyd yn oed. Ond nid ydynt, ar hyn o bryd, yn cynhyrchu siaradwyr hyderus a mwyfwy rhugl. Rwy'n credu mai'r rheswm am hyn yw oherwydd bod y profiad o ddysgu iaith fel hynny, fel pwnc ynysig, ar gyfer sefyll arholiad, yn gwbl annilys.

We often say, especially of learned Welsh, but it's no less true of other languages, that there's no opportunity to use Welsh outside school. Two people with some language skills is an opportunity. What I see is a failure to buy into the reasons to use it outside school. Aled's already spoken a little bit about the advantages—cultural, I would say, and economic—of speaking more than one language, but we're still not seeing growth in the number of young people with language skills of sufficient quality to meet the demands of the economy and we won't, unless we face this, I think, Members. The way we communicate with each other is deeply personal, an often unconscious choice, if that's the right word, dependent on who we are with and where we are. It takes psychological effort, as well as diligence, to use a language unnaturally, even if opportunities arise. I think it's a little bit like dieting: you know that losing weight is good for you, your health and your self-image, and it can even change the way that people react to you. But it is still really, really hard to exchange a Mars bar for an apple and to keep doing that when everyone around you is eating chocolate.

So, how can our education system make different languages less inauthentic, less 'other' and more a real part of our real lives? How to make school a more multi-lingual environment, regardless of its main medium? Welsh in non-Welsh-medium nursery, primary school and secondary school has to be about this literacy familiarity, complemented by subject lessons, yes, but used from time to time throughout the day across the curriculum and socially—not just a few stickers on a wall in a few other languages; that does nothing for standards or, indeed, sincerity. The same applies to all languages, not just learned Welsh. I think we need to start early to stop languages staying foreign.

Of course, the aptitude of children is not the central challenge for us here, is it, really? It's the skills and culture of the workforce and I think you're asking a lot, Minister, of the new deal to meet those challenges. I also think you're asking rather a lot of schools to second their best language teachers through the consortia mechanism. I have to ask: how can this even begin to work if not one of your centres of excellence for modern foreign languages is a primary school?

How do you equip a teacher to use Welsh or another language as an intrinsic part of the working day? Most importantly, how do you get them to believe it's worth doing when some still consider Welsh and other languages to be no more than irritating noises off? Thank you.

Rydym yn aml yn dweud, yn enwedig ynglŷn â Chymraeg a ddysgwyr, ond nid yw'n llai gwir am ieithoedd eraill, nad oes cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Mae dau o bobl gyda rhai sgiliau iaith yn gyfle. Yr hyn rwy'n ei weld yw methiant i dderbyn y rhesymau dros ei defnyddio y tu allan i'r ysgol. Mae Aled eisoes wedi sôn ychydig bach am fanteision—diwylliannol, fe ddywedwn i, ac economaidd—siarad mwy nag un iaith, ond rydym eto i weld cynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd â sgiliau iaith o safon ddigonol i gwrdd â gofynion yr economi ac nid wyf yn credu y gwnawn oni bai ein bod yn wynebu hyn, Aelodau. Mae'r ffordd rydym yn cyfathrebu â'n gilydd yn hynod o bersonol, yn ddewis anymwybodol yn aml, os mai dyna'r gair cywir, yn dibynnu ar y cwmni rydym ni yn ddo a ble rydym. Mae'n galw am ymdrech seicolegol, yn ogystal â diwydrwydd, i ddefnyddio iaith yn annaturiol, hyd yn oed os oes cyfleoedd i wneud hynny. Rwy'n credu ei fod ychydig bach fel mynd ar ddeiet: fe fyddwch yn gwybod bod colli pwysau yn dda i chi, eich iechyd a'ch hunanddelwedd, a gall hyd yn oed newid y ffordd y mae pobl yn ymateb i chi. Ond mae'n dal yn wirioneddol anodd cyfnewid bar Mars am afal a pharhau i wneud hynny pan fydd pawb o'ch cwmpas yn bwyta siocled.

Felly, sut y gall ein system addysg wneud gwahanol ieithoedd yn llai annilyd, yn llai 'gwahanol' ac yn fwy o ran wirioneddol o'n bywydau go iawn? Sut y gellir gwneud ysgol yn amgylchedd mwy amlieithog, waeth beth yw ei phrif gyfrwng? Mae'n rhaid i'r Gymraeg mewn cylch meithrin, ysgol gynradd ac ysgol uwchradd nad yw'n ysgol Gymraeg ei chyfrwng ymwneud â chynefindra o'r fath â llythrennedd, wedi'i ategu gan wersi pwnc, ie, ond yn cael ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd yn ystod y dydd ar draws y cwricwlwm ac yn gymdeithasol—nid ar ychydig o sticeri ar y wal mewn ieithoedd eraill; nid yw hynny'n gwneud dim i wella safonau neu'n wir, i gynyddu didwylledd. Mae'r un peth yn berthnasol i bob iaith, nid i ddysgu Cymraeg yn unig. Rwy'n credu bod angen i ni ddechrau yn gynnar i atal ieithoedd tramor rhag parhau i fod yn ieithoedd estron.

Wrth gwrs, nid dawn y plant yw'r her ganolog i ni yma mewn gwirionedd, ond sgiliau a diwylliant y gweithlu ac rwy'n meddwl eich bod yn gofyn llawer, Weinidog, o'r fargen newydd i gwrdd â'r heriau hynny. Rwyf hefyd yn meddwl eich bod yn gofyn cryn dipyn gan ysgolion i seondio eu hathrawon iaith gorau drwy fecanwaith y consortia. Rhaid i mi ofyn: sut y gall hyn hyd yn oed ddechrau gweithio os nad oes un o'ch canolfannau rhagoriaeth ar gyfer ieithoedd tramor modern yn ysgol gynradd?

Sut rydych chi'n mynd ati i gyfarparu athro i ddefnyddio'r Gymraeg neu iaith arall fel rhan annatod o'r diwrnod gwaith? Yn bwysicaf oll, sut rydych chi'n eu cael i gredu ei fod yn werth ei wneud pan fydd rhai'n dal i ystyried y Gymraeg ac ieithoedd eraill yn ddim mwy na synau annifyr yn y cefndir? Diolch yn fawr.

I do welcome the opportunity to participate in this afternoon's debate. The education system in Wales, under Welsh Labour's stewardship, has for too long been letting our young people down, with standards falling well behind other parts of the United Kingdom. The Minister will, of course, be aware that the last set of Programme for International Student Assessment results in 2012 ranked Wales bottom of all UK nations in science, maths and reading, at 41, 35 and 38 respectively. This was the third time in a row that PISA results in Wales fell behind England, Scotland and Northern Ireland. Indeed, the previous Minister's target for improvement in the next set of PISA results has already been downgraded and the time frame pushed back to the end of the decade. We cannot allow another generation to be failed because of Labour's failures in education. It is vital that pupils in Wales receive a high standard of education, and Professor David Reynolds of University of Southampton has rightly highlighted the importance of PISA among the world's major employers. Businesses are far more likely to invest in a nation that is seen to be succeeding, so a high ranking is important to economic prosperity.

This clearly demonstrates, Mr Deputy Presiding Officer, that the Welsh Labour Government's shortcomings in education have severe implications for Wales's long-term future. The Welsh Labour Government has taken too long to raise school standards in Wales and has struggled to introduce effective measures to do so. For example, initial teacher education in Wales is still not providing student teachers with the skills and resources that they need to become effective in the classroom. Initial teacher education centres are currently underfunded, largely down to Welsh Government student finance policy. The Minister must address this as well as increasing the availability of scholarships, which, as evidence from the National College for Teaching and Leadership shows, has influenced over 80 per cent of applicants to apply for teacher training.

In the case of chemistry graduates, the Royal Society of Chemistry have shown that the lower financial incentives available for those with 2:1 or 2:2 degrees are discouraging them from training to be a teacher here in Wales. This means that they are either being lost to England or are being put off from coming into the profession altogether.

Rwy'n croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma. Ers yn rhy hir, mae'r system addysg yng Nghymru, o dan stiwardiaeth Llafur Cymru, wedi gwneud cam â'n pobl ifanc, gyda safonau'n llusgo ymhell ar ôl rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Bydd y Gweinidog, wrth gwrs, yn ymwybodol fod y set olaf o ganlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr yn 2012 wedi gosod Cymru ar y safle gwaelod o bob un o wledydd y DU mewn gwyddoniaeth, mathemateg a darllen, ar 41, 35 a 38 yn y drefn honno. Dyma'r trydydd tro yn olynol i ganlyniadau PISA yng Nghymru ostwng yn is na Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn wir, mae targed y Gweinidog blaenorol ar gyfer gwella yn y set nesaf o ganlyniadau PISA eisoes wedi cael ei hisraddio a'r ffrâm amser wedi ei gwthio yn ôl hyd at ddiwedd y degawd. Ni allwn ganiatáu i genhedlaeth arall gael cam oherwydd methiannau Llafur ym maes addysg. Mae'n hanfodol fod disgyblion Cymru yn cael addysg o safon uchel, ac mae'r Athro David Reynolds o Brifysgol Southampton wedi tynnu sylw haeddiannol at bwysigrwydd PISA ymhlith prif gyflogwyr y byd. Mae busnesau yn llawer mwy tebygol o fuddsoddi mewn gwlad y gwelir ei bod yn llwyddo, felly mae safle uchel yn bwysig i ffyniant economaidd.

Mae hyn yn dangos yn glir, Mr Ddirprwy Lywydd, fod diffygion Llywodraeth Lafur Cymru ym maes addysg yn arwain at oblygiadau difrifol o ran dyfodol hirdymor Cymru. Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi cymryd gormod o amser i godi safonau ysgolion yng Nghymru ac wedi cael trafferth i gyflwyno mesurau effeithiol i wneud hynny. Er enghraifft, nid yw addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru eto'n darparu athrawon dan hyfforddiant gyda'r sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i fod yn effeithiol yn y dosbarth. Mae canolfannau addysg gychwynnol i athrawon yn cael eu tanariannu ar hyn o bryd, yn bennaf oherwydd polisi cyllid myfyrwyr Llywodraeth Cymru. Rhaid i'r Gweinidog fynd i'r afael â hyn yn ogystal â chynyddu argaeledd ysgoloriaethau, sydd, fel y mae tystiolaeth gan y Coleg Cenedlaethol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn ei ddangos, wedi dylanwadu ar dros 80 y cant o ymgeiswyr i wneud cais am hyfforddiant athrawon.

Yn achos graddedigion cemeg, mae'r Gymdeithas Gemeg Frenhinol wedi dangos nad yw'r lefel is o gymhellion ariannol sydd ar gael i rai â graddau â 2:1 neu 2:2 yn eu hannog i hyfforddi i fod yn athrawon yma yng Nghymru. Mae hyn yn golygu eu bod naill ai'n cael eu colli i Loegr, neu nad ydynt yn cael eu hannog i mewn i'r proffesiwn o gwbl.

As well as the problems experienced in science, Mr Deputy Presiding Officer, we have also seen a decline in modern foreign languages under the Welsh Government. The number of GCSE and A-level entries in French, German and Spanish fell between 2008-09 and 2013-14. It is critical that students are able to take a modern foreign language and use it to compete in an increasingly skilled workforce. The Minister has taken too long to tackle this issue. The Welsh Labour Government has finally taken action to introduce modern foreign language centres of excellence, but these will only be based in secondary schools. It is beneficial for children to engage with foreign languages as soon as possible, since it will enable them to develop the better foundations for learning other languages in the future. Therefore, more must be done to improve modern foreign languages at primary level. On these benches, we have brought forward our policy some two years ago as to how we would like to see this unfold.

I also have concerns about the role regional consortia will play in this new initiative. So far, they have failed to operate effectively. They were introduced by the former Minister, Leighton Andrews, to bring in a constant approach, share resources, reduce overhead costs, and improve services. Emphasis was also placed on best practice. However, the 2015 Wales Audit Office report found that they need better performance management arrangements and do not consider the approach taken by each other, meaning that they aren't exposed to best practice.

Two don't even produce agendas or minutes, and their data analysis systems are underdeveloped. These structural failings mean that there has been no progress, or limited progress, in school improvement. This has been to the pupils' detriment.

It is therefore clear that more must be done to improve education standards in Wales. Not only must we make sure we do not fall further behind, but we must also work to achieve the goal that Wales does not just have parity with England, Scotland and Northern Ireland, but also exceeds the standards. The Minister must accept that the Welsh Labour Government's approach to date has not been as successful as we would have all liked it to have been. I urge him to use his response to today's debate to outline clearly how the series of initiatives made by his Government will directly improve our young people's prospects. Alas, however, I fear—as is ever the case in education in Wales under Welsh Labour Ministers—it is always jam tomorrow, when asking people to be patient for improvement in our education system: an education system that Welsh Labour has presided over from the beginning of devolution in 1999.

Yn ogystal â'r problemau a gafwyd mewn gwyddoniaeth, Mr Dirprwy Lywydd, rydym hefyd wedi gweld gostyngiad yn y nifer sy'n astudio ieithoedd tramor modern dan Lywodraeth Cymru. Gostyngodd nifer y cofrestrïadau TGAU a Safon Uwch mewn Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg rhwng 2008-09 a 2013-14. Mae'n hanfodol fod myfyrwyr yn gallu dysgu iaith dramor fodern a'i defnyddio i gystadlu mewn gweithlu sy'n gynyddol fedrus. Mae'r Gweinidog wedi cymryd gormod o amser i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae Llywodraeth Lafur Cymru o'r diwedd wedi rhoi camau ar waith i gyflwyno canolfannau rhagoriaeth ar gyfer ieithoedd tramor modern, ond mewn ysgolion uwchradd yn unig y lleolir y rhain. Mae'n fanteisiol i blant ddod i gysylltiad ag ieithoedd tramor cyn gynted ag y bo modd i'w galluogi i ddatblygu seiliau gwell ar gyfer dysgu ieithoedd eraill yn y dyfodol. Felly, rhaid gwneud mwy i wella ieithoedd tramor modern ar lefel gynradd. Ar y meinciau hyn, fe gyflwynom ein polisi oddeutu dwy flynedd yn ôl o ran sut y byddem yn hoffi gweld hyn yn datblygu.

Mae gennyf hefyd bryderon ynghylch y rôl y bydd consortia rhanbarthol yn ei chwarae yn y fenter newydd hon. Hyd yn hyn, maent wedi methu gweithredu'n effeithiol. Cawsant eu cyflwyno gan y cyn-Weinidog, Leighton Andrews, i gyflwyno dull cyson o weithredu, rhannu adnoddau, lleihau costau gorbenion, a gwella gwasanaethau. Rhoddwyd pwyslais hefyd ar arfer gorau. Fodd bynnag, canfu adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2015 eu bod angen trefniadau rheoli perfformiad gwell ac nad ydynt yn ystyried dulliau ei gilydd o weithredu, sy'n golygu nad ydynt yn dod i gysylltiad ag arfer gorau.

Nid yw dau o'r consortia yn cynhyrchu agendâu neu gofnodion hyd yn oed, ac nid yw eu systemau dadansoddi data wedi eu datblygu'n ddigonol. Mae'r methiannau strwythurol hyn yn golygu na fu unrhyw gynnydd o ran gwella ysgolion, neu fod y cynnydd a gafwyd yn gyfyngedig. Mae hyn wedi bod yn niweidiol i'r disgyblion.

Felly, mae'n amlwg fod yn rhaid gwneud mwy i wella safonau addysg yng Nghymru. Nid yn unig y mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr nad ydym yn llusgo ymhellach ar ôl, ond rhaid i ni hefyd weithio i gyrraedd y nod er mwyn sicrhau bod Cymru yn gydradd â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a hefyd yn rhagori ar y safonau. Rhaid i'r Gweinidog dderbyn nad yw dull Llywodraeth Lafur Cymru o weithredu hyd yma wedi bod mor llwyddiannus ag y byddem i gyd wedi hoffi iddo fod. Rwy'n ei annog i ddefnyddio ei ymateb i'r ddadl heddiw i amlinellu'n glir sut y bydd y gyfres o fentrau gan ei Lywodraeth yn gwella rhagolygon ein pobl ifanc yn uniongyrchol. Ysyaeth, rwy'n ofni—fel sy'n wir bob amser gydag addysg yng Nghymru o dan Weinidogion Llafur Cymru—mae bob amser yn fater o addewidion ar gyfer yfory, wrth ofyn i bobl fod yn amyneddgar cyn gweld gwelliant yn ein system addysg: system addysg y mae Llafur Cymru wedi bod yn gyfrifol amdani ers dechrau datganoli yn 1999.

16:00

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nick Ramsay.

Nick Ramsay.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer, for calling me in this debate. As Angela Burns said in opening, standards in education in Wales are simply not high enough and are fundamental to making sure that we get our economy on an even track and improve the competitiveness of Wales overall. So, this debate is quite simple. It's about, first of all, recognising the problem, and then ensuring how you achieve a high standard of education for our young people. As I said, those high standards do translate, ultimately, into a sharper competitive edge—not just for individuals in education but also for the country within the UK and also on the global stage.

The Welsh Government, it is true to say, has often made the right noises in this area and in this Chamber, and that is to be welcomed. Of course, noises are one thing, and action is quite another. I can see Angela Burns agreeing with me there. The Welsh Conservatives believe that it has taken far too long for measures—some of which are to be welcomed—to be developed to raise standards. The Welsh Government point to regional consortia, and there are differences of opinion about those. There's no doubt at all that we have them and would like them to work as well as they can. But the truth is that they simply have not been effective enough in raising standards.

If I can turn to the foundation phase, the report summary states that there is no evidence that the foundation phase has made any observable impact on reducing inequalities in attainment at the end of key stage 2. And yet, it is called the foundation phase for a reason, because it should be laying foundations for a better education later on. I'm sure that the foundation phase does have much going for it, but if it is not actually delivering later in the phases, at key stage 2, then there is something clearly wrong at the heart of the system that it is supposed to be supporting.

The school categorisation system: well, that was launched with much fanfare, wasn't it? The traffic light system, which, if you read how that's supposed to work, is designed to trigger a tailored programme of support once an evaluation has been made of the problems that are affecting schools. Has this happened in practice? Well, I would argue that it hasn't happened. Will it happen in the future? Well, we hope that it can be amended so that it will. But clearly, there is a lag time there, and that is not good enough for our young people. I think that if you look at— It was interesting to listen to Simon Thomas—I think it was you, Simon—who made comments about academies, or was it free schools? No, it was academies that you spoke about, and it was a discussion about the distinction between free schools and academies. I was sad to hear your comments there. I think we need choice in education. I think that that choice is working—it's starting to work—across the border, and there is a role to play for that choice here. I quite accept you might not want exactly the same system that they have in England. There's no reason we need to have that here. We could have our own, tailored Welsh solution.

Diolch i chi am alw arnaf yn y ddatl hon, Ddirprwy Lywydd. Fel y dywedodd Angela Burns wrth agor, yn syml iawn, nid yw'r safonau mewn addysg yng Nghymru yn ddigon uchel ac maent yn hanfodol i sicrhau ein bod yn cael ein heconomi yn ôl ar lwybr gwastad a gwella cystadleurwydd Cymru yn gyffredinol. Felly, mae'r ddatl hon yn eithaf syml. Mae'n ymwneud, yn gyntaf oll, â chydabod y broblem, ac yna gwneud yn siŵr eich bod yn gallu sicrhau addysg o safon uchel ar gyfer ein pobl ifanc. Fel y dywedais, mae'r safonau uchel hynny'n arwain, yn y pen draw, at ymyl gystadleuol fwy pendant—nid yn unig ar gyfer unigolion mewn addysg, ond hefyd ar gyfer y wlad o fewn y DU a hefyd ar y llwyfan byd-eang.

Mae'n wir i ddweud bod Llywodraeth Cymru yn aml wedi gwneud y synau cywir yn y maes hwn ac yn y Siambr hon, ac mae hynny i'w groesawu. Wrth gwrs, un peth yw synau; mae gweithredu yn fater arall yn llwyr. Gallaf weld Angela Burns yn cytuno â mi ar hynny. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu ei bod wedi cymryd llawer gormod o amser i ddatblygu mesurau—rai ohonynt i'w croesawu—er mwyn codi safonau. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y consortia rhanbarthol, ac mae gwahaniaeth barn ynglŷn â'r rheini. Nid oes unrhyw amheuaeth o gwbl eu bod gennym ac y byddem yn dymuno eu gweld yn gweithio gystal ag y gallant. Ond y gwir yn syml yw nad ydynt wedi codi safonau yn ddigon effeithiol.

Os caf fi droi at y cyfnod sylfaen, mae'r adroddiad cryno yn datgan nad oes unrhyw dystiolaeth fod y cyfnod sylfaen wedi cael unrhyw effaith weladwy ar leihau anghydraddoldebau yn y cyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Ac eto, mae'n cael ei alw'n gyfnod sylfaen am reswm, oherwydd y dylai fod yn gosod sylfeini i addysg well yn nes ymlaen. Rwy'n siŵr bod llawer o werth yn y cyfnod sylfaen, ond os nad yw mewn gwirionedd yn cyflawni yn nes ymlaen yn y cyfnodau, yng nghyfnod allweddol 2, yna mae rhywbeth yn amlwg o'i le wrth galon y system y mae i fod i'w chynnal.

Y system gategoreiddio ysgol: wel, lanswyd honno gyda llawer o ffanffer. Os darllenwch sut y mae'r system goleuadau traffig i fod i weithio, fe'i lluniwyd i ysgogi rhaglen wedi'i theilwra o gymorth ar ôl gwneud gwerthusiad o'r problemau sy'n effeithio ar ysgolion. A yw hyn wedi digwydd yn ymarferol? Wel, byddwn yn dadlau nad yw wedi digwydd. A fydd yn digwydd yn y dyfodol? Wel, rydym yn gobeithio y gellir ei diwygio er mwyn i hynny ddigwydd. Ond yn amlwg, mae'n mynd i olygu oedi, ac nid yw hynny'n ddigon da ar gyfer ein pobl ifanc. Rwy'n credu os edrychwch ar—. Roedd yn ddiddorol gwrandao ar Simon Thomas—rwy'n meddwl mai chi a wnaeth, Simon— yn gwneud sylwadau am academiâu, neu ai am ysgolion rhydd? Na, sôn am academiâu roeddech chi, ac roeddech yn trafod y gwahaniaeth rhwng ysgolion rhydd ac academiâu. Roeddwn yn drist o glywed eich sylwadau. Rwy'n credu bod angen dewis ym maes addysg. Credaf fod y dewis hwnnw'n gweithio—mae'n dechrau gweithio—ar draws y ffin, ac mae gan ddewis o'r fath ran i'w chwarae yma. Rwy'n derbyn yn llwyr efallai na fydddech eisiau yr un system yn union ag sydd ganddynt yn Lloegr. Nid oes unrhyw reswm pam y mae angen i ni gael hynny yma. Gallem gael ein hateb Cymreig ein hunain wedi'i deilwra ar ein cyfer.

- 16:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Aled Roberts. Aled Roberts.
- 16:03 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I'll take an intervention first of all. Fe gymeraf ymyriad yn gyntaf oll.
- 16:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Are you giving way? You are giving way. A ydych yn ildio? Rydych yn ildio.
- 16:03 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will you accept that across the border there wasn't choice in the creation of some of those academies? They were forced on them by the Government. A wnewch chi dderbyn na chafwyd dewis ynghylch creu rhai o'r academiau hynny dros y ffin? Cawsant eu gorfodi arnynt gan y Llywodraeth.
- 16:04 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Well, where there was—. I don't accept that, no, because where there was underperformance to start with, the Government stepped in and tried to provide a solution. I've already said—well, I was trying to say, anyway, Aled—that I wouldn't expect Plaid Cymru to necessarily follow, hook line and sinker, the English model. But, at the end of the day, if you exclude choice from the system, does it actually make things better? It never does. It always makes them worse.

If we look at the PISA results, well, those arguments are well versed, particularly in this Chamber. PISA demonstrated the scale of the problem that we were facing, particularly in the area of maths and science, where Wales ranks worst across the world. It is very easy to say that in a measured way, but where Wales ranks worst across the world—that is completely and utterly unacceptable. We know that the PISA results put us at a serious disadvantage to other countries in terms of our competitiveness, as I mentioned earlier and as Angela Burns alluded to.

So, where are we to go from here? Well, as Professor Reynolds has said, morale is low at the moment and heads are rejecting things from the Government that they simply shouldn't be on the face of it, like the free PISA tests. Something is clearly wrong. Out of the 213 secondary schools in Wales, only 89 opted to participate in the new PISA tests. So, it's not just us in the Welsh Conservative saying this; schools and headteachers are opting with their feet. This simply isn't good enough, Deputy Presiding Officer; that is why we've brought this motion before the Chamber today. I urge other Members to support this and get on with the job of turning education in Wales around.
- Wel, lle'r oedd—. Nid wyf yn derbyn hynny, nac ydw, oherwydd lle'r oedd tangyflawni yn y lle cyntaf, camodd y Llywodraeth i mewn a cheisio cynnig ateb. Rwyf eisoes wedi dweud—wel, roeddwn i'n ceisio dweud, beth bynnag, Aled—na fyddwn yn disgwyl i Blaid Cymru ddilyn model Lloegr yn gyfan gwbl, o reidrwydd. Ond yn y pen draw, os ydych yn cael gwared ar ddewis o'r system, a yw hynny mewn gwirionedd yn gwneud pethau'n well? Nac ydy, byth. Mae bob amser yn eu gwneud yn waeth.

Os edrychwn ar ganlyniadau PISA, wel, mae'r dadleuon hynny'n gyfarwydd iawn, yn enwedig yn y Siambr hon. Dangosodd PISA faint y broblem roeddem yn ei hwynebu, yn enwedig ym maes mathemateg a gwyddoniaeth, lle y mae Cymru yn gwneud yn waeth na neb arall yn y byd. Mae'n hawdd iawn dweud hynny mewn ffordd bwyllog, ond lle y mae Cymru yn waethaf ar draws y byd—mae hynny'n gwbl, gwbl annerbyniol. Gwyddom fod canlyniadau PISA wedi ein rhoi dan anfantais ddifrifol o gymharu â gwledydd eraill o ran ein cystadleurwydd, fel y soniais yn gynharach, ac fel y soniodd Angela Burns.

Felly, i ble'r awn ni o'r fan hon? Wel, fel y dywedodd yr Athro Reynolds, mae morâl yn isel ar hyn o bryd a'r penaethiaid yn gwrthod pethau gan y Llywodraeth na ddylent fod yn eu gwrthod ar yr olwg gyntaf, fel y profion PISA rhad ac am ddim. Mae rhywbeth yn amlwg o'i le. O'r 213 o ysgolion uwchradd yng Nghymru, 89 yn unig a ddewisodd gymryd rhan yn y profion PISA newydd. Felly, nid ni yn y Ceidwadwyr Cymreig yn unig sy'n dweud hyn; mae ysgolion a phenaethiaid yn dewis gyda'u traed. Yn syml iawn, nid yw'n ddigon da, Ddirprwy Lywydd; dyna pam y daethom â'r cynnig hwn gerbron y Siambr heddiw. Rwy'n annog Aelodau eraill i'w gefnogi a symud ymlaen gyda'r gwaith o wella addysg yng Nghymru.
- 16:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis. I call on the Minister for Education and Skills, Huw Lewis.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

Deputy Presiding Officer, thank you. I suppose I should begin by thanking the Welsh Conservatives for bringing this motion to the floor of the Assembly today. They've worked hard and bravely but, ultimately, hopelessly in an attempt at cobbling together a Welsh Conservative stance on education that makes some kind of sense. That attempt deserves some sympathy, at least.

No objective observer can be in any doubt of the scale of the ambition the Welsh Labour Government has set out for schools in Wales, and the scale of real improvement that we are seeing right now, from pedagogy to standards to curriculum to qualifications, there is a wave of reform running through our system, aimed at supporting world-class schools and world-class teaching and learning in the classroom. And I categorically reject the assertion by Plaid Cymru in their amendment that there is somehow confusion in our approach. The strengthened regional consortia, the literacy and numeracy framework, the Master's in educational practice and the £20 million Schools Challenge Cymru programme have all been designed coherently to build the capacity and capability professionals and schools and drive up standards of teaching and learning for the system as part of a move towards a genuinely self-improving system.

Over the next few years, we will develop this capacity-building approach further, and, through the development of the new curriculum for Wales, following the Donaldson review, we'll be using that higher capacity and capability in our system to drive up attainment even further for every learner at every level. To support this, we're transporting the system of initial teacher education, through the Furlong review. Through the new deal and the professional learning passport being instituted from this September, we are also supporting practitioners through a much stronger framework of professional development. This is a strategy endorsed by the Organisation for Economic Co-operation and Development in their report on Wales in 2014.

We are backing these measures up with funding by making sure that every part of the school system has the funding it needs to thrive. We've delivered on our commitment to increase the front-line spending on schools in Wales by at least 1 per cent above the money we get from the Welsh Conservatives' friends in Westminster. More than £100 million of additional funding for Welsh schools since 2011—that's how that translates.

Ddirprwy Lywydd, diolch. Mae'n debyg y dylwn ddechrau drwy ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r cynnig hwn i lawr y Cynulliad heddiw. Maent wedi gweithio'n galed ac yn ddewr, ond yn anobeithiol yn y pen draw, mewn ymgais i daflu at ei gilydd safiad y Ceidwadwyr Cymreig ar addysg sy'n gwneud rhyw fath o synwyr. Mae'r ymgais honno'n haeddu rhywfaint o gydymdeimlad, o leiaf.

Ni all unrhyw sylwedydd gwrthrychol fod mewn unrhyw amheuaeth ynglŷn â graddau'r uchelgais y mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi ei amlinellu ar gyfer ysgolion yng Nghymru, a graddfa'r gwelliant gwirioneddol rydym yn ei weld ar hyn o bryd, o addysgeg i safonau i'r cwricwlwm i gymwysterau, mae yna don o ddiwygiad yn rhedeg drwy ein system, gyda'r nod o gefnogi ysgolion o'r radd flaenaf ac addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth o'r radd flaenaf. Ac rwy'n bendant yn gwrthod yr honiad gan Blaid Cymru yn eu gwelliant fod dryswch yn ein dull o weithredu, rywsut. Mae'r consortia rhanbarthol cryfach, y fframwaith llythrennedd a rhifedd, y radd Meistr mewn ymarfer addysgol a rhaglen Her Ysgolion Cymru sy'n werth £20 miliwn i gyd wedi cael eu cynllunio'n gydlynol ar gyfer meithrin gallu a medrusrwydd gweithwyr proffesiynol ac ysgolion a chodi safonau addysgu a dysgu ar gyfer y system fel rhan o symudiad tuag at system sy'n gwella'i hunan mewn gwirionedd.

Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn datblygu'r dull meithrin gallu hwn ymhellach, a thrwy ddatblygu cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru, yn dilyn adolygiad Donaldson, byddwn yn defnyddio'r gallu a'r medrusrwydd uwch yn ein system i wella cyrhaeddiad hyd yn oed ymhellach ar gyfer pob dysgwr ar bob lefel. I gefnogi hyn, rydym yn cyflwyno'r system addysg gychwynnol i athrawon drwy adolygiad Furlong. Drwy sefydlu'r fargen newydd a'r pasbort dysgu proffesiynol o fis Medi yma, rydym hefyd yn cefnogi addysgwyr drwy fframwaith llawer cryfach o ddatblygiad proffesiynol. Mae hon yn strategaeth a gymeradwywyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn eu hadroddiad ar Gymru yn 2014.

Rydym yn darparu cyllid i gefnogi'r mesurau hyn drwy wneud yn siŵr fod gan bob rhan o'r system ysgolion yr arian sydd ei angen arni i ffynnu. Rydym wedi cyflawni ein hymrwymiad i gynyddu gwariant rheng flaen ar ysgolion yng Nghymru o leiaf 1 y cant yn uwch na'r arian a gawn gan gyfeillion y Ceidwadwyr Cymreig yn San Steffan. Mae hynny'n golygu bod mwy na £100 miliwn o gyllid ychwanegol wedi ei roi i ysgolion Cymru ers 2011.

Jam tomorrow, says Angela Burns. Well, let's look at what's happening right now, today. Our reforms are having an impact, and standards are rising. In 2014, the last set of GCSEs, the number of 15-year-olds getting five GCSEs A* to C, including English or Welsh and maths, hit an all-time high of 55.4 per cent—2.7 percentage points higher than in 2013, and the highest year-on-year increase since records began. In 2011, the level 2 inclusive gap with England stood at 8.9 percentage points and was truly a subject for concern. By last year, that gap had fallen and closed to 1.4 percentage points. Now, I wonder whether, this summer, we'll see that gap close to nothing, or even, and it's quite conceivable, that Wales overtakes England in terms of attainment at GCSE. I wonder what the comments of the Welsh Conservatives will be immediately following that.

Addewidion yfory, medd Angela Burns. Wel, gadewch i ni edrych ar yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, heddiw. Mae ein diwygiadau yn cael effaith, a safonau'n codi. Yn 2014, yn y gyfres olaf o ganlyniadau TGAU, cyrhaeddodd nifer y rhai 15 oed a gafodd bump TGAU A* i C, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, 55.4 y cant, sy'n uwch nag erioed o'r blaen—2.7 pwynt canran yn uwch nag yn 2013, a'r cynnydd mwyaf o un flwyddyn i'r llall ers dechrau cadw cofnodion. Yn 2011, roedd y bwlch cynwysedig lefel 2 rhyngom a Lloegr yn 8.9 pwynt canran ac yn wir, roedd hynny'n destun pryder. Erbyn y llynedd, roedd y bwlch wedi lleihau ac wedi cau i 1.4 pwynt canran. Nawr, yr haf hwn, tybed a welwn y bwlch hwnnw'n cau'n ddim, neu hyd yn oed, ac mae'n eithaf posibl, a fydd Cymru yn goddiweddyd Lloegr o ran cyrhaeddiad ar lefel TGAU. Tybed beth fydd sylwadau'r Ceidwadwyr Cymreig yn syth ar ôl hynny.

16:09 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, will you—[Inaudible.]

Weinidog, a wnewch chi—[Anghlywadwy.]

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:09 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Please.

Os gwelwch yn dda.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Angela Burns.

Angela Burns.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:09 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I just wish to express my surprise that you are not more ambitious for pupils in Wales. While I recognise that you choose to judge us, as always, against England, I personally prefer to judge our nation against the best in the world, because I believe we have that ability.

Weinidog, hoffwn fynegi fy syndod nad ydych yn fwy uchelgeisiol ar ran disgyblion yng Nghymru. Er fy mod yn cydnabod eich bod yn dewis ein barnu, fel bob amser, yn erbyn Lloegr, yn bersonol mae'n well gen i farnu ein cenedl yn erbyn y gorau yn y byd, oherwydd rwyf fi o'r farn fod gennym y gallu hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:09 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, all evidence is to the contrary; it was Angela Burns who made the comparison in the first place, and I simply respond to it. I hope that the Welsh Conservatives, alongside all other political commentators in Wales, if we see that improvement continued this summer, will stand by our pupils and our teachers and give them the credit they deserve for the efforts that they have put in in order to raise those levels of attainment.

Wel, mae'r holl dystiolaeth i'r gwrthwyneb; Angela Burns a wnaeth y gymhariaeth yn y lle cyntaf, ac rwy'n ymateb iddi, yn syml ddigon. Gobeithio y bydd y Ceidwadwyr Cymreig, ynghyd â phob sylwedydd gwleidyddol arall yng Nghymru, os gwelwn fod y gwelliant hwnnw'n parhau yr haf hwn, yn sefyll gyda'n disgyblion a'n hathrawon a rhoi'r clod y maent yn ei haeddu iddynt am eu hymdrechion i godi'r lefelau cyrhaeddiad hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

As for the attainment gap between the least well-off and other pupils, figures from January 2015 show an overall rise in attainment for those eligible for free school meals between 2013 and 2014 at every key stage. The figures also show the gap in attainment between pupils eligible for free school meals and their counterparts has reduced at the foundation phase level, contrary to Nick Ramsay's ill-informed comments—and at key stage 2 as well, and at key stage 3.

O ran y bwlch cyrhaeddiad rhwng y mwyaf difreintiedig a disgyblion eraill, mae ffigurau Ionawr 2015 yn dangos cynnydd cyffredinol yng nghyrrhaeddiad y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim rhwng 2013 a 2014 ym mhob cyfnod allweddol. Mae'r ffigurau hefyd yn dangos bod y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion wedi lleihau ar lefel y cyfnod sylfaen, yn groes i sylwadau anwybodus Nick Ramsay—ac yng nghyfnod allweddol 2 yn ogystal, ac yng nghyfnod allweddol 3.

Deputy Presiding Officer, in their January 2015 annual report, independent inspection body Estyn talked about a new momentum in Welsh education, and welcomed the rise in standards in secondary schools this year, with over half of schools inspected being judged to be good or excellent. Deputy Presiding Officer, all this is progress. It is not sufficient. I am not satisfied. But it contradicts the centrality of the argument of the Welsh Conservatives, because this is progress. All of it—all of it would be put at serious risk if the Welsh Tories had their way. That is what we know about what the Welsh Conservative way actually is, because we don't know much. But we do know that, if they had their way, they'd slash the education budget by 12 per cent. If they had their way, as their leader in Wales has promised to do, and reintroduced divisive grammar schools—and, let's not forget, the secondary moderns that must accompany them—back into our communities. They would put all this at risk. Or are we to believe the Secretary of State for Wales, who has a different model for Welsh education on offer, which simply calls for the emulation of the free schools and academies model in England? Who is it exactly who speaks for the Welsh Conservatives when it comes to their preferred model of education in Wales? Is it the Secretary of State, who wishes to ape England? Or is it Andrew R.T. Davies, who would take us all—

Ddirprwy Lywydd, yn eu hadroddiad blynyddol ym mis Ionawr 2015, siaradodd y corff arolygu annibynnol, Estyn, am fomentwm newydd mewn addysg yng Nghymru, a chroesawodd y gwelliant yn y safonau mewn ysgolion uwchradd eleni, a'u dyfarniad fod dros hanner yr ysgolion a arolygwyd yn dda neu'n rhagorol. Ddirprwy Lywydd, mae hyn oll yn gynnydd. Nid yw'n ddigon. Nid wyf yn fodlon. Ond mae'n gwrth-ddweud yr hyn sydd wrth galon dadl y Ceidwadwyr Cymreig, oherwydd mae hyn yn gynnydd. Y cyfan ohono—byddai'r cyfan ohono mewn perygl difrifol pe bai'r Torïaid Cymreig yn cael eu ffordd. Dyna a wyddom am ffordd y Ceidwadwyr Cymreig mewn gwirionedd, oherwydd nid ydym yn gwybod llawer. Ond gwyddom, pe baent yn cael eu ffordd, y byddent yn torri 12 y cant oddi ar y gyllideb addysg. Pe baent yn cael eu ffordd, fel yr addawodd eu harweinydd yng Nghymru ei wneud, byddent yn ailgyflwyno ysgolion gramadeg ymrannol—a gadewch i ni beidio ag anghofio, yr ysgolion uwchradd modern sy'n rhaid eu cael gyda hwy—yn ein cymunedau unwaith eto. Byddent yn rhoi hyn i gyd mewn perygl. Neu a ydym i fod i gredu Ysgrifennydd Gwladol Cymru, sy'n cynnig model gwahanol ar gyfer addysg yng Nghymru, sy'n galw'n syml am efelychu'r model ysgolion rhydd a'r academaïau yn Lloegr? Pwy'n union sy'n siarad ar ran y Ceidwadwyr Cymreig o ran eu model dewisol ar gyfer addysg yng Nghymru? Ai'r Ysgrifennydd Gwladol, sydd am gopïo Lloegr? Neu Andrew R.T. Davies, a fyddai'n mynd â ni i gyd yn ôl—

16:12 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, will you give way?

Weinidog, a wnewch chi ildio?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:12 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—back to the 1950s with grammar schools and secondary moderns? Who is it who holds the actual, definitive version of Welsh Conservative policy on education?

[Yn parhau.]—yn ôl i'r 1950au gydag ysgolion gramadeg ac ysgolion uwchradd modern? Gan bwy y mae'r fersiwn ddiffiniol go iawn o bolisi'r Ceidwadwyr Cymreig ar addysg?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nick Ramsay.

Nick Ramsay.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:12 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Why is it that the Minister and the Labour Party are so scared of choice in education, as they are in other areas? Really, what have you got to be afraid of? I've just heard your vitriol about academies and free schools. Have they really had a negative effect in England? No. Standards have gone up.

Pam y mae'r Gweinidog a'r Blaid Lafur mor ofnus o ddewis yn y byd addysg, fel y maent mewn meysydd eraill? O ddifrif, beth sydd gennych i'w ofni? Rwyf newydd glywed eich fitriol ynghylch academaïau ac ysgolion rhydd. A ydynt yn cael effaith negyddol yn Lloegr mewn gwirionedd? Nac ydynt. Mae'r safonau wedi codi.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:12 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, yes, we've got a surfeit of choice here with the Welsh Conservatives, haven't we? You get a different version of what Welsh education should look like just depending upon which one of the characters you happen to choose. The Secretary of State for Wales has one model. Their leader in the Assembly has another. Their backbenchers have subtle differences with both. Choice and indecision are clearly different things.

Wel, oes, mae gennym ormodedd o ddewis yma gyda'r Ceidwadwyr Cymreig, onid oes? Fe gewch fersiwn wahanol o'r hyn y dylai addysg yng Nghymru fod, yn dibynnu ar ba un o'r cymeriadau rydych yn digwydd ei ddewis. Mae gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru un model. Mae gan eu harweinydd yn y Cynulliad un arall. Mae gwahaniaethau cynnil rhwng fersiynau'r ddau a rhai Aelodau eu meinciau cefn. Mae'n amlwg fod dewis a diffyg penderfyniad yn bethau gwahanol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Can I just move on briefly, Deputy Presiding Officer, to the comments that have been made surrounding universities, and our system of student support? I hope the Welsh public heard it loud and clear hear this afternoon that the Welsh Conservatives have now definitively aligned themselves with Plaid Cymru. I hope those parents out there who are nervously awaiting the A-level results of their children, those who are hoping to study and pursue their dreams in, say, Bristol, or Manchester, or London this autumn—I hope those parents have heard the Welsh Conservatives say definitively that they would rob them of their student support, because they would rather invest in institutions than in the student and in that young person's future.

Let me move on to the issue of modern foreign languages. I've made it crystal clear how important the study of modern foreign languages is to young people here in Wales. Again, let's look at the facts for a moment. Wales outperformed England in the 2014 GCSE results in French and Spanish and German. But there is a lot more work to do here in terms of take-up, of course there is. I want to see more. I want to see young people benefit from excellent teaching of modern foreign languages, which is why I announced last month that global futures, my plan to improve and promote modern foreign languages in Wales, will come into effect without delay this September. It's about much more than just establishing centres of excellence. It's about a wholly new strategic approach, making the most of the expertise that we have in this country and internationally that we have not tapped into before. It's about working with language institutes like the Goethe-Institut and the Institut Français; it's about working with our universities, and with their undergraduate body. It's about working with the best schools, with an unprecedented and new means of support for teachers and pupils on offer—

A gaf fi symud ymlaen yn fyr, Ddirprwy Lywydd, at y sylwadau a wnaed ynglŷn â phrifysgolion, a'n system gymorth i fyfyrwyr? Rwy'n gobeithio bod y cyhoedd yng Nghymru wedi clywed yn uchel ac yn glir y prynhawn yma fod y Ceidwadwyr Cymreig yn awr yn bendant yn cyd-fynd â Phlaid Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd y rhieni sy'n aros yn nerfus am ganlyniadau Safon Uwch eu plant, sy'n gobeithio astudio a dilyn eu breuddwydion, ym Mryste neu ym Manceinion efallai, neu yn Llundain yn yr hydref—rwy'n gobeithio y bydd y rhieni hynny wedi clywed y Ceidwadwyr Cymreig yn dweud yn bendant y byddent yn dwyn eu cymorth i fyfyrwyr oddi arnynt, am y byddai'n well ganddynt fuddsoddi mewn sefydliadau yn hytrach nag yn y myfyriwr ac yn nyfodol y person ifanc.

Gadewch i mi symud ymlaen at fater ieithoedd tramor modern. Rwyf wedi gwneud yn hollol glir pa mor bwysig yw astudio ieithoedd tramor modern i bobl ifanc yma yng Nghymru. Unwaith eto, gadewch i ni edrych ar y feithiau am eiliad. Perfformiodd Cymru yn well na Lloegr yng nghanlyniadau TGAU 2014 mewn Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg. Ond mae llawer mwy o waith i'w gwneud yma o ran y nifer sy'n eu hastudio, wrth gwrs. Rwyf am weld mwy. Rwyf am weld pobl ifanc yn cael budd o safon ragorol o addysgu ieithoedd tramor modern, a dyna pam y cyhoeddais fis diwethaf y bydd Dyfodol Byd-eang, fy nghynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru, yn cael ei roi ar waith yn ddi-oed y mis Medi hwn. Mae'n ymwneud â llawer mwy na dim ond sefydlu canolfannau rhagoriaeth. Mae'n ymwneud â dull strategol hollol newydd o addysgu, gan gwneud y gorau o'r arbenigeidd sydd gennym yn y wlad hon ac yn rhyngwladol nad ydym wedi manteisio arno o'r blaen. Mae'n ymwneud â gweithio gyda sefydliadau iaith fel y Goethe-Institut a'r Institut Français; mae'n ymwneud â gweithio gyda'n prifysgolion, a'u myfyriwyr israddedig. Mae'n ymwneud â gweithio gyda'r ysgolion gorau, gan gynnig dull newydd digynsail o gynorthwyo athrawon a disgyblion—

- 16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We are far too late on this and the Minister must now conclude. Rydym ymhell dros yr amser ar hyn a rhaid i'r Gweinidog ddod i ben yn awr.
- 16:15 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Later this week, I'll be making a speech describing that more fully. So, Deputy Presiding Officer, in conclusion, could I once again ask, in all honesty, what exactly, because not one sentence was uttered— Yn ddiweddarach yr wythnos hon, byddaf yn gwneud araith yn disgrifio hynny'n llawnach. Felly, Ddirprwy Lywydd, i gloi, a gaf fi ofyn unwaith eto, yn gwbl ddiffuant, beth yn union, oherwydd ni chafodd un frawddeg ei hyngan—
- 16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Quickly. Yn gyflym.
- 16:15 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- [Continues.]—by the Welsh Conservatives' spokesperson in this regard; what exactly is the Welsh Conservatives' alternative for Welsh education? It is not described— [Yn parhau.]—gan lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig mewn perthynas â hyn; beth yn union yw dewis amgen y Ceidwadwyr Cymreig ar gyfer addysg yng Nghymru? Nid yw'n cael ei ddisgrifio—
- 16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Come on. Dewch.

16:15	Huw Lewis Bywgraffiad Biography [Continues.]—in any way here this afternoon through this debate, and the people of Wales have heard that deafening silence.	[Yn parhau.]—mewn unrhyw ffordd yma y prynhawn yma drwy'r ddadl hon, ac mae pobl Cymru wedi clywed y tawelwch byddarol.	Senedd.tv Fideo Video
16:15	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography I've allowed the Minister to go substantially over time, so I will extend that courtesy to Mark Isherwood, should you require the extra time. I call on Mark Isherwood to reply to the debate.	Rydw i wedi caniatáu i'r Gweinidog fynd gryn dipyn dros yr amser, felly rwyf am ymestyn yr un cwртеisi i Mark Isherwood, os ydych angen yr amser ychwanegol. Galwaf ar Mark Isherwood i ymateb i'r ddadl.	Senedd.tv Fideo Video
16:15	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography Thank you very much and thanks to everybody who's contributed to this interesting and, at times, entertaining and thought-provoking debate. The shadow education Minister, Angela Burns, highlighted the fact that the Welsh Government has never got to grips with monitoring outcomes. Therefore, our debate was unashamedly about standards in education, where the Welsh Government has taken too long to develop measures to raise school standards in Wales. As she said, the Welsh Government's more able and talented policy is inconsistent; the 23 per cent of pupils in Wales with additional learning needs are struggling to get the support they need; and there's been no measurable impact on the attainment gap for children from disadvantaged backgrounds. As she said, we need effective reforms today, not jam tomorrow. Simon Thomas referred to the opportunities presented in the Donaldson review and the fact that we're a long way from there. Of course, he emphasised the importance of the early development of Welsh-language education. Aled Roberts used the term 'crisis'—crisis in education in Wales. He talked about modern languages being pushed out of the curriculum—something I recognise from my own casework in north Wales—with examples of students only being permitted to study one foreign language other than English or Welsh. As he said, what evidence is there that the new modern foreign language centres of excellence will improve the situation? Suzy Davies stressed the importance again of modern foreign languages, stating that knowing how a language works improves listening and speaking as well as reading and writing. She emphasised the cultural and economic advantages of speaking more than one language, but said we're still not seeing that growth. We need to start early to stop languages staying foreign. Not one centre of excellence for foreign languages is a primary school, yet primary schools are where the journey begins.	Diolch yn fawr iawn a diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl ddi-ddorol hon, dadl a oedd yn ddifyr ac yn bryfoclyd ar brydiau. Tynnodd Gweinidog addysg yr wrthblaid, Angela Burns, ein sylw at y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru erioed wedi mynd i'r afael â chanlyniadau monitro. Felly, roedd ein dadl yn ymwneud yn ddiedifar â safonau mewn addysg, lle y mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd gormod o amser i ddatblygu mesurau i godi safonau ysgolion yng Nghymru. Fel y dywedodd, mae polisi mwy galluog a thalentog Llywodraeth Cymru yn anghyson; mae'r 23 y cant o ddisgyblion Cymru sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael trafferth i gael y cymorth sydd ein angen arnynt; ac ni fu unrhyw effaith fesuradwy ar y bwlch cyrhaeddiad ar gyfer plant o gefndiroedd difreintiedig. Fel y dywedodd, mae angen diwygiadau effeithiol heddiw, nid addewidion at yfory. Cyfeiriodd Simon Thomas at y cyfleoedd a gyflwynwyd yn adolygiad Donaldson a'r ffaith ein bod yn bell o'r fan honno. Wrth gwrs, pwysleisiodd bwysigrwydd datblygu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn gynnar. Defnyddiodd Aled Roberts y gair 'argyfwng'—argyfwng mewn addysg yng Nghymru. Soniodd am ieithoedd modern yn cael eu gwtio allan o'r cwricwlwm—rhywbeth rwy'n ei weld yn fy ngwaith achos fy hun yng ngogledd Cymru—gydag enghreifftiau o fyfyrwyr ond yn cael caniatâd i astudio un iaith dramor yn unig heblaw am Saesneg neu Gymraeg. Fel y dywedodd, pa dystiolaeth sydd yna y bydd y canolfannau rhagoriaeth ieithoedd tramor modern newydd yn gwella'r sefyllfa? Unwaith eto, pwysleisiodd Suzy Davies bwysigrwydd ieithoedd tramor modern, gan nodi bod gwybod sut y mae iaith yn gweithio yn gwella gwranddo a siarad yn ogystal â darllen ac ysgrifennu. Pwysleisiodd y manteision diwylliannol ac economaidd sy'n deillio o siarad mwy nag un iaith, ond dywedodd nad ydym eto'n gweld y cynnydd hwnnw. Mae angen i ni ddechrau'n gynnar i atal ieithoedd tramor rhag parhau'n ieithoedd estron. Nid oes un o'r canolfannau rhagoriaeth ar gyfer ieithoedd tramor yn ysgol gynradd, ac eto ysgolion cynradd yw lle y mae'r daith yn dechrau.	Senedd.tv Fideo Video

Andrew R.T. Davies noted that, for too long, the education system in Wales has been falling behind England, Scotland and Northern Ireland, and said we can't allow another generation to be failed. As he said, because of Labour's failures in education, we're in this situation. Businesses are far more likely to invest in countries where education is succeeding, measured on international measures. He urged the Minister to outline how his proposals would help people in Wales prosper.

Nick Ramsay highlighted the need to recognise the problem and then achieve a high standard in Wales, UK and on the world stage. As he said, noises are one thing and action another. Regional consortia, he said, have not been effective enough in raising standards, and he said the evidence gap that the foundation phase has delivered remains. We need choice in education, he said, but a made-in-Wales solution.

The Minister, Huw Lewis—other than thanking us for tabling this motion—to paraphrase, his response was a hopeless attempt at cobbling together a response that made some kind of sense. From capacity-building approach and development of a new curriculum for Wales, to a new deal and professional development, his rhetoric sounded more like a speech by the then Labour Welsh Government education Minister a decade ago, almost word for word, rather than the progress he claimed, with his added comments about the Welsh Conservatives' educational proposals that exist only in the Welsh Labour songbook, and certainly not in the policy proposals that we have brought to this Chamber over the years.

The reality is that, last October, the Labour Welsh Government dropped its PISA targets to be in the world's top 20 in science, reading and maths by 2015, and instead set Wales a new ambition of achieving scores of 500 for reading, maths and science in the tests of 2021. But, England and Scotland achieved scores of over 500 points two years ago. This is poverty of ambition for our young people and the problems have developed over 16 years—Labour's long watch on education. It is almost a decade since the 'Times Educational Supplement' found that 59 per cent achieved five GCSEs at grades A to C in the school with the highest proportion of free school meals in England, compared with just 14 per cent at the school with the highest proportion of free school meals in Wales. Then, jump forward to last year, the 'State of the Nation 2014' report by Alan Milburn, the chair of the Social Mobility and Child Poverty Commission, found that almost three quarters of children eligible for free school meals in Wales do not achieve five good GCSEs—higher than any English region. His words; that's the reality behind the rhetoric we heard about free school meals.

Nododd Andrew R.T. Davies fod y system addysg yng Nghymru, ers yn rhy hir, wedi bod yn llithro y tu ôl i Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a dywedodd na allwn ganiatáu i genhedlaeth arall fod ar ei cholled. Fel y dywedodd, rydym yn y sefyllfa hon oherwydd methiannau Llafur mewn addysg. Mae busnesau yn llawer mwy tebygol o fuddsoddi mewn gwledydd lle y mae addysg yn llwyddo, ac wedi ei fesur yn ôl mesurau rhyngwladol. Anogodd y Gweinidog i amlinellu sut y byddai ei argymhellion yn helpu pobl Cymru i ffynnu.

Amlygodd Nick Ramsay yr angen i gydnabod y broblem a sicrhau safonau uchel yng Nghymru, y DU ac ar lwyfan y byd. Fel y dywedodd, mae synau yn un peth a gweithredu'n beth arall. Dywedodd nad yw'r consortia rhanbarthol wedi codi safonau yn ddigon effeithiol, a dywedodd fod y bwlch tystiolaeth a gafwyd yn sgil y cyfnod sylfaen yn parhau. Mae arnom angen dewis mewn addysg, meddai, ond ateb wedi'i lunio yng Nghymru.

Ar wahân i ddiolch i ni am gyflwyno'r cynnig, roedd ymateb y Gweinidog, Huw Lewis, i aralleirio, yn ymgais anobeithiol i daflu at ei gilydd safiad a oedd yn gwneud rhyw fath o synnwyr. O ddull sy'n meithrin gallu a datblygu cwricwlwm newydd i Gymru, i fargen newydd a datblygiad proffesiynol, roedd ei rethreg yn swnio'n fwy fel araith gan Weinidog Addysg Llywodraeth Lafur Cymru ddegawd yn ôl, bron air am air, yn hytrach na'r cynnydd a honnai, gyda'i sylwadau ychwanegol ynghylch argymhellion addysg y Ceidwadwyr Cymreig sy'n bodoli yn llyfr pregethau Llafur Cymru yn unig, ac yn sicr nid yn yr argymhellion polisi rydym wedi eu cyflwyno i'r Siambr hon dros y blynyddoedd.

Y gwir amdani yw bod Llywodraeth Lafur Cymru, fis Hydref diwethaf, wedi cael gwared ar ei thargedau PISA i fod ymhlith yr 20 uchaf mewn gwyddoniaeth, darllen a mathemateg erbyn 2015, ac yn lle hynny, wedi gosod uchelgais newydd i Gymru, sef cyflawni sgoriau o 500 ar gyfer darllen, mathemateg a gwyddoniaeth ym mhroffion 2021. Ond cyflawnodd Lloegr a'r Alban sgoriau o dros 500 o bwyntiau ddwy flynedd yn ôl. Dyma ddiffyg uchelgais ar gyfer ein pobl ifanc ac mae'r problemau wedi datblygu dros 16 mlynedd—dros oruchwyliaeth hir y Blaid Lafur ar addysg. Mae bron i ddegawd ers i'r 'Times Educational Supplement' ganfod bod 59 y cant wedi ennill pump TGAU ar raddau A i C yn yr ysgol sydd â'r gyfran uchaf o brydau ysgol am ddim yn Lloegr, o'i gymharu â dim ond 14 y cant yn yr ysgol gyda'r gyfran uchaf o brydau ysgol am ddim yng Nghymru. Yna, neidiwch ymlaen at y llynedd, gwelodd adroddiad 'Cyflwr y Genedl 2014' gan Alan Milburn, cadeirydd y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant, nad yw bron i dri chwarter y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru yn cael pump TGAU da—sy'n uwch nag unrhyw ranbarth yn Lloegr. Ei eiriau ef, dyna'r realiti y tu ôl i'r rethreg a glywsom am brydau ysgol am ddim.

Welsh Government figures show that class sizes are worse in Labour's Wales, with the percentage of infant and junior pupils in classes over 30 rising since 2004. Exclusions of secondary school pupils with special educational needs in Wales doubled over 10 years to 2012. Meanwhile, the Welsh Government funding formula means the per-pupil funding gap in Welsh schools, between the highest and the lowest, is now over £1,000 per pupil, with Flintshire, for example, £910 per pupil behind. Too often, the highest funding levels are being used to subsidise rather than target educational underachievement. Well, we champion the many headteachers who argue that the life chances of pupils should not be written off because of their geographical location. We recognise that successful schools in disadvantaged areas do well by having high expectations. They don't allow the proportion of pupils entitled to free school meals to be used as an excuse for low performance, and they pay substantial attention to developing social and emotional skills, and improving pupils' confidence and self-esteem.

We must break the link between educational underachievement and disadvantage. We must have high aspirations for pupils wherever they live and apply target measures to underachievement wherever we find it. The pursuit of excellence for all is central to our Welsh Conservative strategy; our young people and our economy need and deserve nothing less.

Mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn dangos bod maint dosbarthiadau yn waeth yng Nghymru'r Plaid Lafur, gyda'r ganran o ddisgyblion babanod ac iau mewn dosbarthiadau â thros 30 o blant yn codi ers 2004. Dyblodd nifer y disgyblion ag anghenion addysg arbennig a waharddwyd o ysgolion uwchradd yng Nghymru dros y 10 mlynedd hyd at 2012. Yn y cyfamser, mae fformiwla gyllido Llywodraeth Cymru yn golygu bod y bwch cyllid y pen ar gyfer disgyblion yn ysgolion Cymru bellach dros £1,000 y disgybl rhwng yr uchaf a'r isaf, gyda Sir y Fflint, er enghraifft, £910 y disgybl ar ôl. Yn rhy aml, mae'r lefelau ariannu uchaf yn cael eu defnyddio i sybsideiddio yn hytrach na thargedu tangyflawniad addysgol. Wel, rydym yn cefnogi'r nifer o bennaethiaid sy'n dadlau na ddylai cyfleoedd bywyd disgyblion gael eu diystyru oherwydd eu lleoliad daearyddol. Rydym yn cydnabod bod ysgolion llwyddiannus mewn ardaloedd difreintiedig yn gwneud yn dda drwy gael disgywiliadau uchel. Nid ydynt yn caniatáu i gyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim i gael ei ddefnyddio fel esgus dros berfformiad gwael, ac maent yn rhoi llawer o sylw i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosïynol, a gwella hyder a hunan-barch disgyblion.

Mae'n rhaid i ni dorri'r cysylltiad rhwng tangyflawni ac anfantais addysgol. Rhaid i ni gael dyheadau uchel ar gyfer disgyblion ble bynnag y maent yn byw a gosod mesurau targedu ar dangyflawniad ymhle bynnag y'i gwelwn. Mae anelu at ragoriaeth i bawb yn ganolog i strategaeth y Ceidwadwyr Cymreig; mae ein pobl ifanc a'n heconomi ei angen, ac nid ydynt yn haeddu llai na hynny.

16:22

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting under this item until voting time.

Voting deferred until voting time.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

6. Dadl Plaid Cymru: Y Gweithlu Addysg

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, gwelliannau 2 a 4 yn enw Paul Davies, a gwelliant 3 yn enw Jane Hutt. Os derbynnir gwelliant 3, bydd gwelliant 4 yn cael eu dad-ddethol.

6. Plaid Cymru Debate: The Education Workforce

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, amendments 2 and 4 in the name of Paul Davies, and amendment 3 in the name of Jane Hutt. If amendment 3 is agreed, amendment 4 will be deselected.

16:22

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 6 is the Plaid Cymru debate on the education workforce, and I call on Simon Thomas to move the motion.

Cynnig NDM5802 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu y dylai'r system addysg alluogi'r gweithlu addysg i arwain ar ddatblygiad proffesiynol a gwella safonau addysg;

Eitem 6 yw dadl Plaid Cymru ar y gweithlu addysg, a galwaf ar Simon Thomas i gynnal y cynnig.

Motion NDM5802 Elin Jones

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Believes that the education system should enable the education workforce to take the lead on professional development and on improving education standards;

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

2. Yn galw am godi safonau proffesiynol y gweithlu addysg drwy wneud addysgu yn broffesiwn lefel Meistr a gwella datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y gweithlu cyfan; a

3. Yn galw am ddatganoli tâl ac amodau athrawon i Gymru.

Cynigiwyd y cynnig.

2. Calls for the raising of the professional standards of the education workforce by making teaching a Master's level profession and improving continual professional development for the whole workforce; and

3. Calls for the devolution of teachers' pay and conditions to Wales.

Motion moved.

16:22

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I hope your appetite has been whetted for a real debate on education. [Laughter.]

I hope that this debate will be not so much about the situation we are in now, which I think we have just spent an hour discussing, but about the future vision that I hope we can all share, both for teaching as a profession and for those who support teachers in the wider education workforce. But, I do want to give a little context to explain the thinking behind our proposals today.

The former education Minister, Leighton Andrews, did diagnose a problem in our education system, which he blamed for falling standards. He called it 'mediocrity', although I think it's best described as a lack of leadership and responsibility. Curiously, however, he then went on to blame local education authorities, teachers, trade unions, Uncle Tom Cobley and all for that mediocrity—everyone, indeed, apart from the single most salient point for leadership: over 15 years of Labour education Ministers. As a result, his prescription for the diagnosis dealt with the symptoms, not the disease. The frantic rush of initiatives and constant churn, which I did refer to in our amendment in a previous debate, have been reflected in that debate, but local authorities were placed in special measures, regional consortia were formed, schools set up in competition and a crude banding system, but, meanwhile, the central issue of lack of leadership worsened.

Why was this? Well, because, if you build a culture of accountability but no responsibility, with lines of control, programmes to implement and constant scrutiny, what you really build is a system controlled from the top with no room for innovation and no room for teachers themselves to take control and shoulder leadership and responsibility. A system that believes its accountability lies with Government and not with the pupils and the wider school community is a system in which a Minister can know what little Siani is doing at 10 a.m. on a Tuesday morning, but which paralyses its professionals in a straitjacket of accounting for everything and taking responsibility for little or nothing.

There were, of course, outstanding exceptions to this rule, and many excellent examples of leadership and good teaching. But, as successive Estyn reports pointed out, they were not widely shared and were not a consistent feature of the system.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n gobeithio bod y ddadl ddiwethaf wedi codi blys arnoch am ddadl go iawn ar addysg. [Chwerthin.]

Gobeithiaf y bydd y ddadl hon yn ymwneud nid yn gymaint â'r sefyllfa rydym ynnddi yn awr, sef yr hyn rydym newydd dreulio awr yn ei drafod, ond am y weledigaeth yn y dyfodol rwy'n gobeithio y gallwn i gyd ei rhannu ar gyfer addysgu fel proffesiwn ac ar gyfer y rhai sy'n cynorthwyo athrawon yn y gweithlu addysg ehangach. Ond rwy'n dymuno rhoi ychydig o gyd-destun i egluro'r meddylfryd sy'n sail i'n cynigion heddiw.

Fe wnaeth y cyn-Weinidog addysg, Leighton Andrews, ddiagnosis o broblem yn ein system addysg, ac roedd yn ei beio am y gostyngiad yn y safonau. Fe'i galwodd yn 'gyffredinedd', er fy mod yn meddwl mai'r disgrifiad gorau ohono yw diffyg arweinyddiaeth a chyfrifoldeb. Yn rhyfedd ddigon, fodd bynnag, aeth rhagddo wedyn i feio awdurdodau addysg lleol, athrawon, undebau llafur, y byd a'i wraig am y cyffredinedd hwnnw—pawb, yn wir, ar wahân i'r peth mwyaf amlwg o ran arweinyddiaeth: dros 15 mlynedd o Weinidogion addysg Llafur. O ganlyniad, roedd ei bresgripsiwn ar gyfer y diagnosis yn ymdrin â'r symptomau, nid â'r defyd. Cafodd rhuthr gwyllt o fentrau a chorddi cyson, y cyfeiriais ato yn ein gwelliant mewn dadl flaenorol, eu hadlewyrchu yn y ddadl honno, ond cafodd awdurdodau lleol eu rhoi dan weithdrefn mesurau arbennig, ffurfiwyd consortia rhanbarthol, sefydlwyd ysgolion i gystadlu â'i gilydd a lluniwyd system fandio amrwd, ond yn y cyfamser, roedd y mater canolog o ddiffyg arweiniad yn gwaethygu.

Pam felly? Wel, oherwydd hyn: os adeiladwch ddiwylliant o atebolrwydd, heb ddim cyfrifoldeb, gyda llinellau o reolaeth, rhaglenni i'w gweithredu a chraffu parhaol, yr hyn rydych yn ei adeiladu mewn gwirionedd yw system a reolir o'r brig heb unrhyw le i arloesi a heb unrhyw le i athrawon eu hunain gymryd rheolaeth ac ysgwyddo arweinyddiaeth a chyfrifoldeb. Mae system sy'n credu ei bod yn atebol i'r Llywodraeth ac nid i'r disgyblion a'r gymuned ysgol ehangach yn system lle y gall Gweinidog wybod beth y mae Siani fach yn ei wneud am 10am ar fore dydd Mawrth, ond yn un sy'n parlysu ei gweithwyr proffesiynol drwy eu rhwymo i roi cyfrif am bopeth heb gymryd cyfrifoldeb am fawr ddim, os o gwbl.

Wrth gwrs, roedd yna eithriadau rhagorol i'r rheol hon, a llawer o enghreifftiau ardderchog o arweinyddiaeth ac addysgu da. Ond, fel y nododd adroddiadau olynol gan Estyn, ni chaent eu rhannu'n eang ac nid oeddent yn nodwedd gyson o'r system.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Somehow, and I'm not sure how but it happened still, a dawning realisation did emerge within the Government. Certainly, the Organisation for Economic Co-operation and Development report on education played a key role. Certainly, a change of Minister allowed some treasured shibboleths to be spoken of in a different way. What is clear is that this Minister over the last year or so has started to speak more clearly of the type of education he wants to see, and the role he sees for teachers in it. It is a partial vision to date, as he still perhaps remains wedded to failed interventions due to tradition or his own political culture, but there is change.

Today, I want to take that change further and ask ourselves how we can build on the small steps that have been taken so far, and truly create a modern, excellent education workforce. In doing this, I do not say there's no excellence in the workforce presently, but neither do I believe that the mediocrity that the previous Minister castigated has been completely eradicated.

So, let us ask ourselves: what would the features be of a professional education workforce? Of course, all teachers and their unions would describe themselves as professional, but a closer examination of the workforce as a whole demonstrates it's often a profession in name, and not in reality. A profession sets its own standards—for training, for access to the profession and for ongoing continuous professional development. Although these elements exist for teachers, teachers do not control them or set them as a profession. They have a role, but so do universities, Government and now the new Education Workforce Council. So, the first thing we must acknowledge is that the education workforce needs to be further empowered to set these professional standards and to deliver on them.

It has also become increasingly clear over the last year that the Government sees the Education Workforce Council as central to this role. So do I, which is why I tried to amend the establishing legislation to reflect this. The Government resisted that at the time, and it is now in a situation where it has a body it wants to perform this role, but which is ill-equipped and certainly ill-funded to do so. This reflects the confusion in the change of emphasis that emerged in Government thinking around two years ago. That's why I can accept the Liberal Democrat amendment on the membership, but also why I feel we need to go much further. The Education Workforce Council needs to grow, to be run by the profession itself, but to include within its remit a wider role around continuous professional development and standards, and build the confidence to lead and implement these issues. Education Scotland performs some of this role, for example, in that nation, and we need to consider further developments such as that.

Rywsut—ac nid wyf yn siŵr sut, ond fe ddiwyddodd—gwawriodd sylweddoliad o fewn y Llywodraeth. Yn sicr, chwaraeodd adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar addysg ran allweddol yn hyn. Yn sicr, caniatodd newid Gweinidog i ni siarad am rai egwyddorion sanctaidd mewn ffordd wahanol. Yr hyn sy'n glir yw bod y Gweinidog hwn dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf wedi dechrau siarad yn fwy eglur am y math o addysg y mae am ei gweld, a'r rôl y mae'n ei gweld ar gyfer athrawon ynddi. Gweledigaeth rannol ydyw hyd yn hyn, gan ei fod yn parhau'n gaeth o bosibl i ymyriadau aflwyddiannus o ganlyniad i draddodiad neu ei ddiwylliant gwleidyddol ei hun, ond mae yna newid.

Heddiw, rwyf am symud y newid hwnnw ymhellach a gofyn i ni'n hunain sut y gallwn adeiladu ar y camau bach sydd wedi'u cymryd hyd yn hyn, a mynd ati o ddirif i greu gweithlu addysg modern a rhagorol. Wrth wneud hyn, nid wyf yn dweud nad oes rhagoriaeth yn y gweithlu ar hyn o bryd, ond nid wyf yn credu ychwaith fod y cyffredinedd a gystwywyd gan y Gweinidog blaenorol wedi cael ei ddileu yn gyfan gwbl.

Felly, gadewch i ni ofyn i ni'n hunain: beth fyddai nodweddion gweithlu addysg proffesiynol? Wrth gwrs, byddai pob athro a'u hundebau yn disgrifio eu hunain fel proffesiynol, ond mae archwiliad manylach o'r gweithlu yn ei gyfanrwydd yn dangos mai proffesiwn mewn enw ydyw yn aml, ac nid mewn realiti. Mae proffesiwn yn gosod ei safonau ei hun—ar gyfer hyfforddiant, ar gyfer mynediad at y proffesiwn ac ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Er bod yr elfennau hyn yn bodoli ar gyfer athrawon, nid yw athrawon yn eu rheoli neu'n eu gosod fel proffesiwn. Mae ganddynt rôl, ond mae rolau hefyd gan brifysgolion a'r Llywodraeth, a bellach, gan Gyngor y Gweithlu Addysg newydd hefyd. Felly, y peth cyntaf y mae'n rhaid i ni ei gydnabod yw bod angen grymuso'r gweithlu addysg ymhellach i osod y safonau proffesiynol hyn ac i gyflawni arnynt.

Mae hefyd wedi dod yn gynyddol amlwg dros y flwyddyn ddiwethaf fod y Llywodraeth yn ystyried bod Cyngor y Gweithlu Addysg yn ganolog i'r rôl hon. Rwyf innau hefyd, a dyna pam y ceisiais ddiwygio'r ddeddfwriaeth sy'n ei sefydlu i adlewyrchu hyn. Roedd y Llywodraeth yn gwrthwynebu hynny ar y pryd, ac mae bellach mewn sefyllfa lle y mae ganddi gorff y mae'n awyddus iddo gyflawni'r rôl hon, ond sydd heb ei gyfarparu'n iawn, ac yn bendant, corff nad yw'n cael ei ariannu'n briodol ar gyfer gwneud hynny. Mae hyn yn adlewyrchu'r dryswch yn y newid pwyslais a ddaeth yn amlwg yn meddyllfryd y Llywodraeth tua dwy flynedd yn ôl. Dyna pam rwy'n gallu derbyn gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol ar yr aelodaeth, ond hefyd pam rwy'n teimlo bod angen i ni fynd yn llawer pellach. Mae angen i Gyngor y Gweithlu Addysg dyfu, cael ei redeg gan y proffesiwn ei hun, ond gan gynnwys yn ei gylch gwaith rôl ehangach yn ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus a safonau, a meithrin hyder i arwain a gweithredu'r materion hyn. Mae Education Scotland yn cyflawni peth o'r rôl hon yn y wlad honno, er enghraifft, ac mae angen i ni ystyried datblygiadau pellach o'r fath.

A second element of a truly excellent profession is that the profession sets the ongoing requirement for CPD—continuous professional development—and the policies and the attainment of its members to the standards set, and the professional development that's required to maintain those. That means that continuous professional development becomes mandatory, not an obligation which it often is within the system, but an actual mandate. By analogy to other professions, failure to maintain your continuous professional development can mean losing professional competence or fitness to practise. This is wider than a skill in a subject area, and includes conduct or ability to maintain classroom discipline. Thus entry to the profession is set by the profession, but so is exit, whether voluntary or not. Plaid Cymru believes that this approach, in effect, means advocating that teaching becomes a Master's level profession.

This, of course, has already been trialled for newly qualified teachers with the Master's in educational practice. That trial, I understand, has had some difficulties. We've had mentors who have been unavailable. Many who have taken the Master's in educational practice have found it difficult to complete it within the time given. However, it's a foundation from which we can learn and apply for the future. There was also a state of confusion, even among the professionals themselves, about what a Master's means. They assume it means an academic qualification in the subject you may be required to teach in the classroom. It doesn't mean that. It means Master's level skills in educational practice—the vocational skills, if you like, that we need to see there. We have an increasing appreciation in this Chamber, certainly, that you can have high-level skills in vocational practice, and that is not the same as high-level skills in an academic subject, so I wanted to make that clear. A Master's level profession for education recognises those practise skills in classroom techniques, not so much the academic subject skills themselves.

There's a third element that's missing from a truly professional workforce, and that is supply teachers. Around 10 per cent of our teaching is done and delivered by supply teachers at present, and they do not have the features of the profession that I have just described. Where there is weakness within the education maintained workforce, there is absence within the supply teaching workforce. We saw this clearly in the inquiry by the Children, Young People and Education Committee, which has not yet published its conclusions on that inquiry on supply teachers. But I have come to my own conclusion on that, and I am firmly of the view that we need a co-operative model for delivering supply in Wales, either at a national or regional level, and that co-operative model has to be built around using the resources engendered by supply provision to ensure that supply teachers also have this access to continuous professional development—mandatory continuous professional development—skills recognition and the support that they then need to maintain their standards.

Ail elfen proffesiwn gwirioneddol wych yw bod y proffesiwn yn gosod y gofyniad parhaus am ddatblygiad proffesiynol parhaus, a'r polisiau a gallu ei aelodau i gyrraedd y safonau a osodwyd, a'r datblygiad proffesiynol sy'n ofynnol i gynnal y rheini. Mae hynny'n golygu bod datblygiad proffesiynol parhaus yn dod yn orfodol, nid yn rhwymedigaeth fel y mae yn aml o fewn y system, ond yn fandad go iawn. Fel mewn proffesiynau eraill, gall methiant i gynnal eich datblygiad proffesiynol parhaus olygu colli cymhwysedd proffesiynol neu addasrwydd i ymarfer. Mae hyn yn ehangach na sgil mewn maes pwnc, ac yn cynnwys ymddygiad neu allu i gynnal disgyblaeth yn yr ystafell ddosbarth. Felly caiff mynediad i'r proffesiwn ei osod gan y proffesiwn, ac ymadael â'r proffesiwn hefyd yn yr un modd, boed yn wirfoddol ai peidio. Cred Plaid Cymru fod y dull hwn, i bob pwrpas, yn golygu dadlau dros wneud addysgu yn broffesiwn lefel Meistr.

Mae hyn, wrth gwrs, eisoes wedi cael ei dreialu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso gyda'r radd Meistr mewn ymarfer addysgol. Mae'r treial wedi wynebu rhai anawsterau yn ôl yr hyn a ddeallaf. Rydym wedi cael mentoriaid nad ydynt wedi bod ar gael. Mae llawer sydd wedi astudio'r radd Meistr mewn ymarfer addysgol wedi ei chael yn anodd ei chwblhau o fewn yr amser a roddwyd. Fodd bynnag, mae'n sylfaen y gallwn ddysgu ohoni a'i chymhwyso ar gyfer y dyfodol. Roedd yna ddrwsch hefyd, hyd yn oed ymhlith y gweithwyr proffesiynol eu hunain, ynglŷn â'r hyn y mae gradd Meistr yn ei olygu. Maent yn cymryd yn ganiataol ei fod yn golygu cymhwyster academaidd yn y pwnc y bydd gofyn i chi ei addysgu yn yr ystafell ddosbarth o bosibl. Nid yw'n golygu hynny. Mae'n golygu sgiliau lefel Meistr mewn ymarfer addysgol—y sgiliau galwedigaethol, os mynnwch, sydd angen i ni eu gweld yno. Rydym wedi dod i sylweddoli fwyfwy yn y Siambr hon, yn sicr, y gallwch gael sgiliau lefel uchel mewn ymarfer galwedigaethol, ac nid yw hynny yr un fath â sgiliau lefel uchel mewn pwnc academaidd, felly roeddwn am wneud hynny'n glir. Mae proffesiwn lefel Meistr ar gyfer addysgu yn cydnabod y sgiliau ymarfer hynny mewn technegau ystafell ddosbarth, nid yn gymaint sgiliau yn y pwnc academaidd ei hun.

Mae yna drydedd elfen sydd ar goll o weithlu gwirioneddol broffesiynol, sef athrawon cyflenwi. Mae tua 10 y cant o'n haddysgu yn cael ei wneud a'i ddarparu gan athrawon cyflenwi ar hyn o bryd, ac nid oes ganddynt nodweddion y proffesiwn rwyf newydd eu disgrifio. Lle y mae gwendid o fewn y gweithlu addysg a gynhelir, ceir absenoldeb o fewn y gweithlu athrawon cyflenwi. Gwelsom hyn yn glir yn yr ymchwiliad gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg nad yw wedi cyhoeddi ei gasgliadau eto ar yr ymchwiliad i athrawon cyflenwi. Ond rwyf wedi dod i fy nghasgliad hun ar hynny, ac rwy'n gadarn o'r farn fod arnom angen model cydweithredol ar gyfer y ddarpariaeth gyflenwi yng Nghymru, naill ai ar lefel genedlaethol neu ranbarthol, a bod yn rhaid adeiladu'r model cydweithredol hwnnw ar ddefnydd o'r adnoddau a gynhyrchir gan y ddarpariaeth gyflenwi i sicrhau bod athrawon cyflenwi hefyd yn cael mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus—datblygiad proffesiynol parhaus gorfodol—adnabod sgiliau a'r cymorth sydd ei angen arnynt i gynnal eu safonau.

The final element that's missing from this jigsaw is the final part of our motion here today, which is the devolution of pay and conditions around teachers' pay and conditions. Now, I can go no further than the recommendation of the Silk commission on this matter. I understand the tactics, and I appreciate and accept the tactics expressed in the amendment from the Government around this, but Silk in this part was accepted by all parties in this Chamber, which is that teachers' pay and conditions are devolved in Scotland and Northern Ireland and that it is anomalous, therefore, that they are not devolved in Wales, and they should be devolved, Silk recommends, in accordance with principles of accountability, equity and subsidiarity. They also make the point that, if teachers' pay were devolved, it would be a policy choice for Welsh Government how they could align teachers' pay and other education workforce pay, which may be touched upon by other contributions in this debate from my colleagues, whereas, at the moment, what the Welsh Government must do is fund pay decisions taken by UK Government. Now, if we are to have the professional workforce that I have described, then pay must recognise success in that profession—success, for example, in becoming an expert in teaching practice, sharing that expertise in what we call model schools and what the Government calls pioneering schools, but let's be clear: we want schools that are working with universities to share best practice, and we want teachers to have an alternative successful career that is not only about management and becoming a headteacher. It's about sharing those skills. It exists, to a certain extent, I know, now, but we're talking about making it a much more firm part of that.

So, the final element is to devolve teachers' pay and conditions—not pensions, which remain an England-and-Wales model and are more successful at that level, I believe. That would, I think, complete the tools that we need to deliver the kind of vision for the education workforce I have described. Plaid Cymru thinks that this is an exciting opportunity to recognise that teachers can now lead professional standards and expertise and innovation in Wales, and the Donaldson curriculum, of course, reflects very much that it wants and demands a workforce that's capable of doing that. I think that, if we are to move forward, we must accept that our current structure has not delivered a workforce that is consistently able to do that, and we need to put in place, therefore, the support, the training and the CPD that can encourage people to both come in to teaching as a profession but also maintain their professional standards when they are in teaching.

Yr elfen olaf sydd ar goll o'r jig-so yw rhan olaf ein cynnig yma heddiw, sef datganoli cyflogau ac amodau mewn perthynas â chyflogau ac amodau athrawon. Nawr, ni allaf fynd ymhellach nag argymhelliad comisiwn Silk ar y mater. Rwy'n deall y tactegau, ac rwy'n sylweddoli ac yn derbyn y tactegau a fynegwyd yn y gwelliant gan y Llywodraeth ynglŷn â hyn, ond derbyniodd pob plaid yn y Siambr hon y rhan hon o Silk, sef bod cyflog ac amodau athrawon wedi'u datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon a'i bod yn anghyson, felly, nad ydynt wedi'u datganoli yng Nghymru, ac mae Silk yn argymhell y dylid eu datganoli yn unol ag egwyddorion atebolrwydd, tegwch a sybsidiaredd. Maent hefyd yn gwneud y pwynt, pe bai cyflogau athrawon wedi eu datganoli, byddai'n ddewis o ran polisi i Lywodraeth Cymru sut y gallent gydweddu cyflogau athrawon a chyflogau rhannau eraill o'r gweithlu addysg, ac efallai y bydd cyfraniadau eraill i'r ddadl hon gan fy nghyd-Aelodau yn cyfeirio at hyn, ond ar hyn o bryd, yr hyn sy'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei wneud yw ariannu penderfyniadau ynghylch cyflogau a wnaed gan Lywodraeth y DU. Nawr, os ydym am gael y gweithlu proffesiynol a ddisgrifiais, yna mae'n rhaid i gyflogau gydnabod llwyddiant yn y proffesiwn—llwyddiant, er enghraifft, i fod yn arbenigwr mewn ymarfer dysgu, gan rannu'r arbenigedd yn yr hyn a alwn yn ysgolion enghreifftiol a'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei alw'n ysgolion arloesol, ond gadewch i ni fod yn glir: rydym am i ysgolion sy'n gweithio gyda phrifysgolion i rannu arfer gorau, ac rydym am i athrawon gael gyrfa lwyddiannus arall sydd nid yn unig yn ymwneud â rheoli a dod yn bennaeth. Mae'n ymwneud â rhannu'r sgiliau hynny. Mae'n bodoli yn awr, i ryw raddau, rwy'n gwybod, ond rydym yn sôn am ei wneud yn rhan lawer mwy cadarn o hynny.

Felly, yr elfen olaf yw datganoli cyflogau ac amodau athrawon—nid pensiynau, sy'n parhau i fod yn fodel ar gyfer Cymru a Lloegr ac sy'n fwy llwyddiannus ar y lefel honno, rwy'n credu. Byddai hynny, rwy'n credu, yn cwblhau'r arfau sydd eu hangen arnom i ddarparu'r math o weledigaeth ar gyfer y gweithlu addysg a ddisgrifiais. Mae Plaid Cymru yn credu bod hwn yn gyfle cyffrous i gydnabod y gall athrawon bellach arwain ar safonau ac arbenigedd ac arloesedd proffesiynol yng Nghymru, ac mae cwricwlwm Donaldson, wrth gwrs, yn arddangos yn glir iawn ei fod eisiau ac yn galw am weithlu sy'n gallu gwneud hynny. Os ydym am symud ymlaen, credaf fod yn rhaid i ni dderbyn nad yw ein strwythur presennol wedi darparu gweithlu sy'n gallu gwneud hynny'n gyson, ac mae angen i ni felly roi'r cymorth, yr hyfforddiant a'r datblygiad proffesiynol parhaus ar waith a all annog pobl i ddod i mewn i addysgu fel proffesiwn, ond hefyd i gynnal eu safonau proffesiynol pan fyddant yn addysgu.

16:33

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the four amendments to the motion. If amendment 3 is agreed, amendment 4 will be deselected. I call on Aled Roberts to move amendment 1 tabled in his name.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Mewnosod pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Rwyf wedi dethol pedwar gwelliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 3, bydd gwelliant 4 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn ei enw.

Amendment 1—Aled Roberts

Insert as new point 2 and renumber accordingly:

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yn credu y gall corff cofrestru proffesiynol helpu gyda gwelliant parhaus staff a myfyrwyr addysgu ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau cynrychiolaeth etholedig o gyfoedion o'r proffesiwn addysgu i Gyngor y Gweithlu Addysg er mwyn sicrhau ei fod yn atebol fel sy'n briodol.

Believes that a professional registration body can help with the continuous improvement of education staff and students and calls on the Welsh Government to ensure elected representation of peers from the teaching profession to the Education Workforce Council to ensure it is properly accountable.

Cynigiwyd gwelliant 1.

Amendment 1 moved.

16:33

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n cynnig gwelliant 1, sydd wedi'i gyflwyno yn fy enw i. A gaf i ddiolch, yn y lle cyntaf, i Blaid Cymru am y ddatl yma'r prynhawn yma? Rwyf yn meddwl bod nifer o bwyntiau o bwys wedi'u codi. Roedd y Gweinidog ddoe, wrth sôn am yr holl newidiadau sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd, wedi'i gwneud hi'n glir ei fod o'n gweld y dylai'r proffesiwn arwain o ran y newidiadau. Rwyf yn meddwl hefyd ei bod hi'n amser i ni, hwyrach, gwestiynu'r ffaith bod y proffesiwn wedi bod yn ddibynnol i ryw raddau ar ymyrraeth gan y Llywodraeth neu gan lywodraeth leol. Maen nhw'n mynd i newid o ran eu hagwedd oherwydd, os ydyn nhw'n mynd i arwain, mae'n rhaid iddyn nhw, fel dywedodd Simon Thomas, dderbyn cyfrifoldeb hefyd. Mae nifer ohonom ni sydd wedi bod yn ymwneud â'r gwaith ymchwil ar athrawon cyflenwi wedi bod yn edrych ar gyngor y gweithlu ac wedi bod yn cwestiynu sut ydym ni'n trefnu o ran cyflenwi ar hyn o bryd ac yn cwestiynu rhai o'r pwyntiau a wnaeth Simon ynglŷn â datblygiad proffesiynol.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendment 1, tabled in my name. May I first of all thank Plaid Cymru for this debate this afternoon? I think that a number of important points have been raised. The Minister yesterday, in talking about all of the changes that are currently being introduced, made it clear that he believes that the profession should lead on these changes, and I think also that it's time for us perhaps to question the fact that the profession has been dependent to some extent on intervention by the Government or by local government. They are going to change in terms of their attitudes because, if they are going to lead on this, they will, as Simon Thomas said, have to accept responsibility for this. A number of us who have been involved in the inquiry on supply teaching have been looking at the workforce council and have also been questioning how we organise supply teaching at present and also questioning some of the points that Simon raised in terms of professional development.

Rwyf i'n credu ein bod ni, fel dywedodd Simon, wedi creu system sydd yn adlewyrchu'r system draw yn Lloegr. Mae'n system farchnad. Rwyf i'n tueddu i gytuno â Simon nad yw hynny'n ffordd ymlaen i ni yng Nghymru, er, o ran y cytundeb sydd wedi'i gyflawni eleni, rydym ni'n styc efo hynny am ryw dair blynedd. Ond, rwy'n meddwl, os ydym yn symud ymlaen efo'r cyngor gweithlu yma, mae'n rhaid i ni dderbyn nad yw'r cyngor gweithlu, ar ei newydd wedd, hwyrach, yn hollol dderbyniol i'r proffesiwn ar hyn o bryd, achos mae yna 14 o aelodau ar y cyngor, gyda saith ohonynt yn cael eu hapwyntio trwy broses apwyntiadau cyhoeddus y Llywodraeth a saith yn cael eu henwebu gan y cyrff sy'n cael eu rhestru yn y rheolau. Mae'n glir, erbyn hyn, nad yw'r proffesiwn ei hun, trwy'r undebau, yn credu mai honno yw'r ffordd y dylen nhw fod yn symud ymlaen ynddi. Dyna pam rydym ni wedi dweud y dylem ni greu system lle mae'r proffesiwn ei hun yn ethol cynrychiolwyr i'r cyngor gweithlu. Mi wnaethom geisio newid y Ddeddf pan oedd yn pasio trwy'r pwyllgor. Nid oedd y Llywodraeth, bryd hynny, yn barod i dderbyn hynny, ond rwy'n gobeithio, wrth iddyn nhw dderbyn bod y proffesiwn eisiau arwain, y byddan nhw'n adlewyrchu bwriadau'r proffesiwn yn y ffordd maen nhw'n rheoli eu hunain.

I believe that we, as Simon said, have created a system that reflects the system in England. It's a market-based system. I tend to agree with Simon that that isn't a way forward for us in Wales, even though, in terms of the agreement that has been made this year, we're stuck with that for some three years. But, I believe that, if we are to move forward with this workforce council, we have to accept that the workforce council, in its new form, is not entirely acceptable to the profession at present, because, the council has 14 members, seven of whom are appointed through the Government's public appointments process and seven are nominated by the bodies listed in the regulations. It's clear, by now, that the profession itself, through the unions, do not believe that this is the way in which they should be moving forward. That is why we have said that we should create a system where the profession itself elects representatives to the workforce council. We did try to amend the Bill at committee stage. The Government, at that time, wasn't willing to accept that amendment, but I do hope that, as they accept that the profession wants to lead on this, they will reflect the wishes of the profession in the way that they manage this themselves.

Rwyf hefyd yn dechrau poeni ynglŷn â'r ffordd y mae'r cyngor yn cael ei ariannu, achos mae mwy a mwy o gyfrifoldebau'n cael eu trosglwyddo i'r cyngor, yn yr un ffordd ag y mae'r cyfrifoldebau yma'n cael eu trosglwyddo i'r consortia, ac, os nad ydym yn ofalus—dyna pam y gwnes i ofyn i'r Gweinidog cyllid y prynhawn yma oedd hi'n ffyddiog bod adnoddau digonol yn cael eu cyflwyno i'r cyngor—ni fydd y job yn cael ei wneud yn iawn. Os ydym eisiau bod yn uchelgeisiol a newid safonau addysg yng Nghymru, mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â hynny.

I am also beginning to be concerned about the way in which the council is funded, because an increasing number of responsibilities are being transferred to the council, in the same way as these responsibilities are being transferred to the consortia, and, if we are not careful—this is why I asked the finance Minister this afternoon whether she was confident that sufficient resources were being provided to the council—then the job will not be done properly. If we want to be ambitious and transform education standards in Wales, then we must get to grips with that matter.

Rwy'n siŵr, fel un a oedd, ddoe, yn ein hatgoffa ni ei fod yn athro o ran proffesiwn, fod y Gweinidog wedi sylwi bod nifer o gynadleddau'r undebau eleni wedi dweud nad ydwn nhw'n fodlon efo'r sefyllfa ar hyn o bryd. Felly, rwyf yn gobeithio, hwyrach, os nad yw'n derbyn y prynhawn yma, y bydd yn derbyn, wrth inni symud ymlaen, fod yn rhaid ailedrych ar y sefyllfa.

Rydym yn barod i gefnogi'r cynnig. Nid wyf yn hollol sicr, mae'n rhaid imi ddweud, a ddylem symud i system lle mae pob athro'n gorfod cael gradd Meistr. Mae yna broblemau wedi bod efo'r ffordd y mae'r radd Meistr wedi cael ei chyflwyno yn y lle cyntaf; rwy'n cymryd mai dim ond 50 y cant sydd wedi llwyddo o'r rhai a wnaeth ddechrau ar y cwrs—mae Simon ei hun wedi sôn am rai o'r problemau. Yn fy mhrofiad i, yr athrawon gorau oedd y rhai nad oeddent wedi bod i brifysgol, hyd yn oed, ond wedi bod i goleg athrawon. Rwy'n meddwl mai sgil dysgu ydy'r peth mwyaf pwysig. Felly, o wrando ar beth oedd Simon yn ei ddweud, rydym yn barod i gytuno â hynny, ond rwy'n meddwl bod eisiau rhoi mwy o gig ar yr asgwrn.

Wrth orffen, mi fyddwn ni'n cefnogi gwelliant y Llywodraeth, achos rydym ni'n credu y dylai amodau gwaith gael eu datganoli i Gymru, ond mae'n rhaid i ni sicrhau bod yr adnoddau'n dilyn, cyn i ni dderbyn hynny.

I am sure that the Minister, as someone who yesterday reminded us that he used to be a member of the profession, as a teacher, has noticed that the unions' conferences have this year said that they are not content with the situation. So, I do hope, if he doesn't accept the point this afternoon, then that he will accept, as we move forward, that we do need to look again at the situation.

We are prepared to support the motion. I have to say that I am not entirely sure whether we should move to a system where every teacher has to have a Master's degree. There have been problems with the way in which the Master's degree was introduced in the first place; I take it that only 50 per cent of those who started the course have succeeded. Simon also mentioned some of the problems. In my experience, the best teachers were those who hadn't been to university but to a teacher training college. I think that it's the skill of teaching that's important. So, having listened to what Simon said, we are willing to agree with that, but I do think that there needs to be more flesh on the bone.

In conclusion, we will be supporting the Government amendment, because we believe that teachers' conditions should be devolved to Wales, but we must ensure that the resources are made available before we accept that.

16:38

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Angela Burns to move amendments 2 and 4 tabled in the name of Paul Davies.

Gwelliant 2—Paul Davies

Ym mhwynt 2, dileu pob dim ar ôl 'Meistr' a rhoi yn ei le:

'ac yn galw am well mynediad i ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y gweithlu cyfan, ni waeth pwy yw'r cyflogwr; a'

Gwelliant 4—Paul Davies

Dileu pwynt 3.

Cynigiwyd gwelliannau 2 a 4.

Galwaf ar Angela Burns i gynnig gwelliannau 2 a 4 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Amendment 2—Paul Davies

In point 2, delete all after 'and' and replace with:

'calls for better access to continual professional development for the whole workforce, regardless of employer; and'

Amendment 4—Paul Davies

Delete point 3.

Amendments 2 and 4 moved.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:38

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, and I so move those amendments.

I'd like to thank Simon Thomas and Plaid Cymru for bringing forward this debate, because I think, at this time of great change in education, it's an incredibly important business that we set about raising the quality of our teachers and reinforcing to the teachers their value in society.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, ac felly rwy'n cynnig y gwelliannau hynny.

Hoffwn ddiolch i Simon Thomas a Phlaid Cymru am gyflwyno'r ddadl hon, oherwydd credaf, ar yr adeg hon o newid mawr ym maes addysg, ei bod yn hynod bwysig ein bod yn mynd ati i wella ansawdd ein athrawon a chadarnhau i athrawon gymaint yw eu gwerth yn y gymdeithas.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We say that education is the most important legacy we can give our children. We can give them that good foundation to enable them to go forward, to go on to higher and further education, to be able to be rounded citizens. This is what we all say we want for all the children of Wales. And we entrust that job to teachers. We ask teachers to step in, in loco parentis, and to look after the people that we love and to take them forward, to give them that education, to train them, to teach them respect, honesty, integrity and values, as well as reading, writing and arithmetic. Teachers are incredibly valued, and, over the last few years, they have been battered by the winds of change that have swept through our nation. Whether it is change that has been initiated by the Government, whether it's endless reports that actually say the state of our education as it is, whether it is politicians standing in this place, like I have just done, to actually lay out very coldly and clearly the standards that we do not have in our education system, teachers always bear the brunt of it, even though much of it is policy, much of it is red tape, much of it is about support. So, anything that we can do to bring forward and to enhance the reputation of teachers to build a new mandate with teachers, we support.

Now, going forward, I do not think that every teacher should have a Master's degree tucked under their belt, but I really thought that the Master's degree concept, as introduced by Labour, was an excellent idea. I would like to see that developed and grown. I would like to see young people come into the industry to get their initial teacher training, to get the opportunity to work in a school setting. It's only after a year or two or three that you really get to grips with what it's all about. It is then that I think that the Master's initiative should start to kick in. Yes, I give way to Simon Thomas.

16:41 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful to Angela Burns, and I don't disagree with her. I think it's important to note that, in the motion, we've put 'Master's level profession'. This is about building skills but recognising the skills through CPD, which can build then to a portfolio for a Master's. It's not about, 'You must get a Master's before you enter a classroom'.

16:41 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I absolutely agree and thank you for correcting me on that, because that is what I would like to see. I think it is extremely important that we enable our teachers to build on their continuous professional development. It is very important that we enable them to take the modules that will define where they wish to go. Because, like all of us here, we've had varied careers, and, in education, there are varied careers. There are people who want to become deputy heads, headmasters, headmistresses; there are people who would like to go into the local education authorities; there are people who actually just want to be absolutely the best head of history the world has ever seen. So, we all have those different skills. If we can build a Master's programme where people can specialise in additional learning needs, in management, or in behaviour and classroom analysis, this would be a very good step forward.

Rydym yn dweud mai addysg yw'r etifeddiaeth bwysicaf y gallwn ei rhoi i'n plant. Gallwn roi'r sylfaen dda honno iddynt er mwyn eu galluogi i fwrw iddi, i fynd ymlaen at addysg uwch a phellach, er mwyn gallu bod yn ddinasyddion cyflawn. Dyma'r hyn rydym i gyd yn dweud ein bod yn ei ddymuno ar gyfer holl blant Cymru. Ac rydym yn ymddiried y gwaith i athrawon. Rydym yn gofyn i athrawon gamu i mewn, yn lle rhieni, ac i ofalu am y bobl rydym yn eu caru a mynd â hwy ymlaen i roi'r addysg iddynt, i'w hyfforddi, i ddysgu parch, gonestrwydd, uniondeb a gwerthoedd iddynt, yn ogystal â darllen, ysgrifennu a rhifydddeg. Mae athrawon yn cael eu gwerthfawrogi'n anhygoel, a thros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, maent wedi cael eu taro gan wyntoedd newid sydd wedi ysgubo drwy ein cenedl. Pa un a yw'n newid a gychwynnwyd gan y Llywodraeth, neu gan adroddiadau diddiwedd sydd mewn gwirionedd yn dweud bod cyflwr ein haddysg fel y mae, neu'n wleidyddion yn sefyll yn y lle hwn, fel rwyf newydd ei wneud, i ddatgan yn oeraidd ac yn glir iawn y safonau nad ydynt i'w gweld yn ein system addysg, mae athrawon bob amser yn ysgwyddo'r baich, er bod llawer ohono yn bolisi, llawer ohono'n fiwrocratiaeth, llawer ohono'n ymwneud â chymorth. Felly, rydym yn cefnogi unrhyw beth y gallwn ei wneud i gyflwyno ac i wella enw da athrawon i ddatblygu mandad newydd gydag athrawon

Yn awr, wrth symud ymlaen, nid wyf yn credu y dylai pob athro gael gradd Meistr yn swatio o dan eu gwregg, ond roeddw'n meddwl o ddirif bod y cysyniad o radd Meistr, fel y'i cyflwynwyd gan y Blaid Lafur, yn syniad ardderchog. Hoffwn weld hynny'n cael ei ddatblygu. Hoffwn weld pobl ifanc yn dod i mewn i'r diwydiant i gael eu hyfforddiant cychwynnol i athrawon, i gael y cyfle i weithio mewn ysgol. Dim ond ar ôl blwyddyn neu ddwy neu dair yr eir i'r afael o ddirif â'r hyn y mae'n ei olygu. Dyna pryd y credaf y dylai menter y radd Meistr ddechrau. Ydw, rwy'n ildio i Simon Thomas.

Rwy'n ddiolchgar i Angela Burns, ac nid wyf yn anghytuno â hi. Credaf ei bod yn bwysig nodi ein bod, yn y cynnig, wedi rhoi 'proffesiwn lefel Meistr'. Mae hyn yn ymwneud â meithrin sgiliau ond cydnabod y sgiliau drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, sy'n gallu adeiladu wedyn at bortffolio ar gyfer gradd Meistr. Nid yw'n galw am orfod cael gradd Meistr cyn i chi fynd i mewn i ystafell ddosbarth.

Cytunaf yn llwyr a diolch i chi am fy nghywiros ar hynny, oherwydd dyna beth y byddwn i'n hoffi ei weld. Credaf ei bod yn eithriadol o bwysig i ni alluogi ein hathrawon i adeiladu ar eu datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'n bwysig iawn ein bod yn eu galluogi i ddilyn y modiwlau a fydd yn diffinio ble y maent yn dymuno mynd. Oherwydd, fel pob un ohonom yma, rydym wedi cael gyrfaoedd amrywiol, ac mae gyrfaoedd amrywiol i'w cael mewn addysg. Mae yna bobl sydd am ddod yn ddirprwy bennaethiaid a phenaethiaid; mae yna bobl a fyddai'n hoffi gweithio i'r awdurdodau addysg lleol; mae yna bobl sydd ond am fod y pennaeth hanes gorau a welodd y byd erioed. Felly, rydym i gyd yn meddu ar y sgiliau gwahanol hynny. Os gallwn adeiladu rhaglen Meistr lle y gall pobl arbenigo ar anghenion dysgu ychwanegol, mewn rheoli, neu ym maes ymddygiad a dadansoddi dosbarth, byddai'n gam da iawn ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think—well, I don't think; I know—that I also agree with Plaid Cymru that CPD should be compulsory. I would do everything to encourage the education profession to look at that. I believe that the education profession should be in charge of their own CPD, that they should be setting the standards for what it should be to be a teacher. They should be the ones—funded by us, because education is absolutely a cornerstone of our society—who set out the pathways that people can take in order to become the best they can be. But I also think the Education Workforce Council needs to be able to be quite ruthless in holding teachers to account, quite ruthless in saying, 'If you want to stay a teacher, you have to up your game. You up your game because we're going to help you and support you, and, in fact, if you turn your back on that, then this is not the game for you. Out you go. There are lots of dedicated people who wish to be teachers'.

I think my final point about the use of continuous professional development and why it's so vital is that when we go around the schools of Wales we meet a great many great teachers, but they've been teaching for many years and need reinvigoration. They need to be set new targets; they need to be revalued, because it's always about the young, the new, the newly qualified, and yet we have 30-year-old, 40-year-old, 50-year-old, and 60-year-old teachers out there who are absolutely brilliant at the job they do. They need to have that reward, they need to have that underpinning, they need to be valued as part of our teaching profession.

So, there's much in your motion that we would support.

Rwy'n meddwl—wel, nid wyf yn meddwl; rwy'n gwybod—fy mod innau hefyd yn cytuno â Phlaid Cymru y dylai datblygiad proffesiynol parhaus fod yn orfodol. Byddwn yn gwneud popeth i annog y proffesiwn addysg i edrych ar hynny. Credaf y dylai'r proffesiwn addysg fod yn gyfrifol am eu datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain, y dylent fod yn gosod y safonau ar gyfer yr hyn y dylai bod yn athro ei olygu. Hwy ddylai nodi'r llwybrau i bobl eu dilyn er mwyn bod y gorau y gallant fod—wedi eu hariannu gennym ni, gan fod addysg yn un o gonglfeini ein cymdeithas. Ond rwyf hefyd yn credu bod angen i Gyngor y Gweithlu Addysg allu bod yn eithaf digyfaddawd o ran dwyn athrawon i gyfrif, yn eithaf digyfaddawd gan ddweud, 'Os ydych am barhau i fod yn athro, rhaid i chi wella. Rhaid i chi wella am ein bod yn mynd i'ch helpu chi a'ch cefnogi chi, ac yn wir, os throwch eich cefn ar hynny, yna nid dyma'r swydd ar eich cyfer chi. Allan â chi. Mae yna lawer o bobl ymroddedig sy'n dymuno bod yn athrawon.'

Rwy'n meddwl mai fy mhwynt olaf ynghylch y defnydd o ddatblygiad proffesiynol parhaus a pham y mae mor hanfodol yw hwn: pan fyddwn yn mynd o amgylch ysgolion Cymru rydym yn cyfarfod â llawer iawn o athrawon gwych, ond maent wedi bod yn dysgu ers nifer o flynyddoedd ac angen eu hailfywiogi. Mae angen iddynt gael targedau newydd wedi eu gosod ar eu cyfer; mae angen iddynt gael eu gwerthfawrogi o'r newydd, gan fod y sylw bob amser ar yr ifanc, y newydd, y newydd gymhwyso, ac eto mae gennym athrawon 30 oed, 40 oed, 50 oed, a 60 oed ar lawr gwlad sy'n hollol wych am wneud y swydd y maent yn ei gwneud. Mae angen iddynt gael y wobwr, mae angen iddynt gael y sylfaen, mae angen iddynt gael eu gwerthfawrogi fel rhan o'n proffesiwn addysgu.

Felly, mae llawer yn eich cynnig y byddem yn ei gefnogi.

16:44

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call the Minister for Education and Skills to move formally amendment 3, tabled in the name of Jane Hutt.

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i gynnig gwelliant 3, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt, yn ffurfiol.

Gwelliant 3—Jane Hutt

Amendment 3—Jane Hutt

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Delete point 3 and replace with:

Yn cydnabod y manteision sydd ynghlwm wrth ddatganoli tâl ac amodau athrawon i Gymru cyn belled â bod digon o adnoddau'n cael eu trosglwyddo.

Recognises the advantage of the devolution of teachers' pay and conditions to Wales providing there is an appropriate transfer of resources.

Cynigiwyd gwelliant 3.

Amendment 3 moved.

16:44

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

Formally.

Yn ffurfiol

I think it's difficult to talk about any improvements to the education workforce without setting them against the backdrop, as we have discussed already, of the change going ahead with the delivery of education itself in Wales. Mostly, this is, of course, behind the changes that will come from the Donaldson review. I think that while most of us support what it has said and what it will do I was concerned recently in a Petitions Committee meeting where we were discussing some of these aspects and many people hadn't heard of the Great Debate that the Minister has launched. I would urge the Minister to advertise that as widely as possible so that young people and their parents and teachers can take part.

Clearly, I'm very happy that numeracy is one of the six areas of learning, as outlined by the Donaldson review. Clearly, we support, as a party, the ambitious, capable learners; the enterprising, creative contributors; and ethical informed citizens of Wales, who are mentioned within the Donaldson review.

Clearly, the report says that there will be no more key stages, and we'll have five progression steps, and pupils' progression will be looked at on an individual basis. But I would want to say here that I suppose the devil is how that will be delivered on a local level. Will teachers see a clear difference between the key stages and these progression steps? If it's only a change in name, then it will be another change for teachers that I'm sure they will have opinions on down the line.

As a party, again, we believe the Welsh language should remain compulsory up to the age of 16, and there should be investment in strengthening the language in primary schools to provide a foundation for learning Welsh and other languages in secondary schools. The emphasis should be on Welsh as a language of communication.

The Welsh Government announced it would accept Donaldson's proposals for a reformed national curriculum under which teaching professionals will lead on the design, as well as the implementation, of the curriculum. We would argue that teacher training will need to prepare teachers for this particular aspect of the review. In fact, something that became apparent when I was working on the Financial Education and Inclusion (Wales) Bill was, when talking to teacher training providers, how little link up there was between the different providers and between them and the Welsh Government. One even suggested that there was a strong element of 'There it is. Go and get on with it', from officials in the Welsh Government. We would contend that, if Donaldson reform is to be successful, ensuring that behind-the-scenes work is done and that we have teacher training providers that can deliver the teachers who, in turn, can deliver change and a newly revitalised curriculum, then that is what we are calling for here today as well, essentially.

Rwy'n credu ei bod yn anodd siarad am unrhyw welliannau i'r gweithlu addysg heb eu gosod yn erbyn cefndir y newid sy'n digwydd yn y ddarpariaeth addysg yng Nghymru, fel rydym wedi ei drafod eisoes. Yn bennaf wrth gwrs, mae hyn yn sail i'r newidiadau a ddaw o adolygiad Donaldson. Er bod y rhan fwyaf ohonom yn cefnogi'r hyn y mae wedi'i ddweud a'r hyn y bydd yn ei wneud, roeddwn yn bryderus yn ddiweddar mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Deisebau lle'r oeddem yn trafod rhai o'r agweddau hyn ac nid oedd llawer o bobl wedi clywed am y Sgwrs Fawr a lanswyd gan y Gweinidog. Byddwn yn annog y Gweinidog i'w hysbysebu mor eang â phosibl fel y gall pobl ifanc a'u rhieni ac athrawon gymryd rhan ynddi.

Yn amlwg, rwy'n hapus iawn fod rhifedd yn un o'r chwe maes dysgu, fel y'u hamlinellwyd yn adolygiad Donaldson. Yn amlwg, rydym fel plaid yn cefnogi'r dysgwyr uchelgeisiol a galluog; y cyfranwyr mentrus, a chreadigol; a dinasyddion moesol a gwybodus Cymru, sy'n cael eu crybwyll yn adolygiad Donaldson.

Yn amlwg, mae'r adroddiad yn dweud na fydd cyfnodau allweddol mwyach, a bydd gennym bum cam dilyniant, a bydd cynnydd disgyblion yn cael ei ystyried ar sail unigolion. Ond carwn ddweud yma fy mod yn tybio mai'r cwestiwn allweddol yw sut y caiff hynny ei gyflwyno ar lefel leol. A fydd athrawon yn gweld gwahaniaeth clir rhwng y cyfnodau allweddol a'r camau dilyniant hyn? Os nad yw'n ddim mwy nag newid enw, yna bydd yn newid arall i athrawon y bydd ganddynt farn arno maes o law yn sicr.

Unwaith eto, fel plaid, rydym yn credu y dylai'r iaith Gymraeg barhau i fod yn orfodol hyd at 16 oed, a dylid buddsoddi er mwyn cryfhau'r iaith mewn ysgolion cynradd i ddarparu sylfaen ar gyfer dysgu Cymraeg ac ieithoedd eraill mewn ysgolion uwchradd. Dylai'r pwyslais fod ar y Gymraeg fel iaith gyfathrebu.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n derbyn argymhellion Donaldson ar gyfer cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig, ac y bydd addysgwyr proffesiynol yn arwain ar gynllun y cwricwlwm, yn ogystal â'i weithrediad. Byddem yn dadlau y bydd angen hyfforddiant athrawon i baratoi athrawon ar gyfer yr agwedd benodol hon ar yr adolygiad. Yn wir, un peth a ddaeth yn amlwg pan oeddwn yn gweithio ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru), wrth siarad â darparwyr hyfforddiant athrawon, oedd cyn lleied o gyswllt a geid rhwng y gwahanol ddarparwyr a rhyngddynt hwy a Llywodraeth Cymru. Roedd un hyd yn oed yn awgrymu bod elfen gref o 'Dyna fe: ewch ati', gan swyddogion yn Llywodraeth Cymru. Os yw diwygiadau Donaldson yn mynd i lwyddo, byddem yn dadlau mai sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud y tu ôl i'r llenni a bod gennym ddarparwyr hyfforddiant athrawon sy'n gallu darparu'r athrawon a fydd, yn eu tro, yn gallu cyflwyno newid a chwricwlwm newydd wedi ei adfywio, yw'r hyn rydym yn galw amdano yma heddiw hefyd yn y bôn.

Of course, it's important for a simple and understandable curriculum that allows teachers to deliver the objectives set out by the Government. That's why we've called for more freedom for teachers to be flexible and to challenge pupils in the classroom. I think the flexibility issue is, again, something that I tried to reflect in my private Member's Bill. I wasn't prescriptive in wanting to tell teachers what they taught with regard to numeracy. They are the specialists; not the politicians. Again, I feel that, having talked to many teachers and trade unions, if you take away their ability to be creative in the classroom, you take away their passion. I think that's happening to a lot of teachers, actually, on the ground. They feel that it's far too prescriptive in the classroom today.

Again, we would like to emphasise the need to increase the capacity of the education workforce. That's obviously something that is key, but I do worry about that. On a local level, for example, in Swansea, we have issues with changing practices to education outside of the school environment—the pupil referral units—and cuts to home tuition. If we want to improve capacity, and if we want to expand on teachers' knowledge and ability to go and access teacher training, then how is cutting these core services going to aid them? Especially, how is it going to aid young people who are not able to go to a school setting because of mental health issues? They are very, very vulnerable young people. So, when we are looking at capacity, can we please look at how this can be enhanced if there are going to be local authority cutbacks in the round?

We have called for reform in Welsh as a second language and using Welsh as a medium of learning rather than a subject. I notice that my time is running out, but I'm sure that Simon Thomas will be able to expand more on the fact that we see that fundamental change has to happen here, because it is not going to plan. I believe that we really need to tackle this particular element of the curriculum.

16:49

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Education, education, education. Where have we heard that before, I might ask? We all know the importance of education, and the opportunities a good education can offer. If we wish to deliver high-quality education, there's absolutely no doubt in my mind that CPD, delivered in the right manner, is a critical component in achieving this. It undoubtedly enhances schools and the teachers who are engaged in it, as well as enabling a better learning environment for the pupils and students. Research shows that the single best predictor of student learning and achievement within schools is the quality of the teaching force delivering. However, data from the OECD inform us that that not all teachers have the skills to adequately support students with their individual learning needs and with their core literacy and numeracy skills. Various sources of information point towards a need for greater investment in CPD for teachers and support staff in certain areas. I want to highlight that point. So far, most people have talked about teachers. The motion talks about the educational workforce. It is the educational workforce. It is all involved in the education of our young people. So, I agree with Angela and Simon on that aspect.

Wrth gwrs, mae'n bwysig cael cwricwlwm syml a dealladwy sy'n caniatáu i athrawon gyflwyno'r amcanion a nodwyd gan y Llywodraeth. Dyna pam ein bod wedi galw am fwy o ryddid i athrawon fod yn hyblyg ac i herio disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Rwy'n meddwl bod mater hyblygrwydd, unwaith eto, yn rhywbeth rwy'n ceisio'i adlewyrchu yn fy Mil Aelod preifat. Nid oeddwn am gyfarwyddo athrawon ynghylch yr hyn y byddent yn ei ddysgu o ran rhifedd. Hwyr arbenigwyr; nid y gwleidyddion. Unwaith eto, rwy'n teimlo, ar ôl siarad â llawer o athrawon ac undebau llafur, os na chaniatewch iddynt fod yn greadigol yn yr ystafell ddosbarth, byddwch yn gwanhau eu hangerdd. Rwy'n meddwl bod hynny'n digwydd i lawer o athrawon ar lawr gwlad, mewn gwirionedd. Maent yn teimlo bod yr hyn sy'n digwydd yn y dosbarth yn llawer rhy ragnodol.

Unwaith eto, hoffem bwysleisio'r angen i gynyddu gallu'r gweithlu addysg. Mae hynny'n amlwg yn rhywbeth sy'n allweddol, ond rwy'n poeni am hynny. Ar lefel leol, er enghraifft, yn Abertawe, mae gennym broblemau gyda newid ymarfer i addysgu y tu allan i amgylchedd yr ysgol—yr unedau cyfeirio disgyblion—a thoriadau i addysg yn y cartref. Os ydym am wella gallu, ac os ydym am ehangu ar wybodaeth athrawon a'r gallu i sicrhau mynediad at hyfforddiant athrawon, yna sut y mae torri'r gwasanaethau craidd hyn yn mynd i'w helpu? Yn arbennig, sut y mae'n mynd i gynorthwyo pobl ifanc nad ydynt yn gallu mynd i safle ysgol oherwydd problemau iechyd meddwl? Dyma bobl ifanc agored iawn, iawn i niwed. Felly, pan fyddwn yn edrych ar allu, a gawn ni edrych, os gwelwch yn dda, ar sut i wella hyn os oes toriadau i awdurdodau lleol yn gyffredinol?

Rydym wedi galw am ddiwygio Cymraeg fel ail iaith a defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu yn hytrach na phwnc. Sylwaf fod fy amser yn brin, ond rwy'n siŵr y gall Simon Thomas ehangu rhagor ar y ffaith ein bod yn gweld bod angen newid sylfaenol yma, oherwydd nid yw pethau fel a fwriadwyd. Credaf fod gwir angen i ni fynd i'r afael â'r elfen benodol honno o'r cwricwlwm.

Addysg, addysg, addysg. Ble y clywsom hynny o'r blaen, tybed? Rydym i gyd yn gwybod pa mor bwysig yw addysg, a'r cyfleoedd y gall addysg dda eu cynnig. Os ydym yn dymuno cyflwyno addysg o ansawdd uchel, nid oes amheuaeth yn fy meddwl nad yw datblygiad proffesiynol parhaus, o'i gyflwyno yn y modd cywir, yn elfen hollbwysig ar gyfer cyflawni hyn. Mae'n bendant yn gwella ysgolion a'r athrawon sy'n cymryd rhan ynddo, yn ogystal â sicrhau amgylchedd dysgu gwell ar gyfer y disgyblion a'r myfyrwyr. Dengys ymchwil mai'r rhagfynegydd gorau o ddysgu a chyflawniad myfyrwyr mewn ysgolion yw ansawdd y gweithlu addysgu sy'n darparu'r addysg honno. Fodd bynnag, mae data gan yr OECD yn ein hysbysu nad oes gan bob athro y sgiliau i roi digon o gefnogaeth i fyfyrwyr gyda'u hanghenion dysgu unigol a'u sgiliau llythrennedd a rhifedd craidd. Mae amryw o ffynonellau gwybodaeth yn dynodi'r angen am fwy o fuddsoddi mewn datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon a staff cymorth mewn rhai meysydd. Rwyf am dynnu sylw at y pwynt hwnnw. Hyd yn hyn, mae'r rhan fwyaf o bobl wedi sôn am athrawon. Mae'r cynnig yn sôn am y gweithlu addysgol. Y gweithlu addysgol ydyw. Mae'r cyfan yn rhan o addysg ein pobl ifanc. Felly, rwy'n cytuno ag Angela a Simon ar yr agwedd honno.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The challenge that we face here in Wales is not a lack of commitment from the profession to CPD, to implement the desired change; perhaps it is actually the opportunities and funding that schools and teachers have access to, which is something that we need to address. Teachers have felt increasingly overwhelmed in recent years by the need to keep updated and the limited resources for CPD in certain areas. Now, I do welcome the Government's new deal programme and the clear path it's taken to promote and support CPD in the educational workforce. However, the Teacher Development Trust surveyed teachers across the UK and found that there were seven common problems that schools experienced in CPD: there are too many one-off activities; perhaps no clear focus on pupils; perhaps the topic is not relevant; too much listening; no collaboration; a lack of high-quality external expertise delivering; not relevant, or differentiated. I hope the new deal will address each of these and ensure that CPD for the educational workforce becomes effective and beneficial to our pupils and students. That is what we are trying to achieve.

But we must ensure that CPD goes beyond the new deal. It has been shown that investing in CPD does lead to excellent standards in school, and Alberta, in Canada, actually demonstrates that, where they had a 2 per cent investment in CPD and saw tremendous improvement in the results for pupils. That included sharing best practices. It included building professional learning communities, and that's where we keen to keep going, building professional learning communities here in Wales, seeing there's a promising reform strategy to support school improvement and CPD. It's founded on having teachers at different levels and areas of expertise working together to inquire into and improve practice, with a view to having a positive effect on student outcomes. I'll give you an example of STEM—most people in this Chamber know I have a very strong view on STEM. We have a shortage of science teachers, as has already been mentioned in the earlier debate on this. Only 4.8 per cent of primary school teachers have a science degree; 49 per cent of chemistry teachers have a chemistry degree—and I can go to other figures. Therefore, there is a clear need to have support and development of those teachers delivering science at all levels. The development of these programme learning groups allows that expertise could be shared and developed across a group of individuals, to tackle the difficulties that our schools face in delivering STEM subjects and developing CPD in those, and giving confidence, because we do value the workforce. We need to give them confidence to deliver the subjects that will take students further.

Nid diffyg ymrwymiad gan y proffesiwn i ddatblygiad proffesiynol parhaus i weithredu'r newid a ddymunir yw'r her sy'n ein hwynebu yma yng Nghymru; efallai mai'r cyfleoedd a'r cyllid y mae gan ysgolion ac athrawon fynediad atynt ydyw, sy'n rhywbeth y mae angen i ni roi sylw iddo. Mae athrawon wedi teimlo wedi'u llethu fwyfwy dros y blynyddoedd diwethaf gan yr angen i gael yr wybodaeth ddiweddaraf a'r adnoddau cyfyngedig ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus mewn rhai meysydd. Nawr, rwy'n croesawu rhaglen y fargen newydd gan y Llywodraeth a'r llwybr clir y mae wedi'i gymryd i hyrwyddo a chefnogi datblygiad proffesiynol parhaus yn y gweithlu addysgol. Fodd bynnag, cynhaliodd y Teacher Development Trust adolygiad o athrawon ledled y DU a chanfod bod ysgolion yn wynebu saith o broblemau cyffredin mewn perthynas â datblygiad proffesiynol parhaus: mae gormod o weithgareddau unigol; efallai nad oes ffocws clir ar ddisgyblion; efallai nad yw'r pwnc yn berthnasol; gormod o wrando; dim cydweithredu; diffyg cyflwyno arbenigedd allanol o ansawdd uchel; heb fod yn berthnasol, neu'n wahaniaethol. Rwy'n gobeithio y bydd y fargen newydd yn ymdrin â phob un o'r rhain ac yn sicrhau bod datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y gweithlu addysgol yn dod yn effeithiol ac yn fuddiol i'n disgyblion a'n myfyrwyr. Dyna rydym yn ceisio'i gyflawni.

Ond mae'n rhaid i ni sicrhau bod datblygiad proffesiynol parhaus yn mynd y tu hwnt i'r fargen newydd. Dangoswyd bod buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol parhaus yn arwain at safonau rhagorol yn yr ysgol, ac mae Alberta, yng Nghanada, yn dangos hynny, lle'r oedd ganddynt fuddsoddiad o 2 y cant mewn datblygiad proffesiynol parhaus a gwelsant welliant aruthrol yng nghanlyniadau'r disgyblion. Roedd hynny'n cynnwys rhannu arferion gorau. Roedd yn cynnwys adeiladu cymunedau dysgu proffesiynol, a dyna lle rydym yn awyddus i barhau, gan adeiladu cymunedau dysgu proffesiynol yma yng Nghymru, o weld bod strategaeth ddiwygio addawol i gefnogi gwella ysgolion a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae wedi'i seilio ar gael athrawon ar wahanol lefelau a meysydd arbenigedd yn gweithio gyda'i gilydd i ymchwilio i ymarfer a gwella ymarfer, gyda'r bwriad o gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau myfyrwyr. Dyma enghraifft o STEM—mae mwyafrif y bobl yn y Siambr yn gwybod bod gennyf farn gref iawn ar STEM. Mae gennym brinder o athrawon gwyddoniaeth, fel sydd eisoes wedi'i grybwyll yn y ddadl gynharach ar hyn. Dim ond 4.8 y cant o athrawon ysgolion cynradd sy'n meddu ar radd mewn gwyddoniaeth; dim ond 49 y cant o athrawon cemeg sy'n meddu ar radd mewn cemeg—a gallaf sôn am ffigurau eraill. Felly, mae angen amlwg am gefnogaeth a datblygiad i'r athrawon sy'n darparu gwyddoniaeth ar bob lefel. Mae datblygiad y grwpiau dysgu rhaglen hyn yn caniatáu i arbenigedd gael ei rannu a'i ddatblygu ar draws grŵp o unigolion, i fynd i'r afael â'r anawsterau y mae ein hysgolion yn eu hwynebu wrth gyflwyno pynciau STEM a datblygu datblygiad proffesiynol parhaus ynddynt, a rhoi hyder, am ein bod yn gweld gwerth y gweithlu. Mae'n rhaid i ni roi hyder iddynt gyflwyno'r pynciau a fydd yn mynd â myfyrwyr ymhellach.

Dirprwy Lywydd, I do conclude and welcome the Welsh Government's continued focus on improvements in education standards. I do agree with Simon Thomas and Angela that CPD is critical. I question the issue of mandatory, because there are so many complexities as to what is required of CPD. Is it that we need to refresh ourselves in classroom behaviour every five or six years? Is it that I just need to update my subject material every so often? What is actually going to be required? In a doctor's, we need to know what they need to do. In other professions, we need to know exactly, but in teaching, in an education workforce, there are so many different elements. Sometimes, you don't need to update classroom behaviour for maybe 10 or 15 years, because you've actually got those skills and you've developed them well. So, what is actually delivered? So, I think it's a lot more complex than just simply saying 'mandatory'.

Welsh Labour, in Government, is actually currently undertaking one of the most ambitious series of educational reforms in Wales. We must accept that. It is ambitious, the reform in Wales, whether it's in our curriculum or whether it's only initial teacher training—[Inaudible.]—one we've ever seen, and it is going to take several years. We can't stop education on a sixpence—it's like a huge tanker; you take time to turn around. So, that must be taken into account. But CPD must be part of that, and the reforms help drive standards and excellence forward in Wales.

16:54

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is an important debate today. Along with health, education is almost entirely devolved and it is beyond doubt responsible for giving our young people the best start in life and is responsible for supporting teachers and parents in doing so. That this nation, with its proud tradition in education, has hit the headlines for all the wrong reasons in recent years is regrettable. Education is central to creating a highly skilled, highly engaged individuals we all want to see. That's essential if we're to revive the Welsh economy and become a dynamic industrial powerhouse.

Ddirprwy Lywydd, rwy'n cytuno ac yn croesawu ffocws parhaus Llywodraeth Cymru ar welliannau mewn safonau addysg. Rwy'n cytuno â Simon Thomas ac Angela fod datblygiad proffesiynol parhaus yn hanfodol. Rwy'n cwestiynu'r angen i'w wneud yn orfodol, gan fod yna gymaint o gymhlethdodau ynglŷn â'r hyn sy'n ofynnol gan ddatblygiad proffesiynol parhaus. A yw'n ymwneud â'r angen i ni adnewyddu ein gwaith ar ymddygiad yn y dosbarth bob pump neu chwe blynedd? A yw'n ymwneud â'r angen i mi ddiweddar fy neunydd pwnc bob hyn a hyn? Beth sy'n mynd i fod yn ofynnol, mewn gwirionedd? Gyda meddygon, mae angen i ni wybod beth sydd angen iddynt ei wneud. Mewn proffesiynau eraill, mae angen i ni wybod yn union, ond ym maes addysg, mewn gweithlu addysg, ceir cymaint o elfennau gwahanol. Weithiau, nid oes angen i chi ddiweddar gwaith ar ymddygiad yn y dosbarth am 10 neu 15 mlynedd, efallai, am fod gennych y sgliau hynny ac rydych wedi'u datblygu'n dda. Felly, beth sy'n cael ei gyflawni? Rwy'n meddwl ei fod yn llawer mwy cymhleth na dweud 'gorfodol' yn unig.

Mae Llafur Cymru, yn y Llywodraeth, ar hyn o bryd yn ymgymryd ag un o'r cyfresi mwyaf uchelgeisiol o ddiwygiadau addysgol yng Nghymru. Mae'n rhaid i ni dderbyn hynny. Mae'n uchelgeisiol, y diwygio yng Nghymru, boed yn ein cwricwlwm neu'n hyfforddiant cychwynnol i athrawon—[Anghlywadwy.]—rydym erioed wedi'i weld, ac mae'n mynd i gymryd nifer o flynyddoedd. Ni allwn newid cyfeiriad addysg ar amrantiad—mae fel tancer enfawr; rydych yn cymryd amser i droi. Felly, mae'n rhaid ystyried hynny. Ond mae'n rhaid i ddatblygiad proffesiynol parhaus fod yn rhan o hynny, ac mae'r diwygiadau yn helpu i godi safonau a lefelau rhagoriaeth yng Nghymru.

Mae hon yn ddadl bwysig heddiw. Ynghyd ag iechyd, mae addysg wedi'i ddatganoli bron yn gyfan gwbl ac mae'n ddiarnheul yn gyfrifol am roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'n pobl ifanc ac yn gyfrifol am gynorthwyo athrawon a rhieni i wneud hynny. Mae'r ffaith fod y genedl hon, gyda'i thraddodiad balch ym myd addysg, wedi cyrraedd y penawdau am y rhesymau anghywir yn y blynyddoedd diwethaf, yn destun gofid. Mae addysg yn ganolog i greu'r unigolion hynod o ymroddedig, a hynod o fedrus rydym i gyd am eu gweld. Mae hynny'n hanfodol os ydym am adfywio economi Cymru a dod yn bwerdy diwydiannol dynamig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Above all, education can be the passport for our people to improve their prospects and to develop as individuals. I want to touch on two elements of Plaid Cymru's motion today that are crucial to the prospects of our people. Firstly, broadening the curriculum, so our young people are equipped in modern skills such as digital engineering. Secondly, the framework in terms of conditions for teachers, so that we can get the very best out of the very best educationalists. It is clear that is where Wales must catch up, and eventually lead—both in the digital sector and in engineering. We're quite a creative country, and we can be leaders once again, with our hands and our brains. Plaid Cymru wants to work with teachers to develop and adapt the current subject areas in our schools, such as design and technology, and ICT, to enhance skills in mechanical, technical, civil and digital engineering. This might involve the emergence of two new subject areas, such as digital engineering and technical engineering, and I welcome the steps that have already been made in this respect, but we must move quicker.

On the issue of teachers' pay and conditions, under the Education Act 2002, pay and conditions for teachers in England and Wales are matters for the Secretary of State for Education in Whitehall, and in its submission to Silk part 2, the UK Government stated:

'the schools systems in the two countries are diverging at a growing rate, and it could be argued that devolving the pay and conditions in Wales is a logical consequence of deregulating teachers' pay and conditions in England and should be explored'.

The Silk commission recommended—and Simon Thomas has also referred to this, but it's worth expanding on, and the speech is written anyway:

'Teachers' pay and pensions are devolved in Scotland and Northern Ireland, so it is anomalous that teachers' pay is not devolved in Wales'.

We believe that it should be devolved, and this accords with our principles of accountability, equity and subsidiarity. We've long called for the devolution of teachers' pay and conditions. Under every other devolved area of responsibility, public sector pay for workers in that sector is also devolved. Teachers' pay and conditions are devolved in Scotland and Northern Ireland, but sadly not here in Wales. The education systems of England and Wales are increasingly diverging with the deregulation of pay and conditions in free schools and academies in England. The Welsh Government can be held to account on education standards, on regulating education, and on funding schools, but not on the workforce's pay and conditions. Plaid Cymru believes this is a glaring omission that really should be rectified. It was disappointing that it was not included in the St David's Day command paper after being recommended in Silk part 2. We currently have a confusing system under which teachers' pay and conditions come under the responsibility of the UK Government, while the pay and conditions of support staff are the responsibility of local government. It's time to clear that anomaly so that we can build a system fit for our people, fit for Wales and fit for the future. Thank you.

Yn anad dim, gall addysg fod yn basbort i'n pobl wella eu rhagolygon ac i ddatblygu fel unigolion. Rwyf am grybwyll dwy elfen o gynnyg Plaid Cymru heddiw, sydd yn hanfodol i ragolygon ein pobl. Yn gyntaf, ehangu'r cwricwlwm, fel bod ein pobl ifanc yn meddu ar sgiliau modern, megis peirianeg ddigidol. Yn ail, y fframwaith yn nhermau amodau athrawon, fel y gallwn gael y gorau allan o'r addysgwyr gorau. Mae'n amlwg mai dyna lle sy'n rhaid i Gymru ddal i fyny, ac yn y pen draw, arwain—yn y sector digidol ac mewn peirianeg. Rydym yn wlad go greadigol, a gallwn fod yn arweinwyr unwaith eto, gyda'n dwylo a'n hymennydd. Mae Plaid Cymru eisiau gweithio gydag athrawon i ddatblygu ac addasu'r meysydd pwnc cyfredol yn ein hysgolion, megis dylunio a thechnoleg, a TGCh, i wella sgiliau mewn peirianeg fecanyddol, peirianeg dechnegol, peirianeg sifil a pheirianeg ddigidol. Gallai hyn olygu bod dau faes pwnc newydd yn ymddangos, megis peirianeg ddigidol a pheirianeg dechnegol, ac rwy'n croesawu'r camau sydd eisoes wedi cael eu gwneud yn hyn o beth, ond rhaid i ni symud yn gynt.

O ran cyflogau ac amodau athrawon, o dan Ddeddf Addysg 2002, mae cyflogau ac amodau i athrawon yng Nghymru a Lloegr yn faterion i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn Whitehall, ac yn ei chyflwyniad i Silk rhan 2, dywedodd Llywodraeth y DU :

'mae systemau'r ysgolion yn y ddwy wlad yn ymwahanu fwyfwy, a gellid dadlau bod datganoli cyflogau ac amodau gwaith athrawon yng Nghymru'n ganlyniad rhesymegol i ddadroleiddio cyflogau ac amodau gwaith athrawon yn Lloegr ac y dylid archwilio hyn'.

Argymhellodd comisiwn Silk—ac mae Simon Thomas wedi cyfeirio at hyn, hefyd, ond mae'n werth ehangu arno, ac mae'r araith wedi'i hysgrifennu, beth bynnag:

'Mae cyflogau a phensiynau athrawon wedi'u datganoli yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, felly mae'n anghyson nad yw cyflogau athrawon wedi'u datganoli yng Nghymru'.

Credwn y dylid eu datganoli, ac mae hyn yn cyd-fynd â'n hegwyddorion o ran atebolrwydd, tegwch a sybsidiaredd. Rydym wedi galw ers amser am ddatganoli cyflogau ac amodau athrawon. Ym mhob maes cyfrifoldeb datganoledig arall, mae cyflogau'r sector cyhoeddus i weithwyr yn y sector hwnnw wedi'i ddatganoli hefyd. Mae cyflogau ac amodau athrawon wedi'u datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond yn anffodus, nid yma yng Nghymru. Ceir mwyfwy o ddargyfeirio yn systemau addysg Cymru a Lloegr, gyda dadroleiddio cyflogau ac amodau mewn ysgolion rhydd ac academiâu yn Lloegr. Gellir dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ynglŷn â safonau addysg, rheoleiddio addysg a chyllid ysgolion, ond nid ynglŷn â chyflogau ac amodau'r gweithlu. Cred Plaid Cymru fod hwn yn ddifffyg amlwg y dylid ei gywiro. Roedd hi'n siomedig na chafodd hyn ei gynnwys ym mhapur gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi ar ôl cael ei argymhell yn Silk rhan 2. Ar hyn o bryd, mae gennym system ddryslyd lle y mae cyflogau ac amodau athrawon yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU, a chyflogau ac amodau staff cymorth yn gyfrifoldeb i lywodraeth leol. Mae'n bryd cael gwared ar yr anghysondeb, fel y gallwn adeiladu system sy'n addas ar gyfer ein pobl, yn addas ar gyfer Cymru ac yn addas ar gyfer y dyfodol. Diolch yn fawr.

Mi wnaf innau ychwanegu'n fyr iawn at y pwntiau sydd wedi cael eu codi gan Lindsay Whittle ar y mater o dâl ac amodau cyflogaeth athrawon, achos fel y clywsom ni yn y fan yna, mae yna 'anomaly' eithaf amlwg ar hyn o bryd yn y ffaith bod cyflogau yn cael eu dal, o ran y rheolaeth ohonyn nhw, yn Llundain mewn perthynas â Chymru, ond nid bellach mewn perthynas â Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae'n berffaith amlwg erbyn hyn bod y symudiad rhesymegol a naturiol yn symud tuag at ddatganoli'r cyfrifoldeb am dâl ac amodau cyflogaeth. Oherwydd hynny, roedd y siom yn gymaint mwy o beidio gweld datganiad Gŵyl Ddewi yn eu cynnwys. Mae yna gryn gonsensws wedi datblygu arno fo yng Nghymru, ac mae hefyd yn rhywbeth a oedd wedi cael ei argymhell, wrth gwrs, gan Lywodraeth San Steffan yn ei chyflwyniad i ymgynghoriad Silk, fel y clywsom ni yn y fan yna.

Ond mi wnaf i jest grybwyll yn sydyn y bwriad a fyddai gan Blaid Cymru o sicrhau fframwaith cenedlaethol, nid yn unig ar gyfer cyflogau athrawon, ond hefyd ar gyfer yr holl weithlu mewn ysgol. Mi fyddai'r fframwaith yna, rwy'n meddwl, yn sicr yn fodd o osgoi un broblem ac annhegwch mawr sydd wedi codi, digwydd bod, yn fy etholaeth i ar hyn o bryd, lle mae yna bryder mawr ymhlith cymorthyddion ysgolion ynglŷn â dyfodol eu swyddi nhw o ganlyniad i'r broses o werthuso swyddi mae'r awdurdod lleol wedi mynd drwyddo. Wrth gwrs, rwy'n cefnogi egwyddor y broses mae'r cyngor wedi mynd drwyddo yn ddiweddar i sicrhau bod cyflogau'n cael eu cysoni ar draws yr awdurdod—yr egwyddor bod gweithwyr sy'n gwneud gwaith tebyg i'w gilydd yn derbyn yr un cyflogau a'i gilydd—ond, un o ganlyniadau cwbl annheg y broses honno yw bod cymorthyddion dysgu a staff cefnogol eraill mewn ysgolion wedi clywed eu bod nhw'n mynd i gael eu trin fel gweithwyr rhan amser yn y dyfodol.

Mae'r cysoni cyflogau wedi digwydd ar sail tâl yr awr. Oherwydd bod ysgolion dim ond ar agor o 9 a.m. tan 3.15 p.m. a bod mwy o wyliau i staff ysgolion nag i weithwyr eraill, oherwydd bod yr ysgol wedi cau am gyfnodau helaeth o wyliau, y casgliad oedd bod yn rhaid talu'r staff cefnogol yma pro rata am yr oriau maen nhw'n eu gweithio, a hynny, mae'n rhaid ychwanegu, yn cymryd dim ystyriaeth o gwbl o'r gwaith ychwanegol mae'r staff yma yn ei wneud ar ôl ysgol efo gweithgareddau'r Urdd ac ati.

Y canlyniad ydy bod gweithwyr proffesiynol sydd wedi ymroi i yrfa fel cymorthyddion, yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy i waith ysgol, yn clywed nad ydy eu gyrfa nhw bellach yn yrfa llawn amser. Yn y cyd-destun hwnnw, rwyf wedi gofyn i'r cyngor edrych eto ar ganlyniadau'r broses gwerthuso swyddi a chydnabod bod troi swyddi proffesiynol pwysig yn swyddi rhan amser yn gwbl, gwbl annheg. Rwy'n gwybod bod awdurdodau eraill a staff eraill mewn rhannau eraill o Gymru wedi bod drwy'r un peth, ond dyma'r math o beth a fyddai'n cael ei osgoi drwy greu fframwaith cyflogaeth a thelerau cyflogaeth ar gyfer Cymru gyfan, ond hefyd ar gyfer y gweithlu cyfan o fewn ysgol. Ar gyfer hynny, byddai angen datganoli pŵerau, felly, i gloi, mae synnwyr cyffredin a thystiolaeth, fel clywsom gan Lindsay Whittle, yn awgrymu ei bod hi'n amser i wneud hynny. Mae'r amser wedi dod, rwy'n meddwl, i gymryd y cam yma.

I will briefly add to the points that have already been raised by Lindsay Whittle on the issue of teachers' pay and conditions, because as we've just heard there, there is a clear anomaly in the fact that pay and conditions are being retained, in terms of their regulation, in London in relation to Wales, but not in relation to Northern Ireland and Scotland. It's now perfectly clear that the rationale would lead us towards the devolution of responsibility for teachers' pay and conditions. For that reason, the disappointment was so much more palpable in not seeing them included in the St David's Day announcement. Quite some consensus has developed on this in Wales, and it is also something that was recommended, of course, by the Westminster Government in their presentation to the Silk commission, as we heard there.

But I'll just briefly mention Plaid Cymru's proposal to put in place a national framework, not only for teachers' pay, but also for the whole school workforce. That framework, I believe, is certainly be a means of avoiding one problem and issue of unfairness that has raised its head, as it happens, in my constituency at present, where there is great concern among classroom assistants about the future of their posts as a result of the job evaluation process carried out by the local authority. Of course, I support the principle of the process undertaken by the council to ensure that there is consistency in terms of salaries across the authority—the principle that similar jobs should have similar pay—but, one of the unfair outcomes of that process is that classroom assistants and other support staff in schools have been informed that they are to be treated as part-time workers in future.

The standardisation of salaries has happened on an hourly pay basis. As the school is only open from 9 a.m. until 3.15 p.m. and that there is more leave for school staff than other staff, because the school is closed for longer periods of holiday, the conclusion was that these support staff should be paid pro rata for the hours that they work, and that, it must be noted, took no account of the additional work that these staff do after school with Urdd activities and so on.

The upshot of all of this is that professional workers who have committed to a career as classroom assistants, who make an immeasurable contribution to the work of a school, are informed that their career is no longer a full-time career. In that context, I've asked the council to review the outcomes of their job evaluation process and to acknowledge that turning these professional posts into part-time posts is entirely unfair. I know that other authorities and other staff in other parts of Wales have gone through similar processes, but that's the kind of thing that would be avoided by creating a framework for pay and conditions for the whole of Wales, but also for the whole of the education workforce within schools. In order to attain that, we would need the devolution of powers, so, to conclude, common sense and evidence, as we heard from Lindsay Whittle, suggests that it is time now to do that. The time has come, I think, to take that step.

I call the Minister for Education and Skills—Huw Lewis.

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

Thank you, Deputy Presiding Officer. I begin by thanking Plaid Cymru for bringing this debate to the Chamber. I wholeheartedly support the first two elements of this motion. I believe that the education system should indeed enable the education workforce to take the lead on professional development and improving standards. The major elements of the Welsh Government's ambitious programme of reform clearly demonstrate this commitment. Our 'Qualified for life' plan sets out clear strategic objectives for the development of the curriculum and qualifications, whilst recognising the central role of the education workforce in delivering our vision through—and I quote—

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Dechreuaf drwy ddiolch i Blaid Cymru am ddod â'r ddatl hon i'r Siambr. Rwy'n cefnogi dwy elfen gyntaf y cynnig yn llwyr. Credaf y dylai'r system addysg alluogi'r gweithlu addysg i arwain ar ddatblygiad proffesiynol a gwella safonau. Mae prif elfennau rhaglen ddiwygio uchelgeisiol Llywodraeth Cymru yn dangos yr ymrwymiad hwn yn glir. Mae ein cynllun 'Cymwys am oes' yn nodi amcanion strategol clir ar gyfer datblygu'r cwricwlwm a chymwysterau, gan gydnabod rôl ganolog y gweithlu addysg yn cyflawni ein gweledigaeth drwy—

'An excellent professional workforce with strong pedagogy based on an understanding of what works,'

'weithlu proffesiynol rhagorol gydag addysgeg gryf wedi'i seilio ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio',

and by ensuring we have,

a thrwy sicrhau bod gennym,

'Leaders of education at every level working together in a self-improving system, providing mutual support and challenge to raise standards in all schools.'

'arweinwyr addysg yn cydweithio ar bob lefel o fewn system hunanwella, lle mae pawb yn helpu ac yn herio ei gilydd er mwyn codi safonau yn ein holl ysgolion.'

This is also echoed throughout Professor Donaldson's report, 'Successful Futures'. I have also established the new deal for the education workforce, where I'm clear that I want all practitioners to have an entitlement to professional learning, irrespective of employer, to both enhance their current professional practice and to support them through the changes ahead. I want to enable them to take responsibility for the development of teaching and leadership practice, not only to actively reflect upon and develop their own practice through that throughout their careers, but also to contribute to the development of others, to ensure that the whole profession delivers the best outcomes for all children and young people.

Mae hyn hefyd yn cael ei adleisio drwy adroddiad yr Athro Donaldson, 'Dyfodol Llwyddiannus'. Rwyf hefyd wedi sefydlu'r fargen newydd ar gyfer y gweithlu addysg, lle rwy'n glir fy mod am i bob ymarferydd gael hawl i ddysgu proffesiynol, pwy bynnag sy'n eu cyflogi, i wella eu harfer proffesiynol cyfredol ac i'w cefnogi drwy'r newidiadau sydd i ddod. Rwyf am eu galluogi i gymryd cyfrifoldeb dros ddatblygu ymarfer addysgu ac arweinyddiaeth, nid yn unig i fyfrio'n weithredol arno a datblygu eu hymarfer eu hunain drwy hynny drwy gydol eu gyrfaeod, ond hefyd i gyfrannu at ddatblygu eraill, er mwyn sicrhau bod y proffesiwn cyfan yn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc.

We've already made regulations that ensure that, in developing their school development plans, school leaders also plan support for their practitioners. A key element of the new deal will be the development of revised professional standards for all teachers, lecturers and support staff registered with the Education Workforce Council. These standards will form a coherent framework for the education workforce, and support and enable career-long professional learning and progression. They will ensure that all classroom-based practitioners have a clear set of professional standards to guide their practice. I've also commissioned the Education Workforce Council to develop a professional learning passport, which will enable practitioners to record and reflect their professional learning throughout their careers and show how they've developed their practice as a result.

Rydym eisoes wedi gwneud rheoliadau sy'n sicrhau, wrth iddynt ddatblygu cynlluniau datblygu eu hysgolion, fod arweinwyr ysgolion hefyd yn cynllunio cymorth i'w hymarferwyr. Elfen allweddol o'r fargen newydd fydd datblygu safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer yr holl athrawon, darlithwyr a staff cymorth sydd wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Bydd y safonau hyn yn ffurfio fframwaith cydlynol ar gyfer y gweithlu addysg, ac yn cefnogi a galluogi dysgu a chynnydd proffesiynol drwy gydol eu gyrfa. Byddant yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr ystafell ddosbarth yn cael set glir o safonau proffesiynol i arwain eu hymarfer. Rwyf hefyd wedi comisiynu Cyngor y Gweithlu Addysg i ddatblygu pasbort dysgu proffesiynol, a fydd yn galluogi ymarferwyr i gofnodi a myfrio ar eu dysgu proffesiynol drwy gydol eu gyrfaeod a dangos sut y maent wedi datblygu eu hymarfer yn sgil hynny.

If I could just turn to proposed amendment 1, the accountability of the education workforce council is underpinned by the public appointment procedure, and I have no intention to amend the Education (Wales) Act 2014, especially as this was supported by a majority—precisely 64 per cent—of respondents during the consultation process. The profession is fully represented by seven elected nominees from the wider education workforce out of the 14 members who make up the council. Following an evaluation of the original Master's in education programme, I announced earlier this year that the opportunity to access Master's level professional learning was to be extended to all practitioners. A new Master's in educational practice and an additional Master's in educational leadership are being developed and will build upon what we have learned from the existing Master's programme.

With regard to part 3 of the motion, I have, on a number of occasions, voiced the Government's position on the potential devolution of teachers' pay and conditions. It is an anomaly that the UK Government holds these powers when the whole of education policy otherwise is devolved. The current structure in England is fragmenting national pay and conditions for teaching. A transfer of powers would enable us, if we so chose, to develop a pay system for Wales that could underpin our wider education reform and ensure equitable treatment for all teachers across Wales. However, we would need the resources to be able to deliver this and, as such, Government amendment number 3 intends to drive that message home yet again. I support the sentiments of the original motion, but it is important that the powers are accompanied by an appropriate transfer of resources, so that the powers can be utilised to develop a system for Wales that would be to the benefit of the profession, and not to the detriment of the Welsh public sector as a whole.

Os caf droi at argymhelliad gwelliant 1, mae atebolrwydd cyngor y gweithlu addysg yn seiliedig ar y weithdrefn penodiadau cyhoeddus, ac nid oes gennyf unrhyw fwriad o ddiwygio Deddf Addysg (Cymru) 2014, yn enwedig gan ei fod wedi'i gefnogi gan fwyafrif—64 y cant yn union—yr ymatebwyr yn ystod y broses ymgynghori. Mae'r proffesiwn yn cael ei gynrychioli'n llawn gan saith o enwebeion etholedig o'r gweithlu addysg ehangach o blith yr 14 o aelodau sy'n ffurfio'r cyngor. Yn dilyn gwerthusiad o raglen wreiddiol y radd Meistr mewn addysg, cyhoeddais yn gynharach eleni fod y cyfle i gael mynediad at ddyysgu proffesiynol ar lefel Meistr i'w ymestyn i'r holl ymarferwr. Mae gradd Meistr newydd mewn ymarfer addysgol a gradd Meistr ychwanegol mewn arweinyddiaeth addysgol yn cael eu datblygu a byddant yn adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i ddyysgu o'r rhaglen Meistr bresennol.

Gyda golwg ar ran 3 y cynnig, ar sawl achlysur, rwyf wedi lleisio safbwynt y Llywodraeth ar y posibilrwydd o ddatganoli cyflogau ac amodau athrawon. Mae'n anghyson fod y pwerau hyn yn nwylo Llywodraeth y DU pan fo'r polisi addysg cyfan fel arall wedi'i ddatganoli. Mae'r strwythur presennol yn Lloegr yn darnio cyflogau ac amodau cenedlaethol ar gyfer addysgu. Byddai trosglwyddo pwerau yn ein galluogi, os dewiswn wneud hynny, i ddatblygu system gyflogau i Gymru a allai fod yn sail i ddiwygio ein haddysg yn ehangach a sicrhau triniaeth deg i'r holl athrawon ledled Cymru. Fodd bynnag, byddai angen yr adnoddau i allu cyflawni hyn ac fel y cyfryw, nod gwelliant rhif 3 y Llywodraeth yw sicrhau bod y neges honno'n cael ei chlywed unwaith eto. Rwy'n cefnogi'r teimlad sy'n sail i'r cynnig gwreiddiol, ond mae'n bwysig fod adnoddau priodol yn cael eu trosglwyddo gyda'r pwerau, fel y gellir defnyddio'r pwerau i ddatblygu system ar gyfer Cymru a fyddai er budd y proffesiwn, ac nid ar draul y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei gyfarwydd.

17:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And Simon Thomas to reply to the debate.

A Simon Thomas i ymateb i'r ddadl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:07 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Fe wnes i fwynhau'r ddadl yma, ac rwy'n gobeithio bod rhai eraill sydd wedi cyfrannu wedi gwneud. Rwy'n credu inni ymdrin â materion a fydd o bwys yn ystod y 10 mlynedd nesaf o weithredu Donaldson a chodi safonau y tu fewn i'n hysgolion ni.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I enjoyed this debate, and I hope that everyone else who contributed to it did as well. I think we've dealt with issues that will be important during the next 10 years of the implementation of Donaldson and raising standards in our schools.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n credu roedd yna bedair thema a ddaeth allan o'r gwahanol gyfraniadau, ac rwy'n diolch i bawb am eu cyfraniadau. Yn gyntaf oll, roedd y cysyniad yma o gyrraedd lefel Meistr y tu fewn i ddatblygiad proffesiynol parhaus. Rwy'n meddwl bod y pwynt a wnaeth Angela Burns ac Aled yn fy ngalluogi i egluro ychydig yn fwy ynglŷn â beth rwy'n ceisio ei wneud fan hyn. Beth rwyf eisiau yw bod uchelgais o ran gwneud sgiliau ar lefel Meistr ar gael i bawb yn y proffesiwn, a bod y ffordd i gyrraedd hynny drwy'r llwybr y mae'r Gweinidog newydd ei amlinellu: y llwybr datblygu proffesiynol, tra yn y swydd. Nid ydym yn sôn am osod gradd Meistr fel y trothwy ar gyfer mynd i mewn i'r proffesiwn; rydym yn sôn am osod gradd Meistr fel uchelgais—byddech yn dymuno meddu ar y sgiliau hynny wrth weithio yn y proffesiwn. Rwy'n cytuno ag Aled Roberts mai'r bobl gyda'r sgiliau dysgu gorau, weithiau, oedd y rhai, efallai, nad oeddent wedi graddio yn y pwnc, hyd yn oed, ond yn fy nghof i, nhw hefyd oedd yr athrawon mwyaf brwnt yn yr ysgol, ond mater arall, efallai, yw hynny. Beth sy'n bwysig yw ein bod ni'n cydnabod mai sgiliau ymarferol yn y dosbarth yw'r rhain—nid y sgiliau pwnc, o reidrwydd. Weithiau mae'r ddau yn cael eu cymysgu ac mae pobl yn gwrthwynebu achos eu bod yn meddwl ei fod yn un neu'r llall.

Yr ail elfen o hyn, ynglŷn â datblygu proffesiynol, yw a ddylai fod yn orfodol ai peidio—roedd David Rees wedi codi'r mater hwn. Efallai mai ffordd well o edrych ar hyn yw y dylai fod yn orfodol i gadw eich sgiliau. Nid yw wastad yn wir—. Roeddech chi'n hollol iawn fod yn rhaid ichi weithiau jest fynd drwy 'hoop' oherwydd bod yr 'hoop' yna ac mae'n rhaid ichi dicio'r bocs er mwyn parhau i fod yn athro, neu beth bynnag, ond dylai fod dyletswydd yn y system i gadw eich sgiliau a diweddarau eich sgiliau, a chydabyddiaeth hefyd. Dylai fod system yn ei lle sy'n cydnabod, 'Wel, rŷch chi wedi symud o fod yn bennaeth hanes i fod yn ddirprwy brifathro a mae sgiliau gwahanol gyda chi nawr, felly a ydych chi angen cefnogaeth ar gyfer y sgiliau hyn?' Felly, yr hyn rwyf eisiau trio ei gyrraedd, wrth ddefnyddio'r gair 'gorfodol', neu 'mandatory', yw'r cysyniad proffesiynol yma eich bod chi'n cyrraedd sgiliau, eich bod chi'n cadw'r sgiliau yna, a bod rhywun yn tsiecio bod lefel y sgiliau wedi ei chyrraedd. Os fedrwyd chi brofi bod gennych chi'r sgiliau, nid oes rhaid ichi fynd—. Yn sicr, nid wyf eisiau i bobl wneud pethau oherwydd eu bod wedi cael eu darparu; rwyf eisiau i bobl wneud pethau os oes adnabyddiaeth bod y sgiliau ar goll.

Gwnaeth Bethan Jenkins bwynt ynglŷn â'r Gymraeg a'r continwmm. Mae'n un agwedd ar Donaldson, rwy'n credu, ond fel gyda chymwysterau digidol, rwy'n meddwl bod y ddau beth yma—y Gymraeg fel continwmm iaith ac adfer y Gymraeg yn yr ystyr yna, a sgiliau digidol—yn fath o brawf o litmws ar gyfer sut mae Donaldson yn gweithio, achos yn y ddau achos yma rydych yn clirio i ffwrdd y pynciau—y ffordd bynciol o edrych ar bethau—ac rydych yn sôn am wneud y pethau yma ar draws y cwricwlwm. Os nad yw'n gallu gweithio gyda sgiliau'r iaith Gymraeg, os nad yw'n gweithio ar gyfer sgiliau digidol, nid yw Donaldson yn mynd i weithio, felly rwy'n meddwl bod hwn yn brawf litmws da iawn a dweud y gwir. Nid dyna'r unig beth y mae Donaldson yn ei ddarparu, ond mae'n mynd i fod yn brawf da iawn i weld a yw Donaldson yn cael ei weithredu yn y ffordd gywir yn ein hysgolion ni.

I think that there were four themes emanating from the different contributions, and I thank everyone for their contributions. First, this concept of reaching a Master's level within continuous professional development. I think that the point that Angela Burns and Aled made enables me to explain a little bit more about what I'm trying to do in this regard. What I want is for there to be an ambition to make Master's level skills available to everyone in the profession, and for the way of achieving that to be on the pathway that the Minister has just outlined: the professional development path, while in the job. We're not talking about setting a Master's degree as a threshold for entry into the profession; we're talking about setting it as an ambition—you would wish to acquire those skills while working in the profession. I agree with Aled Roberts that sometimes the people with the best teaching skills were those who hadn't graduated in the subject even, but to my mind, they were also the harshest teachers in the school, but that may be another matter. What's important is that we acknowledge that these are practical classroom skills—not subject skills necessarily. Sometimes the two are mixed up and people object because they think that it's one or the other.

The second element here, in terms of professional development, is whether it should be mandatory or not—David Rees raised this matter. Perhaps the better way of looking at it is that it should be mandatory for you to maintain your skillset. It's not always true—. You were quite right that you sometimes just have to jump through a hoop because the hoop is there and you have to tick the box to stay as teacher, or whatever, but there should be a duty within the system to maintain your skills and update your skills, and acknowledgement also. There should be a system in place that acknowledges, 'Well, you've moved from being the head of history to being a deputy headteacher and you have different skills now, so do you need support for those skills?' So, what I'm trying to ensure here, in using the word 'mandatory', is the professional concept that you reach a certain skill level, that you maintain those skills, and that somebody checks that that skill level has been attained. If you can prove that you have those skills, there's no need for you to—. Certainly, I don't want people to have to do things because they've been provided; I want people to do things if there's an acknowledgement that certain skills are missing.

Bethan Jenkins made a point about the Welsh language and the continuum. It's one aspect of Donaldson, I think, but as with the digital competence, I think that these two things—Welsh and the language continuum and reviving the Welsh language in that sense, and digital skills—are a sort of litmus test for how Donaldson is working, because in both of these examples you are moving away from looking at this in terms of subject and looking at it instead in terms of working across the curriculum. If it doesn't work in terms of Welsh-language skills, if it doesn't work in terms of digital skills, Donaldson isn't going to work; I think it's a good litmus to be honest. It's not the only thing that Donaldson provides for, but it's going to be a good test to see whether Donaldson is being implemented in the right way in our schools.

Y thema olaf a oedd yn cael ei chrybwyll gan nifer o gyfranwyr, gan gynnwys o safbwynt etholaeth Rhun a Lindsay Whittle hefyd, oedd datganoli tâl ac amodau athrawon. Rwy'n derbyn yn llwyr y tactegau gan y Llywodraeth—pan rydym yn galw am ddatganoli, mae'r agenda parch rhwng fan hyn a San Steffan yn golygu bod yn rhaid i'r adnoddau gael eu datganoli hefyd. Ond, os caf ddweud wrth y Llywodraeth, mae yna wahaniaeth cynnil, ond gwahaniaeth pwysig serch hynny, rhwng cynnig sydd yn galw am ddatganoli gyda'r agenda yna o gydnabod yr adnoddau a gwelliant sydd yn cydnabod mantais. Mae'r cyfraniadau gan bobl fel Lindsay Whittle a Rhun, o safbwynt y camwahaniaethu sy'n digwydd gyda rhannau o'r gweithlu addysg achos nid ydynt yn gynnwysedig yn y broses bresennol, yn dangos pam fod yn rhaid bwrw ati gyda'r adnoddau priodol, ac mae'n rhaid inni bellach fwrw ati i ddatganoli tâl ac amodau gwaith athrawon fel bod y gweithlu cyfan yn cael eu trin yn deg ac yn gyfiawn, ac fel bod y gweithlu cyfan yn cael y gefnogaeth datblygu proffesiynol yn ogystal. Diolch am y ddadl.

The final theme that was mentioned by many people, including in terms of Rhun's constituency, and Lindsay Whittle's as well, was the devolution of pay and conditions for teachers. I accept entirely the tactics by the Government—when we're calling for devolution, the respect agenda between this place and Westminster means that the resources also have to be devolved. But, if I can say to the Government, there is a subtle difference, but an important one, between the proposal that calls for devolution with that agenda of acknowledging the resources and an amendment that acknowledges the resource. The contributions made by people like Lindsay Whittle and Rhun, in terms of the discrimination within sections of the education workforce because they aren't included in the current process, show why we have to continue with the correct resources, and we do have to continue with the appropriate resources, and now we do have to get on with devolving pay and conditions for teachers so that the entire workforce is treated in a fair and just manner, and so that the entire workforce has the continuing professional development support as well. Thank you for the debate.

17:12

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting under this item until voting time. Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Rwy'n gohirio pleidleisio dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio. Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn nawr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

17:12

7. Cyfnod Pleidleisio

7. Voting Time

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We'll vote first on the Welsh Conservative debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13. There voted against 40. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Byddwn yn pleidleisio yn gyntaf ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid. Pleidleisiodd 40 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio wedi'i dderbyn.

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 13, Yn erbyn 40, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 13, Against 40, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5801](#)

[Result of the vote on motion NDM5801](#)

17:12

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We will now vote on the amendments. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13. There voted against 40. Therefore, amendment 1 is not agreed.

Pleidleisw'n ar y gwelliannau yn awr. Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid. Pleidleisiodd 40 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 1 wedi'i dderbyn.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 13, Yn erbyn 40, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 13, Against 40, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5801](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5801](#)

17:13

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected. I call for a vote on amendment 2 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 36. There voted against 17. Therefore, amendment 2 is agreed and I deselect amendment 3.

Os derbynir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 2 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 36 o blaid. Pleidleisiodd 17 yn erbyn. Felly, caiff gwelliant 2 ei dderbyn, ac rwy'n dad-ddethol gwelliant 3.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 36, Yn erbyn 17, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 36, Against 17, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5801](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5801](#)

Cafodd gwelliant 3 ei ddad-ddethol.

Amendment 3 deselected.

17:13

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnis wedi'i ddiwygio.

Cynnis NDM5801 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5801 as amended:

Cynnis bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi pwysigrwydd safon uchel o addysg ar gyfer disgyblion yng Nghymru er mwyn cynyddu eu gallu i gystadlu yn genedlaethol ac yn fyd-eang;

1. Notes the importance of a high standard of education for pupils in Wales, in order to increase their competitiveness both nationally and globally;

2. Yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd gormod o amser i ddatblygu mesurau i godi safonau ysgolion yng Nghymru;

2. Believes that the Welsh Government has taken too long to develop measures to raise school standards in Wales;

3. Yn credu nad yw consortia rhanbarthol mor effeithiol ag y mae angen iddynt fod o ran helpu i wella ysgolion; a

3. Believes that regional consortia are not as effective as they need to be in helping school improvement; and

4. Yn nodi'r canfyddiad gan yr Athro Donaldson yn ei adolygiad y bydd 'y gallu i ddysgu ieithoedd tramod modern yn cael ei hybu drwy ddatblygu'r Gymraeg yn gynharach'.

4. Notes the finding by Professor Donaldson in his review that 'the acquisition of modern foreign languages will benefit from the earlier development of the Welsh language'.

17:13

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26. There voted against 27. Therefore, the motion as amended is not agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnis wedi'i ddiwygio wedi'i dderbyn.

Gwrthodwyd cynnis NDM5801 fel y'i diwygiwyd: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0.

Motion NDM5801 as amended not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5801 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5801 as amended](#)

17:13

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We'll now vote on the Plaid Cymru debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 9. There voted against 44. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl Plaid Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnis a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na dderbynir y cynnis, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnis. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 9 o blaid. Pleidleisiodd 44 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnis heb ei ddiwygio wedi'i dderbyn.

Gwrthodwyd y cynnis: O blaid 9, Yn erbyn 44, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 9, Against 44, Abstain 0.

17:14

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

We will now vote on the amendments. I call for a vote on amendment, 1 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26. There voted against 27. Therefore, amendment 1 is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliannau. Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 1 wedi'i dderbyn.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5802](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5802](#)

17:14

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 53. There were no votes against. Therefore, amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 53 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, caiff gwelliant 2 ei dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 53, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 53, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5802](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5802](#)

17:15

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

If amendment 3 is agreed, amendment 4 will be deselected. I call for a vote on amendment 3 tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 31. There voted against 21. Therefore, amendment 3 is agreed and I deselect amendment 4.

Os derbynir gwelliant 3, bydd gwelliant 4 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 3 a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 31 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, caiff gwelliant 3 ei dderbyn ac rwy'n dad-ddethol gwelliant 4.

Derbyniwyd gwelliant: O blaid 31, Yn erbyn 21, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 31, Against 21, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5802](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5802](#)

Cafodd gwelliant 4 ei ddad-ddethol.

Amendment 4 deselected.

17:15

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnis wedi'i ddiwygio.

Cynnis NDM5802 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5802 as amended:

Cynnis bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn credu y dylai'r system addysg alluogi'r gweithlu addysg i arwain ar ddatblygiad proffesiynol a gwella safonau addysg;

1. Believes that the education system should enable the education workforce to take the lead on professional development and on improving education standards;

2. Yn galw am godi safonau proffesiynol y gweithlu addysg drwy wneud addysgu yn broffesiwn lefel Meistr ac yn galw am well mynediad i ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y gweithlu cyfan, ni waeth pwy yw'r cyflogwr; a

2. Calls for the raising of the professional standards of the education workforce by making teaching a Master's level profession and calls for better access to continual professional development for the whole workforce, regardless of employer; and

3. Yn cydnabod y manteision sydd ynghlwm wrth ddatganoli tâl ac amodau athrawon i Gymru cyn belled â bod digon o adnoddau'n cael eu trosglwyddo.

3. Recognises the advantage of the devolution of teachers' pay and conditions to Wales providing there is an appropriate transfer of resources.

17:15

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 41. There voted against 12. Therefore, the motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 41 o blaid. Pleidleisiodd 12 yn erbyn. Felly, caiff y cynnig fel y'i diwygiwyd ei dderbyn.

Derbyniwyd cynnig NDM5802 fel y'i diwygiwyd: O blaid 41, Yn erbyn 12, Ymatal 0.

Motion NDM5802 as amended agreed: For 41, Against 12, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5802 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5802 as amended](#)

17:16

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Will those Members leaving the Chamber please do so quickly and quietly.

A wnaiff yr Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel, os gwelwch yn dda?

17:16

8. Dadl Fer: Y Bygythiad o Radicaleiddio Islamaidd—Sut y Gallwn Fynd i'r Afael ag Eithafiaeth drwy Gydweithio

8. Short Debate: The Threat of Islamist Radicalisation—How Working Together Can Tackle Extremism

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 8 is the short debate. I call on Mohammad Asghar to speak on the topic he has chosen.

Eitem 8 yw'r ddadl fer. Galwaf ar Mohammad Asghar i siarad am y pwnc y mae wedi ei ddewis.

17:16

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I have agreed that Altaf Hussain, Jeff Cuthbert and Eluned Parrott may have time to contribute to this debate also. Last month, we discovered that three sisters from Bradford left their husbands, taking their children, and had actually gone to the middle east. Also, within the last week, Deputy Presiding Officer, my speech got made redundant because of what happened in Tunisia. So, in my speech, I would like to give a brief history of Islamic, so-called, extremist ideas, where they come from, the present conditions and, in my humble way, what are going to be the solutions for them.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wedi cytuno i roi amser i Altaf Hussain, Jeff Cuthbert ac Eluned Parrott i gyfrannu at y ddadl hefyd. Y mis diwethaf, darganfuom fod tair chwaer o Bradford wedi gadael eu gwŷr, gan fynd â'u plant i'r dwyrain canol. Hefyd, yn ystod yr wythnos ddiwethaf, Ddirprwy Lywydd, tarfwyd ar fy araith gan yr hyn a ddigwyddodd yn Nhiwnisia. Felly, yn fy araith, hoffwn yn gyfroi hanes syniadau eithafol Islamaidd, fel y'u gelwir, o ble y dânt, y sefyllfa bresennol ac yn fy ffordd ostyngedig, beth yw'r atebion iddynt.

As you know, I come from Peshawar. It's the biggest city in Pakistan's north-west frontier province. People have lived there for centuries and there are only two and a half countries in this world that live by the gun: Afghanistan, the United States of America and half of Pakistan—from north to south, the whole of the west of Pakistan. They are a great people, with a great culture and a great history. Alexander the Great could not win them, because they lived, and they still live, a primitive life. They still live primitively. They've got one idea, and they've got tunnel vision and they live on that belief. And, fortunately or unfortunately, they are dedicated and diehard Muslims—what they call themselves. They still live in a primitive way, as Islam teaching was 1,400-odd years ago.

Fel y gwyrddoch, rwy'n dod o Peshawar. Hon yw dinas fwyaf talaith y ffin yng ngogledd-orllewin Pacistan. Mae pobl wedi byw yno ers canrifoedd a dim ond dwy wlad a hanner yn y byd sy'n byw dan gysgod y gwn: Affganistan, Unol Daleithiau'r America a hanner Pacistan—o'r gogledd i'r de, gorllewin Pacistan i gyd. Maent yn bobl wych, gyda diwylliant gwych a hanes gwych. Ni allai Alecsander Fawr eu trechu, oherwydd eu bod wedi byw, ac yn dal i fyw, bywyd cyntefig. Maent yn dal i fyw yn gyntefig. Un syniad sydd ganddynt, ac maent yn gulfrydig ac yn byw yn ôl y gred honno. Ac yn ffodus neu'n anffodus, maent yn Fwslimiaid ymroddedig a phwybyr—dyna y maent yn galw eu hunain. Maent yn dal i fyw mewn ffordd gyntefig, fel roedd dysgeidiaeth Islam tua 1,400 o flynyddoedd yn ôl.

Interpretation was not explored even though our Prophet Mohammed, peace be upon him, said that the first word that was revealed upon him was 'read'—education. Basically, that is the first word he had. His preaching also includes that, if you want to go for education, in his time, go to China—please go to China and get educated. That was his teaching. What actually happened in Islam was that, up to a few centuries ago, different sects' leaders of the Islamic faith used to get together and they used to interpret and translate the translation of the Koran to improve their standard of life and follow those rules. Sadly, that approach has been stopped. That used to be called 'ijtihad'. That is an Arabic word meaning to improve your standard of life, your way of life and your condition of life—families, society and the country—with time. Sadly, that thing has stopped, and people in certain areas still believe and still live in a primitive way.

The British, Great Britain, ruled India for over 150 years, and they only ruled India—the Indian continent; the north-west frontier province was part of it—because they never touched Afghanistan. They tried, but they realised very quickly—I think that British generals 200 years ago were more clever than many of our politicians in certain parts of the world today; they never touched Afghanistan. I'll tell you one little example of how to tackle some people with the faith. As I said before, they're diehard Muslims, who still believe in a primitive way of living, still living in mud houses and carrying guns and everything. Their principles are very different. They are very, very, very hospitable people.

So, what happened, from Peshawar to Karachi, one tribal chief wanted to go to Saudi Arabia for Hajj. Deputy Presiding Officer, when he sat on the train from Peshawar to Karachi, he had nearly 20 of his followers with him. The chief sat in the first-class compartment, instead of having tickets for the third-class compartment. The train went 30 miles across from Peshawar to another garrison town of Nowshera, which is only 30 miles from Peshawar. And it was booked for a British colonel's family. When he came to the station, this colonel, he saw the 20-odd people that were sitting in his compartment in the middle of the night. So, he stopped the train and they started arguing with each other, and so the guns were drawn—over 100 years ago, this is—and the colonel left the compartment and then he asked the guard and others to remove the people and they said, 'No. Our chief is sat in this compartment and he will only come off this train in Karachi'. So, what happened was they asked this guard, 'What is the difference between first and third class?' He said, 'There are no cushions and no settees', so they cut the cushions and threw them out. But still the guns were drawn out to kill these British officers, and British officers went to the garrison to fetch the guns. When they came, one clever old station master turned up. He came in in the middle of the night and he asked the colonel, 'Please remove all the armory from here before we decide anything'.

Ni edrychid am ddehongliadau, er i'n Proffwyd Mohammed, heddwch iddo, ddweud mai'r gair cyntaf a ddatgelwyd iddo oedd 'darllen'—addysg. Yn y bôn, dyna'r gair cyntaf a gafodd. Mae ei bregethau hefyd yn cynnwys, os oeddech am ddilyn trywydd addysg yn ei gyfnod ef, ewch i Tsieina oedd hi—ewch i Tsieina i gael eich addysgu. Dyna oedd ei ddysgeidiaeth. Yr hyn a ddigwyddodd i Islam, mewn gwirionedd, oedd hyn: hyd at ychydig ganrifoedd yn ôl, dôl arweinwyr sectau gwahanol y ffydd Islamaidd at ei gilydd a byddent yn arfer dehongli a chyfieithu'r cyfieithiad o'r Koran er mwyn gwella eu safon byw a dilyn y rheolau hynny. Yn anffodus, mae'r ffordd honno wedi dod i ben. Gelwid hynny yn 'ijtihad'. Gair Arabeg ydyw sy'n golygu gwella eich safon byw, eich ffordd o fyw a chyflwr eich bywyd—teuluoedd, y gymdeithas a'r wlad—gydag amser. Yn anffodus, mae hynny wedi dod i ben, ac mae pobl mewn ardaloedd penodol yn dal i gredu ac yn dal i fyw mewn ffordd gyntefig.

Roedd y Prydeinwyr, Prydain Fawr, yn rheoli India am dros 150 o flynyddoedd, ac India yn unig—cyfandir India; roedd talaith ffin y gogledd-orllewin yn rhan ohono—oherwydd ni chyffyrddasant ag Affganistan. Fe geisiwyd gwneud hynny, ond sylweddolodd Prydain yn gyflym iawn—credaf fod cadfridogion Prydeinig 200 mlynedd yn ôl yn fwy clyfar na llawer o'n gwleidyddion mewn rhai rhannau o'r byd heddiw; ni chyffyrddasant ag Afghanistan. Soniaf am un enghraifft o sut i fynd i'r afael â rhai pobl sy'n arddel y ffydd. Fel y dywedais o'r blaen, maent yn Fwslimiaid pybry, sy'n dal i gredu mewn ffordd gyntefig o fyw, yn dal i fyw mewn tai mwd a chario gynnu a phopeth. Mae eu hegwyddorion yn wahanol iawn. Maent yn bobl groesawgar iawn, iawn, iawn.

Felly, yr hyn a ddigwyddodd, o Beshawar i Karachi, roedd pennaeth un llwyth eisiau mynd i Sawdi-Arabia ar Hajj. Ddirprwy Lywydd, pan eisteddodd ar y trê'n o Beshawar i Karachi, roedd ganddo bron i 20 o'i ddilynwyr gydag ef. Eisteddai'r pennaeth yn y cerbyd dosbarth cyntaf, yn hytrach na chael tocynnau ar gyfer y cerbyd trydydd dosbarth. Aeth y trê'n 30 milltir ar draws o Beshawar i dref garsiwn arall, Nowshera, 30 milltir yn unig o Beshawar. Ac roedd wedi'i archebu ar gyfer teulu cyrnol o Brydain. Pan ddaeth i'r orsaf, y cyrnol hwn, gwelodd y tua 20 o bobl a oedd yn eistedd yn ei gerbyd yng nghanol y nos. Felly, stopiodd y trê'n a dechreuodd y ddwy ochr ddadlau â'i gilydd, ac felly tynnwyd y gynnu allan—digwyddodd hyn dros 100 mlynedd yn ôl—a gadawodd y cyrnol y cerbyd a gofyn i'r gard ac eraill i gael gwared ar y bobl, a'r ateb a gafodd oedd, 'Na. Mae ein pennaeth yn eistedd yn y cerbyd hwn ac ni ddaw oddi ar y trê'n hyd nes y bydd yn cyrraedd Karachi'. Felly, dyma nhw'n gofyn i'r gard, 'Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y dosbarth cyntaf a'r trydydd?' Dywedodd, 'Nid oes clustogau na setiau', felly, torasant y clustogau a'u taflu allan. Ond cafodd y gynnu eu tynnu allan beth bynnag i ladd y swyddogion Prydeinig, ac aeth swyddogion Prydeinig i'r garsiwn i nôl y gynnu. Pan ddaethant, cyrhaeddodd un o'r hen orsaf-feistri doeth. Daeth i mewn yng nghanol y nos a gofyn i'r cyrnol, 'Os gwelwch yn dda, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cael gwared ar yr holl arfogaeth oddi yma cyn i ni benderfynu unrhyw beth'.

It could have been the worst scenario in Indian history, but was survived by this station master. So, he went to these people inside and he said, 'Do you know this compartment is only for non-Muslims? Why are you sitting here?' So, this leader and all the followers spat in the compartment and walked away quietly. They had been told. That is the ability to understand people.

They just follow their own rules. Afghanistan is not a country; it's a group of tribes. We are facing a very sad scenario. The people there— Since 9/11, 0.5 million people have been killed in the middle east, Afghanistan, Pakistan, Libya, Syria and Iraq—0.5 million. The culture of those countries is that, if one person is killed in the family, the whole family, nationally, becomes upset. Like what happened in Tunisia: the whole country is upset in the United Kingdom now. Half a million people have been killed there, and more than 10 times that number have been displaced from their homes.

So, that is actually the root. The United Kingdom and all civilised countries, including the United States and others, are giving billions of pounds of aid to underdeveloped countries, but the money is not going towards those people who have suffered in these wars. Don't forget, if it were not for Afghanistan, Russia could still be a super power in this world. At that time, they were Mujahideen, then they became Taliban. Now, we can see that this is another offshoot—Boko Haram, and the others, different names that actually the world is afraid of: Boko Haram, Al-Shabaab, Taliban and Jihadi movements. They've grown out of that—they're the direct effect of 9/11. We are all facing the trouble here, Deputy Presiding Officer.

Our Government has taken great steps, but I think, when you do the political action, you also definitely need some religious input into it. In this country, David Cameron and his team are trying their best to protect the people of this country. There are more than 2.5 million Muslims in the United Kingdom, and we don't have any statistics of how many people have a close relationship with the people who have suffered there.

The people with extreme views— When something happens and a family member is killed, whether legally or illegally, or wrongly or rightly, the person's family, the society and the people of that country feel bitter about it. For that level of resentment, actually, the measure is different. Some people feel very bitter; some are very, very low. That is the ability of somebody's knowledge and understanding. So, that statistic is not in this country at all, where these people come from, how they are actually— who is more upset and who is not very upset.

Gallai fod wedi bod y gyflafan waethaf yn hanes India, ond fe'i goroeswyd gan y gorsaf-feistr hwn. Felly, aeth at y bobl y tu mewn a dywedodd, 'A ydych chi'n gwybod mai rhai nad ydynt yn Fwslimiaid yn unig sydd i ddefnyddio'r cerbyd hwn? Pam rydych chi'n eistedd yma?' Felly, poerodd yr arweinydd a'i holl ddilynwyr yn yr adran a cherdded i fwrdd yn dawel. Roeddent wedi cael eu rhoi yn eu lle. Dyna'r gallu i ddeall pobl.

Maent ond yn dilyn eu rheolau eu hunain. Nid yw Affganistan yn wlad; grŵp o lwythau ydyw. Rydym yn wynebu senario drist iawn. Mae'r bobl yno— Ers 9/11, mae 0.5 miliwn o bobl wedi cael eu lladd yn y dwyrain canol, Affganistan, Pacistan, Libya, Syria ac Irac—0.5 miliwn. Diwylliant y gwledydd hynny yw, os oes un person yn cael ei ladd yn y teulu, bydd y teulu cyfan, yn genedlaethol, yn tristáu. Fel yr hyn a ddigwyddodd yn Nhiwnisia: mae'r wlad gyfan yn drist yn y Deyrnas Unedig yn awr. Mae hanner miliwn o bobl wedi eu lladd yno, a mwy na 10 gwaith y nifer hwnnw wedi gorfod symud o'u cartrefi.

Felly, dyna yw'r gwraidd. Mae'r Deyrnas Unedig a'r holl wledydd gwaraidd, gan gynnwys yr Unol Daleithiau ac eraill, yn rhoi biliynau o bunnoedd o gymorth i wledydd isddatblygedig, ond nid yw'r arian yn mynd i'r bobl sydd wedi dioddef yn y rhyfeloedd hyn. Peidiwch ag anghofio, oni bai am Affganistan, mae'n bosibl y byddai Rwsia yn dal i fod yn archbwŵer yn y byd. Ar y pryd, y Mujahideen oeddent, yna daethant yn Taliban. Nawr, gallwn weld mai cangen arall ydyw—Boko Haram, a'r lleill, enwau gwahanol y mae'r byd yn eu hofni: Boko Haram, Al-Shabaab, Taliban a mudiadau Jihadi. Maent wedi tyfu allan o hynny—effaith uniongyrchol 9/11 ydynt. Rydym i gyd yn wynebu'r trwl yma, Ddirprwy Lywydd.

Mae ein Llywodraeth wedi rhoi camau mawr ar waith, ond rwy'n meddwl, pan fyddwch yn gweithredu'n wleidyddol, bydd yn rhaid i chi gynnwys rhywfaint o fewnbwn crefyddol, yn bendant. Yn y wlad hon, mae David Cameron a'i dîm yn gwneud eu gorau i ddiogelu pobl y wlad. Mae mwy na 2.5 miliwn o Fwslimiaid yn y Deyrnas Unedig, ac nid oes gennym unrhyw ystadegau ynglŷn â faint o bobl sydd â pherthynas agos â'r bobl sydd wedi dioddef yno.

Y bobl sydd â barn eithafol— Pan fydd rhywbeth yn digwydd ac aelod o'r teulu yn cael ei ladd, boed yn gyfreithlon neu'n anghyfreithlon, yn anghyfiawn neu'n gyfiawn, mae teulu'r person, y gymdeithas a phobl y wlad yn teimlo'n chwerw am y peth. Ar gyfer y lefel honno o ddrwgdeimlad, mewn gwirionedd, mae'r mesur yn wahanol. Mae rhai pobl yn teimlo'n chwerw iawn; mae rhai yn isel iawn, iawn. Dyna allu gwybodaeth a dealltwriaeth rhywun. Nid oes gan y wlad hon yr ystadegau hynny o gwbl, o ble y daw'r bobl hyn, sut y maent mewn gwirionedd—pwy sy'n drist iawn a phwy nad yw'n drist iawn.

Now, in the Queen's Speech, quite a lot has been done, but there's still quite a lot that needs to be done, Deputy Presiding Officer. I would say that, so far, this Government is only cancelling the passports and deporting the people, but they haven't come to the root cause of the problem. The Queen's Speech committed to the United Kingdom introducing an anti-extremism Bill. At the heart of their approach lies an uncompromising defence of British values. The core message will be: in Britain you have the freedom to live your life how you choose, but with the right comes responsibilities. If you enjoy the right to live your life as you see fit, then you must allow your fellow citizens to do so as well. It is ironic that, at a time when many thousands of people wish to come to live here in the United Kingdom precisely because of values we treasure, a small proportion, most of whom are British citizens, reject these values.

The anti-extremism strategy will act in four ways. First, it will develop a better understanding of the threat we face from extremism; it will promote our values and the rights and responsibility of our citizens, taking into account our multiracial and multicultural society; it will ensure that the response to tackle extremism is as effective as possible; and, finally, it will work in partnership with our communities and organisations to identify, challenge and defeat extremism.

Under the measures proposed, groups that foment hate will be outlawed, with the introduction of new banning orders for extremist groups. These could be applied to dangerous organisations that fall short of the existing threshold for prescription under terrorism legislation. To restrict the harmful activities of extremists and individuals, a new extremism disruption order will be created. These new powers might, for example, prevent those who are seeking to radicalise young British people online from using the internet or communicating by social media. A strategy will develop to tackle the infiltration of extremists into our schools, public places and public services. A new anti-terrorism strategy will be developed to ensure that our Government, the public sector, and civil society as a whole, are more aware of and resilient against this danger. And Ofcom rules will be strengthened so that tough measures can be taken against channels that broadcast extremist content. Ofcom remits will be reviewed to make sure it has the right responsibilities and the right power to take action against extremist broadcasts.

Deputy Presiding Officer, radicalisation starts with the individual, and we must try to stop this at source. We have to stop the slide towards violent extremism faced by too many young Muslims in Britain. I believe the measures outlined above, considered with our values as a country, will do just that.

Nawr, yn Araith y Frenhines, mae cryn dipyn wedi'i wneud, ond mae'n dal i fod cryn dipyn sydd angen ei wneud, Ddirprwy Lywydd. Byddwn yn dweud, hyd yn hyn, nad yw'r Llywodraeth hon ond yn canslo pasbortau ac yn alltudio pobl, ac nid ydynt wedi cyrraedd gwraidd yr hyn sy'n achosi'r broblem. Fe ymrwymodd Araith y Frenhines y Deyrnas Unedig i gyflwyno Bil gwrth-eithafiaeth. Wrth wraidd eu dull o weithredu, mae amddiffyniad digyfaddawd o werthoedd Prydain. Y neges graidd fydd: ym Mhrydain, mae gennych ryddid i fyw eich bywyd yn y ffordd rydych yn dewis ei fyw, ond gyda'r hawl daw cyfrifoldebau. Os ydych yn mwynhau'r hawl i fyw eich bywyd fel y gwelwch orau, yna rhaid i chi ganiatáu i'ch cyd-ddinasyddion wneud hynny hefyd. Mae'n eironig, ar adeg pan fo miloedd o bobl yn dymuno dod i fyw yma yn y Deyrnas Unedig, oherwydd y gwerthoedd rydym yn eu trysori, fod cyfran fach, y mwyafrif ohonynt yn ddinasyddion Prydeinig, yn gwrthod y gwerthoedd hyn.

Bydd y strategaeth wrth-eithafiaeth yn gweithredu mewn pedair ffordd. Yn gyntaf, bydd yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r bygythiad a wynebwn o ganlyniad i eithafiaeth; bydd yn hybu ein gwerthoedd a hawliau a chyfrifoldeb ein dinasyddion, gan ystyried ein cymdeithas amlhiliol ac amlddiwylliannol; bydd yn sicrhau bod yr ymateb i fynd i'r afael ag eithafiaeth mor effeithiol ag y bo modd; ac, yn olaf, bydd yn gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau a'n sefydliadau i ganfod, herio a threchu eithafiaeth.

O dan y mesurau a gynigir, bydd grwpiau sy'n creu casineb yn cael eu gwahardd, drwy gyflwyno gorchymnion gwahardd newydd ar gyfer grwpiau eithafol. Gellid defnyddio'r rhain ar gyfer sefydliadau peryglus nad ydynt yn cyrraedd y trothwy presennol ar gyfer eu cynnwys o dan ddeddfwriaeth terfysgaeth. Er mwyn cyfyngu ar weithgareddau niweidiol eithafwyr ac unigolion, bydd gorchymyn tarfu ar eithafiaeth newydd yn cael ei greu. Gallai'r pwerau newydd atal y rhai sy'n ceisio radicaleiddio pobl ifanc Prydain ar-lein, er enghraifft, rhag defnyddio'r rhyngwrwyd neu rhag cyfathrebu drwy gyfryngau cymdeithasol. Bydd strategaeth yn datblygu i fynd i'r afael ag ymdreiddiad eithafwyr i'n hysgolion, ein manau cyhoeddus a'n gwasanaethau cyhoeddus. Bydd strategaeth wrthderfysgaeth newydd yn cael ei datblygu i sicrhau bod ein Llywodraeth, y sector cyhoeddus, a chymdeithas sifil yn gyffredinol yn fwy ymwybodol o'r perygl hwn ac yn gallu ei wrthsefyll. A bydd rheolau Ofcom yn cael eu cryfhau, fel bod modd gweithredu mesurau llym yn erbyn sianeli sy'n darlledu cynnwys eithafol. Bydd cylchoedd gwaith Ofcom yn cael eu hadolygu i sicrhau bod ganddo'r cyfrifoldebau cywir a'r pŵer cywir i roi camau ar waith yn erbyn darllediadau eithafol.

Ddirprwy Lywydd, mae radicaleiddio yn dechrau gyda'r unigolyn, a rhaid i ni geisio atal hyn yn y gwraidd. Mae'n rhaid i ni atal y llithriad tuag at eithafiaeth dreisgar sy'n wynebu gormod o Fwslimiaid ifanc ym Mhrydain. Rwy'n credu y bydd y mesurau a amlinellir uchod, o'u hystyried gyda'n gwerthoedd fel gwlad, yn gwneud hynny.

Finally, it can only be done with the religious leadership—Muslims, Jews and Christians—getting together in this country, with the political will behind them. Then the problem can be solved. Otherwise, this will not be solved in this generation, and there will definitely be another 20 to 30 years when, unnecessarily, many lives are going to be wasted in this country. So, I urge our Government here to take the right steps and bring the people in under the auspices of the royal family—not the political leadership—to do the thing with the chief Rabbi of Israel, the Muslim leadership, even the Pope and people of that calibre, to solve the problem. Otherwise, it will spiral out of control. Thank you very much indeed.

Yn olaf, ni ellir ond ei wneud drwy ddod â'r arweinyddiaeth grefyddol—Mwslimiaid, Iddewon a Christnogion—at ei gilydd yn y wlad hon, gyda'r ewyllys wleidyddol y tu ôl iddynt. Yna gellir datrys y broblem. Fel arall, ni fydd yn cael ei datrys yn y genhedlaeth hon, a byddwn yn gweld bywydau'n cael eu gwastraffu'n ddiangen yn y wlad hon am 20 i 30 mlynedd arall, yn bendant. Felly, rwy'n annog ein Llywodraeth yma i roi'r camau cywir ar waith a dod â'r bobl i mewn o dan nawdd y teulu brenhinol—nid yr arweinwyr gwleidyddol—i fynd ati gyda phrif Rabbi Israel, yr arweinyddiaeth Fwslimaidd, hyd yn oed y Pab a phobl o galibr o'r fath, i ddatrys y broblem. Fel arall, bydd yn mynd y tu hwnt i reolaeth. Diolch yn fawr iawn yn wir.

17:30

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Given the sensitivity and importance of this subject, I will call the three Members you've indicated, but please be focused and stick to one minute, if at all possible. Altaf Hussain.

O ystyried sensitifrwydd a phwysigrwydd y pwnc, byddaf yn galw ar y tri Aelod rydych wedi'u nodi, ond gofynnaf i chi gadw ffocws a chadw at funud, os yn bosibl. Altaf Hussain.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:30

Altaf Hussain [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, and I thank my colleague, Mohammad Asghar, for bringing forward this important debate, as well as allowing me to participate. The tragic events of last Friday and the loss of so many British lives have once more drawn into sharp contrast the threat we face from those opposed to our way of life and peace. One of the victims of these despicable acts of terror is Islam. The Koran teaches peace, above all, and calls upon all people to come together and unite on what is common to us all. Unfortunately, there are those who have corrupted the teaching of the Koran for their own political ends. IS and al-Qaeda justify their despicable acts based on a perversion of Islam, and every attack damages Islam. There are those who equate such evil philosophies with ordinary Muslims, and we see an increase in Islamophobia in the aftermath of such atrocities. The deaths in Tunisia, France and Kuwait are keenly felt by those in the Muslim community, and there is a fear that they will be exploited by the far right in justifying attacks on ordinary Muslims. The Prime Minister is right: the Muslim community must speak out against such attacks to show we do not condone, in any way, the wild, twisted ideology that allows the killing of human beings. The Muslim community must speak out against the twisted teachings that are corrupting young people, encouraging them to leave home to fight in Syria and Iraq, and carry out atrocities on home soil. But, above all, the Muslim community must speak out to show that our religion is a religion of brotherhood, a religion of tolerance, a religion of peace. God is one. So is the human race. We want integration, not segregation. Thank you, Deputy Presiding Officer.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, a diolch i fy nghyd-Aelod, Mohammad Asghar, am gyflwyno'r ddatl bwysig hon, yn ogystal â chaniatáu i mi gymryd rhan. Mae digwyddiadau trasig dydd Gwener diwethaf a cholli cynifer o fywydau Prydeinig wedi rhoi sylw eglur, unwaith eto, i'r bygythiad a wynebwn oddi wrth y rhai sy'n gwrthwynebu ein ffordd o fyw a heddwch. Un o ddiodeffwyr y gweithredoedd ffiائد hyn o derfysgaeth yw Islam. Mae'r Koran yn dysgu am heddwch, yn anad dim, ac yn galw ar yr holl bobl i ddod at ei gilydd ac uno yn yr hyn sy'n gyffredin i ni gyd. Yn anffodus, mae rhai wedi llygru dysgeidiaeth y Koran i'w dibenion gwleidyddol eu hunain. Mae IS ac al-Qaeda yn cyfiawnhau eu gweithredoedd ffiائد yn seiliedig ar ffurf wyrdröedig o Islam, ac mae pob ymosodiad yn niweidiol i Islam. Ceir rhai sy'n ystyried athroniaethau aflan o'r fath yn gyfystyr â Mwslimiaid cyffredin, ac rydym yn gweld cynnydd mewn Islamoffobia yn dilyn erchyllterau o'r fath. Mae'r gymuned Fwslimaidd yn teimlo i'r byw ynglŷn â'r marwolaethau yn Nhiwnisia, Ffrainc a Kuwait, ac mae ofn y caiff digwyddiadau o'r fath eu hecsbloetio gan y dde eithafol i gyfiawnhau ymosodiadau ar Fwslemaid cyffredin. Mae'r Prif Weinidog yn iawn: mae'n rhaid i'r gymuned Fwslimaidd siarad yn erbyn ymosodiadau o'r fath i ddangos nad ydym yn cefnogi, mewn unrhyw ffordd, yr ideoleg wyllt, wyrdröedig sy'n caniatáu lladd bodau dynol. Mae'n rhaid i'r gymuned Fwslimaidd siarad yn erbyn y ddisgeidiaeth wyrdröedig sy'n llygru pobl ifanc, gan eu hannog i adael cartref i fynd i ymladd yn Syria ac Irac, a chyflawni erchyllterau ar dir eu cartref. Ond, yn anad dim, rhaid i'r gymuned Fwslimaidd godi ei llais i ddangos bod ein crefydd yn grefydd o frawdoliaeth, crefydd o oddefgarwch, a chrefydd o heddwch. Un yw Duw. Felly hefyd yr hil ddynol. Rydym eisiau integreiddio, nid gwahanu. Diolch, Ddirprwy Lywydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:32

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It was poignant to note how local people in Tunisia—and, of course, most of them were Muslim—made it clear that this outrage was not in their name. The demonstrations of practical help, given bravely and selflessly to the injured by those same local people showed that terrorism is not part of Islam. Indeed, on 8 June, I was greatly honoured to address the Muslim Council of Wales event to mark the start of the holy month of Ramadan at the Pierhead building. The holy month is still under way, so this outrage is a deep offence to genuine Muslims. Ramadan focuses on fasting in order to remind us of the plight of those who are far worse off than us. Good community cohesion is essential in today's Wales. The faith forum that I used to be deputy chair of is doing good work in terms of supporting the vast majority of Muslim citizens in Wales. By bringing different faiths and communities together, including the Muslim and Jewish communities, we will promote better understanding and help to celebrate diversity, as opposed to division and suspicion.

Roedd yn ingol nodi sut yr aeth y bobl leol yn Nhiwnisia ati —ac wrth gwrs, roedd y mwyafrif ohonynt yn Fwslimaidd—i'w gwneud hi'n glir nad oedd yr ymosodiad hwn yn cael ei wneud yn eu henw hwy. Roedd yr arddangosiadau o gymorth ymarferol a roddwyd yn ddewr ac yn anhunanol i'r rhai a anafwyd gan bobl leol eraill, yn dangos nad yw terfysgaeth yn rhan o Islam. Yn wir, ar 8 Mehefin, cefais yr anrhydedd fawr o annerch digwyddiad Cyngor Mwslimaidd Cymru i nodi cychwyn mis sanctaidd y Ramadan yn adeilad y Pierhead. Mae'r mis sanctaidd yn dal i fynd rhagddo, felly mae'r ymosodiad hwn yn drosedd ddofn i Fwslimiaid go iawn. Mae Ramadan yn canolbwyntio ar ymprydio er mwyn ein hatgoffa am sefyllfa rhai sy'n llawer gwaeth eu byd na ni. Mae cydlyniant cymunedol da yn hanfodol yng Nghymru heddiw. Mae'r fforwm ffydd, yr arferwn fod yn ddirprwy gadeirydd arno, yn gwneud gwaith da yn cefnogi'r mwyafrif helaeth o ddinasyddion Mwslimaidd yng Nghymru. Drwy ddod â rhai o wahanol ffydd a chymunedau at ei gilydd, gan gynnwys cymunedau Mwslimaidd ac Iddewig, byddwn yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth ac yn helpu i ddathlu amrywiaeth, yn hytrach nag ymranïad ac amheuaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:34

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank Mohammad Asghar for bringing this debate this week. More than any other, I think, it feels appropriate to reflect on the dangers of extremism. War and conflicts in the middle east can seem like they are very distant to us, but I think the events of this week have shown us that this affects all of us. Whatever its root, extremism is the twisting of a philosophy or a faith to justify intolerance and excuse the inexcusable. These radicalised groups seek to create fear, to curb our freedoms and denude us of our basic humanity. There is not a faith that suggests that we should do that. But, in our response to the threat that extremism presents, we must ensure that we do not allow the state to do exactly these things. We will beat extremism by showing that our belief in freedom is stronger than their intolerance, and we'll do that together by empowering communities, not by making our communities feel like strangers in their own home. Oscar has highlighted to us how the personal can lead to the political, how those who feel alienated and abused can be vulnerable to radicalisation, how they are preyed upon. We won't protect young Muslims here in Wales, I don't think, from radicalisation by ratcheting up that climate of fear any more; we will protect them more by ending it.

Hoffwn ddiolch i Mohammad Asghar am gyflwyno'r ddadl yr wythnos hon. Yn fwy nag unrhyw beth arall, rwy'n meddwl, mae'n teimlo'n briodol ein bod yn myfyrio ar beryglon eithafiaeth. Gall rhyfel a gwrthdaro yn y dwyrain canol ymddangos yn bell iawn oddi wrthym, ond rwy'n meddwl bod digwyddiadau'r wythnos hon wedi dangos i ni fod hyn yn effeithio ar bawb ohonom. Beth bynnag yw ei wraidd, mae eithafiaeth yn gwyrdroi athroniaeth neu ffydd i gyfiawnhau anoddefgarwch ac i esgusodi'r hyn na ellir ei esgusodi. Mae'r grwpiau radical hyn yn ceisio creu ofn, i atal ein rhyddid a'n hamddifadu o'n dynoliaeth sylfaenol. Nid oes yr un ffydd sy'n awgrymu y dylem wneud hynny. Ond yn ein hymateb i'r bygythiad y mae eithafiaeth yn ei gyflwyno, mae'n rhaid i ni sicrhau nad ydym yn caniatáu i'r wladwriaeth wneud yn union hynny. Byddwn yn curo eithafiaeth drwy ddangos bod ein cred mewn rhyddid yn gryfach na'u hanoddefgarwch, a gwnawn hynny gyda'n gilydd, drwy rymuso cymunedau, nid drwy wneud i'n cymunedau deimlo fel dieithriaid yn eu cartrefi eu hunain. Mae Oscar wedi amlygu i ni sut y gall y personol arwain at y gwleidyddol, sut y gall rhai sy'n teimlo wedi'u dieithrio ac wedi'u cam-drin fod yn agored i gael eu radcaleiddio, sut y rhoddir pwysau arnynt. Nid wyf yn credu y byddwn yn diogelu Mwslimiaid ifainc yma yng Nghymru rhag radcaleiddio drwy waethygu'r hinsawdd hwnnw o ofn; byddwn yn eu hamddiffyn yn well drwy roi terfyn arno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:35

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Public Services to reply to the debate —Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ymateb i'r dadl—Leighton Andrews.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:35

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

Deputy Presiding Officer, thank you. Can I start by thanking Mohammad Asghar for bringing this debate forward and for the way in which he's raised these issues? Can I also thank other Members for their contributions?

Ddirprwy Lywydd, diolch. A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i Mohammad Asghar am gyflwyno'r ddadl ac am y modd y mae wedi darlunio'r materion hyn? A gaf fi ddiolch hefyd i'r Aelodau eraill am eu cyfraniadau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The appalling atrocities committed on Friday in Tunisia, Kuwait and France act as powerful reminders of the threat that Islamist terrorism now poses throughout the world. The First Minister has already led tributes to Trudy Jones, the mother of four from Gwent who was murdered in the terrorist attack in Tunisia. I, and everyone in this Chamber, echo the First Minister's words, and our thoughts and sincere condolences are with the families and friends of all the victims of these horrific attacks.

The cowardice of the gunman who fired upon defenceless holidaymakers is contrasted with the bravery shown by tourists and local Tunisians alike: Mathew James from Trehafod, who heroically protected his partner from a hail of bullets; the Tunisian hotel staff who formed a human shield to protect foreign tourists; and the Tunisian man who threw tiles from the roof of his building in a valiant attempt to stop the attacker. The accounts of the survivors are harrowing, but I'm sure further examples of heroism such as these will come to light as the news unfolds.

Through the terrorist atrocity in Tunisia, our communities here in Wales have been touched directly. It serves to remind us that we are not immune from terrorism. It is real and it lives and spreads amongst us. It reaches into our own communities, and we must remain alert to its threat. It grows from radical and extremist ideologies that are implanted in the minds of young people, emboldening them to fight for a cruel and perverse cause, wherever that fight may be.

Over the last few weeks, we have seen incidents from different sides of the extremist spectrum. Firstly, there was the conviction of Syed Choudhury from Cardiff, who pleaded guilty to preparing acts of terrorism and who plotted to go to Syria to fight for ISIS. Then, last week, Zack Davies, a racially motivated, far-right extremist, was found guilty of attempted murder of Dr Sarandev Bhambra in Mold. We also await a new date for the trial of Kristen Brekke, who, along with other co-defendants, is alleged to have assisted Aseel Muthana to travel to Syria to join the ISIS jihadists.

Wales is no different from other areas of the UK, where young people in particular are exposed to extremist views and are therefore increasingly more susceptible to being radicalised. Social media and the internet allow twisted ideology to be promulgated as legitimate learning, and this information can be absorbed by young and impressionable minds. None of us can tackle these issues alone, as Mohammad Asghar and others have said. Each of us, in Government, local authorities, the police and other agencies, all have our parts to play. We all have an obligation to respond to the forces that encourage and breed all forms of extremism, whether that is the far right and their racist ideology, or the dangerous narrative of ISIS and similar groups.

Mae'r erchyllterau ofnadwy a gyflawnwyd ddydd Gwener yn Nhiwnisia, Kuwait a Ffrainc yn ein hatgoffa'n bwerus ynglŷn â bygythiad terfysgaeth Islamaidd ledled y byd yn awr. Mae'r Prif Weinidog eisoes wedi arwain teyrngedau i Trudy Jones, y fam i bedwar o Went a lofruddiwyd yn yr ymosodiad terfysgol yn Nhiwnisia. Rwyf i, a phawb yn y Siambr, yn adleisio geiriau'r Prif Weinidog, ac mae ein meddyliau a'n cydymdeimlad dwysaf gyda theuluoedd a chyfeillion holl ddiodefwr yr ymosodiadau erchyll hyn.

Mae llwfrdra'r saethwr a daniodd ar ymwelwyr diamddiffyn yn cyferbynnu â'r dewrder a ddangoswyd gan dwristiaid a Thiwnisiaid lleol fel ei gilydd: Mathew James o Drehafoed, a ddiogelodd ei bartner yn arwrol rhag cawod o fwledi; staff y gwesty Tiwnisiaidd a ffurfiodd darian ddynol i ddiogelu twristiaid tramor; a'r dyn Tiwnisiaidd a daflodd deils oddi ar do ei adeilad mewn ymgais ddewr i atal yr ymosodwr. Mae hanesion y goroeswyr yn dorcalonnu, ond rwy'n siŵr y bydd enghreifftiau pellach o weithredoedd arwrol fel y rhain yn dod i'r amlwg wrth i'r newyddion ddatblygu.

Drwy'r erchylltra terfysgol yn Nhiwnisia, mae ein cymunedau yma yng Nghymru wedi cael eu cyffwrdd yn uniongyrchol. Mae'n ein hatgoffa nad ydym yn ddiogel rhag terfysgaeth. Mae'n real ac mae'n fyw ac yn lledaenu yn ein plith. Mae'n cyrraedd ein cymunedau, ac mae'n rhaid i ni aros yn effro i'w fygythiad. Mae'n tyfu o ideolegau radical ac eithafol sydd wedi eu mewnbllannu ym meddyliau pobl ifanc, gan eu hannog i ymladd dros achos creulon a gwrthnysig, lle bynnag y bo'r frwydr honno.

Dros yr ychydig wythnosau diwethaf, rydym wedi gweld achosion o wahanol ochrau i'r sbectrum eithafol. Yn gyntaf, collfarnwyd Syed Choudhury o Gaerdydd, a blediodd yn euog i baratoi gweithredoedd terfysgol ac a gynllwyniodd i fynd i Syria i ymladd dros ISIS. Yna, yr wythnos diwethaf, cafwyd Zack Davies, eithafwr asgell dde gyda chymhelliaid hiliol, yn euog o geisio llofruddio Dr Sarandev Bhambra yn yr Wyddgrug. Rydym hefyd yn disgwyl am ddyddiad newydd ar gyfer achos Kristen Brekke, yr honnir ei fod, gyda chyd-ddiffynyddion eraill, wedi cynorthwyo Aseel Muthana i deithio i Syria i ymuno â jihadwyr ISIS.

Nid yw Cymru yn wahanol i ardaloedd eraill yn y DU, lle y mae pobl ifanc, yn enwedig, yn agored i safbwyntiau eithafol ac felly'n gynyddol agored i gael eu radicleiddio. Mae cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwryd yn caniatáu i ideolegau gwyrddroedig gael eu lledaenu fel addysg gyfiawn, a gall meddyliau ifanc, hawdd gwneud argraff arnynt, amsugno'r wybodaeth hon. Ni all yr un ohonom fynd i'r afael â'r materion hyn ar ein pennau ein hunain, fel y dywedodd Mohammad Asghar ac eraill. Mae gan bob un ohonom, yn y Llywodraeth, awdurdodau lleol, yr heddlu ac asiantaethau eraill, ein rhan i'w chwarae. Mae gennym i gyd ddyletswydd i ymateb i'r grymoedd sy'n annog ac yn meithrin pob math o eithafiaeth, boed hynny'n eithafiaeth asgell dde eithafol a'u hideoleg hiliol, neu naratif peryglus ISIS a grwpiau tebyg.

Although counter-terrorism and foreign policy concerns are non-devolved, and therefore a matter for the UK Government, both the First Minister and I see the prevention of violent extremism as vitally important, and we are committed to working closely with partners to protect all citizens from this real and continuing threat. We are also supporting legislation being introduced by the UK Government through the Counter-Terrorism and Security Act 2015, and we will be fully engaged in the work required to develop the extremism Bill to ensure it fits with the different devolved landscape that exists here in Wales.

We are alert to the risk that extremism poses in Wales. The Cabinet receives regular reports from the Wales extremism and counter-terrorism unit on the current threat. This is a threat that cuts across the public sector. Through the CONTEST board Wales, we maintain an overview of the work to tackle the threat and the impact of violent extremism in Wales, and, with key public sector partners, we ensure we have a co-ordinated, multi-agency strategy to combat extremism. There is also, as others have said, a role for communities to play in combating extremism. They need to work with the police and other agencies to ensure that potential cases of radicalisation are identified and reported, so they can work with the people concerned through the channel process to prevent them from slipping further and further into extremism. Credible religious authorities are best placed to build theological resilience to the distorted interpretations of religious texts promoted by extremists, and the Welsh Government is actively supporting the efforts of Muslim communities in Wales to challenge extremist messages.

The fight against extremism is one of the key challenges of our time, and the issues are shared across the world. But we must also keep a sense of perspective, and realise that very small numbers of people are generating huge media publicity. We believe that, by working together, we can establish a united front against all forms of extremism and protect our diverse and vibrant communities from harm. We must give thanks that Wales is a safe country to live in, and our combined efforts will continue to keep it so, but the message of today's debate, I think, is that Wales is united in combating extremism.

Er nad yw gwrthderfysgaeth a materion polisi tramor wedi'u datganoli, ac felly'n fater ar gyfer Llywodraeth y DU, mae'r Prif Weinidog a minnau yn gweld pa mor hollbwysig yw atal eithafiaeth dreisgar, ac rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda phartneriaid i amddiffyn pob dinesydd rhag y bygythiad gwirioneddol a pharhaus hwn. Rydym hefyd yn cefnogi deddfwriaeth sy'n cael ei chyflwyno gan Lywodraeth y DU drwy Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, a byddwn yn chwarae rhan lawn yn y gwaith sydd ei angen i ddatblygu'r Bil eithafiaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r dirwedd ddatganoledig wahanol sy'n bodoli yma yng Nghymru.

Rydym yn effro i risg eithafiaeth yng Nghymru. Mae'r Cabinet yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan uned eithafiaeth a gwrthderfysgaeth Cymru ar y bygythiad ar hyn o bryd. Mae'n fygythiad sy'n torri ar draws y sector cyhoeddus. Drwy fwrdd CONTEST Cymru, rydym yn cadw golwg gyffredinol ar y gwaith i fynd i'r afael â'r bygythiad ac effaith eithafiaeth dreisgar yng Nghymru, a gyda phartneriaid allweddol yn y sector cyhoeddus, rydym yn sicrhau bod gennym strategaeth amlasiantaethol gydgyssylltiedig i fynd i'r afael ag eithafiaeth. Fel y mae eraill wedi'i ddweud, mae yna hefyd ran i gymunedau ei chwarae wrth fynd i'r afael ag eithafiaeth. Mae angen iddynt weithio gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill i sicrhau bod achosion posibl o radicaiddio yn cael eu canfod a'u hadrodd, fel y gallant weithio gyda'r bobl dan sylw drwy'r broses Sianel i'w hatal rhag llithro ymhellach ac ymhellach i mewn i eithafiaeth. Awdurdodau crefyddol credadwy sydd yn y sefyllfa orau i adeiladu cadernid diwinyddol i wrthsefyll dehongliadau gwyrdröedig o destunau crefyddol a hyrwyddir gan eithafwyr, ac mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i gefnogi ymdrechion cymunedau Mwslimaidd yng Nghymru i herio negeseuon eithafol.

Y frwydr yn erbyn eithafiaeth yw un o heriau allweddol ein hoes, a rhennir y problemau hyn ledled y byd. Ond rhaid i ni gadw ymdeimlad o bersbectif hefyd, a sylweddoli bod niferoedd bach iawn o bobl yn cynhyrchu cyhoeddusrwydd enfawr yn y cyfryngau. Drwy weithio gyda'n gilydd, credwn y gallwn sefydlu wyneb unedig yn erbyn pob math o eithafiaeth a gwarchod ein cymunedau amrywiol a bywiog rhag niwed. Rhaid i ni ddiolch fod Cymru yn wlad ddiogel i fyw ynnddi, a bydd ein hymdrechion cyfun yn parhau i'w chadw felly, ond rwy'n credu mai neges y ddadl heddiw yw bod Cymru yn unedig yn y frwydr yn erbyn eithafiaeth.

17:41

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much. That concludes today's proceedings.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:41.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch yn fawr iawn. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

The meeting ended at 17:41.